

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

05/02/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd](#)
[Questions to the Minister for Natural Resources and Food](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio](#)
[Questions to the Minister for Housing and Regeneration](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)
[Questions to the Counsel General](#)

[Cwestiwn Brys: Cyflogau a Phensiynau Uwch Swyddogion Cynghorau](#)
[Urgent Question: Senior Council Officer Salaries and Pensions](#)

[Cynnig i Atal Rheol Sefydlog 12.20\(i\) a Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn Caniatáu i NNDM5427 gael ei Ystyried](#)
[Motion to Suspend Standing Order 12.20\(i\) and Standing Order 11.16 to Allow NNDM5427 to be Considered](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag Ysmygu mewn Cerbydau Preifat sy'n Cludo Person neu Bersonau o dan 18 Oed](#)
[Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to Smoking in Private Vehicles Carrying a Person or Persons under the Age of 18](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru](#)
[The Petitions Committee's Report on Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cysylltedd Cymru Wledig](#)
[Welsh Conservatives Debate: Connectivity in Rural Wales](#)

[Dadl Plaid Cymru: Adnoddau Naturiol Cymru](#)
[Plaid Cymru Debate: Wales's Natural Resources](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Pobl Hŷn, Twyll a Throseddau ar Garreg y Drws](#)
[Short Debate: Older People, Scams and Doorstep Crime](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Questions to the Minister for Natural Resources and Food

Cyllido Gwaith Atgyweirio

Funding Emergency Repairs

13:30 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ceisiadau a gafwyd gan awdurdodau lleol i gyllido gwaith atgyweirio brys ar amddiffynfeydd arfordirol? OAQ(4)0116(NRF)

1. Will the Minister provide the latest information on the requests received from local authorities to fund emergency repairs to coastal defences? OAQ(4)0116(NRF)

13:30

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Local authorities and Natural Resources Wales are working hard to carry out emergency repairs to damaged coastal defences. Officials have been in close contact with affected authorities to obtain initial reports of damage to coastal defence infrastructure and other coastal assets and associated costs.

Mae awdurdodau lleol a Chyllid Naturiol Cymru yn gweithio'n galed i wneud gwaith atgyweirio brys i amddiffynfeydd arfordirol a ddifrodwyd. Mae swyddogion wedi bod mewn cyswllt agos ag awdurdodau yr effeithiwyd arnynt i gael adroddiadau cychwynnol o ddifrod i seilwaith amddiffyn yr arfordir ac asedau arfordirol eraill a chostau cysylltiedig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb. Mae eich datganiad ysgrifenedig ar 21 Ionawr yn nodi bod tua £2 filiwn yn cael ei glustnodi ar gyfer gwaith brys. Rwy'n cydnabod hefyd fod tua £9 miliwn yn cael ei wario ar waith sydd wedi cael ei gynllunio. Fodd bynnag, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, erbyn hyn, yn amcangyfrif bod angen gwerth tua £5 miliwn o waith brys. A oes gennych chi y cyllid ychwanegol wrth gefn, neu a fydd rhai canlyniadau i'r gwaith sydd eisoes wedi ei gynllunio ar gyfer yr amddiffynfeydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod?

Thank you for that response. Your written statement on 21 January states that some £2 million has been allocated for urgent work. I acknowledge that some £9 million is to be spent on planned works. However, Conwy County Borough Council now estimates that some £5 million-worth of urgent work needs to be undertaken. Do you have the additional funding in reserve or will there be some impact on the work that has already been planned for the flood defences over the next year?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am certainly aware of the estimates that Conwy council has made for damage to its coastal defences and other assets over the past two months. I am meeting representatives of Conwy council tomorrow to discuss some of these matters that are specific to that particular authority. However, we are seeking to make harder assessments of what some of these costs are. Some of these costs do relate to damage to actual coastal defences, but other costs relate to other costs that have been caused by the storms, to other assets that are not in themselves coastal defences. Therefore, there are a number of different issues there that we are trying to understand, and when we are in a position to understand that more fully, I will report the situation fully to Members.

Rwyf yn sicr yn ymwybodol o'r amcangyfrifon a wnaed gan gyngor Conwy am ddifrod i'w amddiffynfeydd arfordirol ac asedau eraill yn ystod y ddau fis diwethaf. Byddaf yn cwrrd â chynrychiolwyr cyngor Conwy yfory i drafod rhai o'r materion hyn sy'n benodol i'r awdurdod hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn ceisio gwneud asesiadau mwy llym o beth yw rhai o'r costau hyn. Mae rhai o'r costau hyn yn ymwneud â difrod i amddiffynfeydd arfordirol gwirioneddol, ond mae costau eraill yn ymwneud â chostau eraill sydd wedi cael eu hachosi gan y stormydd, i asedau eraill nad ydynt yn amddiffynfeydd arfordirol ynddynt eu hunain. Felly, mae nifer o faterion gwahanol rydym yn ceisio eu deall, a phan fyddwn mewn sefyllfa i ddeall hynny'n well, byddaf yn cyflwyno adroddiad llawn ar y sefyllfa i'r Aelodau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:32

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I appreciate the work that has been undertaken in the review of recent storms and floods, and the funds that you have made available. Specifically in Llanelli, Burry Port and Cefn Sidan have been badly affected. Mark James, the chief executive of Carmarthenshire County Council, has taken advice, and has said that nature will repair itself. [Interruption.] However, having been myself to Burry Port, and the old Pembrey harbour, where gaps have been left in sand dune defences, it is hard to see how this will happen. Sand dune cliffs have also formed in Cefn Sidan, with warning signs set up. During phase 2 of your broader review, will you be considering places such as Burry Port and Cefn Sidan, should a mixture of strong winds and high tides return again?

Weinidog, gwerthfawrogaf y gwaith a wnaed yn yr adolygiad o stormydd a llifogydd diweddar, a'r arian yr ydych wedi'i ddarparu. Yn Llanelli yn benodol, effeithiwyd yn wael ar Borth Tywyn a Chefn Sidan. Mae Mark James, prif weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi cael cyngor ar hyn, ac mae wedi dweud y bydd natur yn trwsio ei hun. [Torri ar draws.] Fodd bynnag, ar ôl bod i Borth Tywyn fy hun, a hen harbwr Pen-bre, lle mae bylchau wedi eu gadael mewn amddiffynfeydd twyni tywod, mae'n anodd gweld sut y bydd hyn yn digwydd. Mae clogwyni twyni tywod hefyd wedi ffurfio yng Nghewn Sidan, a chodwyd arwyddion rhybudd. Yn ystod cam 2 eich adolygiad ehangach, a fyddwch yn ystyried llefydd fel Porth Tywyn a Chefn Sidan, os ceir cymysgedd o wyntoedd cryfion a llanw uchel eto?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:33

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We know that strong winds and high tides will return again. One impact of climate change, of course, is that we will see more and more of these impacts and severe weather episodes. As Members are aware, I have already reported that we have commissioned two reports from NRW—one on the immediate damage caused to coastal defences, and the other on longer term issues. The issues that the Member has raised in relation to habitats and to coastal defences will be considered as part of the second part of this review, and, again, I will report these matters fully to Members where appropriate.

Gwyddom y bydd gwyntoedd cryfion a llanw uchel eto. Un o effeithiau newid yn yr hinsawdd, wrth gwrs, yw y byddwn yn gweld mwy a mwy o'r effeithiau hyn a chyfnodau o dywydd garw. Fel y gŵyr Aelodau, rwyf eisoes wedi dweud ein bod wedi comisiynu dau adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru—un ar y difrod uniongyrchol a achoswyd i amddiffynfeydd arfordirol, a'r llall ar faterion tymor hwy. Caiff y materion y mae'r Aelod wedi'u codi mewn perthynas â chynefinoedd ac amddiffynfeydd arfordirol eu hystyried fel rhan o'r ail ran o'r adolygiad hwn, ac, unwaith eto, byddaf yn cyflwyno adroddiad llawn ar y materion hyn i'r Aelodau lle y bo'n briodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, many in this Chamber were surprised to see the statement last week by your Cabinet colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, which made it quite clear that £1.6 million was going to be available from her budget in order to support tidal defence improvements—or coastal defence improvements—in some of those areas in which tourism was important. Of course, in those communities that were listed in the statement—or in the aftermath of the statement—as going to be beneficiaries, Conwy was not one of them, despite the fact that many of the parts of the coast that have been hit have been tourism hotspots in the county. Can you tell us what discussions you had with the Minister, prior to the allocations being made, regarding your priorities for coastal defence, and how they might be supported, rather than undermined, by the Minister for economy?

Weinidog, cafodd llawer yn y Siambr hon eu synnu o weld y datganiad yr wythnos diwethaf gan eich cyd-Aelod yn y Cabinet, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a nododd yn gwbl glir y byddai £1.6 miliwn ar gael o'i chyllideb er mwyn cefnogi gwelliannau i amddiffynnydd llanwol—neu welliannau i amddiffynfeydd arfordirol—yn rhai o'r ardaloedd hynny lle mae twristiaeth yn bwysig. Wrth gwrs, nid oedd Conwy yn un o'r cymunedau hynny a restrwyd yn y datganiad—neu yn dilyn y datganiad—y byddent yn elwa, er gwaethaf y ffaith bod llawer o'r rhannau o'r arfordir sydd wedi cael eu taro yn ardaloedd twristiaeth poblogaidd yn y sir. A allwch ddweud wrthym pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog, cyn i'r dyraniadau gael eu gwneud, ynghylch eich blaenoriaethau ar gyfer amddiffyn yr arfordir, a sut y gallai Gweinidog yr economi eu cefnogi, yn hytrach na'u tansellio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Member needs to understand better that which he is describing before he asks some of these questions. The funds that have been announced by the Minister for Economy, Science and Transport are, as pointed out by colleagues, from a tourism budget to help repair damage to tourism assets that has occurred in the past few months. Clearly, there are ministerial conversations taking place about such things on an ongoing basis. The funds that I have available to me are for coastal defences, so I think the Member has confused two different concepts there, which is something he may wish to reflect upon.

Credaf fod angen i'r Aelod ddeall yr hyn y mae'n ei ddisgrifio yn well cyn iddo ofyn rhai o'r cwestiynau hyn. Daw'r arian a gyhoeddwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, fel y nodwyd gan gyd-Aelodau, o gyllideb twristiaeth sydd ar gael er mwyn helpu i adfer y difrod a wnaed i asedau twristiaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Yn amlwg, mae gweinidogion yn trafod pethau o'r fath drwy'r amser. Mae'r arian sydd ar gael i mi yn arian ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol, felly credaf fod yr Aelod wedi drysu rhwng dau gysyniad gwahanol, sy'n rhywbeth y gallai fod am ei ystyried.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A all y Gweinidog roi sicrwydd i mi y bydd y pwyslais ar warchod yr arfordiroedd yn pwysleisio y gwarchod naturiol yn ogystal â'r syniad o amddiffyn yn erbyn y math yma o stormydd? Mae'n rhaid i ni ddeall bod y stormydd yma yn mynd i fod yn gyson, yn aml ac yn anodd.

Can the Minister give me an assurance that the emphasis on protecting our coastal areas will focus on our natural defences as well as the concept of defence against these kinds of storms? We must understand that these storms are going to be occurrences that are regular, frequent and difficult.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lywydd, nid dyma'r tro cyntaf y mae'r Aelod wedi cynnig 'temptations' er mwyn imi fynd tipyn bach ymhellach efalla nag y dylwn i fynd. Mae'r math o drafodaeth yr ydych chi wedi ei disgrifio a'i harwain ynglŷn â sut rydym yn rheoli'r arfordir yn drafodaeth y mae'n rhaid i ni ei chael. Nid yw'r rhesymol nac yn bosibl i ni adeiladu waliau ar hyd pob un cilomedr o arfordir Cymru, ac wrth i newid hinsawdd gael yr 'impact' mwyaf, mae'n rhaid inni gynnal trafodaeth am sut rydym yn rheoli'r arfordir ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn gobeithio y bydd NRW yn trafod yn ei ail adroddiad i ni.

Bwyd Cymru

Presiding Officer, this is not the first time that the Member has offered me temptations to go further, perhaps, than I should. The kind of discussion that you have described in terms of how we manage the coastline is a discussion that we must have. It is neither reasonable nor possible for us to build walls along every kilometre of the Welsh coastline, but, as climate change has the greatest impact, we must have a discussion about how we will manage the coastline for the future. This is something that I hope NRW will discuss in its second report to us.

Welsh Food

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu bwyd Cymru? OAQ(4)0107(NRF)

2. Will the Minister make a statement on the promotion of Welsh food? OAQ(4)0107(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru? OAQ(4)0102(NRF)

6. Will the Minister provide an update on his plans to promote food and drink from Wales? OAQ(4)0102(NRF)

13:37

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ym mis Rhagfyr, fe wnes i ddatganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad wrth lansio ymgynghoriad ar y cynllun ar gyfer bwydydd a diodydd o Gymru. Bydd y cynllun yn cael ei wireddu mewn partneriaeth gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod ni yn adeiladu diwydiant cynaliadwy a phroffidiol a gyfer y dyfodol.

In December, I issued a written statement to the Assembly as I launched a consultation on the plan for food and drink from Wales. The plan will be delivered in partnership with the industry to ensure that we build a sustainable and profitable industry for the future.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn am yr ateb. Er mwyn gallu hybu a hyrwyddo cynnyrch o Gymru, mae'n rhaid gallu profi i farchnadoedd ein bod ni yn gallu rhoi faint o gynnyrch y mae arny'n nhw ei eisiau yn ogystal â'r math o gynnyrch y mae arny'n nhw eisiau. Pa waith allwch chi ei wneud, ar y cyd â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i sicrhau bod buddsoddi yn digwydd mewn eiddo priodol ar gyfer cynhyrchu bwyd fel bod cwmnïau bach sy'n uchelgeisiol, fel Hooton's yn Ynys Môn er enghraifft, yn gallu cael cymorth i ehangu?

Thank you for that response. In order to promote produce from Wales, we have to prove to the markets that we can provide the amount of produce that they need as well as the type of produce that they need. What work can you do, with the Minister for Economy, Science and Transport, to ensure that there is investment in appropriate premises for food production so that small, ambitious companies, such as Hooton's in Anglesey, can be given support to expand?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dyna'r union fath o gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r RDP presennol. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o broses y 'marketing grants' sydd wedi bod ar gael ers rhai blynnyddoedd nawr ac sydd wedi arwain at fuddsoddiad mewn busnesau cynhyrchu bwyd. Bydd hyn yn rhan o'r RDP nesaf hefyd ac mae'n rhywbeth y mae Gweinidog yr economi a finau yn cydweithio arno i sicrhau bod busnesau yn cael yr union fath o gefnogaeth y mae ei hangen arny'n nhw er mwyn buddsoddi yn eu dyfodol.

That is exactly the kind of support that is available at present through the current RDP. The Member will be aware of the marketing grants process that has been available for some years now and which has led to investment in food production businesses. This will form part of the next RDP and it is something on which the Minister for economy and I are working jointly in order to ensure that businesses have the kind of support that they need so that they can invest in their future.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:38 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In July last year, you announced that a Welsh food and drink trade event would be held in January or February of this year. Will you advise the Assembly when this event is likely to take place and whether any additional funding will be forthcoming this year to support activities to promote Welsh food and drink?
- Ym mis Gorffennaf y llynedd, gwnaethoch gyhoeddi y byddai digwyddiad masnach bwyd a diod o Gymru yn cael ei gynnal ym mis Ionawr neu Chwefror eleni. A wnewch chi roi gwybod i'r Cynulliad pryd mae'n debygol y caiff y digwyddiad hwn ei gynnal ac a fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael eleni i gefnogi gweithgareddau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru?
- 13:39 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am constantly surprised by the Conservative Members who come to this Chamber demanding more money for everything, every time they ask a question. I will say this: I launched a very comprehensive food and drink action plan in December. If the Member takes time to read that action plan, he will see that there are a number of different activities and a number of different events outlined in it, which are designed to support the Welsh food and drinks industry and which are led by the industry. We have already this year held two consultation events on that plan, which has received widespread support from throughout the food and drinks industry.
- Caf fy synnu yn gyson gan yr Aelodau Ceidwadol sy'n dod i'r Siambr hon yn mynnu cael mwy o arian ar gyfer popeth, bob tro y byddant yn gofyn cwestiwn. Dywedaf hyn: lansiais gynllun gweithredu bwyd a diod cynhwysfawr iawn ym mis Rhagfyr. Pe byddai'r Aelod yn cymryd amser i ddarllen y cynllun gweithredu hwnnw, byddai'n gweld ei fod yn amlinellu nifer o wahanol a digwyddiadau, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru ac a arweinir gan y diwydiant. Rydym eisoes wedi cynnal dau ddigwyddiad ymgynghori ar y cynllun hwnnw eleni, a chafodd gefnogaeth eang o bob rhan o'r diwydiant bwyd a diod.
- 13:39 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, Minister, good food has to be accompanied by good drink. [Laughter.] Monty's Brewery in my constituency certainly offers excellent Welsh ale. It has grown considerably over the past five years. The leader of the opposition has also sampled it, I understand. Its new building plant, built last year, has allowed it to increase its exports into China. It has also increased its export market into the House of Commons, where it has introduced its new Sunshine beer. Will the Minister join me in congratulating Monty's Brewery on its achievements, as it has been a fantastic success story for Wales? Will he also agree to join me to sample one of Monty's Brewery's ales when he is next in Montgomeryshire?
- Wrth gwrs, Weinidog, mae angen diod dda i gyd-fynd â bwyd da. [Chwerthin.] Mae Bragdy Monty's yn fy etholaeth yn sicr yn cynnig cwrw Cymreig ardderchog. Mae wedi tyfu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Deallaf fod arweinydd yr wrthblaid hefyd wedi'i flasau. Mae ei safle newydd, a adeiladwyd y llynedd, wedi ei alluogi i gynyddu ei allforion i Tsieina. Mae hefyd wedi ehangu ei farchnad allforio i Dŷ'r Cyffredin, lle y mae wedi cyflwyno ei gwrw Sunshine newydd. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch Bragdy Monty's ar ei gyflawniadau, gan ei fod wedi bod yn llwyddiant ardderchog i Gymru? A wnaiff hefyd yn cytuno i ymuno â mi i flasau un o gwrwau Bragdy Monty's pan fydd yn Sir Drefaldwyn nesaf?
- 13:40 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would very much enjoy that and I look forward to the opportunity to visit Monty's Brewery again, as I have visited the brewery already. I have sampled its products and have enjoyed doing so. It is important that we support growing businesses like Monty's. We have, on a number of occasions, provided a platform for breweries and other drinks manufacturers who wish to export. I was with a number of those exporters in Cologne in the autumn supporting them in their sales drives. If the Member believes that Monty's requires any further support from this Government, I would be more than happy to meet him and to visit again the brewery.
- Byddwn yn mwynhau hynny'n fawr ac edrychaf ymlaen at y cyfle i ymweld â Bragdy Monty's eto, gan fy mod eisoes wedi ymweld â'r bragdy. Yr wyf wedi blasu ei gynnyrch ac wedi mwynhau gwneud hynny. Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi busnesau sy'n tyfu fel Monty's. Rydym, ar sawl achlysur, wedi darparu llwyfan i fragdai a gweithgynhyrchwyr diodydd eraill sydd am allforio. Roeddwn gyda nifer o'r allforwyr hynny yn Cologne yn yr hydref yn cefnogi eu hymgyrchoedd gwerthiant. Os yw'r Aelod o'r farn bod angen rhagor o gefnogaeth gan y Llywodraeth hon ar Monty's, byddwn yn fwy na pharod i gwrdd ag ef ac ymweld â'r bragdy eto.
- Polisi Tir Comin** **Common Land Policy**
- 13:41 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi tir comin Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0113(NRF)
3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's common land policy? OAQ(4)0113(NRF)

- 13:41 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government is seeking to achieve sustainably managed common land across Wales. Glastir is making a significant contribution, with over 50% of common land in Wales now in the scheme. I am also committed to implementing the Commons Act 2006, and work on doing so is well under way.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni tir comin a reolir yn gynaliadwy ledled Cymru. Mae Glastir yn gwneud cyfraniad sylweddol, gyda thros 50% o dir comin yng Nghymru bellach yn y cynllun. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i weithredu Deddf Tiroedd Comin 2006, ac mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo.
- 13:41 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I have concerns about a piece of common land in South Wales West at the top of Gower, which is under threat from the construction of a windfarm. My specific question—because I know that you cannot comment on the planning application—is about the developer, who, on this occasion has offered replacement land, and my fear is that it is not accessible and manageable from a common grazing point of view. Could you outline to me what criteria you look at in accepting exchanged land?
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae gennyf bryderon am ddarn o dir comin yn y de-orllewin yn rhan uchaf y Gŵyr, sydd dan fygythiad gan fferm wynt sy'n cael ei hadeiladu yno. Mae fy nghwestiwn penodol—oherwydd gwn na allwch roi sylwadau ar y cais cynllunio—yn ymwneud â'r datblygwr, sydd, ar yr achlysur hwn, wedi cynnig tir cyfnewid, ac rwy'n ofni nad yw'n hygyrch ac yn hylaw o safbwynt pori cyffredin. A allech amlinellu imi pa feini prawf rydych yn edrych arnynt wrth dderbyn tir cyfnewid?
- 13:42 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am aware of the issue to which the Member is referring. The Member will also be aware that this is an active matter that is under consideration and may well become an issue for this Government. He will also, therefore, understand my reticence in answering that question at this time.
- Rwy'n ymwybodol o'r mater y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol bod hwn yn fater gweithredol sy'n cael ei ystyried a allai ddod yn fater i'r Llywodraeth hon. Bydd hefyd, felly, yn deall fy amharodrwydd i ateb y cwestiwn hwnnw ar hyn o bryd.
- 13:42 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae cryn dipyn o dir comin yn fy etholaeth i ar y mynydd-dir ac, oherwydd natur y tir, mae'n dir agored ac nid oes cloddiau na gwrychoedd iddo. A oes gan y Llywodraeth gynllun nid yn unig i reoli stoc ar y math hwn o dir, ond i wella amgylchiadau i drigolion pentrefi sy'n ffinio â'r tir hwn er mwyn gwella ansawdd bywyd?
- A fair bit of common land in my constituency is in the uplands and, because of its nature, it is open ground with no hedges or fences. Does the Government have any plans to not only control stock on this kind of land, but to improve circumstances for residents of villages adjacent to this land in order to improve the quality of life for those people?
- 13:43 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Buaswn yn gobeithio y bydd gan yr RDP nesaf, yr ydym yn lansio'r ymgynghoriad yn ei gyloch yr wythnos nesaf, rywbeth i'w ddweud ynglŷn â hynny. Rwy'n cydnabod y pwynt sy'n cael ei godi gan yr Aelod. Byddwn yn hapus iawn i gwrrd ag ef ac efallai ymweld â rhai o'r pentrefi hyn i gael sgwrs am sut y gallwn ni barhau i wella'r fath o gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig i bentrefi a chymunedau o'r fath. Rwyf eisiau gweld yn yr RDP nesaf gydbwysedd rhwng rheoli'r tir a'r ochr gymdeithasol lle'r ydym yn buddsoddi yn ein cymunedau hefyd. Rwy'n gobeithio bydd yr Aelod yn gweld y cydbwysedd hwnnw pan fydd yn gweld yr RDP nesaf yr wythnos nesaf. Er hynny, rwy'n hapus iawn i barhau â'r drafodaeth gyda chi.
- I would hope that the next RDP, for which we will launch the consultation next week, will have something to say about that. I acknowledge the point raised by the Member, and I would be very happy to meet him and perhaps visit some of those villages to have a discussion about how we can continue to improve the kind of support that we offer to communities and villages of that kind. I want to see in the next RDP a balance between managing the land and the social side where we also invest in our communities. I hope that the Member will become aware of that balance when he sees the next RDP next week. However, I would be very happy to continue that discussion with him.
- 13:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- What assessment, Minister, has your Government carried out with regard to stocking levels and the potential for de-stocking on common land as a result of your CAP announcements?
- Pa asesiad, Weinidog, y mae eich Llywodraeth wedi'i gynnal mewn perthynas â lefelau stocio a'r potensial ar gyfer tynnu stoc oddi ar dir comin o ganlyniad i'ch cyhoeddiadau ar y PAC?

13:44	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>The Member asked a similar question last week. I suggested at that time that she takes time to read the Glastir consultation document that I published two weeks ago. Had she read that document, she would have seen the answers contained in it.</p>	<p>Gofynnodd yr Aelod gwestiwn tebyg yr wythnos diwethaf. Awgrymais ar y pryd iddi gymryd amser i ddarllen dogfen ymgynghori Glastir a gyhoeddais bythefnos yn ôl. Pe byddai wedi darllen y ddogfen honno, byddai wedi gweld yr atebion a geir ynddi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Ffermio		Farming	
13:44	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau Llywodraeth Cymru i wella ffermio yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0105(NRF)</i></p>	<p><i>4. Will the Minister make a statement on Welsh Government action to improve farming in west Wales? OAQ(4)0105(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:44	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>The Welsh Government is committed to achieving a sustainable, modernised and profitable agricultural industry in Wales, and, through a well-funded rural development programme, we will achieve this objective for farm businesses throughout the whole of Wales.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau diwydiant amaethyddol cynaliadwy, modern a phroffidiol yng Nghymru, a, thrwy raglen datblygu gwledig a ariennir yn dda, byddwn yn cyflawni'r amcan hwn ar gyfer busnesau fferm ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:44	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Mae adrodd symudiadau gwartheg i wasanaeth symud gwartheg Prydain o fewn y tri diwrnod gofynnol yn her sylweddol i rai ffermwyr yn fy etholaeth i nad ydynt yn gallu cael mynediad i fand eang. Felly, maent yn dibynnu ar ddulliau arafach i adrodd ar symudiadau. Pa drafodaethau rydych wedi eu cael gyda'ch cyd Weinidog, y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidaeth, ynglŷn â band eang? Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ffermwyr yn y mater hwn?</p>	<p>I am grateful to the Minister for that response. Reporting cattle movements the British cattle movement service within the required three-day period is a significant challenge for some farmers in my constituency who cannot access broadband. Therefore, they are dependent upon slower means of reporting those movements. What discussions have you had with your colleague the Minister for Economy, Science and Transport on broadband, and what steps is the Welsh Government taking to support farmers in this situation?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Yn amlwg, mae band eang yn rhywbeth rydym wedi bod yn ei drafod ers tipyn o amser—sut rydym yn gallu sicrhau mynediad i fand eang ac i signal ffôn symudol mewn ardaloedd cefn gwlad. Mae hyn yn rhywbeth rwyf eisiau sicrhau ein bod yn gallu ei ddatrys cyn inni symud i amgylchedd cwbl ddigidol, ar-lein ar gyfer adroddiadau o bob math mewn systemau rheoli amaethyddiaeth.</p>	<p>Clearly, broadband is something that we have been discussing for quite a while, in terms of how we can ensure access to broadband and to a mobile phone signal in rural areas. I want to ensure that we can resolve this before we move to a fully digital, online environment for all kinds of reports in agricultural control systems.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, yr wythnos diwethaf gwelwyd cyhoeddi'r adroddiad ar gadernid mewn ffermio. Rwy'n deall eich bod wedi derbyn argymhellion yr adroddiad hwnnw. Mae un rhan o'r adroddiad yn dweud yn benodol y gall dirwyiad pellach yn strwythur cymdeithasol-economaidd yr ucheldir a'r rhostiroedd arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yno. Mae'r argymhelliad yn mynd ymlaen i ofyn i chi gydweithio gyda Chomisiynydd yr Iaith i ddatblygu gofynion polisïau ar gyfer y dyfodol. Yng nghydestun y cynllun datblygu gwledig newydd sydd yn yr arfaeth, a wnewch sicrhau bod y cynllun hwnnw yn rhoi ystyriaeth lawn i'r angen i gadw'r iaith yn yr ardaloedd hyn, a chydweithio gyda chymunedau Cymraeg i gadw ffermio yn fyw yno, ond hefyd i gadw cymunedau yn fyw yno?</p>	<p>Minister, last week we saw the publication of the report on resilience in farming. I understand that you have accepted the recommendations of that report. In one section, it states specifically that further decline in the socioeconomic structure of the uplands and moorlands can lead to a significant reduction in the number of Welsh speakers there. The report goes on to ask you to work with the Welsh Language Commissioner to develop policy for the future in this area. In the context of the new rural development plan that is in the pipeline, can you ensure that that plan takes full account of the need to retain the language in these areas and to work with Welsh-speaking communities to keep farming viable and to keep communities viable in those areas?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:46

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n gobeithio fy mod yn gallu rhoi sicrwydd i chi. Byddwn yn croesawu unrhyw argymhellion sydd gennych, os nad ydych yn meddwl bod yr RDP drafft yn ddigonol i adlewyrchu'r hyn rydych wedi ei ddisgrifio. Rwy'n cytuno â chi. Mae'n hollbwysig, fel y dywedais mewn ateb i Alun Ffred Jones, bod yn rhaid inni gael cydbwysedd rhwng rheoli'r tir, datblygiadau economaidd a'r ochr gymdeithasol. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn gallu cynnal cymunedau sy'n gallu bod yn hynod fregus yn yr ucheldir.

I hope that I can give you that assurance. I would welcome any recommendations that you have, if you do not think that the draft RDP is sufficient to reflect what you have described. I agree with you. It is vital, as I said in my answer to Alun Ffred Jones, that we must have a balance between managing the land, economic development and the social side of things. We have to ensure that we can sustain communities that can be very vulnerable in the uplands.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ffermio Ucheldir

Upland Farming

13:47

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo dyfodol ffermio ucheldir? OAQ(4)0101(NRF)

5. What steps is the Welsh Government taking to promote the future of upland farming? OAQ(4)0101(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Efallai bod yr Aelod wedi clywed hyn yn barod, ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau amaethyddiaeth yn ucheldiroedd Cymru. Bydd yn sicrhau, drwy'r cynllun datblygu gwledig nesaf, bod mesurau yn eu lle i sicrhau cefnogaeth i'r ardaloedd hynny.

The Member might have already heard this, but the Welsh Government continues to secure upland farming in Wales. It will be ensuring, through the next rural development plan, that measures are in place to secure support for those areas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae rhai o ffermwyr yr ucheldir, yn enwedig y rhai ar y rhostir dros 400m, yn wynebu colli tua 80% o'u taliad sengl yn dilyn eich penderfyniadau polisi amaeth chi. Mae rhan helaeth o'r tir hwn hefyd yn dir sydd o dan safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Felly, mae gallu'r ffermwyr hynny i ffermio mewn ffordd wahanol yn gyfyng iawn. Fi oedd y cyn Weinidog a wnaeth gael gwared ar Tir Mynydd—cyn ichi fy atgoffa o hynny—ond roedd hwnnw'n daliad ar gyfer 80% o dir Cymru. Yn benodol, yn dilyn eich penderfyniadau ar biler 1, a hefyd yng nghyd-destun amgylchiadau economaidd penodol iawn, a ydych yn credu ei bod yn amser i edrych ar y cynllun gwledig newydd hwn, piler 2, a'r taliadau uniongyrchol ar gyfer y ffermwyr hynny sy'n ffermio mewn ardaloedd wedi'u targedu ar y rhostir, i ganiatáu iddynt barhau i ffermio yn dilyn y newidiadau i biler 1?

Some upland farmers, particularly those on moorlands above 400m, face losing up to 80% of their single payment following your agricultural policy decisions. Vast parts of these areas are also sites of special scientific interest, so the ability of these farmers to farm in different ways is very limited. I am the former Minister who abolished Tir Mynydd—before you remind me of that—but that was a payment for 80% of the surface area of Wales. Specifically, following your decisions on pillar 1, and in the context of very specific economic circumstances, do you believe that it is now time to look at the new RDP, pillar 2, and direct payments for those farmers who farm in targeted areas on the moorlands, in order to enable them to continue to farm following the changes to pillar 1?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n hapus iawn i barhau â'r drafodaeth hon. Rwy'n credu bod camddealltwriaeth a bod pobl heb ddarllen dogfennau gyda'i gilydd. Fel rydych wedi awgrymu, cyhoeddias ddatganiad ar biler 1 ar ddechrau mis Ionawr, sydd wedi gosod 'indicative figures' ar gyfer y rhostir o €20 yr hectar. Pan ydych yn edrych ar yr hyn a ddywedwn ar Glastir hefyd, lle rydym yn sicrhau mynediad i Glastir 'Advanced' i bobl ar y rhostir, byddwch yn gweld bod taliadau Glastir ynghyd â philer 1 yn gallu bod yn fwy na €100 yr hectar. Nid yw'r sefyllfa yn union fel rydych wedi ei disgrifio, ond, rwy'n cydnabod bod yna rai problemau gydag 'SSSIs' a 'section 15 agreements', ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ddelio gydag ef. Rwyf wedi cael trafodaeth yn eich etholaeth chi, fel rydych yn ymwybodol, yr wythnos diwethaf, ac mae'r trafodaethau hynny yn drafodaethau rwy'n mynd i barhau i'w cynnal.

I am happy to continue this discussion. I believe that there has been a misunderstanding and that people have not read documents together. I made a statement on pillar 1, as you suggested, at the start of January, setting out indicative figures for the moorlands at €20 per hectare. When you look at what we said about Glastir as well, where we are ensuring access to Glastir Advanced for people on the moorlands, you will see that payments for Glastir plus pillar 1 can go up to over €100 per hectare. So, the situation is not exactly as you described it. However, I do acknowledge that there are some problems with SSSIs and section 15 agreements. That is something that we have to deal with. I had a discussion in your constituency, as you know, last week, and I will continue to hold such discussions.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, 12% of Welsh farms are above the proposed moorland line at 400m. Your common agricultural policy plans, as announced, will see a reduction in payments—I think that you have modelled it—to approximately 3,000 farmers. This is at a time when average farm business incomes in Wales fell by 30%. Will you commit to an area-of-natural-constraint scheme in pillar 2 of CAP that will specifically address those farms that are above or on the moorland line?

Weinidog, mae 12% o ffermydd Cymru yn uwch na'r llinell rhostir arfaethedig o 400m. Bydd eich cynlluniau polisi amaethyddol cyffredin, fel y cyhoeddwyd, yn arwain at ostyngiad mewn taliadau—credaf eich bod wedi modelu hyn— i oddeutu 3,000 o ffermwyr. Mae hyn ar adeg pan syrthiodd incwm cyfartalog busnesau fferm yng Nghymru 30%. A wnewch chi ymrwymo i gynllun ardal â chyfyngiadau naturiol ym mhiler 2 y PAC a fydd yn mynd i'r afael yn benodol â'r ffermydd hynny sydd ar y llinell rhostir neu'n uwch?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member gets her numbers wrong again. It is not that 12% of Welsh farms are above the moorland line; 12% of Welsh land area is above the 400m line; 297 farms actually have land holdings that fall within that contour line.

Mae'r Aelod wedi cael ei rhifau yn anghywir eto. Nid yw'n wir bod 12% o ffermydd Cymru yn uwch na'r llinell rhostir; 12% o arwynebedd tir Cymru sy'n uwch na'r llinell o 400m; 297 o ffermydd sydd â daliadau tir sy'n dod o fewn y gyfuchlin honno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The Member also misunderstands some of the other numbers in terms of how the CAP reforms will affect individual farm businesses. Eighty four per cent of farm businesses will not be affected in the way that she describes. That number goes up to over 90% when you exclude some of the highest and lowest per-hectare payments. The farms that probably fall within the category that the Member describes as losing a considerable amount were probably receiving extraordinarily high hectare payments in the first place. Some were achieving hectare payments of €400 per hectare, whereas others were having €6.

Mae'r Aelod hefyd wedi camddeall rhai o'r rhifau eraill o ran sut y bydd y diwygiadau i'r PAC yn effeithio ar fusnesau fferm unigol. Ni fydd 84% o fusnesau fferm yn cael eu heffeithio yn y ffordd y mae'n ei disgrifio. Mae'r rhif hwnnw'n codi i dros 90% pan fyddwch yn eithrio rhai o'r taliadau uchaf ac isaf fesul hectar. Mae'n debyg bod y ffermydd sy'n dod o fewn y categori y mae'r Aelod yn eu disgrifio fel rhai sy'n colli swm sylweddol yn cael taliadau eithriadol o uchel fesul hectar yn y lle cyntaf. Roedd rhai yn cael €400 fesul hectar, tra bod eraill yn cael €6.

13:51 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have not answered my question, which is whether you will commit to an ANC scheme that deals with those farms—12% of the land area, if you like, and I understand that it was 279 farms—that fall above the moorland line. There is considerable uncertainty for those farmers who straddle the moorland line. However, given that you have drawn a moorland line, will you commit to an ANC scheme that looks at those 279 or 297 farms—whichever figure you choose to apply? Will you commit to a scheme for those farms that are above or within that moorland area?

Weinidog, nid ydych wedi ateb fy nghwestiwn, sef a wnewch ymrwymo i gynllun AChN sy'n delio â'r ffermydd hynny—12% o'r arwynebedd tir, os mynnwch chi, ac rwy'n deall mai 279 o ffermydd yw hynny—sydd uwchben y llinell rhostir. Mae cryn ansicrwydd i'r ffermwyr hynny sy'n pontio'r llinell rhostir. Fodd bynnag, gan eich bod wedi tynnu llinell rhostir, a wnewch chi ymrwymo i gynllun AChN sy'n edrych ar y 279 neu 297 o ffermydd hynny—pa bynnag ffigur y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio? A wnewch chi ymrwymo i gynllun ar gyfer y ffermydd hynny sydd o fewn yr ardal honno o rhostir neu'n uwch?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:52 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry; I probably spent too much time correcting the assumptions on which her question was framed. I will not make that commitment today, because we are starting a consultation process next week. I do not start a consultation process by fixing the end and the outcome.

Mae'n ddrwg gennyf; mae'n debyg fy mod wedi treulio gormod o amser yn cywiro'r tybiaethau y seiliwyd ei chwestiwn arnynt. Nid wyf am wneud yr ymrwymiad hwnnw heddiw, gan ein bod yn dechrau proses ymgynghori yr wythnos nesaf. Nid wyf yn dechrau proses ymgynghori drwy osod y diwedd a'r canlyniad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:53	William Powell Bywgraffiad Biography Minister, if the economic difficulties faced by farmers are exacerbated by your recent decisions, as many fear, and that that should lead to the widespread abandonment of the uplands in terms of farming, what plans do you have in place to deal with the inevitable rise in invasive non-native species such as rhododendron, which has been such a scourge in Snowdonia? Do you feel that either Glastir or the upcoming RDP could be a vehicle for addressing such a danger?	Weinidog, os yw eich penderfyniadau diweddar yn golygu bod yr anawsterau economaidd sy'n wynebu ffermwyr yn waeth, fel y mae llawer yn ei ofni, ac y dylai hynny arwain at roi'r gorau yn gyffredinol i ffermio'r ucheldiroedd, pa gynlluniau sydd gennych ar waith i ddelio â'r cynnydd anochel mewn rhywogaethau anffrodorol ymledol fel rhododendron, sydd wedi bod yn gymaint o bla yn Eryri? A ydych yn teimlo nad yw Glastir na'r Cynllun Datblygu Gwledig arfaethedig yn gyfrwng i fynd i'r afael â pherygl o'r fath?	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Alun Davies Bywgraffiad Biography Certainly, Glastir could be used to address such matters. However, I really must say to the Member that I do not accept the basis of his question. There is no history of land abandonment in Wales. There is no evidence that that is taking place at the moment. As the owner of agricultural land himself, he is only too aware of the good prices currently being achieved for agricultural land in Wales.	Yn sicr, gellid defnyddio Glastir i fynd i'r afael â materion o'r fath. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrth yr Aelod nad wyf yn derbyn sail ei gwestiwn. Nid oes hanes o adael tir yng Nghymru. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Fel perchennog tir amaethyddol ei hun, mae'n sicr yn ymwybodol o'r prisiau da sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ar gyfer tir amaethyddol yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
	Adnoddau Naturiol	Natural Resources	
13:54	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography <i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol yn gyfrifol yng Nghymru? OAQ(4)0110(NRF)</i>	<i>7. Will the Minister make a statement on the importance of responsible natural resources management in Wales? OAQ(4)0110(NRF)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Alun Davies Bywgraffiad Biography I made a statement in the autumn on my department's priorities. The management of our natural resources is of vital importance to our economic success, the resilience of our communities and the environment on which we all depend.	Gwneuthum ddatganiad yn yr hydref ar flaenoriaethau fy adran. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn hanfodol bwysig i'n llwyddiant economaidd, gwydnwch ein cymunedau a'r amgylchedd y mae pob un ohonom yn dibynnu arno.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography I am sure that you will agree that professional expertise and retaining that expertise are a critical part of responsible resource management. Given this, would you also agree that it would be inappropriate for Natural Resources Wales, as part of its organisation-wide pay-harmonisation review, to award backpay only to those in very senior positions and not to those throughout the rest of the organisation?	Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod arbenigedd proffesiynol a chadw'r arbenigedd hwnnw yn rhan hanfodol o reoli adnoddau yn gyfrifol. O ystyried hyn, a fydddech hefyd yn cytuno y byddai'n amhriodol i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o'i adolygiad i gysoni cyflogau ar draws y sefydliad, ddyfarnu ôl-daliadau i'r rhai mewn swyddi uchel iawn yn unig ac nid i'r rheini yng ngweddill y sefydliad?	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Alun Davies Bywgraffiad Biography The Member is well aware that it is not my practice to comment on the management decisions of NRW.	Mae'r Aelod yn ymwybodol iawn nad yw'n arfer gennyf gyflwyno sylwadau ar benderfyniadau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru.	Senedd.tv Fideo Video

- 13:55 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition [Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the important thing about environment schemes in complementing the work of environment agencies is making sure that the whole of Wales benefits from the produce that you bring forward. How are you going to make sure that the lowlands can play their part in working with Natural Resources Wales to meet the Government's environmental objectives, in particular the schemes that you will be funding out of pillar 2 in the revised rural development plan that will come in for the next seven years?
- Weinidog, y peth pwysig am gynlluniau amgylcheddol wrth ategu gwaith asiantaethau'r amgylchedd yw sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa o'r cynnyrch yr ydych yn ei ddatblygu. Sut y byddwch yn sicrhau y gall yr iseldiroedd chwarae eu rhan wrth weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni amcanion amgylcheddol y Llywodraeth, yn enwedig y cynlluniau y byddwch yn eu hariannu o biler 2 yn y cynllun datblygu gwledig diwygiedig a gyflwynir ar gyfer y saith mlynedd nesaf?
- 13:55 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, as a lowland farmer yourself, you are very familiar with the work that has gone on with Natural Resources Wales and its predecessor bodies. I know that there has been some concern from the lowlands over recent weeks that too much attention is being paid to the uplands—perhaps it was ever thus—but I will say that it is incumbent on all of us to take a national approach to these issues, to ensure that we achieve a balance in protecting and enhancing the environment of the whole of our country.
- Yn amlwg, fel ffermwr iseldir eich hun, rydych yn gyfarwydd iawn â'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff a'i rhagflaenodd. Gwn y bu rhywfaint o bryder o'r iseldiroedd dros yr wythnosau diwethaf bod gormod o sylw yn cael ei roi i'r ucheldiroedd—efallai mai dyma fu'r achos erioed—ond dywedaf ei bod yn ddyletswydd ar bob un ohonom i ystyried y materion hyn o safbwynt cenedlaethol, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni cydbwysedd o ran diogelu a gwella amgylchedd y wlad gyfan.
- 13:56 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae Coed Cadw heddiw wedi cyhoeddi adroddiad o'r enw 'Dal y dyfroedd yn ôl—Creu Coetir a Lliniaru Llifogydd'. Mae hefyd wedi cyflwyno deiseb yn galw am blannu 10 miliwn o goed dros y pum mlynedd nesaf, wedi eu targedu ar y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer lleihau risg llifogydd. Mae'r Llywodraeth, wrth gwrs, wedi bod yn sôn am y fath approach ers talwm. Mae nifer o astudiaethau achos yn y ddogfen hon, ond pryd y gwelwn ni raglen genedlaethol fwriadol ar gyfer y fath approach?
- Woodland Trust has today published a report called 'Holding back the waters—Woodland Creation and Flood Mitigation'. It has also presented a petition calling for the planting of 10 million trees over the next five years, targeted at locations that are most appropriate for reducing the risk of flooding. The Government has been talking about this sort of approach for a long time. There are a number of case studies in this document, but when will we see a targeted national programme for this sort of approach?
- 13:56 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Yr wythnos nesaf.
- Next week.
- 13:56 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Edrychwn ymlaen at y cyhoeddiad; rwy'n falch iawn o glywed hynny. Hefyd, mae nifer o amaethwyr—rwyf wedi codi hyn gyda chi o'r blaen—wedi dweud wrthyf nad yw'r gwaith o glirio gwelyau afonydd a glannau afonydd a oedd yn arfer cael ei wneud flynyddoedd yn ôl gan Asiantaeth yr Amgylchedd bellach yn digwydd. Maent yn ymwybodol, wrth gwrs, o gynllun peilot y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr wedi bod yn ei redeg gyda grwpiau amgylcheddol, perchnogion tir, ffermwyr ac yn y blaen i alluogi ffermwyr i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn eu hunain. Maen nhw'n barod i wneud hynny, felly pryd y cawn ni gynlluniau tebyg yng Nghymru?
- We will look forward to that announcement; I am very pleased to hear that. Also, a number of farmers—I have raised this with you in the past—have told me that the work of clearing river beds and banks that used to be done in the past by the Environment Agency does not happen anymore. They are very aware, of course, of the pilot scheme undertaken by the Environment Agency in England, working with environmental groups, landowners, farmers and so on to empower farmers to tackle some of these issues themselves. They are ready to do that; when will we see a similar scheme in Wales?

- 13:57 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n gobeithio ein bod ni'n rheoli'r afonydd yng Nghymru yn well na'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Rwy'n gwybod i'r Ceidwadwyr awgrymu, ychydig wythnosau yn ôl, y dylem ddilyn enghraifft DEFRA; nid wyf wedi clywed hynny ers sbel. Mae NRW yn ymwybodol o gynllun yr EA, ac mae trafodaethau wedi digwydd rhwng y ddau gorff. Rwy'n hapus iawn i weld beth yw canlyniadau cynllun peilot yr EA, a byddwn yn hapus iawn i gynnal prosiect o'r fath yng Nghymru.
- I hope that we manage rivers in Wales in a better way than in England. I know that the Conservatives suggested a couple of weeks ago that we should follow the example of the Department for Environment, Food and Rural Affairs; I had not heard that for a while. NRW is aware of the EA scheme and there have been discussions between the two bodies. I am happy to see what the outcomes are of the EA pilot scheme, and I would be happy to run that kind of project in Wales.
- Treftadaeth Naturiol** **Natural Heritage**
- 13:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rôl y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chwarae o ran diogelu treftadaeth naturiol Cymru? OAQ(4)0115(NRF)*
- 8. Will the Minister provide an update on the role Natural Resources Wales plays in protecting the natural heritage of Wales? OAQ(4)0115(NRF)*
- 13:58 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The role of Natural Resources Wales is to ensure that the environment and natural resources of Wales are sustainably maintained, sustainably enhanced and sustainably used.
- Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod yr amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy.
- 13:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I wonder if I might invite you to come to visit Penllergare valley woods trust in my region? It is an excellent example of horticultural and natural woodland heritage, managed expertly by committed volunteers. I am sure that the Government would be interested in this natural playground for children from one of the most deprived areas in Swansea, but you particularly might be interested to see the water turbine and the variety of larches. Mindful of the health of those larches, Minister, will you tell me whether the statutory plant notices requiring the felling of phytophthera-infected trees in south Wales are due to be withdrawn? If so, why?
- Tybed os gallaf eich gwahodd i ddod i ymweld ag ymddiriedolaeth coed cwm Penllergaer yn fy rhanbarth i? Mae'n enghraifft wych o dreftadaeth goetir garddwriaethol a naturiol, a reolir yn fedrus gan wirfoddolwyr ymroddedig. Rwy'n siŵr y byddai gan y Llywodraeth ddiddordeb yn y maes chwarae naturiol hwn i blant o un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Abertawe, ond efallai y byddai gennych chi yn arbennig ddiddordeb gweld y tyrbîn dŵr a'r amrywiaeth o larwydd. Gan ystyried iechyd y llarwydd hynny, Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthyf a fydd y rhybuddion planhigion statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i goed sydd wedi'u heintio gyda phytophthera yn y de yn cael eu tynnu'n ôl? Os felly, pam?
- 13:59 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There are a number of questions there. Members are being very kind with their invitations to me this afternoon. I will accept that; I always accept an invitation to visit Penllergaer. I would very much like to see the ways in which we are reconnecting communities with the local natural environment, as I think that it is absolutely essential that we do that. One of the things that I hope NRW will be able to develop as it moves forward is to ensure that we have that connection and that we create and manage more access to countryside and to green areas for people in communities up and down Wales. I will take up the Member's very kind invitation to visit Penllergaer.
- Mae nifer o gwestiynau yno. Mae'r Aelodau yn garedig iawn gyda'u gwahoddiadau imi y prynhawn yma. Derbyniaf y gwahoddiad; rwyf bob amser yn derbyn gwahoddiad i ymweld â Phenllergaer. Hoffwn yn fawr weld y ffyrdd rydym yn ailgysylltu cymunedau â'r amgylchedd naturiol lleol, gan fy mod yn credu bod hynny'n gwbl hanfodol. Un o'r pethau rwyf yn gobeithio y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu ei ddatblygu wrth iddo symud ymlaen yw sicrhau bod gennym y cysylltiad hwnnw a'n bod yn creu ac yn rheoli mwy o fynediad i gefn gwlad ac i ardaloedd gwyrdd ar gyfer pobl mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Derbyniaf wahoddiad caredig yr Aelod i ymweld â Phenllergaer.

13:59

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will not get an invitation from me—well, not this Saturday anyway. [Laughter.] One of the most important areas of our natural heritage is the Gwent levels—an area of Europe-wide importance for bird life and natural coastal wetland habitats. What discussions have you had with Natural Resources Wales regarding the devastating impact that an M4 relief road, driven straight through the levels south of Newport, will have on the wildlife, wetlands, scenery and character of the area if some of the routes are accepted? May I put a bid in for the blue route proposed by Professor Stuart Cole?

Weinidog, ni fyddwch yn cael gwahoddiad gennyf i—wel, nid ddydd Sadwrn yma beth bynnag. [Chwerthin.] Gwastadeddau Gwent yw un o ardaloedd pwysicaf ein treftadaeth naturiol—mae'n ardal o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer adar a chynefinoedd gwlyptir arfordirol naturiol. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr effaith ddinistriol y bydd ffordd liniaru i'r M4, sy'n mynd yn syth drwy'r gwastadeddau i'r de o Gasnewydd, yn ei chael ar fywyd gwyllt, gwlyptiroedd, golygfeydd a chymeriad yr ardal os caiff rhai o'r llwybrau eu derbyn? A gaf gyflwyno cais ar gyfer y llwybr glas a gynigiwyd gan yr Athro Stuart Cole?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that that will be a subject of great discussion in O'Donoghues on Saturday.

There is a strategy for the treatment of larch trees being published by NRW, and I point Members in the direction of that if they require further information.

The points that you make on the M4 in south Wales are fully known and understood, and you will be aware that my colleague the Minister for Economy, Science and Transport is leading on that matter.

Rwy'n siŵr y bydd hynny'n destun cryn drafodaeth yn O'Donoghues ddydd Sadwrn.

Caiff strategaeth ar gyfer trin coed llarwydd ei chyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a thynnaf sylw Aelodau at hynny os bydd angen rhagor o wybodaeth arnynt.

Rydym yn llwyr ymwybodol o'r pwyntiau a wnewch ar yr M4 yn y de ac rydym yn eu deall, a byddwch yn ymwybodol mai fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n arwain y mater hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Afon Tawe

River Tawe

14:00

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau atal llifogydd sy'n cael eu cymryd yn erbyn afon Tawe yn Nwyrain Abertawe? OAQ(4)0103(NRF)

9. Will the Minister make a statement on the flood prevention measures being taken against the River Tawe in Swansea East? OAQ(4)0103(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Natural Resources Wales is leading on a £7 million flood defence project to reduce flood risk to residential and commercial properties of Swansea vale and Swansea enterprise park. The project, which is due for completion by the end of April this year, has received £3.5 million from the European regional development fund.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar brosiect amddiffyn rhag llifogydd gwerth £7 miliwn i leihau'r perygl o lifogydd i eiddo preswyl a masnachol ym Mro Tawe a pharc menter Abertawe. Mae'r prosiect, y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill eleni, wedi cael £3.5 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. He is very welcome to come and have a look at it if he wants to. It has been very successful so far. We have avoided flooding outside the designated floodplain this year. Are you planning such schemes for other rivers in Wales?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae croeso mawr iddo ddod i gael golwg arno os yw'n dymuno. Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma. Rydym wedi osgoi llifogydd y tu allan i'r gorlifdir dynodedig eleni. A ydych yn bwriadu llunio cynlluniau o'r fath ar gyfer afonydd eraill yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:01 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would also be delighted to visit Swansea. The sorts of schemes that we design and deliver for individual areas and communities are very much rooted in the hydrology of that particular area and in the needs of the community. The solution that has been found in the lower Tawe valley is unique to that area, in that we are able to use land to flood when necessary. That would not be appropriate in all places. We are looking at developing appropriate flood and water management schemes in different parts of Wales, and the scheme in Llanelli is another example of how we are doing this in new and different ways.
- Byddwn hefyd yn falch iawn o ymweld ag Abertawe. Mae'r mathau o gynlluniau yr ydym yn eu cynllunio a'u darparu ar gyfer ardaloedd a chymunedau unigol wedi'u gwreiddio'n benodol yn hydroleg yr ardal arbennig honno ac yn anghenion y gymuned. Mae'r ateb a fabwysiadwyd yn rhan isaf cwm Tawe yn unigryw i'r ardal honno, oherwydd y gallwn ddefnyddio tir i orlifo yn ôl yr angen. Ni fyddai hynny'n briodol ym mhob man. Rydym yn ystyried datblygu cynlluniau rheoli llifogydd a dŵr yn briodol mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mae'r cynllun yn Llanelli yn enghraifft arall o'r modd rydym yn gwneud hyn mewn ffyrdd newydd a gwahanol.
- 14:02 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I think that you addressed my question in your comprehensive answer, but I will further ask what assurances you can give that the current flood defence schemes are futureproofed for the river Tawe.
- Weinidog, credaf eich bod wedi mynd i'r afael â'm cwestiwn yn eich ateb cynhwysfawr, ond gofynnaf ymhellach pa sicrwydd y gallwch ei roi bod cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd presennol afon Tawe wedi'u diogelu at y dyfodol.
- 14:02 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, we are now designing flood defence schemes with a greater resilience factor than we would have done some years ago. We are looking, as we discussed in an earlier question, at experiencing far greater episodes of severe weather in the future as a consequence of climate change. That means that we are designing flood defences now that are more robust, in terms of what we expect to see in the future, than we would have done in the past, and I certainly would expect that the Tawe scheme is an example of one that is significantly futureproofed.
- Yn amlwg, rydym bellach yn cynllunio cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd gyda mwy o ffactor gwydnwch nag y byddem wedi ei wneud rai blynyddoedd yn ôl. Fel y trafodwyd mewn cwestiwn cynharach, mae'n debygol y byddwn yn profi llawer mwy o achosion o dywydd difrifol yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae hynny'n golygu ein bod bellach yn cynllunio amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n fwy cadarn, o ran yr hyn yr ydym yn disgwyl ei weld yn y dyfodol, nag y byddem wedi ei wneud yn y gorffennol, a byddwn yn sicr yn disgwyl bod cynllun afon Tawe yn enghraifft o un sydd wedi'i diogelu at y dyfodol.
- 14:03 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There have been some interesting pieces in the press recently, notwithstanding the piece from George Monbiot in 'The Guardian' arguing that more effort needs to be made for the upstream of rivers to regulate run-off, such as been mentioned earlier, in terms of additional planting of trees. We had a landslide in the area of Godre'r Graig a couple of years ago, and run-off into the Tawe was considered a key issue then. Now, there are plans to mine in an area riddled with flooded old workings, and given the potential addition of large quantities of water to the Tawe that may affect areas such as Swansea east, does the Welsh Government take this into consideration when the council is putting in such applications?
- Cafwyd darnau diddorol yn y wasg yn ddiweddar, yn cynnwys y darn gan George Monbiot yn 'The Guardian' sy'n dadlau bod angen gwneud mwy o ymdrech i sicrhau y caiff dŵr ffo ei reoli ar rannau uwch afonydd, fel y soniwyd yn gynharach, drwy blannu coed ychwanegol. Cawsom dirithriad yn ardal Godre'r Graig ddwy flynedd yn ôl, ac ystyriwyd bod dŵr ffo i mewn i afon Tawe yn broblem allweddol bryd hynny. Erbyn hyn, mae cynlluniau i gloddio mewn ardal sy'n frith o hen weithfeydd sydd dan ddŵr, ac o ystyried yr effaith y gallai ychwanegu llawer o ddŵr i afon Tawe ei chael ar ardaloedd megis dwyrain Abertawe, a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn pan fydd y cyngor yn cyflwyno ceisiadau o'r fath?
- 14:03 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that George Monbiot would be very grateful for the support of Plaid Cymru in relation to his views on management of the uplands. [Interruption.] He will be surprised and delighted. I say to the Member on that specific issue that, clearly, flooding and the impact on the hydrology of an area are significant issues for all local authorities to take into account whenever they are planning any developments of any sort.
- Rwy'n siŵr y byddai George Monbiot yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Plaid Cymru mewn perthynas â'i farn ar reoli'r ucheldiroedd. [Torri ar draws.] Bydd yn syndod iddo a bydd wrth ei fodd. O ran y mater penodol hwnnw, dywedaf wrth yr Aelod bod llifogydd a'r effaith ar hydroleg ardal yn amlwg yn faterion o bwys i bob awdurdod lleol eu hystyried pryd bynnag y byddant yn cynllunio unrhyw ddatblygiadau o unrhyw fath.

14:04	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>As you know, Swansea vale has been earmarked by the City and County of Swansea council for significant development, and the area forms a large part of the floodplain of the river Tawe. Do Natural Resources Wales's officials work with local councils in the development of unitary development plans so that when these issues come forward as part of the future plans of the authority, they have advance notice and advance plans put in place in terms of flood prevention?</p>	<p>Fel y gwyddoch, mae Bro Tawe wedi ei chlustnodi gan Ddinas a Sir Abertawe ar gyfer datblygiad sylweddol, ac mae'r ardal yn ffurfio rhan fawr o orlifdir afon Tawe. A yw swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda chynghorau lleol i ddatblygu cynlluniau datblygu unedol er mwyn sicrhau, pan gaiff y materion hyn eu cyflwyno fel rhan o gynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol, eu bod yn cael rhybudd ymlaen llaw a bod cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith ymlaen llaw o ran atal llifogydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>The Member will have the opportunity over the next two years to debate and discuss the environment Bill, which will be putting in place exactly those processes to unify the work of NRW with other elements of the public sector and the public estate in Wales to achieve exactly the end that the Member has described.</p>	<p>Caiff yr Aelod gyfle dros y ddwy flynedd nesaf i ddadlau a thrafod Bil yr amgylchedd, a fydd yn rhoi'r union brosesau hynny ar waith i uno gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ag elfennau eraill o'r sector cyhoeddus a'r ystâd gyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r union nod y mae'r Aelod wedi ei ddisgrifio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	Tlodi Tanwydd	Fuel Poverty	
14:05	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd? OAQ(4)0108(NRF)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is working to tackle fuel poverty? OAQ(4)0108(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>We are providing support to households in fuel poverty through our energy efficiency programmes that include Nest and Arbed.</p>	<p>Rydym yn rhoi cymorth i aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd drwy ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni sy'n cynnwys Nyth ac Arbed.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. Minister, the Arbed scheme has helped residents across the Caerphilly borough to reduce their bills. Do you agree with me that this is a great example of working jointly with the EU and that it shows that joint working can benefit all people in Wales?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae cynllun Arbed wedi helpu trigolion ledled bwrdeistref Caerffili i leihau eu biliau. A gytunwch â mi fod hon yn enghraifft wych o gydweithio â'r UE a'i bod yn dangos y gall cydweithio fod o fudd i bawb yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I do agree with the Member's observations. I was in Caerphilly borough not so long ago, in Fochriw, to see for myself the impact of these schemes on individual people, families and communities. Everybody recognises the importance of these individual schemes in alleviating fuel poverty, but also the important role that the European Union has in enabling these schemes to take place at all. Any of those people arguing to change our relationship with the European Union are in fact arguing to make these schemes more difficult for some of the poorest people in this country.</p>	<p>Rwy'n cytuno â sylwadau'r Aelod. Roeddwn ym mwrdeistref Caerffili yn ddiweddar, yn Fochriw, i weld effaith y cynlluniau hyn ar unigolion, teuluoedd a chymunedau drosof fy hun. Mae pawb yn cydnabod pwysigrwydd y cynlluniau unigol hyn o ran lleddfu tlodi tanwydd, ond hefyd y rôl bwysig sydd gan yr Undeb Ewropeaidd o ran galluogi'r cynlluniau hyn i ddigwydd o gwbl. Mae unrhyw un o'r bobl hynny sy'n dadlau o blaid newid ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd mewn gwirionedd yn dadlau o blaid gwneud y cynlluniau hyn yn anoddach i rai o'r bobl dlotaf yn y wlad hon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:06

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Although schemes such as Flintshire's affordable warmth scheme and Denbighshire's fuel poverty action plan are welcomed—and both are newly launched, as I am sure you are aware—we heard at this lunch time's meeting of the cross-party group on older people and ageing, chaired by your colleague Mike Hedges, that older people are still unaware often of the help available and lack support in key areas, where Arbed and Nest will only ever reach 1% to 2% of fuel poor households in Wales annually. How, therefore, do you respond to the calls that were made at that meeting today for the restoration of the fuel poverty ministerial advisory group in Wales, alongside those elsewhere, and for the Welsh Government to raise its fuel poverty game beyond Arbed and Nest, welcome though they are?

Er bod cynlluniau fel cynllun cynhesrwydd fforddiadwy Sir y Fflint a chynllun gweithredu Sir Ddinbych ar dlodi tanwydd yn cael eu croesawu—ac mae'r ddau newydd gael eu lansio, fel y gwyddoch rwy'n siŵr—clywsom yn y cyfarfod amser cinio heddiw o'r grŵp trawsbleidiol ar bobl hŷn a heneiddio, a gadeiriwyd gan eich cyd-Aelod Mike Hedges, nad yw pobl hŷn yn aml yn ymwybodol o hyd o'r cymorth sydd ar gael a bod diffyg cefnogaeth mewn meysydd allweddol, ac mai dim ond 1% i 2% o aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd yng Nghymru y bydd Arbed a Nyth yn eu cyrraedd bob blwyddyn. Sut, felly, yr ydych yn ymateb i'r galw a gafwyd yn y cyfarfod heddiw am adfer y grŵp cynghori gweinidogion ar dlodi tanwydd yng Nghymru, ochr yn ochr â rhai mewn mannau eraill, ac i Lywodraeth Cymru godi ei gêm tlodi tanwydd y tu hwnt i Arbed a Nyth, ni waeth faint o groeso a gânt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will say to the Member that you do not solve people's problems by forming groups on every occasion. The group that he has referred to has not been disbanded, but has been folded into a much wider group of people who are looking at tackling poverty in its totality. We believe that that holistic approach is the best one to take. However, I take seriously the point that he made about access to these schemes. As we redesign these schemes to fit in with the new round of European programming, that is exactly one of the issues that I feel that we need to address to ensure that people who can benefit from these schemes are able to do so, and have the knowledge of the schemes and information about those schemes to enable them to take full advantage of their access to those programmes.

Dywedaf wrth yr Aelod nad ydych yn datrys problemau pobl drwy ffurfio grwpiau ar bob achlysur. Nid oedd y grŵp y cyfeiriodd ato wedi cael ei ddiddymu, yn hytrach, mae wedi cael ei blygu i mewn i grŵp llawer ehangach o bobl sy'n edrych ar fynd i'r afael â thlodi yn ei gyfanrwydd. Credwn mai dull gweithredu cyfannol yw'r un gorau i'w gymryd. Fodd bynnag, cymeraf y pwynt a wnaeth am hygyrchedd y cynlluniau hyn o ddifrif. Wrth inni ail-lunio'r cynlluniau hyn i gyd-fynd â'r cylch newydd o raglenni Ewropeaidd, dyna yn union un o'r materion yr wyf yn teimlo bod angen inni roi sylw iddo er mwyn sicrhau bod pobl a all gael budd o'r cynlluniau hyn yn gallu gwneud hynny, a bod ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth am y cynlluniau hynny er mwyn eu galluogi i fanteisio'n llawn ar y rhaglenni hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you know, the LivingWise Cardiff pilot project was set up to change the energy and water consumption habits of households there. Are you able to report yet on any progress, and are there any plans to set up schemes such as that in my region?

Weinidog, fel y gwyddoch, sefydlwyd y prosiect peilot BywCraff Caerdydd i newid arferion defnyddio ynni a dŵr cartrefi yno. A allwch adrodd ar unrhyw gynnydd eto, ac a oes unrhyw fwriad i sefydlu cynlluniau fel yr un yn fy rhanbarth i?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am unaware of any plans to establish any similar schemes in the South Wales East electoral region. If I am wrong on this fact, I will write to Members.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fwriad i sefydlu unrhyw gynlluniau tebyg yn rhanbarth etholiadol y de-ddwyrain. Os wyf yn anghywir ynghylch hyn, byddaf yn ysgrifennu at Aelodau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Targedau Newydd yr UE ar Allyriadau

The New EU Emissions Targets

14:08

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. Pa effaith y bydd targedau newydd yr UE ar allyriadau yn eu cael ar rôl Cymru o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)0117(NRF)

11. What impact will the new EU emissions targets have on Wales's role in combating climate change? OAQ(4)0117(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:08 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The new European emissions target provides further long-term certainty for all sectors in Wales around decarbonisation and underlines the need to build on our progress and realise the opportunities presented by climate change.
- Mae'r targed Ewropeaidd newydd ar allyriadau yn rhoi sicrwydd hirdymor pellach ar gyfer pob sector yng Nghymru ynghylch datgarboneiddio ac mae'n tanlinellu'r angen i adeiladu ar ein cynnydd a gwireddu'r cyfleoedd a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd.
- 14:08 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If the EU is to increase its target for renewables to 27% across the EU, what does that mean for the renewables sector in Wales? Is this a business opportunity for us, or are we not going to be able to make a bigger contribution to that? I note that, even if all of the 70-odd applications that are pending are approved, it will still only enable us to generate 10% of our 2025 target.
- Os bydd yr UE yn cynyddu ei darged ar gyfer ynni adnewyddadwy i 27% ar draws yr UE, beth mae hynny'n ei olygu i'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru? A yw hwn yn gyfle busnes inni, neu oni allwn wneud mwy o gyfraniad at hynny? Nodaf, hyd yn oed os caiff pob un o'r tua 70 o geisiadau sydd yn yr arfaeth eu cymeradwyo, mai dim ond 10% o'n targed ar gyfer 2025 y bydd hynny'n ein galluogi i'w gyflawni.
- 14:09 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member is aware, of course, that there are no specific targets for member states in the new set of European targets that have been established. However, I can say that this Government is very ambitious with regard to renewables. We have debated and discussed on a number of occasions—as we did, I think, last week—the way in which we wish to see growth being driven in renewable energy generation in Wales. I gave Members an undertaking last week that we will be publishing the delivery plan for 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' before the end of this term, and I can repeat that commitment this afternoon. As part of that delivery plan, Members will understand how this Government is driving forward the potential for renewables in Wales.
- Bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, nad oes unrhyw dargedau penodol ar gyfer aelod-wladwriaethau yn y gyfres newydd o dargedau Ewropeaidd a bennwyd. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod y Llywodraeth hon yn uchelgeisiol iawn o ran ynni adnewyddadwy. Rydym wedi dadlau a thrafod ar sawl achlysur—fel y gwnaethom yr wythnos diwethaf credaf—sut rydym yn dymuno gweld prosesau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael eu datblygu yng Nghymru. Addewais i'r Aelodau yr wythnos diwethaf y byddwn yn cyhoeddi'r cynllun cyflawni ar gyfer 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' cyn diwedd y tymor hwn, a gallaf ailadrodd yr ymrwymiad hwnnw y prynhawn yma. Fel rhan o'r cynllun cyflawni hwnnw, bydd Aelodau'n deall sut y mae'r Llywodraeth hon yn hyrwyddo potensial ynni adnewyddadwy yng Nghymru.
- 14:09 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there has always been a concern when discussing climate change in Wales that there are limited data sets for monitoring and assessing Wales's emissions. Further information on climate change targets and progress against those targets has finally been published today, but we are still missing vital baseline data, which is very clear from the technical annex that you published today. As an example, the Nest and Arbed programmes, which promote energy-efficient home improvements, have no measurement of the carbon emissions of the buildings before the energy efficiency measures were put in place. So, there was no baseline assessment of the policy impact. Given the importance of—
- Weinidog, mae bob amser wedi bod yn destun pryder wrth drafod newid yn yr hinsawdd yng Nghymru mai setiau data cyfyngedig a geir ar gyfer monitro ac asesu allyriadau Cymru. Cyhoeddwyd rhagor o wybodaeth am dargedau a chynnydd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd yn erbyn y targedau hynny o'r diwedd heddiw, ond mae data sylfaenol hanfodol ar goll o hyd, sy'n glir iawn o'r atodiad technegol a gyhoeddwyd gennych heddiw. Er enghraifft, nid oes gan raglenni Nyth ac Arbed, sy'n hyrwyddo gwelliannau i wneud cartrefi'n fwy ynni-ffeithlon, unrhyw fesur o allyriadau carbon yr adeiladau cyn i'r mesurau effeithlonrwydd ynni gael eu gweithredu. Felly, nid oedd unrhyw asesiad sylfaenol o effaith y polisi. O ystyried pwysigrwydd—
- 14:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Are you coming to the question? A ydych yn dod at y cwestiwn?
- 14:10 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, will you ensure that data published are policy relevant, and that the data and information available are effective? Where you do not have baseline data, will you get those? Weinidog, a wnewch chi sicrhau bod y data a gyhoeddwyd yn berthnasol i'r polisi, a bod y data a'r wybodaeth sydd ar gael yn effeithiol? Lle nad oes gennych ddata sylfaenol, a fyddwch yn eu ceisio?

14:10

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I published information for Members before Christmas following a question from Jocelyn Davies last November on some of the matters that the Member has raised. I will say this in terms of Nest and Arbed: these are schemes that are carried out not in public buildings, but in people's homes. Therefore, we need to be aware of the intrusion into people's homes that some of these surveys can demand. Therefore, we are very careful about ensuring that we have the data that are available and that are necessary, but we do so in a less intrusive manner. If the Member reads the documentation published before Christmas, she will see a considerable dataset there on the impact of Nest and Arbed.

Cyhoeddais wybodaeth i'r Aelodau cyn y Nadolig yn dilyn cwestiwn gan Jocelyn Davies fis Tachwedd diwethaf ar rai o'r materion y mae'r Aelod wedi eu codi. Dywedaf hyn o ran Nyth ac Arbed: mae'r rhain yn gynlluniau sy'n cael eu cynnal yng nghartrefi pobl, nid mewn adeiladau cyhoeddus. Felly, mae angen inni fod yn ymwybodol o'r ymyrraeth sy'n ofynnol ar gyfer rhai o'r arolygon hyn yng nghartrefi pobl. Felly, rydym yn ofalus iawn ynghylch sicrhau bod gennym y data sydd ar gael ac sydd eu hangen, ond gwnawn hynny mewn modd llai ymwithiol. Os bydd yr Aelod yn darllen y dogfennau a gyhoeddwyd cyn y Nadolig, bydd yn gweld bod set ddata sylweddol yno ar effaith Nyth ac Arbed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Anifeiliaid Byw mewn Arbrofion

Experiments using Live Animals

14:11

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ynglyn â'r defnydd o anifeiliaid byw mewn arbrofion? OAQ(4)0112(NRF)

12. Will the Welsh Government provide an update on its discussions with the Home Office regarding the use of live animals in experiments? OAQ(4)0112(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is not a devolved issue, but nevertheless I have been kept informed. I welcome the UK Government's commitment to work to reduce the use of animals in scientific research, to replace these animals with alternatives where possible and to refine experiments to minimise suffering.

Nid yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond serch hynny rwyf wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf. Croesawaf ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithio i leihau'r defnydd o anifeiliaid mewn ymchwil wyddonol, i ddefnyddio dewisiadau amgen yn lle'r anifeiliaid hyn lle bo hynny'n bosibl ac i fireinio arbrofion er mwyn lleihau dioddefaint.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In 2012, the number of live animals used in experiments increased by 8% on the previous year, which was, in turn, a 14% increase on 2010. We know that many of these experiments are simply unnecessary and raise significant animal welfare issues. I have raised this in the Chamber before, but I would welcome a renewed commitment from the Welsh Government to press the Home Office to change the guidelines to eliminate the unnecessary suffering that these horrific procedures cause. Minister, can you provide that assurance?

Yn 2012, gwelwyd cynnydd o 8% yn nifer yr anifeiliaid byw a ddefnyddir mewn arbrofion o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd, yn ei dro yn gynnydd o 14% o gymharu â 2010. Gwyddom fod llawer o'r arbrofion hyn yn ddiangen ac yn codi materion pwysig mewn perthynas â lles anifeiliaid. Rwyf wedi codi hyn yn y Siambr o'r blaen, ond byddwn yn croesawu ymrwymiad o'r newydd gan Lywodraeth Cymru i bwysu ar y Swyddfa Gartref i newid y canllawiau i ddileu'r dioddefaint diangen a achosir gan y gweithdrefnau erchyll hyn. Weinidog, a allwch roi'r sicrwydd hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope that I can wherever possible. As the Member is aware, these are not devolved matters. My predecessor wrote to the Home Secretary about animal experimentation, and the Home Secretary has kept us informed of the proposals that the Home Office is making. The proposals centre on reducing, refining and replacing animals in experiments, and we fully support the Home Office in those endeavours.

Rwy'n gobeithio y gallaf ble bynnag y bo'n bosibl. Fel mae'r Aelod yn ymwybodol, nid yw'r rhain yn faterion datganoledig. Ysgrifennodd fy rhagflaenydd at yr Ysgrifennydd Cartref ynghylch arbrofi ar anifeiliaid, ac mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynigion y mae'r Swyddfa Gartref yn eu gwneud. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar leihau, mireinio a disodli anifeiliaid mewn arbrofion, ac rydym yn llwyr gefnogi'r Swyddfa Gartref yn yr ymdrechion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cronfa Natur

Nature Fund

14:13 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
13. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ba gynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwerthuso a gweithredu'r Gronfa Natur? OAQ(4)0109(NRF)
13. Will the Minister update the Assembly on what progress is being made with the evaluation and implementation of the Nature Fund? OAQ(4)0109(NRF)

14:13 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
We have completed a call for ideas, supported by a series of workshops and meetings across Wales, to inform the development of the fund. We received over 460 ideas from a wide range of interests and which we are now analysing. We will soon begin allocating funds.
Rydym wedi cwblhau galwad am syniadau, a gefnogir gan gyfres o weithdai a chyfarfodydd ledled Cymru, er mwyn llywio'r broses o ddatblygu'r gronfa. Cawsom dros 460 o syniadau o ystod eang o ddiddordebau ac rydym wrthi'n eu dadansoddi. Cyn hir, byddwn yn dechrau dyrannu cyllid.

14:13 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that. Minister, I would be grateful if you could give an indication of timescales as I have been approached by a number of organisations that have put forward ideas. We understand that it is not a bidding concept, but a lot of organisations came up with brand new proposals that they felt would enhance the work that they currently undertake. With the new financial year looming, they are wondering whether or not they will be able to push the 'go' button and perhaps take on people, or even retain people and move them into new projects.
Diolch ichi am hynny. Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi syniad o amserlenni gan fod nifer o sefydliadau sydd wedi cyflwyno syniadau wedi cysylltu â mi. Rydym yn deall nad cysyniad o gyflwyno ceisiadau ydyw, ond cyflwynodd llawer o sefydliadau gynigion newydd sbon yr oeddent o'r farn fyddai gwella'r gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Â'r flwyddyn ariannol newydd ar y gorwel, maent yn meddwl tybed a fydd modd iddynt fynd amdani a chyflogi mwy o bobl, neu hyd yn oed gadw pobl a'u symud i mewn i brosiectau newydd.

14:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I sympathise greatly with people in the situation that the Member has described. I will make a statement on this matter next month to update Members on how we will be taking this fund forward. It is a very new and innovative way of working. It was announced last summer and we have tried to expediate the process while ensuring that we are able to maintain a good audit trail for the use of public funds, but, at the same time, trusting people to know their land better than we know their land. It is also about trusting people to work to deliver the biodiversity objectives and other sustainable land management objectives that we wish to see. I recognise that people want us to move forward with this. I have discussed this with officials today, as it happens, and we have agreed that we will make a statement on how we will progress these matters next month.
Cydyndeimlaf yn fawr â phobl yn y sefyllfa y mae'r Aelod wedi ei disgrifio. Byddaf yn gwneud datganiad ar y mater hwn fis nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar sut y byddwn yn datblygu'r gronfa hon. Mae'n ffordd hynod newydd ac arloesol o weithio. Fe'i cyhoeddwyd yr haf diwethaf, ac rydym wedi ceisio cyflymu'r broses tra'n sicrhau ein bod yn gallu cynnal trywydd archwilio da ar gyfer y defnydd o arian cyhoeddus, ond, ar yr un pryd, ymddiried bod pobl yn adnabod eu tir yn well nag yr ydym ni'n adnabod eu tir. Mae hefyd yn ymwneud â rhoi ffydd mewn pobl i weithio i gyflawni'r amcanion bioamrywiaeth ac amcanion rheoli tir cynaliadwy eraill yr ydym am eu gweld. Rwy'n cydnabod bod pobl am inni symud ymlaen gyda hyn. Rwyf wedi trafod hyn gyda swyddogion heddiw, fel mae'n digwydd, ac rydym wedi cytuno y byddwn yn gwneud datganiad ar y ffordd y byddwn yn datblygu'r materion hyn fis nesaf.

Cynlluniau Trydan Dŵr

14:14 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
14. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynglyn â chefnogi cynlluniau trydan dŵr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0111(NRF)
14. What discussions has the Minister held regarding the support of hydro-electric plans in Mid and West Wales? OAQ(4)0111(NRF)

14:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I regularly meet with members of the British Hydropower Association when we discuss issues around promoting more hydropower development in Wales, and in particular, working to remove barriers to development. I last met with BHA in October and am due to meet it again in April.
Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau o Gymdeithas Ynni Dŵr Prydain pan fyddwn yn trafod materion yn ymwneud â hyrwyddo mwy o ddatblygiad ynni dŵr yng Nghymru, ac yn benodol, gweithio i gael gwared ar ffactorau sy'n rhwystro datblygiad. Cyfarfûm ddiwethaf â Chymdeithas Ynni Dŵr Prydain ym mis Hydref a byddwn yn cyfarfod eto ym mis Ebrill.

14:15 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am yr ateb, Weinidog. Rydych yn gwybod fy mod i ac Aelodau eraill wedi codi hwn sawl gwaith yn y gorffennol, ac wythnos diwethaf bues i yn Aberhonddu yn trafod gyda nifer o bobl sydd yn dal i deimlo'n rhwystredig iawn nad yw'n ddigon rhydd i sefydlu cynhyrchu micro-hydro yn y nentydd a'r afonydd oddi ar yr ucheldiroedd. Beth bynnag yr ydym yn ei gwneud cyn bod y dŵr yn ein cyrraedd, mae'n bendant bod pŵer yn y nentydd hynny sydd yn gallu cael ei droi at ddefnydd ffermwyr ag ati. A ydych yn fodlon yn awr bod systemau yn eu lle yn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwneud hyn mor rhydd ag sydd yn bosibl?

Thank you for that response, Minister. You know that I and other Members have raised this issue on a number of occasions in the past, and, last week, I visited Brecon and spoke to many people who still feel very frustrated that it is not sufficiently easy to establish micro-hydro generation on our streams and rivers flowing from the uplands. Whatever we do before the water arrives downstream, there is certainly power in those streams that can be turned into electricity. Are you now content that the systems are in place with Natural Resources Wales to make this as easy as possible?

14:15 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Buaswn wedi dweud 'ie' cyn i'r Aelod gofyn y cwestiwn. Os oes gan bobl ac Aelodau eraill yr un fath o brofiad â'r un yr ydych wedi ei disgrifio, byddaf yn ddiolchgar pe baech yn ysgrifennu ataf, gan ddisgrifio'r math o 'barriers' yn union y mae pobl yn eu hwynebu. Rwyf yn cytuno â chi'n llwyr: mae'n rhaid i ni ddatrys y problemau y mae pobl yn eu hwynebu. Mae hyn yn mynd i fod yn rhan allweddol o sut yr wyf yn gweld y RDP yn symud ymlaen o ran y RDP nesaf, a liciwn sicrhau bod pobl yn cael eu galluogi i wneud hynny ac nad ydynt yn wynebu problem ar ôl problem wrth wneud hynny.

I would have said 'yes' before the Member asked the question. If people and other Members have the same kind of experience that you have just described, I would be grateful if you could write to me, describing exactly the kind of barriers that people face. I agree with you entirely: we need to resolve those problems that people are facing. This is going to be a key part of how I see the RDP moving forward in terms of the next RDP, and I would like to ensure that people can do this and that they do not face problem after problem in doing that.

Dyfodol Ffermio

Future of Farming

14:16 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol ffermio ar rostiroedd Brycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0118(NRF)

15. Will the Minister make a statement on the future of farming in the moorlands of Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0118(NRF)

14:16 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Farming in the uplands and moorlands continues to be a priority for the economic, environmental and social fabric of Wales. The review of the resilience of Welsh farming has made a number of recommendations for support, which I will deliver.

Mae ffermio yn yr ucheldiroedd a rhostiroedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i adeiladwaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Mae'r adolygiad o wydnwch ffermio yng Nghymru wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer cymorth, a byddaf yn eu cyflawni.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:16.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:16.

14:16 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I know that the secretary of the Elan Valley Trust tenants' association has written to the Minister on behalf of the 28 farms in the Elan valley, outlining their concerns about how your decision on CAP pillar 1 and pillar 2 payments will affect their businesses. To date, you have said that the answer to their problems is Glastir, but, of course, Glastir is not an alternative to pillar 1 payments. It replaced the old Tir Gofal scheme, which many of them were in. Is it your intention that any plans announced under the RDP and pillar 2 consultation next week will match the gap in funding that has been created by your decisions over pillar 1?

Gwn fod ysgrifennydd cymdeithas tenantiaid Ymddiriedolaeth Cwm Elan wedi ysgrifennu at y Gweinidog ar ran y 28 o ffermydd yng nghwm Elan, yn amlinellu eu pryderon ynghylch sut y bydd eich penderfyniad ar daliadau piler 1 a philer 2 PAC yn effeithio ar eu busnesau. Hyd yma, rydych wedi dweud mai Glastir yw'r ateb i'w problemau, ond, wrth gwrs, nid yw Glastir yn ddevis amgen i daliadau piler 1. Disodlodd yr hen gynllun Tir Gofal, yr oedd llawer ohonynt yn rhan ohono. Ai eich bwriad yw y bydd unrhyw gynlluniau a gyhoeddir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig ac ymgynghoriad piler 2 yr wythnos nesaf yn cyfateb i'r bwch yn y cyllid a grëwyd gan eich penderfyniadau ynghylch piler 1?

14:17 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gaps in funding are not simply a function of public support. They are a function of the businesses affected, and the Member will know, living on a farm herself, that farms are very different and will face different elements of profitability, shall we say? We know that, for upland sheep and cattle farms, there is a 42% difference between the average of the best performing farms in terms of agricultural output and the average for the sector as a whole. Our plans are designed to bridge that gap and to make those farms resilient businesses, and we will continue to do that. I am more than happy to meet the Member's constituents.

Mae bylchau mewn cyllid yn dangos mwy na dim ond cefnogaeth y cyhoedd. Maent yn dangos y busnesau yr effeithir arnynt, a gŵyr yr Aelod, gan ei bod yn byw ar fferm ei hun, fod ffermydd yn wahanol iawn ac y byddant yn wynebu elfennau gwahanol o broffidioldeb, fel petai. Gwyddom, ar gyfer ffermydd defaid a gwartheg yr ucheldir, bod 42% o wahaniaeth rhwng ffermydd cyfartalog sy'n perfformio orau o ran allbwn amaethyddol a'r cyfartaledd ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd. Cynlluniwyd ein cynlluniau i bontio'r bwlch hwnnw ac i wneud y ffermydd hynny yn fusnesau gwydn, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rwy'n fwy na pharod i gwrdd ag etholwyr yr Aelod.

14:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Minister. Diolch, Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Cynlluniau Datblygu Lleol

Questions to the Minister for Housing and Regeneration

Local Development Plans

14:18 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol ledled Cymru o ran llunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol? OAQ(4)0349(HR)

1. What progress is being made by local authorities across Wales in producing their Local Development Plans? OAQ(4)0349(HR)

14:18 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I thank the Member for Aberavon for his question. There are currently 13 adopted LDPs in Wales, 54% of the 24 expected. Diolchaf i'r Aelod dros Aberafan am ei gwestiwn. Mae 13 CDLI wedi'u mabwysiadu yng Nghymru ar hyn o bryd, 54% o'r 24 a ddisgwyliwyd.

14:18 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for that answer, Minister. I have written to you previously seeking clarity on the balance regarding the involvement of the LDPs with the urban and Valleys or rural communities within them. In light of the Williams commission report, is the Welsh Government reviewing its guidance on LDP development to local authorities, particularly those who have not yet submitted theirs, such as my own, to ensure that they are complementary to each other in that balance but also that they are sustainable, post-Williams, if any changes occur to local authorities?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf wedi ysgrifennu atoch yn flaenorol yn ceisio eglurder ar y cydbwysedd o ran ymwneud y CDLLau â'r cymunedau trefol a'r Cymoedd neu'r cymunedau gwledig oddi mewn iddynt. Yng ngoleuni adroddiad comisiwn Williams, a yw Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chanllawiau ar ddatblygu CDLLau i awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi cyflwyno eu rhai hwy eto, fel fy awdurdod i fy hun, er mwyn sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd yn y cydbwysedd hwnnw, ond hefyd eu bod yn gynaliadwy, ôl-Williams, os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd i awdurdodau lleol?

14:19 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The guidance on the LDP process was issued in 2005. I think that it was futureproofed in its process. I do not think that Williams has any bearing at all on the LDP process, and I would expect local authorities to continue to pursue that with vigour to have them delivered as soon as possible. Cyhoeddwyd y canllawiau ar y broses CDLI yn 2005. Credaf iddynt gael eu diogelu ar gyfer y dyfodol yn ystod y broses. Ni chredaf fod gan Williams unrhyw ddylanwad ar y broses CDLI, a byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i fynd ar drywydd hynny yn egniol er mwyn eu cyflawni cyn gynted ag y bo modd.

- 14:19 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you talk about the proposals being futureproofed, but here we are, a number of years down the line from the guidance being issued, and, as David Rees has alluded to, we still do not have LDPs in, I think, around half of the authorities in Wales—it is certainly a large number of them. There is uncertainty at the moment about the structure of local government. There is also the suggestion that regional partnerships in planning will be included as part of the Government's planning Bill. How are you going to ensure that there is a real incentive for those local authorities that have not adopted LDPs to get on with the job and do it as quickly as possible?
- Weinidog, soniwch am y cynigion yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol, ond dyma ni, sawl blwyddyn ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, ac, fel y crybwyllodd David Rees, nid yw tua hanner yr awdurdodau yng Nghymru, fe gredaf, wedi cyflwyno CDLlau—yn sicr nid yw nifer fawr ohonynt wedi gwneud. Mae ansicrwydd ar hyn o bryd am strwythur llywodraeth leol. Ceir awgrym hefyd y caiff partneriaethau rhanbarthol sy'n cael eu cynllunio eu cynnwys fel rhan o Fil cynllunio'r Llywodraeth. Sut rydych yn mynd i sicrhau bod cymhelliant gwirioneddol i'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt wedi mabwysiadu CDLlau fwrw ati a gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd?
- 14:19 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his question. As I said, 54% have completed their LDP processes. Gwynedd and Anglesey councils are currently preparing their joint plan; Monmouthshire council is in the advanced stages of delivery and two are subject to further public examination. We are well in advance of delivering LDPs. I do share the Member's frustration about progress and I am urging them to continue this as soon as possible. However, I do not believe that the Williams report is a smokescreen for not delivering any LDP in the future.
- Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Fel y dywedais, mae 54% wedi cwblhau eu prosesau CDLI. Ar hyn o bryd mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn wrthi'n paratoi eu cynllun ar y cyd; mae cyngor Sir Fynwy bron wedi'i gyflawni ac mae dau yn destun ymchwiliad cyhoeddus arall. Mae'r broses o gyflawni CDLlau yn mynd rhagddi'n dda. Rhannaf rwystredigaeth yr Aelod ynghylch cynnydd ac rwy'n eu hannog i barhau â'r gwaith cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, ni chredaf fod adroddiad Williams yn esgus i beidio â chyflwyno unrhyw CDLlau yn y dyfodol.
- 14:20 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the issues that has been holding back many of the local development plans is the whole issue of the housing projections, which we have raised and discussed with you previously. I was wondering, Minister, whether you could give us an indication as to whether the Government would be open to perhaps revisiting how those projections are currently arrived at?
- Un o'r materion sydd wedi bod yn rhwystro llawer o'r cynlluniau datblygu lleol yw mater yr amcanestyniadau tai, yr ydym wedi'i godi a'i drafod â chi o'r blaen. Roeddwn yn tybio, Weinidog, a allech nodi a fyddai'r Llywodraeth yn barod i ailystyried sut y pennir yr amcanestyniadau hynny ar hyn o bryd efallai?
- 14:20 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, we are in the middle of launching the new planning Bill. I want a planning system that is fit for the future. If the Member has any further ideas that he wishes to share with me on that particular issue, I would welcome his approach via a letter or a meeting in the future.
- Wel, wrth gwrs, rydym yn y broses o lansio'r Bil cynllunio newydd. Rwyf am gael system gynllunio sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Os oes gan yr Aelod unrhyw syniadau pellach y mae'n dymuno eu rhannu â mi ar y mater penodol hwnnw, byddwn yn croesawu hynny drwy gyfrwng llythyr neu gyfarfod yn y dyfodol.
- 14:21 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the difference between those housing need projections and the population projections seems to be causing problems in some local authorities. You will be aware that, in the Vale of Glamorgan, this means that the local authority has planned for 9,950 new homes for just 6,000 new residents. Despite the fact that this is 1.65 homes per new resident, you have written to the Vale of Glamorgan council to say that that it is not enough according to your unpublished 2011 housing need projections. Will you publish those 2011 projections, so that we can all see why you believe this to be the case?
- Weinidog, ymddengys fod y gwahaniaeth rhwng yr amcanestyniadau hynny o anghenion tai a'r amcanestyniadau poblogaeth yn achosi problemau mewn rhai awdurdodau lleol. Byddwch yn ymwybodol, ym Mro Morgannwg, fod hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol wedi cynllunio ar gyfer 9,950 o gartrefi newydd ar gyfer dim ond 6,000 o breswylwyr newydd. Er mai 1.65 o gartrefi fesul preswyllydd newydd yw hyn, rydych wedi ysgrifennu at gyngor Bro Morgannwg i ddweud nad yw'n ddigon yn ôl eich amcanestyniadau o anghenion tai yn 2011 nas cyhoeddwyd. A wnewch chi gyhoeddi amcanestyniadau 2011, fel y gall pob un ohonom weld pam mai felly y mae yn eich barn chi?

14:21	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The projections for authorities are available and, as you will be aware, I am not able to comment on specific proposals by local authorities. It is a matter for the local authority to develop an LDP, on which I will be making a judgment at a future point.</p>	<p>Mae'r amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau ar gael ac, fel y gwyddoch, ni allaf roi sylwadau ar gynigion penodol gan awdurdodau lleol. Mater i'r awdurdod lleol yw datblygu CDLI, a byddaf yn gwneud dyfarniad ar hynny yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Tai Fforddiadwy		Affordable Housing	
14:21	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0350(HR)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's affordable housing policy? OAQ(4)0350(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for Rhondda for his question. We supply and support a wide range of affordable housing that helps address different housing needs across Wales. This includes social rent for those in greatest need of housing, as well as intermediate rent and low-cost home ownership.</p>	<p>Diolchaf i'r Aelod dros y Rhondda am ei gwestiwn. Rydym yn cyflenwi ac yn cefnogi ystod eang o dai fforddiadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion tai gwahanol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys tai cymdeithasol ar rent ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai, yn ogystal â thai rhent canolradd a pherchentaeth cost isel.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Does the Minister recall that, in the autumn, one volume house builder claimed that it would no longer be building properties north of Pontypridd? Is the Minister aware that, after I wrote to that volume house builder to ask how many properties it had built in the previous 10 years in the Rhondda postcode areas, it replied, 'From internal discussion, output in the specific postcodes that you mentioned does not appear to be high'?</p> <p>Does this not suggest that media organisations, policy makers, and, indeed, the Secretary of State for Wales, should not take the claims of volume house builders at face value?</p>	<p>A yw'r Gweinidog yn cofio, yn yr hydref, am un adeiladwr tai mawr, a honnodd na fyddai mwyach yn adeiladu tai i'r gogledd o Bontypridd? A yw'r Gweinidog yn ymwybodol, ar ôl imi ysgrifennu at yr adeiladwr tai mawr hwnnw i ofyn sawl eiddo yr oedd wedi'i adeiladu dros y 10 mlynedd blaenorol yn ardaloedd cod post y Rhondda, iddo ateb, 'Yn sgil trafodaeth fewnol, nid yw'n ymddangos bod allbwn yn yr ardaloedd codau post penodol a grybwyllwyd gennych yn uchel'?</p> <p>Onid yw hyn yn awgrymu na ddylai sefydliadau cyfryngau, llunwyr polisi, ac, yn wir, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, dderbyn honiadau adeiladwyr tai mawr fel ffaith?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I am very grateful for the Member's comments this afternoon, and I will perhaps take that up further with the developer when I next see it.</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar iawn am sylwadau'r Aelod y prynhawn yma, a byddaf efallai yn trafod hynny ymhellach gyda'r datblygwyr y tro nesaf y byddaf yn ei weld.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I asked you last Assembly term about help to buy—Wales, which, as we know, is a scheme designed to help people to get on to the housing ladder. I pointed out that people are eligible only if they buy new-build homes, and that this would have an adverse impact in rural areas, where there is much less new-build housing available. You said at the time that you would give it further consideration. Have you had an opportunity to consider extending the scheme into rural areas to allow non-new-build housing to be included?</p>	<p>Weinidog, gofynnais ichi yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad ynglŷn â'r cynllun cymorth i brynu—Cymru, sydd fel y gwyddom, yn gynllun a gynlluniwyd i helpu pobl i brynu eu heiddo cyntaf. Cyfeiriais at y ffaith mai dim ond os yw pobl yn prynu cartrefi sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd y maent yn gymwys, ac y byddai hyn yn cael effaith andwyol mewn ardaloedd gwledig, lle mae llai o lawer o gartrefi sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd ar gael. Dywedasoch ar y pryd y byddech yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn. A ydych wedi cael cyfle i ystyried ymestyn y cynllun i ardaloedd gwledig er mwyn cynnwys cartrefi nad ydynt yn rhai sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:22 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for her question. It is a very reasonable question. I have considered that further and I am unable to make further discretion in terms of that process, but that does not prohibit us from having other innovative ideas on making and ensuring that people can access market housing, whether they are in urban or rural economies.

Diolchaf i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae'n gwestiwn rhesymol iawn. Rwyf wedi ystyried hynny ymhellach ac ni allaf ddangos disgresiwn pellach o ran y broses honno, ond nid yw hynny'n ein hatal rhag meddwl am syniadau arloesol eraill am ddarparu tai sydd ar y farchnad agored a sicrhau y gall pobl gael gafael arnynt, p'un a ydynt mewn economïau trefol neu wledig.

14:23 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also agree that we need an urgent announcement on the possibility of extending the help to buy scheme outside of new build, and we have already heard from the Member for Rhondda that building is not happening in some parts of Wales where that scheme may be useful. Will the Minister agree that one good reason to extend the help to buy scheme is in order to recognise that it is important that people should be allowed to live locally and to stay within their own communities?

Rwyf hefyd yn cytuno bod angen inni gyhoeddi ar frys y posibilrwydd o ymestyn y cynllun cymorth i brynu y tu hwnt i gartrefi sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, ac rydym eisoes wedi clywed gan yr Aelod dros y Rhondda nad yw'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo mewn rhai rhannau o Gymru lle y gall y cynllun hwnnw fod yn ddefnyddiol. A wnaiff y Gweinidog gytuno mai un rheswm da dros ymestyn y cynllun cymorth i brynu yw er mwyn cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau y gall pobl fyw yn lleol ac aros yn eu cymunedau eu hunain?

14:24 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I agree with the Member that we should work with all parties to try to give people access to property wherever they live in Wales, whether that is an urban or rural environment. However, I am not convinced by the argument that the help to buy scheme should be extended. I have explained that this is a very positive step that we have introduced as a Welsh Government scheme in Wales. Therefore, already, we have had 150 positive interventions in terms of helping people to access the market. I think that this is a positive scheme and that we should not look to weaken it by any further interventions elsewhere.

Cytunaf â'r Aelod y dylem weithio gyda phob plaid i geisio sicrhau y gall pobl gael gafael ar eiddo lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, p'un a yw hynny'n amgylchedd trefol neu wledig. Fodd bynnag, nid yw'r ddadl y dylid ymestyn y cynllun cymorth i brynu yn fy argyhoeddi. Rwyf wedi egluro bod hwn yn gam cadarnhaol iawn yr ydym wedi'i gyflwyno fel cynllun Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Felly, eisoes, rydym wedi cael 150 o ymyriadau cadarnhaol o ran helpu pobl i gael mynediad i'r farchnad. Credaf fod hwn yn gynllun cadarnhaol ac na ddylem ystyried ei wanhau drwy ymyriadau pellach mewn mannau eraill.

Monitro Cyrff Tai

Monitoring of Housing Bodies

14:25 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. Pa ddulliau monitro sydd ar waith i sicrhau bod cyrff tai yn bodloni canllawiau a gyhoeddir gan eich adran? OAQ(4)0352(HR)

3. What monitoring mechanisms are in place to ensure that housing bodies fulfil guidance issued by your department? OAQ(4)0352(HR)

14:25 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your question. There are a number of ways in which housing bodies are monitored. These include ongoing monitoring processes through professional and practitioner networks, working through groups with specific interests and using tools such as the regulatory framework.

Diolch ichi am eich cwestiwn. Mae nifer o ffyrdd y caiff cyrff tai eu monitro. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau monitro parhaus drwy rwydweithiau proffesiynol ac ymarferwyr, gweithio drwy grwpiau sydd â diddordebau penodol a defnyddio offer megis y fframwaith rheoleiddio.

14:25

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. Minister, there is a huge gap that many constituents fall foul of where you have very strongly defined policies in areas such as housing, planning, enforcement or whatever it may be, and yet local authorities are not implementing them, because they are only guidance. I have asked you this question before, and it seems to fall on the Minister for local government, but I wonder whether, going forward, you could do something to join up and fill in this gap, because constituents, not just in my constituency, I am sure, but all over Wales, are really struggling to come to terms with how to fight issues that arise because they cannot get local authorities to do what your guidance says that they should.

Diolch ichi am hynny. Weinidog, mae bwlch enfawr y mae llawer o etholwyr yn syrthio drwyddo lle mae gennych bolisiau wedi'u diffinio'n gadarn mewn meysydd fel tai, cynllunio, gorfodi neu beth bynnag, ac eto nid yw awdurdodau lleol yn eu gweithredu, gan mai canllawiau yn unig ydynt. Rwyf wedi gofyn y cwestiwn hwn o'r blaen ichi, ac ymddengys mai cyfrifoldeb y Gweinidog Llywodraeth leol ydyw, ond tybed a allech, yn y dyfodol, wneud rhywbeth i bontio a llenwi'r bwlch hwn, oherwydd mae etholwyr, nid yn fy etholaeth i yn unig, mae'n siŵr, ond ledled Cymru, yn cael anhawster mawr i ddeall sut i ymladd yn erbyn materion sy'n codi am na allant gael awdurdodau lleol i wneud yr hyn y dywed eich canllawiau y dylent ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is from a party that believes in removing red tape, and I share the ambition of removing some of the burdens around organisations to make sure that the economy can grow. I would welcome the Member's comments, if there is anything specific that she thinks would help in doing this, while making sure that there are still checks and balances. The balance in terms of burden versus regulation is something that I know that both I and the Minister for local government have a constant view on.

Daw hynny oddi wrth blaid sy'n credu mewn dileu biwrocratiaeth, a rhannaf yr uchelgais i ddileu rhai o'r beichiau sydd ar sefydliadau i sicrhau bod yr economi yn gallu tyfu. Byddwn yn croesawu sylwadau'r Aelod, os oes unrhyw beth penodol a fyddai'n helpu i wneud hyn yn ei barn hi, tra'n sicrhau bod rhwystrau a gwrthbysau ar waith hefyd. Mae gwrthbwyso beichiau yn erbyn rheoleiddio yn rhywbeth yr wyf i a'r Gweinidog Llywodraeth leol yn cadw golwg cyson arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you mentioned, you are, in fact, the regulator for housing bodies and, of course, fulfilling guidance is a desired outcome within that regime. You will know that the interim evaluation of the Welsh Government's regulatory function was very disappointing in that the shift from co-regulation was undermining key elements of the framework. What have you done to reverse this very worrying trend?

Weinidog, fel y gwnaethoch sôn, chi mewn gwirionedd yw'r rheoleiddiwr ar gyfer cyrff tai ac, wrth gwrs, mae cyflawni canllawiau yn ganlyniad a ddymunir o fewn y drefn honno. Byddwch yn gwybod mai siomedig iawn oedd y gwerthusiad interim o swyddogaeth reoleiddio Llywodraeth Cymru yn yr ystyr bod y newid o gyd-reoleiddio yn tansellio elfennau allweddol y fframwaith. Beth ydych wedi ei wneud i wrthdroi'r duedd hon sy'n peri llawer o bryder?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have had discussions with registered social landlords and local authorities about risk-based regulation and seeing how we can best monitor the progression of opportunities for RSLs. The Member will be aware from her previous role as Deputy Minister for housing that this is always a challenging process, but it is something that we continue to strive to make better.

Rydym wedi cael trafodaethau gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol ynghylch rheoleiddio yn seiliedig ar risg a gweld beth yw'r ffordd orau o fonitro datblygiad cyfleoedd ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'i rôl flaenorol fel y Dirprwy Weinidog dros dai fod hon yn broses heriol bob amser, ond mae'n rhywbeth yr ydym yn parhau i ymdrechu i'w wneud yn well.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it was a challenge; that is why we set up a new regime. The interim report also found that there was very little evidence that best practice was being shared across the sector through you as the regulator. Will you tell us why there has been a failure within the Welsh Government to get the best out of this sector?

Ie, roedd yn her; dyna pam y sefydlwyd trefn newydd gennym. Canfu'r adroddiad interim hefyd mai prin iawn oedd y dystiolaeth fod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws y sector drwoch chi fel y rheoleiddiwr. A wnewch chi ddweud wrthym pam mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chael y gorau allan o'r sector hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, the Member might have been able to answer that when she was the Deputy Minister for housing. The fact of the matter is that we are working with the sector to develop better ways of operation. However, you are absolutely right, best practice does not travel well, whether in Wales or elsewhere in the UK. We have to make sure that, where we are doing things well, we share that, and we have bodies around the department that will look at making sure that we can share opportunities when they come to light.</p>	<p>Wel, efallai y gallai'r Aelod fod wedi ateb hynny pan oedd yn Ddiprwy Weinidog dros dai. Y gwir yw ein bod yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu ffyrdd gwell o weithredu. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle, nid yw arfer gorau yn teithio'n dda, boed hynny yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DU. Rhaid inni sicrhau, pan fyddwn yn gwneud pethau'n dda, ein bod yn rhannu hynny, ac mae gennym swyddogion yn yr adran a fydd yn sicrhau y gallwn rannu cyfleoedd pan ddônt i'r golwg.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Adfywio yng Ngorllewin Cymru</p>		<p>Regeneration in West Wales</p>	
14:28	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i adfywio yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0342(HR)</i></p>	<p><i>4. Will the Minister make a statement on regeneration efforts in west Wales? OAQ(4)0342(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:28	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for your question. We are supporting each local authority across Wales to bring forward its regeneration priorities. Our efforts are continuing in both the western Valleys and Aberystwyth regeneration areas.</p>	<p>Diolch ichi am eich cwestiwn. Rydym yn cefnogi pob awdurdod lleol ledled Cymru i gyflwyno ei flaenoriaethau adfywio. Mae ein hymdrechion yn parhau yn ardaloedd adfywio Cymoedd y gorllewin ac Aberystwyth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:28	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, as I am sure that you will appreciate, town centres across Pembrokeshire are very much in need of support. Given that the Enterprise and Business Committee's report on town-centre regeneration was published over two years ago, in which the committee made 21 recommendations, can you tell us which recommendations have now been fully implemented by the Government and what direct effects can be seen on high streets in my constituency?</p>	<p>Weinidog, fel rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi, mae gwir angen cymorth ar ganolfannau trefi ym mhob rhan o Sir Benfro. O ystyried bod adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi wedi'i gyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl, lle y gwnaeth y pwyllgor 21 o argymhellion, a allwch ddweud wrthym pa argymhellion sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn gan y Llywodraeth bellach a pha effeithiau uniongyrchol y gellir eu gweld ar bob stryd fawr yn fy etholaeth i?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:29	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>We are seeing a progression of regeneration across the whole length and breadth of Wales in terms of the opportunities that we have been involved in with local authorities. I am happy to write to the Member with details in answer to the question that he put, but what I am very keen to do is ensure that we get best value. Unfortunately, the area that the Member represents was not successful in obtaining Vibrant and Viable Places funding, but that was down the strength of its bid.</p>	<p>Rydym yn gweld cynnydd o ran adfywio ar hyd a lled Cymru o ran y cyfleoedd yr ydym wedi ymwneud â hwy gydag awdurdodau lleol. Rwy'n fodlon ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion i ateb y cwestiwn a ofynnwyd ganddo, ond yr hyn yr wyf yn awyddus iawn i'w wneud yw sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau. Yn anffodus, ni lwyddodd yr ardal y mae'r Aelod yn ei chynrychioli i gael cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ond cryfder ei chais fu'n gyfrifol am hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Tai Amlfeddiannaeth</p>		<p>Houses in Multiple Occupation</p>	
14:29	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p><i>5. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i reoli lledaenu arwyddion gosod mewn ardaloedd o dai amlfeddiannaeth dwysedd uchel? OAQ(4)0344(HR)</i></p>	<p><i>5. What plans does the Minister have to control the spread of letting signs in areas of high density HMOs? OAQ(4)0344(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:29 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Town and Country Planning (Control of Advertisements) Regulations 1992 already make provision for the control of estate agents' boards on residential properties.
- Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli byrddau gwerthwyr tai ar eiddo preswyl.
- 14:29 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I receive a large number of complaints from constituents who live in areas of high-density HMOs, as they are called, regarding letting agents who have 'To let' signs—or much worse signs than that—up on their properties all year round. This causes a serious lack of amenity in the local area for other residents. Will the Minister welcome the move by the City and County of Swansea in introducing a voluntary code of practice concerning the display of these signs, which limits their number, size and position on the property, as well as the amount of time for which they can be displayed? Would he further consider giving the council the statutory powers to enforce such a scheme?
- Diolch, Weinidog. Caf nifer fawr o gwynion gan etholwyr sy'n byw mewn ardaloedd o dai amlfeddiannaeth dwysedd uchel, fel y'u gelwir, o ran asiantau gosod sydd ag arwyddion 'I'w osod'—neu arwyddion gwaeth na hynny—ar eu heiddo drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn achosi diffyg amwynderau difrifol yn yr ardal leol i drigolion eraill. A wnaiff y Gweinidog groesawu'r cam gan Ddinas a Sir Abertawe i gyflwyno cod ymarfer gwirfoddol yn ymwneud ag arddangos yr arwyddion hyn, sy'n cyfyngu ar eu nifer a'u maint ac ar ble y'u gosodir ar yr eiddo, ac am faint o amser y gellir eu harddangos? A fyddai hefyd yn ystyried rhoi pwerau statudol i'r cyngor i orfodi cynllun o'r fath?
- 14:30 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First of all, I welcome the code of practice that has been introduced by that local authority. I travelled yesterday through Roath, in Cardiff, which also has similar issues with 'To let' signs, which are haphazardly placed around the area. I recognise that that causes issues for local Members, and the community. I will give that further consideration in terms of enforcement powers in the near future.
- Yn gyntaf oll, croesawaf y cod ymarfer sydd wedi'i gyflwyno gan yr awdurdod lleol hwnnw. Teithiais ddoe drwy'r Rhath, yng Nghaerdydd, sy'n wynebu problemau tebyg gydag arwyddion 'I'w osod', a osodir ar hap o amgylch yr ardal. Rwy'n cydnabod bod hynny'n achosi problemau i Aelodau lleol, a'r gymuned. Byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hynny o ran pwerau gorfodi yn y dyfodol agos.
- 14:30 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, further to that answer, I share Julie James's concerns about areas with houses in multiple occupation. Have you considered looking at the planning enforcement powers that are available to local authorities, and at introducing some form of fast-track process, so that local authorities, where there are nuisances such as this, do not have to go through the usual 42 days, plus 42 days for the serving of notices before local authorities are able to take on and deal with these particular issues?
- Weinidog, yn ychwanegol at yr ateb hwnnw, rhannaf bryderon Julie James am ardaloedd â thai amlfeddiannaeth. A ydych wedi ystyried edrych ar y pwerau gorfodi cynllunio sydd ar gael i awdurdodau lleol, ac ar gyflwyno rhyw fath o broses llwybr carlam, fel nad oes rhaid i awdurdodau lleol, lle mae niwsans o'r fath yn bodoli, fynd drwy'r 42 diwrnod arferol, ynghyd â 42 diwrnod ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cyn y gall awdurdodau lleol ymgymryd â'r materion penodol hyn ac ymdrin â hwy?
- 14:31 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are due to have a review of the advertising directions, and I will give that further consideration in that proposal.
- Rydym ar fin cynnal adolygiad o'r cyfarwyddiadau hysbysebu, a rhoddaf ystyriaeth bellach i hynny yn y cynnig hwnnw.
- 14:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. Further to that answer, and in relation to areas with a high-density of houses in multiple occupation, you will be aware that all your predecessors as the Minister for planning have so far rejected changing the planning status of houses in multiple occupation to enable local authorities to better control them within communities. Will you be looking at this particular issue as part of your planning Bill, and will you consider representations in terms of reducing the number that need to be in a HMO before needing planning permission?
- Diolch ichi am hynny. Yn ychwanegol at yr ateb hwnnw, ac mewn perthynas ag ardaloedd sydd â dwysedd uchel o dai amlfeddiannaeth, byddwch yn ymwybodol bod eich holl ragflaenwyr fel y Gweinidog cynllunio wedi gwrthod newid statws cynllunio tai amlfeddiannaeth hyd yn hyn i alluogi awdurdodau lleol i'w rheoli yn well o fewn cymunedau. A fyddwch yn edrych ar y mater penodol hwn fel rhan o'ch Bil cynllunio, ac a ystyriwch sylwadau o ran lleihau'r nifer sy'n gorfod bod mewn tai amlfeddiannaeth cyn bod angen caniatâd cynllunio?

- 14:32 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am sure that previous Ministers for planning have had very good reason to refuse to change that process. As I said to you earlier, it is something that I will consider further when we look at the regulations around this.
Rwy'n siŵr bod Gweinidogion cynllunio blaenorol wedi cael rheswm da iawn dros wrthod newid y broses honno. Fel y dywedais wrthyhych yn gynharach, mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried ymhellach pan fyddwn yn edrych ar y rheoliadau ynglŷn â hyn.
- 14:32 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, following on from that question, and the previous one, the lack of restriction and the unplanned growth of houses in multiple occupancy, particularly in areas around universities and colleges, has had a major impact on some of the communities there. The issue is the unplanned nature of that development. Can you perhaps outline what work your department may be undertaking at the moment in order to consider issues around giving local authorities the power to regulate and plan the number of HMOs in any particular area affected?
Weinidog, yn dilyn y cwestiwn hwnnw, a'r un blaenorol, mae'r diffyg cyfyngiad a'r twf annisgwyl o dai amfeddiannaeth, yn enwedig mewn ardaloedd o amgylch prifysgolion a cholegau, wedi cael effaith fawr ar rai o'r cymunedau yno. Y broblem yw natur annisgwyl y datblygiad hwnnw. A allwch amlinellu pa waith y mae eich adran yn ei wneud efallai ar hyn o bryd er mwyn ystyried materion ynghylch rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol reoleiddio a chynllunio nifer y tai amfeddiannaeth mewn unrhyw ardal benodol yr effeithiwyd arni?
- 14:32 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for your question. Again, many Members have raised this issue with me. On the basis of that, I have started to set up a working group, which will start its operation in the new year, to look at the issues around planning, HMOs and enforcement, particularly around the areas that the Member raises with me, such as university towns and cities.
Diolch ichi am eich cwestiwn. Unwaith eto, mae llawer o Aelodau wedi codi'r mater hwn gyda mi. Ar sail hynny, rwyf wedi dechrau sefydlu gweithgor, a fydd yn dechrau ar ei waith yn y flwyddyn newydd, i edrych ar y materion sy'n ymwneud â chynllunio, tai amfeddiannaeth a gorfodi, yn enwedig o amgylch yr ardaloedd y mae'r Aelod yn eu codi gyda mi, fel trefi a dinasoedd prifysgol.
- 14:33 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I certainly recognise the situation that has been outlined by Julie James; it affects my own ward in particular. Enforcement is certainly part of the problem, but I think that the density of HMOs, and the high turnover of occupancy, is also a problem. I think that you could make a direct difference, Minister, if you were able to speak to the landlords who own these kinds of properties, in such density, to see whether they are capable of meeting a different housing need, and to see whether they could offer one and two-bedroomed houses, which are in short supply at the moment, as more permanent residences.
Yn sicr, mae'r sefyllfa a amlinellwyd gan Julie James yn gyfarwydd i mi; mae'n effeithio ar fy ward fy hun yn arbennig. Mae gorfodi yn sicr yn rhan o'r broblem, ond credaf fod dwysedd tai amfeddiannaeth, a throsiant uchel o ran deiliadaeth, hefyd yn broblem. Credaf y gallech wneud gwahaniaeth uniongyrchol, Weinidog, pe gallech siarad â'r landlordiaid sy'n berchen ar y mathau hyn o eiddo, mewn ardaloedd â dwysedd o'r fath, i weld a allant ddiwallu angen gwahanol o ran tai, ac i weld a allent gynnig tai un a dwy ystafell wely, sy'n brin ar hyn o bryd, fel preswylfeydd mwy parhaol.
- 14:33 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Conditions are already in place in terms of planning and licensing. As I said to Mick Antoniw just a moment ago, I have got a working group that is being set up to look at the implications of that. I have to look across my whole division in terms of what legislation tools are available to me—the housing Bill will be only one of them—that will add advantage in terms of licensing and so on. How HMOs may or may not fit into that process is something that we are considering.
Mae amodau eisoes ar waith o ran cynllunio a thrwyddedu. Fel y dywedais wrth Mick Antoniw funud yn ôl, mae gennyf weithgor sy'n cael ei sefydlu i edrych ar oblygiadau hynny. Rhaid imi edrych ar bob rhan o'm his-adran i weld pa offer deddfu sydd ar gael imi—dim ond un ohonynt fydd y Bil tai—a fydd yn fanteisiol o ran trwyddedu ac yn y blaen. Mae'r modd y gall tai amfeddiannaeth gyd-fynd â'r broses honno ai peidio yn rhywbeth rydym yn ei ystyried.
- 14:34 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Going back to the letting boards, one of my constituents in Cardiff North discovered that out of the 14 boards that were outside a block of flats, not one of them was actually advertising any flat to let or to sell, and they had actually been up for over 12 months. Is there anything further that the Minister can do about incidents such as this?
Gan fynd yn ôl at y byrddau gosod, darganfu un o'm hetholwyr yng Ngogledd Caerdydd nad oedd yr un o'r 14 o fyrdau a oedd y tu allan i floc o fflatiau yn hysbysebu'r ffaith bod fflat ar gael i'w gosod neu ei gwerthu, a'u bod mewn gwirionedd wedi bod yno ers dros 12 mis. A oes unrhyw beth pellach y gall y Gweinidog ei wneud am ddigwyddiadau fel y rhain?

14:34	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The advertising regulations are clear that the agent must remove the board after 14 days of the sale being placed. However, we know that, in practice, this is not happening. I will give the commitment to the Member to write to local authorities to remind them of their duty.</p>	<p>Mae'r rheoliadau hysbysebu yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r asiant gael gwared ar y bwrdd 14 diwrnod ar ôl gwerthu'r eiddo. Fodd bynnag, gwyddom, yn ymarferol, nad yw hyn yn digwydd. Rwy'n addo i'r Aelod yr ysgrifennaf at awdurdodau lleol i'w hatgoffa o'u dyletswydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Prosiectau Adfywio		Regeneration Projects	
14:34	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer prosiectau adfywio? OAQ(4)0357(HR)</p>	<p>6. Will the Minister make a statement on his priorities for regeneration projects? OAQ(4)357(HR)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:34	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for Llanelli for his question. My priorities are to deliver on the £100 million Vibrant and Viable Places programme, together with wider action to rejuvenate our town centres.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Llanelli am ei gwestiwn. Fy mlaenoriaethau yw cyflawni'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gwerth £100 miliwn, ynghyd â chamau gweithredu ehangach i adfywio canol ein trefi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:35	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Roeddwn yn falch iawn i glywed am yr arian oddi wrth Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer ardal gwella busnes, sef 'business improvement district', yn Llanelli. Mae'n bwysig cefnogi busnesau lleol ac mae'n bwysig iawn bod cydweithrediad yn Llanelli er lles canol y dref. Rwy'n sicr y bydd ymgynghoriad llawn gyda busnesau lleol i greu cynllun busnes. A ydych yn cytuno â mi bod creu'r BID yn ffordd arbennig o real i adfywio canol tref Llanelli ac yn ymateb i waith y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi Cymru, fel y soniodd Paul Davies yn gynharach?</p>	<p>I was very pleased to hear of the Welsh Labour Government funding for the business improvement district in Llanelli. It is important that we support local businesses and it is very important that there is collaboration in Llanelli for the benefit of the town centre. I am sure that there will be a full consultation with local businesses to draw up a business plan. Do you agree with me that creating a BID is a very real way of regenerating the town centre of Llanelli and responds to the Enterprise and Business Committee's work on the regeneration of town centres in Wales, as mentioned by Paul Davies earlier?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:35	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I made the announcement only last week around the business improvement districts and Vibrant and Viable Places. I think that it was welcomed across parties in the Chamber. We are looking to ensure that communities can help themselves in the process of redevelopment and redefining what their business is in places such as Llanelli, which the Member represents.</p>	<p>Dim ond yr wythnos diwethaf, gwnaed cyhoeddiad gennyf am yr ardaloedd gwella busnes a'r Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Credaf iddo gael ei groesawu gan bob plaid yn y Siambr. Rydym yn bwriadu sicrhau y gall cymunedau helpu eu hunain yn y broses o ailddatblygu ac ailddiffinio beth yw eu busnes mewn lleoedd fel Llanelli, y mae'r Aelod yn ei gynrychioli.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:36	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>You recently extended the Vibrant and Viable Places funding to £100 million over three years. Each of the 11 local authorities invited to submit detailed bids will receive funding of up to £15 million. Can you outline how this funding through local authorities will support job creation, and in particular growth in the private sector as the EU funding programmes now expect?</p>	<p>Yn ddiweddar, gwnaethoch ymestyn y cyllid ar gyfer Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i £100 miliwn dros dair blynedd. Bydd pob un o'r 11 o awdurdodau lleol a gafodd wahoddiad i gyflwyno cynigion manwl yn cael hyd at £15 miliwn o gyllid. A allwch amlinellu sut y bydd y cyllid hwn drwy awdurdodau lleol yn cefnogi'r gwaith o greu swyddi, ac yn enwedig dwf yn y sector preifat fel y mae rhaglenni ariannu'r UE yn ei ddisgwyl bellach?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Part of the Vibrant and Viable Places proposals at the bidding stage—there were many criteria involved in that—was around housing provision. That was a priority within the bidding process, but it was also about leverage. European funding, local authority money and private sector funding was also part of that process. So, while we are investing £100 million, there may be more going into the pot from other opportunity funds, whether from the private sector or the public sector.
- Roedd rhan o gynigion Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar y cam ceisiadau—roedd llawer o feini prawf yn gysylltiedig â hynny—yn ymwneud â darparu tai. Roedd hynny'n flaenoriaeth yn y broses geisiadau, ond roedd hefyd yn ymwneud â throsoledd. Roedd cyllid Ewropeaidd, arian awdurdodau lleol a chyllid y sector preifat hefyd yn rhan o'r broses honno. Felly, er ein bod yn buddsoddi £100 miliwn, efallai fod mwy yn mynd i mewn i'r gronfa o gronfeydd cyfleoedd eraill, boed o'r sector preifat neu'r sector cyhoeddus.
- 14:36 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I recently visited the Mumbles pier refurbishment and development project and was provided with an excellent briefing on this fantastic regeneration opportunity in Gower. The project requires a form of interim finance of approximately £3 million as it is underpinned by a housing developer. You mention increasing housing supply as your No. 1 priority within the Vibrant and Viable Places funding. Your Government seems intent on keeping investment in the public sector organisations despite the risk of refusing to support private sector bids, even if they are low risk. Will you commit to explore schemes like the Mumbles pier refurbishment and development project in other schemes that have financial underpinning by housing developers, which, in my mind, makes them low-risk investments that could, in many cases, see a return to the public purse?
- Yn ddiweddar, ymwelais â phrosiect adnewyddu a datblygu pier y Mwmbwls a chefais wybodaeth ragorol am y cyfle adfywio gwyh hwn ym Mro Gŵyr. Mae'r prosiect yn gofyn am fath o gyllid interim oddeutu £3 miliwn gan ei fod yn cael ei ategu gan ddatblygwyr tai. Rydych yn sôn am gynyddu'r cyflenwad o dai fel eich blaenoriaeth bennaf o fewn cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Ymddengys fod eich Llywodraeth yn benderfynol o gadw buddsoddiad yn sefydliadau'r sector cyhoeddus er bod risg o wrthod cefnogi ceisiadau yn y sector preifat, hyd yn oed os ydynt yn rhai â risg isel. A wnewch chi ymrwmo i edrych ar gynlluniau fel prosiect adnewyddu a datblygu pier y Mwmbwls mewn cynlluniau eraill sydd wedi'u hategu'n ariannol gan ddatblygwyr tai, sydd, yn fy marn i, yn eu gwneud yn fuddsoddiadau â risg isel a allai, mewn llawer o achosion, sicrhau elw i bwrs y wlad?
- 14:37 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes.
- Gwnaf.
- 14:37 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Vibrant and Viable Places strategy sounds excellent, but how will it help places like the Maelfa shopping centre in Llanedeyrn in my constituency, which desperately needs rebuilding? If and when the developer ever gets around to signing the contract, it could lead to there being no fresh food outlets at all on the site. The commercial rent is set so high that only betting shops would be available to afford them. How will Vibrant and Viable Places ensure that they are just that?
- Mae strategaeth Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn swnio'n rhagorol, ond sut y bydd yn helpu lleoedd fel canolfan siopa Maelfa yn Llanedeyrn yn fy etholaeth i, y mae gwir angen ei hailadeiladu? Os a phryd bynnag y bydd y datblygwyr yn llwyddo i arwyddo'r contract, gallai olygu nad oes unrhyw safleoedd gwerthu bwyd ffres o gwbl ar y safle. Mae'r rhent masnachol mor uchel fel mai dim ond siopau betio fyddai'n gallu eu fforddio. Sut y bydd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn sicrhau mai dyna a fyddant.
- 14:38 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As the Member is aware, Vibrant and Viable Places' was a bidding scheme led by local authorities across Wales. There have been some successful bids in that process. I know that the scheme that the Member talks about is not in that process, but the Member raises an important point about local development and what the implications are for that community of missed opportunities in development. It is something that planning departments should take into consideration when granting planning permission, namely the impact on their local communities.
- Fel y gŵyr yr Aelod, cynllun ceisiadau dan arweiniad awdurdodau lleol ledled Cymru oedd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Bu rhai ceisiadau llwyddiannus yn y broses honno. Gwn nad yw'r cynllun y mae'r Aelod yn sôn amdano yn y broses honno, ond cyfyd yr Aelod bwynt pwysig am ddatblygiad lleol a beth yw'r goblygiadau i'r gymuned honno o ganlyniad i gyfleoedd a gollwyd i ddatblygu. Mae'n rhywbeth y dylai adrannau cynllunio ei ystyried wrth roi caniatâd cynllunio, sef yr effaith ar eu cymunedau lleol.
- 14:38 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- With the regeneration strategy focusing on specific areas throughout our country, how will progress on breathing life back into underinvested areas fit in with the development of city regions?
- Gan fod y strategaeth adfywio yn canolbwyntio ar feysydd penodol ledled ein gwlad, sut y bydd datblygu'r gwaith o adfywio ardaloedd na fuddsoddwyd digon ynddynt yn cydfynd â datblygu dinas-ranbarthau?

14:39

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is right to raise the issue of 'What about everybody else?', in effect, in terms of the ones who were not successful in terms of Vibrant and Viable Places. I have to make a decision on whether we spread the funding so thinly that it has very little impact on communities, or whether we should make some big impacts in certain areas. We have done with that with Vibrant and Viable Places, but it does not prohibit new opportunities for other towns and communities across the length and breadth of Wales, the accessing of funds by local authorities, or indeed other pots of money, such as those to which I made reference to Byron Davies earlier, namely European funding, private sector funding or other public purses, which can make a real difference in communities.

Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater ynghylch 'Beth am bawb arall?', mewn gwirionedd, o ran y rhai na fu'n llwyddiannus o ran Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Rhaid imi wneud penderfyniad ar b'un a ydym yn dosbarthu'r cyllid mor denau fel nad yw'n cael fawr ddim effaith ar gymunedau, neu a ddylem wneud rhai effeithiau mawr mewn rhai ardaloedd. Rydym wedi gwneud hynny gyda Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ond nid yw'n atal cyfleoedd newydd i drefi a chymunedau eraill ar hyd a lled Cymru, defnyddio cyllid gan awdurdodau lleol, neu yn wir gronfeydd eraill o arian, fel y rhai y soniais amdanynt wrth gyfeirio at Byron Davies yn gynharach, sef cyllid Ewropeaidd, cyllid y setor preifat neu ffynonellau eraill o bwrs y wlad, a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn cymunedau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your recent update on the former Lady Windsor site in Ynysybwl. I was disappointed that a bid for the regeneration of the site was unsuccessful in the latest round of Vibrant and Viable Places awards. Minister, what do you suggest are the next steps in how we can move this forward and bring about this much-needed and long-standing regeneration project in my constituency?

Diolch ichi, Weinidog, am eich gwybodaeth ddiweddaraf am hen safle'r Fonesig Windsor yn Ynysybwl. Roeddwn yn siomedig bod cais i adfywio'r safle wedi bod yn aflwyddiannus yn y cylch diweddaraf o ddyfarniadau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Weinidog, beth yw'r camau nesaf yn eich barn chi o ran sut y gallwn ddatblygu hyn a chyflwyno'r prosiect adfywio mawr ei angen a hirsefydledig hwn yn fy etholaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, I recognise the Member's concern about that specific project, but many Members have raised similar issues and concerns with me about projects in the areas that they represent that were not included in the awards. However, we should never forget the fact that last week we announced £180 million investment in Wales, which was Welsh Government funding to change and transform the communities that we live in. I would be happy to meet with the Member if she would like that to discuss further opportunities for the site that she makes reference to.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod pryder yr Aelod am y prosiect penodol hwnnw, ond mae llawer o Aelodau wedi codi materion a phryderon tebyg gyda mi am brosiectau yn yr ardaloedd a gynrychiolant nas cynhwyswyd yn y dyfarniadau. Fodd bynnag, ni ddylem byth anghofio'r ffaith inni gyhoeddi yr wythnos diwethaf fuddsoddiad o £180 miliwn yng Nghymru, sef cyllid Llywodraeth Cymru i newid a thrawsnewid y cymunedau rydym yn byw ynddynt. Byddwn yn fodlon cwrdd â'r Aelod pe bai'n dymuno i drafod cyfleoedd pellach ar gyfer y safle y mae'n cyfeirio ato.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Prynu Tŷ am y Tro Cyntaf

Property Ladder

14:40

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu trigolion Canol De Cymru i brynu tŷ am y tro cyntaf? OAQ(4)0346(HR)

7. What steps is the Welsh Government taking to help South Wales Central residents get on the property ladder? OAQ(4)0346(HR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question. On 2 January, I launched Help to Buy—Wales, a new shared equity scheme that will help first-time buyers in South Wales Central get onto the property ladder.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Ar 2 Ionawr, lansiais Cymorth i Brynu Cymru, cynllun ecwiti a rennir newydd a fydd yn helpu pobl yng Nghanol De Cymru i brynu tŷ am y tro cyntaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister, for that answer. What is desperately required are coherent local development plans to get housing stock onto the market. I have heard what you have said in answers to previous questions today, but if you take my South Wales Central region, you will see that it is envisaged that two of the three authorities could merge under the plans. Both authorities are currently developing local development plans. Both authorities have large housing requirements in their plans. I really cannot believe that you would think that there are no issues for them to consider should these mergers go forward, because these plans cover a 15-year period, Minister, and I believe that your department needs to issue guidance on this. Therefore, will your department be bringing forward guidance so that these LDPs can be relevant?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Beth sydd ei angen yn ddirfawr yw cynlluniau datblygu lleol cydlynol i gael stoc dai ar y farchnad. Rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedasoch mewn atebion i gwestiynau blaenorol heddiw, ond os cymerwch fy rhanbarth i sef Canol De Cymru, fe welwch y rhagwelir y gallai dau o'r tri awdurdod uno o dan y cynlluniau. Mae'r ddau awdurdod wrthi'n datblygu cynlluniau datblygu lleol. Mae gan y ddau awdurdod ofynion tai mawr yn eu cynlluniau. Ni allaf gredu yn wir y byddech yn meddwl nad oes unrhyw faterion iddynt eu hystyried pe bai'r broses uno hon yn mynd rhagddi, oherwydd mae'r cynlluniau hyn yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd, Weinidog, a chredaf fod angen i'ch adran gyhoeddi canllawiau ar hyn. Felly, a fydd eich adran yn cyflwyno canllawiau fel y gall y CDLlau hyn fod yn berthnasol?

14:41 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
As I said earlier, I would hate to think that using the Williams argument, although the Member did not mention it, is a smokescreen in terms of developing LDP processes. The fact is that local authorities have a duty to provide an LDP. I recognise the two authorities that the Member refers to and I believe that both have local needs to consider, while taking into consideration the needs of other authorities around them. Therefore, I do not see that Williams, or any other element of restructuring, would change the way the LDP process works. However, to give the Member some safeguards, the LDP is a long-term document of 15 years, but it is updated every year. It is a process where there has to be a review of need on a yearly basis.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Fel y dywedais yn gynharach, byddai'n gas gennyf feddwl bod defnyddio dadl Williams, er na chafodd ei chrybwyll gan yr Aelod, yn esgus i beidio â datblygu prosesau CDLlau. Y gwir yw bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu CDLI. Rwy'n cydnabod y ddau awdurdod y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt a chredaf fod gan y ddau anghenion lleol i'w hystyried, tra'n ystyried anghenion awdurdodau eraill o'u hamgylch. Felly, ni allaf weld y byddai Williams, nac unrhyw elfen arall o ailstrwythuro, yn newid y ffordd y mae'r broses CDLI yn gweithio. Fodd bynnag, er mwyn rhoi rhywfaint o fesurau diogelwch i'r Aelod, mae'r CDLI yn ddogfen hirdymor o 15 mlynedd, ond caiff ei diweddarau bob blwyddyn. Mae'n broses lle mae'n rhaid adolygu anghenion bob blwyddyn.

14:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru
Minister, I am sure that you share my concerns about high rents in the private sector; in effect, the state is subsidising high rents in the private sector to the tune of £35 billion a year. One way to alleviate the pressures on people within the private rented sector would be to build more houses. Do you agree with me that the current house building target needs to be raised?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn rhannu fy mhryderon ynghylch rhenti uchel yn y sector preifat; mewn gwirionedd, mae'r wladwriaeth yn rhoi cymorthdaliadau o tua £35 biliwn y flwyddyn ar gyfer rhenti uchel yn y sector preifat. Un ffordd o leddfu'r pwysau ar bobl yn y sector rhentu preifat fyddai adeiladu mwy o dai. A gytunwch â mi fod angen codi'r targed cyfredol o ran adeiladu tai?

14:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cytunaf.

Hwyluswyr Tai Gwledig

Rural Housing Enablers

14:43 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith hwyluswyr tai gwledig yng Nghanolbarth a Gornllewin Cymru? OAQ(4)0351(HR)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

8. Will the Minister provide an update on the work of rural housing enablers in Mid and West Wales? OAQ(4)0351(HR)

- 14:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I thank the Member for Mid and West Wales. The report that we commissioned to evaluate the rural housing enabler projects in Wales has now been published. The report sets out the positive contribution the projects have made to the delivery of affordable housing in rural Wales.
 Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd gennym i werthuso prosiectau hwyluswyr tai gwledig yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi. Noda'r adroddiad y cyfraniad cadarnhaol a wnaeth y prosiectau i'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy yng Nghymru wledig.
 Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:43 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Thank you for that, Minister. According to that completed evaluation project, rural housing enablers offer good value for money and they are particularly effective where they have been in post for some time. The report suggests that the schemes are now fully up to speed and that the pace of progress is quickening with the results getting ever better. With all of that in mind, can you confirm whether or not you are looking at ways to extend funding for the RHEs beyond next month, when the current round of funding comes to an end?
 Diolch ichi am hynny, Weinidog. Yn ôl y prosiect gwerthuso hwnnw a gwblhawyd, mae hwyluswyr tai gwledig yn cynnig gwerth da am arian ac maent yn arbennig o effeithiol os ydynt wedi bod yn eu swydd ers peth amser. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod y cynlluniau bellach yn llwyr weithredol a bod y cynnydd yn cyflymu sy'n golygu bod y canlyniadau'n gwella hyd yn oed yn fwy. O gofio hynny, a allwch gadarnhau a ydych yn ystyried ffyrdd o ymestyn y cyllid ar gyfer Hwyluswyr Tai Gwledig y tu hwnt i'r mis nesaf, pan ddaw'r cylch ariannu cyfredol i ben?
 Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I am, and I have said this in the Chamber in the past, very keen on how rural housing enablers operate. I am very keen that they continue to operate in the future and my support for them would continue beyond the time frame that the Member mentioned. However, this is a partnership and I hope that other interested bodies that are involved in that process recognise the support that is required. I would ask the Member to lobby those organisations as well as lobbying me.
 Rwy'n awyddus iawn, ac rwyf wedi dweud hyn yn y Siambr yn y gorffennol, i weld sut mae hwyluswyr tai gwledig yn gweithredu. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu yn y dyfodol a byddai fy nghefnogaeth iddynt yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod y soniodd yr Aelod amdano. Fodd bynnag, partneriaeth yw hon a gobeithio bod cyrff eraill â diddordeb sy'n rhan o'r broses honno yn cydnabod y gefnogaeth sydd ei hangen. Byddwn yn gofyn i'r Aelod lobio'r sefydliadau hynny yn ogystal â'm lobio i.
 Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:44 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 In terms of site supply, major supermarkets such as Tesco, for example, are radically altering their policies on land banking. How much previously acquired supermarket land are we seeing coming back into the market in mid Wales? If that is something that you do not know the answer to, is that something that you could examine?
 O ran cyflenwi safleoedd, mae archfarchnadoedd mawr fel Tesco, er enghraifft, yn newid eu polisiau ar fancio tir yn sylweddol. Faint o dir archfarchnad a gaffaelwyd yn flaenorol sy'n dod yn ôl i mewn i'r farchnad yn y canolbarth? Os yw hynny'n rhywbeth na wyddoch yr ateb iddo, a yw'n rhywbeth y gallech ei ystyried?
 Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Yes. I do not have the figures to hand in terms of the specific question that the Member raises about new supermarket opportunity or redeveloped opportunity, but it is something that I am concerned about in terms of land banking. I have asked my team to look at whether that is in terms of supermarkets or any other sector with regard to the land that they own and how that has an impact in terms of the planning process.
 Gallwn. Nid yw'r ffigurau wrth law gennyf o ran y cwestiwn penodol y mae'r Aelod yn ei godi ynghylch cyfleoedd newydd o ran archfarchnadoedd neu gyfleoedd a ailddatblygwyd, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn pryderu yn ei gylch o ran bancio tir. Rwyf wedi gofyn i'm tîm edrych i weld a yw hynny yn nhermau archfarchnadoedd neu unrhyw sector arall o ran y tir y maent yn berchen arno a sut y mae hynny'n cael effaith o ran y broses gynllunio.
 Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Minister, I met last week with the Brecon Beacons National Park in the region, which acts as a planning authority and has an interesting affordable housing contribution planning policy. Of course, it is not a housing authority and has to then interact with the rural housing enablers and others to deliver this affordable housing contribution. Does the Williams report give an opportunity to streamline things a little more here, particularly with regard to national parks? Without any housing functions, they have to work in a rather middleman kind of way and there are opportunities here perhaps to make it a bit more effective.
 Weinidog, cyfarfûm yr wythnos diwethaf â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y rhanbarth, sy'n gweithredu fel awdurdod cynllunio ac mae ganddo bolisi cynllunio cyfraniadau diddorol o ran tai fforddiadwy. Wrth gwrs, nid awdurdod tai ydyw ac mae'n gorfod rhyngweithio â'r hwyluswyr tai gwledig ac eraill i gyflwyno'r cyfraniad hwn o ran tai fforddiadwy. A yw adroddiad Williams yn rhoi cyfle i symleiddio pethau ychydig yn fwy yma, yn enwedig o ran parciau cenedlaethol? Heb unrhyw swyddogaethau tai, rhaid iddynt weithredu fel canolwr i ryw raddau ac mae cyfleoedd yma efallai i'w wneud ychydig yn fwy effeithiol.
 Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>As the Member is aware, I have the planning Bill out to consultation at the moment, until 26 February. I would welcome the Member's comments during the consultation regarding the effectiveness of working with the national park in terms of determination. I have met with my colleague, John Griffiths, who has overall responsibility for national parks, but I have said at conferences recently in terms of planning that I believe that 25 planning authorities are far too many for Wales and that national parks should play a part in the family of planning authorities. In the future, perhaps they will be part of that or perhaps they will not, but that also applies to local authorities in their planning terms.</p>	<p>Fel y gŵyr yr Aelod, cynhelir ymgynghoriad ar y Bil cynllunio ar hyn o bryd, tan 26 Chwefror. Byddwn yn croesawu sylwadau'r Aelod yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch effeithiolrwydd gweithio gyda'r parc cenedlaethol o ran penderfyniadau. Rwyf wedi cyfarfod â'm cyd-Aelod, John Griffiths, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am barciau cenedlaethol, ond rwyf wedi dweud mewn cynadleddau yn ddiweddar o ran cynllunio fy mod yn credu bod 25 o awdurdodau cynllunio yn ormod o lawer i Gymru ac y dylai parciau cenedlaethol chwarae rhan yn y teulu o awdurdodau cynllunio. Yn y dyfodol, efallai y byddant neu na fyddant yn rhan o hynny, ond mae hynny'n gymwys i awdurdodau lleol hefyd yn nhermau cynllunio.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Rheoliadau Adeiladu				
Building Regulations				
14:46	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	<p>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am orfodi rheoliadau adeiladu? OAQ(4)0343(HR)</p>	<p>9. Will the Minister make a statement on the enforcement of building regulations? OAQ(4)0343(HR)</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>Local authorities have a general duty to enforce the building regulations in their area. The building control function can be carried out by a local authority or a private approved inspector.</p>	<p>Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i orfodi'r rheoliadau adeiladu yn eu hardal. Gall y swyddogaeth rheoli adeiladu gael ei chyflawni gan awdurdod lleol neu arolygydd cymeradwy preifat.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	<p>Mae risg na fydd dau mawr, sef yr angen i oruchwylwyr cymwys oruchwyllo gwaith trydanol a nifer y cysiau byr pum-diwrnod fel ffordd i hyfforddi trydanwyr newydd, yn cael eu gweithredu gan gynghorau Cymru yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio. A allwch chi amlinellu, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y mater hwn, sut yr ydych chi'n siarad ag awdurdodau lleol ynglŷn â'r materion hyn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n mynd yn eu blaen?</p>	<p>There are two major changes, namely the need for qualified supervisors to oversee electrical work and the number of short five-day courses to train new electricians, that run the risk of not being implemented by councils in Wales in their roles as planning authorities. Can you outline, as the Minister with responsibility for this particular area, how you are communicating with local authorities on these issues to ensure that they do progress?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:47	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>I am not sure that I share the same approach that local authorities are not enforcing, or will not enforce regulations. It is something that they should be very aware of. The Member has already made reference and written to me regarding electrical inspection, but I would be happy to understand better if she has any specific areas of concern regarding a particular local planning authority.</p>	<p>Nid wyf yn siŵr fy mod yn rhannu'r un ymagwedd sef nad yw awdurdodau lleol yn gorfodi rheoliadau, neu na fyddant yn gwneud hynny. Mae'n rhywbeth y dylent fod yn ymwybodol iawn ohono. Mae'r Aelod eisoes wedi cyfeirio at archwiliadau trydanol ac wedi ysgrifennu ataf mewn perthynas â hyn, ond byddwn yn fodlon deall yn well pe bai ganddi unrhyw feysydd penodol o bryder ynghylch awdurdod cynllunio lleol penodol.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:47	William Graham Bywgraffiad Biography	<p>Will the Minister outline any discussions that he has held with the Home Builders Federation on proposed and current building regulations?</p>	<p>A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ar reoliadau adeiladu arfaethedig a chyfredol?</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have had lots of discussions with the HBF and many other bodies in terms of proposals. With regard to building regulations, we will shortly host two events—one in north Wales and another in south Wales—around areas such as Part L changes and building regulations changes, which are already heavily subscribed and welcomed by the industry.

Rwyf wedi cael llawer o drafodaethau gyda'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a llawer o gyrff eraill o ran cynigion. O ran rheoliadau adeiladu, byddwn yn cynnal dau ddigwyddiad yn fuan—un yn y gogledd ac un arall yn y de—ynghylch meysydd fel newidiadau Rhan L a newidiadau i reoliadau adeiladu, a gefnogwyd yn helaeth eisoes ac a groesawyd gan y diwydiant.

14:48 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I previously raised with your predecessor the question of acoustics in schools being part of building regulations. At that time, he indicated that discussions were ongoing with the UK Government as regards a change to building bulletin 93. I understand that that change is to be completed by March. In the circumstances, is the Welsh Government now in a position to outline the steps that it will be taking with regard to amending building regulations in Wales to that purpose?

Weinidog, codais o'r blaen gyda'ch rhagflaenydd y ffaith bod acwsteg mewn ysgolion yn rhan o'r rheoliadau adeiladu. Ar y pryd, dywedodd fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU o ran newid i fletlin adeiladu 93. Deallaf fod y newid hwnnw i'w gwblhau erbyn mis Mawrth. O dan yr amgylchiadau, a yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa bellach i amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd o ran diwygio rheoliadau adeiladu yng Nghymru i'r diben hwnnw?

14:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will write to the Member with the detail.

Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r manylion.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Continual Professional Development

14:49 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cynllunwyr trefi yng Nghymru? OAQ(4)0354(HR)

10. Will the Minister make a statement on continual professional development for town planners in Wales? OAQ(4)0354(HR)

14:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your question. Planning professionals are subject to the continuing professional development requirements of their relevant professional institution.

Diolch ichi am eich cwestiwn. Mae gweithwyr cynllunio proffesiynol yn ddarostyngedig i ofynion datblygiad proffesiynol parhaus eu sefydliad proffesiynol perthnasol.

14:49 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister for that response. Last week, in the Environment and Sustainability Committee we took evidence from Community Energy Wales, which identified significant shortfalls in terms of a knowledge base among planning officers, particularly with regard to emerging technologies such as anaerobic digestion. I wonder, Minister, whether you share my concern at hearing that news, and what are you prepared to see the Welsh Government, in partnership with other authorities, doing to address this?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yr wythnos diwethaf, yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd clywsom dystiolaeth gan Ynni Cymunedol Cymru, a nododd ddiffygion sylweddol o ran sylfaen gwybodaeth ymhlith swyddogion cynllunio, yn enwedig o ran technolegau newydd megis treulio anaerobig. Tybed, Weinidog, a rannwch fy mhryder wrth glywed y newyddion hwnnw, a beth ydych yn barod i weld Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill, yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn?

14:49

Carl Sargeant [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Member for his question and the committee for the work that it is doing on this. Part of the planning Bill is about not only providing the structure of change but also changing the ethos of how a resilient planning service will work across the whole of Wales. We know that planning departments across Wales are under pressure because of finances and, therefore, the knowledge base in some areas is being stripped, but that does not mean that we do not hold the knowledge within Wales. That is why I am encouraging authorities to work more closely together to build a stronger, resilient service. Part of the professional development is about ensuring that you are competent in that process and have many hours of operational work to hold your accreditation. That is something that I hope the planning Bill will aid.

The discussion has touched on the Williams report today and what that might mean for the future. However, I do not think that we should wait for the outcome of Williams. There are opportunities with the planning Bill to change the way that planning systems operate and that can start now.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn ac i'r pwyllgor am y gwaith y mae'n ei wneud ar hyn. Mae a wnelo rhan o'r Bil cynllunio nid yn unig â darparu strwythur newid, ond hefyd â newid yr ethos o ran sut y bydd gwasanaeth cynllunio cadarn yn gweithio ar draws Cymru gyfan. Gwyddom fod adrannau cynllunio ledled Cymru o dan bwysau oherwydd cyllid ac felly, mae'r sylfaen gwybodaeth mewn rhai ardaloedd yn lleihau, ond nid yw hynny'n golygu nad ydym yn meddu ar y wybodaeth yng Nghymru. Dyna pam rwy'n annog awdurdodau i gydweithio'n agosach i adeiladu gwasanaeth cryfach a mwy gwydn. Mae a wnelo rhan o'r datblygiad proffesiynol â sicrhau eich bod yn gymwys yn y broses honno a'ch bod wedi gwneud llawer o oriau o waith gweithredol er mwyn cael eich achrediad. Mae hynny'n rhywbeth y bydd y Bil cynllunio yn ei hwyluso gobeithio.

Mae'r drafodaeth wedi cyfeirio at adroddiad Williams heddiw a'r hyn y gallai hynny ei olygu ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, ni chredaf y dylem aros am ganlyniad Williams. Ceir cyfleoedd gyda'r Bil cynllunio i newid y ffordd y mae'r systemau cynllunio yn gweithredu a gall hynny ddechrau nawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:51

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

Given the challenges of climate change, how can you ensure that town planners understand the environmental standards required for twenty-first century buildings, including energy efficiency maximisation, south-facing properties and the dangers of building on floodplains?

O gofio heriau newid yn yr hinsawdd, sut y gallwch sicrhau bod cynllunwyr tref yn deall y safonau amgylcheddol gofynnol ar gyfer adeiladau'r unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys sicrhau'r effeithlonrwydd ynni mwyaf, eiddo sy'n wynebu'r de a pheryglon adeiladu ar orlfdiroedd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:51

Carl Sargeant [Bywgraffiad Biography](#)

I am confident that planning officials understand that process, but it is also a function of building control teams that operate under Part L building regulations and technical advice note 22. Therefore, there is a lot of guidance to support their work, but it is a matter of making sure that that is joined up across the organisation. As I mentioned with the planning Bill, this is about changing the structure relating to how we operate the planning system to make better, more effective use of that in the future.

Rwy'n hyderus bod swyddogion cynllunio yn deall y broses honno, ond mae hefyd yn un o swyddogaethau timau rheoli adeiladau sy'n gweithredu o dan reoliadau adeiladu Rhan L a nodyn cyngor technegol 22. Felly, mae llawer o arweiniad i gefnogi eu gwaith, ond mae'n fater o sicrhau bod hynny'n cael ei gydgyssylltu ar draws y sefydliad. Fel y soniais gyda'r Bil cynllunio, mae hyn yn ymwneud â newid y strwythur o ran sut rydym yn gweithredu'r system gynllunio i wneud defnydd gwell, mwy effeithiol o hynny yn dyfodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:51

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

I am grateful to William Powell for raising this question. We all know about the increasing importance of town planners, but also about how the knowledge base for town planning changes over time, which the Minister has alluded to. There is also a consistency issue, Minister. Can you ensure that when this professional development is happening across Wales, there is consistency between local authorities and that the sort of best practice that is employed in one authority will be best practice in another corner of Wales?

Rwy'n ddiolchgar i William Powell am godi'r cwestiwn hwn. Gŵyr pob un ohonom am bwysigrwydd cynyddol cynllunwyr tref, ond hefyd gwyddom sut y mae'r sylfaen gwybodaeth ar gyfer cynllunio tref yn newid dros gyfnod o amser, rhywbeth y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato. Ceir mater o gysondeb hefyd, Weinidog. A allwch sicrhau pan fydd y datblygiad proffesiynol hwn yn digwydd ar draws Cymru, fod cysondeb rhwng awdurdodau lleol ac y bydd y math o arfer gorau sy'n cael ei ddefnyddio mewn un awdurdod yn arfer gorau mewn cornel arall o Gymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:52	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>That is the very reason we are introducing a planning support service, which will be in operation from April of this year. To support that process, we are looking at streamlining the 25 individual planning authorities to have some coherent working, so that when a decision is made, it is a fair decision wherever you are in Wales. I share the Member's concern about consistency, and it is something that I will strive to ensure that we get right.</p>	<p>Dyna'r union reswm pam yr ydym yn cyflwyno gwasanaeth cymorth cynllunio, a fydd yn weithredol o fis Ebrill eleni. I gefnogi'r broses honno, rydym yn ystyried symleiddio'r 25 o awdurdodau cynllunio unigol i gael rhywfaint o waith cydlynol, ac felly pan gaiff penderfyniad ei wneud, bydd yn benderfyniad teg ble bynnag y byddwch yng Nghymru. Rhannaf bryder yr Aelod ynghylch cysondeb, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn ei wneud yn iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Bil Cynllunio Arfaethedig		Proposed Planning Bill	
14:52	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y Bil Cynllunio arfaethedig ar y Gymraeg? OAQ(4)0345(HR)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on the effect of the proposed Planning Bill on the Welsh language? OAQ(4)0345(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:53	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The Bill will have a positive effect on the Welsh language by providing a modern legislative framework for the preparation of development plans and decisions on planning applications. This will support the delivery of affordable homes and jobs.</p>	<p>Bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg trwy ddarparu fframwaith deddfwriaethol modern ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd hyn yn cefnogi'r broses o ddarparu tai fforddiadwy a swyddi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:53	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Un o brif negeseuon y gynhadledd fawr ar y Gymraeg a alwyd gan y Prif Weinidog oedd bod symud poblogaeth—mewnffudo ac allffudo—yn ganolog i geisio gwarchod yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn dal i fod yn iaith gymunedol. Pam nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Bil hwn i ymateb i'r peryglon hyn sydd wedi cael eu hadnabod?</p>	<p>One of the main message of the First Minister's 'cynhadledd fawr' on the Welsh language was that population movements—in-migration and out-migration—are a central consideration when it comes to protecting those areas where Welsh is still the language of the community. Why is the Welsh Government not using this Bill to respond to these risks that have been identified?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:53	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for his question, but I think that we are taking the Welsh language very seriously in planning terms. I am aware of the First Minister's discussions through the summer and those of other Ministers, too. We all have a responsibility to give new opportunities for the Welsh language, and the draft planning Bill and the planning Bill will do so. We issued technical advice note 20, and guidance will follow shortly, ensuring that we have a balance between economic growth and the obvious need of the Welsh language in our communities across Wales.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, ond credaf ein bod yn cymryd yr iaith Gymraeg o ddifrif o ran cynllunio. Rwy'n ymwybodol o drafodaethau'r Prif Weinidog drwy'r haf a rhai Gweinidogion eraill, hefyd. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i roi cyfleoedd newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg, a bydd y Bil cynllunio drafft a'r Bil cynllunio yn gwneud hynny. Gwnaethom gyhoeddi nodyn cyngor technegol 20 a bydd canllawiau yn dilyn maes o law, gan sicrhau bod gennym gydbwysedd rhwng twf economaidd ac angen amlwg yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwy'n gweld yn natganiad y Prif Weinidog yr wythnos hon fod canllawiau yn cael eu datblygu i helpu awdurdodau cynllunio i asesu effaith ceisiadau ar yr iaith Gymraeg. Pam ydych chi'n hyderus fod hyn yn ddigonol i ddiogelu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn ein cymunedau?</p>	<p>I see from the First Minister's statement this week that guidance is being developed to assist planning authorities in assessing the impact of development bids on the Welsh language. How can you be confident that this is adequate when it comes to safeguarding and promoting the use of the Welsh language in our communities?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We went through a consultation process in terms of developing TAN 20, which we launched a few weeks ago. We committed to providing some guidance to run alongside that. Local authorities already have a raft of guidance across a raft of different programmes, whether that be in relation to the Welsh language or the environment. They should act on that, and act on that appropriately. It would be wrong to infer that they may not act appropriately on one specific element, whether that be the Welsh language or otherwise. If the Member has evidence to support that, I would be interested to understand it better, but I believe that technical advice note 20 and the following guidance will help to secure the Welsh language in our communities.

Aethom drwy broses ymgynghori o ran datblygu TAN 20, a lanswyd gennym rai wythnosau yn ôl. Ymrwymwyd i ddarparu canllawiau i gyd-fynd â hynny. Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth eang o ganllawiau eisoes ar draws llu o raglenni gwahanol, boed hynny mewn perthynas â'r iaith Gymraeg neu'r amgylchedd. Dylent weithredu ar hynny, a gweithredu ar hynny'n briodol. Ni fyddai'n iawn awgrymu na fyddant yn gweithredu'n briodol ar un elfen benodol, p'un ai'r iaith Gymraeg yw hynny neu fel arall. Os oes gan yr Aelod dystiolaeth i ategu hynny, byddai gennyf ddiddordeb i ddeall hynny'n well, ond credaf y bydd nodyn cyngor technegol 20 a'r canllawiau canlynol yn helpu i ddiogelu'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau.

Perfformiad Ynni Adeiladau

Energy Performance of Buildings

14:55 Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella perfformiad ynni adeiladau yng Nghymru? OAQ(4)0355(HR)

12. Will the Minister make statement regarding improving the energy performance of buildings in Wales? OAQ(4)0355(HR)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:55 Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My oral statement of 14 January sets out forthcoming changes to building regulations to increase energy performance of all new and many existing buildings in Wales.

Mae fy natganiad llafar ar 14 Ionawr yn nodi newidiadau sydd ar ddod i reoliadau adeiladu er mwyn gwella perfformiad ynni pob adeilad newydd a llawer o adeiladau sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:55 Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Minister. One of the key aspects of the Part L consultation document was a need to adopt a recipe approach across building design and building services, as well as energy technologies and fuel types. The Government highlights the benefits of such an approach, and I believe that that was the right approach to take. However, there seems to be no mention in your statement, in setting out the way forward, as to whether you are still going to adopt that approach. Can you therefore confirm that you intend to proceed with the recipe approach and how that would be implemented?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Un o agweddau allweddol dogfen ymgynghori Rhan L oedd angen i fabwysiadu dull rysâit wrth ddylunio adeiladau a gwasanaethau adeiladu, yn ogystal â thechnolegau ynni a mathau o danwydd. Mae'r Llywodraeth yn amlygu manteision dull gweithredu o'r fath, a chredaf mai dyna oedd y dull cywir i'w fabwysiadu. Fodd bynnag, ymddengys nad oes unrhyw sôn yn eich datganiad, wrth nodi'r ffordd ymlaen, am b'un a ydych yn mynd i fabwysiadu'r dull gweithredu hwnnw o hyd. A allwch gadarnhau felly eich bod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r dull rysâit a sut y byddai hynny'n cael ei weithredu?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:56 Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is right to raise that. We have to have a mix of opportunity to meet the requirements of energy consumption and conservation. We are working on the principles of the fabric-first process, but, then again, we are looking at what other opportunities that may present in terms of technologies to meet those targets. It is something that the construction industry has certainly welcomed in the statement and is working with us to deliver.

Mae'r Aelod yn iawn i godi hynny. Rhaid inni gael cymysgedd o gyfleoedd i fodloni gofynion y defnydd o ynni a chadwraeth. Rydym yn gweithio ar egwyddorion y broses adeiladwaith yn gyntaf, ond eto i gyd, rydym yn ystyried pa gyfleoedd eraill a allai godi o ran technolegau i gyrraedd y targedau hynny. Mae'n rhywbeth y mae'r diwydiant adeiladu yn sicr wedi ei groesawu yn y datganiad ac mae'n gweithio gyda ni i'w gyflawni.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Stoc Tai Cymru

Welsh Housing Stock

14:56	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p><i>13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ansawdd stoc tai Cymru? OAQ(4)0347(HR)</i></p>	<p><i>13. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve the quality of Welsh housing stock? OAQ(4)0347(HR)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:56	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Improving the quality of homes in Wales is vital. The Welsh housing quality standard, the Houses into Homes programme and measuring the outcome of the Housing (Wales) Bill will be all-important in the Government's priorities going forward.</p>	<p>Mae gwella ansawdd cartrefi yng Nghymru yn hanfodol. Bydd safon ansawdd tai Cymru, y rhaglen Troi Tai'n Gartrefi a mesur canlyniad Bil Tai (Cymru) yn hollbwysig ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth yn y dyfodol.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:57	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. I was pleased to meet with representatives of Caerphilly council to hear how it is progressing towards meeting the housing quality standard there. Do you agree with me that this standard should be applied across the housing sector in Wales?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Roeddwn yn falch o gwrdd â chynrychiolwyr o gyngor Caerffili i glywed y cynnydd a wneir o ran cyrraedd y safon ansawdd tai yno. A gytunwch â mi y dylai'r safon hon gael ei chymhwysu ar draws y sector tai yng Nghymru?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:57	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The housing health-and-safety rating system and associated enforcement powers ensure safety standards that can be monitored by local authorities. Certainly, I congratulate Caerphilly on its move towards better housing conditions. That is something that other authorities and RSLs may wish to consider in their drive forward.</p>	<p>Mae'r system graddio iechyd a diogelwch ar gyfer tai a phwerau gorfodi cysylltiedig yn sicrhau safonau diogelwch y gall awdurdodau lleol eu monitro. Yn sicr, hoffwn longyfarch Caerffili am gymryd y cam tuag at amodau tai gwell. Mae hynny'n rhywbeth efallai yr hoffai awdurdodau eraill a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ei ystyried wrth gymryd y camau hynny.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:57	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, one way to improve the quality of the Welsh housing stock is to increase the availability of new private rented homes. The UK Government has introduced a build-to-rent fund to support the development of new, purpose-built, privately rented homes. What is the Minister doing to increase the supply of new private homes for rent in Wales?</p>	<p>Weinidog, un ffordd o wella ansawdd stoc tai Cymru yw cynyddu argaeledd cartrefi rhent preifat newydd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cronfa adeiladu i rentu er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cartrefi rhent preifat newydd, pwrpasol. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi rhent preifat newydd yng Nghymru?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:58	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>We are working with the industry to ensure that we have new opportunities. The Member will note from recent press statements by many of the housebuilders across Wales that they welcome the intervention made by this Welsh Labour Government, and, of course, I hope that the Member also welcomes that.</p>	<p>Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn cael cyfleoedd newydd. Bydd yr Aelod yn nodi o ddatganiadau diweddar yn y wasg gan lawer o adeiladwyr tai ledled Cymru eu bod yn croesawu'r ymyriad a wneir gan Lywodraeth Lafur Cymru, ac, wrth gwrs, rwy'n gobeithio bod yr Aelod yn croesawu hynny hefyd.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Grant Cyfleusterau i'r Anabl		Disabled Facilities Grant	
14:58	<p>Suzu Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>14. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl? OAQ(4)0348(HR)</i></p>	<p><i>14. Will the Minister provide an update on the implementation of the Disabled Facilities Grant? OAQ(4)0348(HR)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:58	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The administration and delivery of DFGs is a matter for local authorities. The latest figures, which measure delivery times, show that a steady improvement in waiting times across Wales has been achieved. I expect this trend to continue.</p>	<p>Mae gweinyddu a darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn fater i awdurdodau lleol. Dengys y ffigurau diweddaraf, sy'n mesur amseroedd cyflawni, welliant cyson mewn amseroedd aros ledled Cymru. Rwy'n disgwyl i'r duedd hon barhau.</p>	Senedd.tv Fideo Video

- 14:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, Minister. Actually, some of the councils have worsened in their delivery times, quite considerably. I think 12 months seems rather a long time anyway to deliver on the payment, but Care and Repair has certainly expressed its concern that the time for payment is taking too long generally. What steps are you taking to alleviate Care and Repair's concerns?
Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. A dweud y gwir, mae amseroedd cyflawni rhai o'r cynghorau wedi gwaethygu'n go sylweddol. Beth bynnag, credaf fod 12 mis yn ymddangos yn amser hir braidd i sicrhau'r taliad, ond mae Gofal a Thrwsio Cymru yn sicr wedi mynegi ei bryder bod yr amser ar gyfer talu yn cymryd gormod o amser yn gyffredinol. Pa gamau a gymerwch i leddfu pryderon Gofal a Thrwsio Cymru?
- 14:59 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We have had umpteen debates in this Chamber about DFGs and how services are provided. I was very clear in my statement last time that I expect this to get better. I have a review in process to look at how we deliver these schemes. There are three or four different ways of delivery for adaptations in premises, and that is far too confusing for the consumer. So, I am looking at that very carefully and I hope to be able to bring something to the Chamber shortly.
Rydym wedi cael llawer iawn o ddatleuon yn y Siambr hon am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a sut y darperir gwasanaethau. Roeddwn yn glir iawn yn fy natganiad y tro diwethaf fy mod yn disgwyl i hyn wella. Mae adolygiad ar y gweill i edrych ar y ffordd rydym yn cyflawni'r cynlluniau hyn. Mae tair neu bedair ffordd wahanol o gyflawni ar gyfer addasiadau mewn eiddo, ac mae hynny'n rhy ddrwslyd o lawer i'r defnyddiwr. Felly, rwy'n ystyried hynny'n ofalus iawn a gobeithio y gallaf gyflwyno rhywbeth i'r Siambr maes o law.
- ### Cartrefi Fforddiadwy Newydd yng Nghymru New Affordable Homes in Wales
- 14:59 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru? OAQ(4)0340(HR)
15. Will the Minister provide an update on his plans to provide new affordable homes in Wales? OAQ(4)0340(HR)
- 14:59 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The delivery of affordable homes continues to be a top priority for me. I want to see more affordable homes across a range of tenures, both rental and part-ownership, offering choice for the many in Wales.
Mae darparu tai fforddiadwy yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i mi. Rwyf am weld mwy o gartrefi fforddiadwy ar draws ystod o ddeiliadaethau, o ran rhent a rhanberchnogaeth, sy'n cynnig dewis i'r nifer fawr sydd eu hangen yng Nghymru.
- 14:59 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister, for the reply. The Conservative-led UK Government has announced a programme to build up to 165,000 homes—new, affordable homes—over the next three years, which is the fastest affordable housebuilding programme for 20 years. Will the Minister follow the example being set by the UK Government and commit to working with the private sector on ways to deliver more affordable homes for the people of Wales?
Diolch ichi, Weinidog, am yr ateb. Mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi cyhoeddi rhaglen i adeiladu hyd at 165,000 o gartrefi—cartrefi newydd, fforddiadwy—dros y tair blynedd nesaf, sef y rhaglen adeiladu tai fforddiadwy gyflymaf ers 20 mlynedd. A wnaiff y Gweinidog ddilyn yr esiampl a osodwyd gan Lywodraeth y DU ac ymrwymo i weithio gyda'r sector preifat ar ffyrdd o ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy i bobl Cymru?
- 15:00 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for his question and his Conservative press release. Let me give you some real facts on what the Conservative Government is doing in Westminster. The coalition Government in Westminster has all but abandoned providing new social housing replacing its affordable housing. Let me tell you what the affordable housing policy really is—[Interruption.]
Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn ac am ei ddatganiad i'r wasg Ceidwadol. Gadewch i mi roi rhai ffeithiau go iawn ichi am yr hyn y mae'r Llywodraeth Geidwadol yn ei wneud yn San Steffan. Mae'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan fwy neu lai wedi rhoi'r gorau i ddarparu tai cymdeithasol newydd yn lle ei thai fforddiadwy. Gadewch imi ddweud wrthyhych beth yw'r polisi tai fforddiadwy mewn gwirionedd—[Torri ar draws.]

15:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. You opened this door; you will listen to the answer. [Laughter.] Trefn. Chi agorodd y drws hwn; fe wnewch chi wrando ar yr ateb. [Chwerthin.]

15:00 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am very grateful for your intervention there, Deputy Presiding Officer. Rwy'n ddiolchgar iawn am eich ymyriad yno, Ddirprwy Lywydd.

Affordable housing policy means housing rents of up to 80% of market value; that is what affordable housing means to the Conservative Government. In London, where market rents are around £2,000 for a rental property, 80% of that is the rental value; is that what you call affordable? I do not see that happening in Wales, and we are not going to follow, along any lines, what the Conservative Government is doing in England. Mae polisi tai fforddiadwy yn golygu rhenti tai hyd at 80% o werth y farchnad; dyna beth yw ystyr tai fforddiadwy i'r Llywodraeth Geidwadol. Yn Llundain, lle mae rhenti'r farchnad tua £2,000 ar gyfer eiddo ar rent, 80% o hynny yw'r gwerth rhentu; ai dyna beth yw fforddiadwy yn eich barn chi? Ni welaf hynny'n digwydd yng Nghymru ac nid ydym yn mynd i ddilyn, ar unrhyw gyfrif, yr hyn y mae'r Llywodraeth Geidwadol yn ei wneud yn Lloegr.

15:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister. Diolch, Weinidog.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Awdurdodaeth ar Wahân

Questions to the Counsel General

Separate Jurisdiction

15:01 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
1. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sut y mae Bil Drafft Cymru yn hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus ynghylch cyflawni awdurdodaeth ar wahân i Gymru? OAQ(4)0056(CG) *1. Will the Counsel General make a statement regarding how the draft Wales Bill promotes public debate regarding achieving a separate jurisdiction for Wales? OAQ(4)0056(CG)*

15:01 **Theodore Huckle** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General
Good afternoon, everyone. There are aspects of the draft Bill that enhance Wales's position within the joint jurisdiction of England and Wales, such as the provision in clause 21 in the draft Bill relating to the Law Commission, which was included at our request. Prynawn da, bawb. Mae agweddau ar y Bil drafft sy'n gwella safle Cymru o fewn cyd-awdurdodaeth Cymru a Lloegr, megis y ddarpariaeth yng nghymal 21 yn y Bil drafft sy'n ymwneud â Chomisiwn y Gyfraith, a gynhwyswyd yn unol â'n cais.

15:01 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ateb. A gaf i roi un sefyllfa i chi, Gwnsler Cyffredinol? Heddiw, eto—fel ddoe—rydym yn trafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi golygu ein bod yn gorfod gosod o'r neilltu ein Rheolau Sefydlog, bod dim ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon a bod dim amser craffu gan bwyllgor ar y cynigion cydsyniad deddfwriaethol hyn oherwydd ein bod yn dewis deddfu drwy Westminster yn hytrach nag yn y fan hon. Rwy'n credu y byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a chlir i Gymru o gymorth inni ddeddfu'n well. A ydych yn hollol fodlon gyda'r sefyllfa bresennol? I thank the Counsel General for his answer. Can I give you one scenario, Counsel General? Today, again—as yesterday—we are debating a legislative consent motion that will mean having to suspend our Standing Orders, that there is no public consultation in Wales on the legislation and that there is no time for committee scrutiny either on the legislative consent motions, because we choose to legislate through Westminster rather than through this place. I believe that a clearly set out separate jurisdiction for Wales would be of assistance to us in making better legislation. Are you entirely content with the current situation?

15:02 **Theodore Huckle**

It would be foolish to suggest that there are not some difficulties associated with the current legislative consent motion procedures, mostly to do with the timings of what is done in Westminster and the ability of the Assembly to respond to it. However, that really is not something that I am in a position to comment on further. As to the draft Wales Bill itself, it simply does not deal with the matter, does it?

Byddai'n ffôl awgrymu nad oes rhai anawsterau yn gysylltiedig â gweithdrefnau'r Cynneg Cydsyniad Deddfwriaethol ar hyn o bryd, sy'n ymwneud yn bennaf ag amseru'r hyn a wneir yn San Steffan a gallu'r Cynulliad i ymateb iddo. Fodd bynnag, nid yw hynny, o ddirif, yn rhywbeth yr wyf mewn sefyllfa i roi sylwadau pellach arno. O ran Bil drafft Cymru ei hun, onid yw'n wir nad yw'n delio â'r mater o gwbl?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:02 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

Counsel General, just following on from those points about the constitution and the judicial system as it affects Wales, you will, of course, be aware that the Agricultural Sector (Wales) Bill is now to be heard this month before seven Supreme Court judges. One of those is a Welsh judge who has been brought in. Have you considered making any representations about the fact that there is no permanent representation on the Supreme Court by a Welsh judge, bearing in mind the number of Welsh constitution-related issues that appear to be keeping the Supreme Court busy these days?

Gwnsler Cyffredinol, gan ddilyn y pwyntiau hynny am y cyfansoddiad a'r system farnwrol fel y mae'n effeithio ar Gymru, byddwch, wrth gwrs, yn ymwybodol y gwrandewir ar Fil Sector Amaethyddol (Cymru) y mis hwn gerbron saith o farnwyr y Goruchaf Lys. Un o'r rhai sydd wedi cael ei ddewis yw barnwr o Gymru. A ydych wedi ystyried gwneud unrhyw sylwadau am y ffaith nad oes cynrychiolaeth barhaol yn y Goruchaf Lys gan farnwr o Gymru, o gofio nifer y materion Cymreig sy'n gysylltiedig â'r cyfansoddiad sy'n cadw'r Goruchaf Lys yn brys ar hyn o bryd yn ôl pob golwg?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:03 **Theodore Huckle**

We have regularly made representations to that effect. The argument between us is that the Supreme Court interprets the Constitutional Reform Act 2005, where it says that the panel of Supreme Court justices shall be representative of every part of the United Kingdom, as a reference to what are currently strictly legal jurisdictions; therefore, England and Wales is considered to be a 'part'. We have not agreed with that proposition. In circumstances where there is a sitting Northern Irish member of the panel, Lord Kerr, and there are, by convention, two panel members who are Scots, we think that, particularly in relation to Wales's leading part—I think that that is a fair way to put it—in the development of constitutional law in the United Kingdom at the moment, it is wrong in principle for there not to be a sitting member of the panel who is Welsh and is available to sit on such cases.

Rydym wedi rhoi sylwadau yn rheolaidd i'r perwyl hwnnw. Y ddadl rhyngom yw bod y Goruchaf Lys yn dehongli Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, lle y dywed y bydd panel o ynadon y Goruchaf Lys yn gynrychioliadol o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, fel cyfeiriad at yr hyn sy'n awdurdodaethau hollol gyfreithiol ar hyn o bryd; felly ystyrir Cymru a Lloegr yn 'rhan'. Nid ydym wedi cytuno â'r cynneg hwnnw. Mewn amgylchiadau lle mae aelod o Ogledd Iwerddon ar y panel, yr Arglwydd Kerr, a bod dau aelod o'r panel, drwy gytundeb, yn Albanwyr, credwn, yn enwedig mewn perthynas â rhan flaenllaw Cymru—credaf fod hynny'n ffordd deg o'i ddisgrifio—yn natblygiad cyfraith gyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ei fod yn anghywir mewn egwyddor i beidio â chael aelod o'r panel sy'n Gymro neu'n Gymraes ac sydd ar gael ar gyfer achosion o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Of course, we are fortunate that the new incumbent in the role of Lord Chief Justice is a good Welshman, if I may call him that, and that he will be sitting on the panel that hears the agricultural sector case a week on Monday, to which I look forward very much.

Wrth gwrs, rydym yn ffodus bod deiliad newydd rôl yr Arglwydd Brif Ustus yn Gymro da, os caf ei alw'n hynny, ac y bydd yn eistedd ar y panel sy'n gwrandao achos y sector amaethyddol wythnos i ddydd Llun, yr wyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn ato.

Bil Drafft Cymru

Draft Wales Bill

15:04 **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

2. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda Chomisiwn y Gyfraith ynglyn â Bil drafft Cymru? OAQ(4)0057(CG)

2. What discussions has the Counsel General had with the Law Commission with regards to the draft Wales Bill? OAQ(4)0057(CG)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:05 **Theodore Huckle**

I have had no such discussions myself with the Law Commission, but there has been dialogue between Welsh Government officials and other interested parties.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath fy hun gyda Chomisiwn y Gyfraith, ond bu deialog rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a phartion eraill sydd â diddordeb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 15:05 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wrth ateb y cwestiwn blaenorol, dywedoch fod cymal 21 wedi ei osod yn y Bil drafft ar gais Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, mae'r cymal hwnnw'n caniatáu cydweithredu pellach rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisw'n y Gyfraith, ond nid yw'r ddarpariaeth mor gadarn â'r sefyllfa yn yr Alban. Sylwais yn arbennig bod y Llywydd, yn ei thystiolaeth i'r pwyllgor dethol, wedi dweud yn benodol y byddai'n hoffi cryfhau'r Bil drafft presennol drwy osod dyletswydd ar y comisiwn i lunio rhaglen waith yn benodol i Gymru, i ddiwygio cyfraith Cymru. A ydych chi a Llywodraeth Cymru yn cytuno â safbwynt y Llywydd?
- In answering the previous question, you said that clause 21 had been placed in the draft Bill at the request of the Welsh Government. This clause, of course, allows further collaboration between the Welsh Government and the Law Commission, but the provision is not as robust as the situation in Scotland. I noticed particularly that the Presiding Officer, in her evidence to the select committee, stated specifically that she would like to strengthen the current draft Bill by placing a duty on the commission to draw up a work programme specifically for Wales, to reform Welsh law. Do you and the Welsh Government agree with the Presiding Officer's view?
- 15:05 **Theodore Huckle** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Absolutely. The deal that was agreed in relation to clause 21 is not ideal. We very much wanted to have the relevant provisions in the Law Commission Act 1965 amended as soon as possible, so as to give Welsh Ministers equal access—if I may put it that way—to the Law Commission. The problem is that, in relation to the overall programme of the Law Commission, it is and will remain the Lord Chancellor who has the purse strings and the overall control. We accept that that is not ideal. Nevertheless, we do see clause 21 as a major step forward. It was brokered at the behest of the commission itself, which, as Members will know, has a good Welshman at its head now—not that I think that that was directly important. I think that all of the commissioners understand that, with the growth of the institutions of governance in Cardiff for Wales, it is absolutely vital that there is proper access to a law commission serving Wales and its proposed legal development as much as England.
- Yn hollol. Nid yw'r hyn y cytunwyd arno mewn perthynas â chymal 21 yn ddelfrydol. Roeddem yn awyddus iawn i ddiwygio'r darpariaethau perthnasol yn Neddff Comisiwn y Gyfraith 1965 cyn gynted â phosibl, er mwyn rhoi mynediad cyfartal i Weinidogion Cymru—os caf ei ddisgrifio felly—i Gomisiwn y Gyfraith. Y broblem yw, mewn perthynas â rhaglen gyffredinol Comisiwn y Gyfraith, mai'r Arglwydd Ganghellor sydd, a bydd, yn gyfrifol am gyllid a'r rheolaeth gyffredinol. Derbyniwn nad yw hynny'n ddelfrydol. Serch hynny, gwelwn gymal 21 fel cam mawr ymlaen. Fe'i trefnwyd ar gais y comisiwn ei hun, sydd â Chymro da yn bennaeth arno bellach, fel y gwyr yr Aelodau—nid bod hynny'n uniongyrchol bwysig yn fy marn i. Credaf fod pob un o'r comisiynwyr yn deall, gyda thwf sefydliadau llywodraethu yng Nghaerdydd ar gyfer Cymru, ei bod yn hollbwysig sicrhau bod mynediad priodol i gomisiwn y gyfraith sy'n gwasanaethu Cymru a'i ddatblygiad cyfreithiol arfaethedig gymaint â Lloegr.
- 15:07 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Counsel General, I would like to follow on from that. Have you identified any areas of constitutional concern within the draft Wales Bill that would cause you to make any representations or give cause for further thought and discussion?
- Gwnsler Cyffredinol, hoffwn ychwanegu at hynny. A ydych wedi nodi unrhyw feysydd o bryder cyfansoddiadol ym Mil drafft Cymru a fyddai'n peri ichi wneud unrhyw sylwadau neu a fyddai'n achos i feddwl a thrafod ymhellach?
- 15:07 **Theodore Huckle** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- No. [Laughter.] Nac ydw. [Chwerthin.]
- 15:07 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn ei drafodaethau gyda phersonau eraill ar y Bil drafft, a fydd y Cwnsler Cyffredinol yn trafod gyda chyfreithwyr sydd yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol? Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cyfarfod yn San Steffan yn ddiweddar mai manylyn bychan oedd cymal 4 y Bil hwn, sydd yn galw Llywodraeth Cymru beth yr wyf i wedi ei galw o'r dechrau, sef Llywodraeth Cymru. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol sicrhau y bydd cymal 4 yn cael ei weithredu yn briodol ac yn llawn, a bod hyn yn arwydd clir o'n statws cyfansoddiadol priodol fel cenedl?
- In his discussions with other persons on the draft Bill, will the Counsel General be having discussions with lawyers advising the Secretary of State? The Secretary of State said in a meeting in Westminster recently that clause 4 of this Bill was a minor detail, which calls the Welsh Government what I have been calling it from the very beginning, namely the Welsh Government. Will the Counsel General ensure that clause 4 is implemented appropriately and fully, as a clear sign of our proper constitutional status as a nation?

15:08

Theodore Huckle

I am not sure that it is for me to ensure the implementation of a UK Act of Parliament, but I certainly adopt the underlying sentiments behind the question. I think that I have said in the Chamber before that it remains a surprise to me how little understanding there is, even within Wales, that we do now have a fully competent legislature and a full executive—and, for that matter, a judiciary, albeit shared with England. We have all three parts of the classical division for governance. That is not well understood in some quarters and it is not helped by calling the Government 'Welsh Assembly Government'. Therefore, I certainly consider, and I know that the Government considers, the formal change of name to 'Welsh Government' an important step, because words do matter—I would say that, I am a lawyer. Presentation matters as well, which is why the Government took the step of the rebranding exercise—if you want to call it that—at the beginning of this Assembly to drop the name 'Assembly' wherever possible, with all due respect to this Chamber.

Nid wyf yn siŵr mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y gweithredir Deddf Seneddol y DU, ond yn sicr cytunaf â'r farn sylfaenol sydd wrth wraidd y cwestiwn. Credaf fod mod wedi dweud yn y Siambwr o'r blaen fy mod yn synnu at gyn lleied y deallir, hyd yn oed yng Nghymru, fod gennym bellach ddeddfwrfa hollol gymwys a gweithrediaeth lawn—ac o ran hynny, farnwriaeth, er y'i rhennir â Lloegr. Mae gennym dair rhan yr is-adran glasurol ar gyfer llywodraethu. Ni ddeallir hynny yn dda mewn rhai cylchoedd ac nid yw galw'r Llywodraeth yn 'Llywodraeth Cynulliad Cymru'; yn helpu yn hynny o beth. Felly, yn sicr ystyriaf, a gwn fod y Llywodraeth yn ystyried, y newid ffurfiol yn yr enw i 'Llywodraeth Cymru' yn gam pwysig, oherwydd mae geiriau'n bwysig—byddwn yn dweud hynny, a minnau'n gyfreithiwr. Mae'r cyflwyniad yn bwysig hefyd, sef y rheswm pam yr aeth y Llywodraeth ati gydag ymarfer ailfrandio—ar ddechrau'r Cynulliad hwn i hepgor y gair 'Cynulliad' lle y bo'n bosibl, gyda phob dyledus barch i'r Siambwr hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:09

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Counsel General.

Diolch ichi, Gwnsler Cyffredinol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:09

Cwestiwn Brys: Cyflogau a Phensiynau Uwch Swyddogion Cynghorau

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Simon Thomas to ask the urgent question.

Urgent Question: Senior Council Officer Salaries and Pensions Y

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Simon Thomas i ofyn y cwestiwn brys.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:09

Simon Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chyflogau a phensiynau uwch swyddogion cynghorau yn sgîl adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru? EAQ(4)0374(LG)

Will the Minister make a statement regarding the salaries and pensions of senior council officers in light of Wales Audit Office reports? EAQ(4)0374(LG)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:09

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

My statement issued yesterday outlines the strong framework that I am putting in place to ensure that locally elected members take open and transparent decisions regarding senior officers' remuneration.

Mae fy natganiad a gyhoeddwyd ddoe yn amlinellu'r fframwaith cryf yr wyf yn ei roi ar waith i sicrhau bod aelodau etholedig lleol yn gwneud penderfyniadau agored a thryloyw o ran cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her reply. Her written statement yesterday was, indeed, very welcome. It said clearly that the governance and scrutiny of senior officers' remuneration is central to the public having trust in their public servants, and it goes on to say that scrutiny committees and auditors must review these reports and ensure that the spirit as well as the letter of the law has been followed. In light of that written statement yesterday, will you now tell the Chamber, Minister, that the statement referring to remuneration also applies to all the other creative accounting methods that chief officers have used to fill their boots over the years, such as deferred pension arrangements, car leasing and other perks? Will you also confirm, in light of the Wales Audit Office's report specifically on what happened in Pembrokeshire and Carmarthenshire and the unlawful payments made there, that the suspension of the chief officers there, pending a full-council investigation, would be supported by, and called for, by you?

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Yn sicr, roedd ei datganiad ysgrifenedig ddoe i'w groesawu'n fawr. Dywed yn glir fod llywodraethu a chraffu ar gydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion yn ganolog i sicrhau bod y cyhoedd yn ymddiried yn eu gweision cyhoeddus, ac mae'n mynd ymlaen i ddweud bod yn rhaid i bwyllgorau craffu ac archwilyr adolygu'r adroddiadau hyn a sicrhau bod ysbryd yn ogystal â llythyren y gyfraith wedi'u dilyn. Yng ngoleuni'r datganiad ysgrifenedig hwnnw ddoe, a wnech chi ddweud wrth y Siambr nawr, Weinidog, fod y datganiad sy'n cyfeirio at gydnabyddiaeth ariannol hefyd yn gymwys i bob dull cyfrifyddu creadigol arall y mae prif swyddogion wedi eu defnyddio i gael cymaint â phosibl dros y blynyddoedd, megis trefniadau pensiwn gohiriedig, prydlesu ceir a manteision eraill? A wnech chi gadarnhau hefyd, yng ngoleuni adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn benodol ar yr hyn a ddigwyddodd yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin a'r taliadau anghyfreithlon a wnaed yno, y byddai atal y prif swyddogion dros dro, tra'n aros am ymchwiliad llawn gan y cyngor, yn cael ei gefnogi gennych chi ac y byddech yn galw am hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:10

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I cannot comment on the particular circumstances in Carmarthenshire and Pembrokeshire while the police are liaising with the Crown Prosecution Service. I welcome the publication of the public-interest reports, and I think that they make a good contribution to good governance and sound financial management in the public sector. I urge both councils to seriously consider the recommendations that they make—I think that they should make the necessary improvements to their decision-making process—and both local authorities now have 30 days to respond.

Ni allaf roi sylwadau ar yr amgylchiadau penodol yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro tra bod yr heddlu yn cysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron. Croesawaf gyhoeddiad yr adroddiadau er budd y cyhoedd, a chredaf eu bod yn gwneud cyfraniad da at lywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn yn y sector cyhoeddus. Anogaf y ddau gyngor i ystyried o ddirif yr argymhellion a wnânt—credaf y dylent wneud y gwelliannau angenrheidiol i'w proses gwneud penderfyniadau—ac mae gan y ddau awdudod lleol 30 diwrnod yn awr i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:11

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

During the passing of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, the Welsh Conservatives led calls for all senior pay to be set by an independent remuneration board. Sadly, you and Plaid Cymru voted that down, in favour of your own amendment allowing local authorities to only have regard to any panel recommendations, for chief executives only. In the aftermath of the Wales Audit Office findings regarding Carmarthenshire and Pembrokeshire, do you not regret taking that decision? Would you consider reviewing that situation so that we can now see transparent, accountable controls in place for all levels of senior pay across our local authorities?

Yn ystod hynt Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, arweiniodd y Ceidwadwyr Cymreig yr alwad am i dâl uwch swyddogion gael ei bennu gan fwrdd cydnabyddiaeth annibynnol. Yn anffodus, gwnaethoch chi a Phlaid Cymru bleidleisio yn erbyn hynny, o blaid eich gwelliant eich hun a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i ystyried argymhellion panel yn unig, ar gyfer prif weithredwyr yn unig. Yn sgil canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, onid ydych yn difaru gwneud y penderfyniad hwnnw? A fyddech yn ystyried adolygu'r sefyllfa honno fel y gallwn yn awr weld rheolaethau tryloyw, atebol ar waith ar gyfer pob lefel o dâl uwch swyddogion ar draws ein hawdurdodau lleol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:12

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I do not and will not. I think that it is absolutely right that locally elected members—they are the ones who are put there by the local electorate—take firm responsibility for and ownership of decisions concerning the remuneration of their senior officers. It is those local councillors' responsibility to ensure that proper governance is practised, and they should be mindful of ensuring the correct and appropriate spending of public funds.

Na, ni fyddwn yn ystyried hynny yn awr nac yn y dyfodol. Credaf ei bod yn hollol iawn bod aelodau a etholir yn lleol—nhw yw'r rhai a roddir yno gan yr etholaeth leol—yn cymryd cyfrifoldeb cadarn am benderfyniadau a pherchenogaeth dros y penderfyniadau hynny ynghylch cydnabyddiaeth ariannol eu huwch swyddogion. Cyfrifoldeb y cyngorwyr lleol hynny yw sicrhau y caiff dull llywodraethu priodol ei roi ar waith, a dylent geisio sicrhau bod y swm cywir a phriodol o arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:12	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography I was disturbed to read, in relation to Carmarthenshire and Pembrokeshire, that the response from the Wales Audit Office was to indicate that it was outside its remit to investigate these matters of the remuneration of the chief executives. Can you make it clear to all bodies that are in receipt of funds voted by this Assembly that it is indeed the Wales Audit Office's duty to investigate the way in which those funds are used?	Cefais fy synnu'n fawr wrth ddarllen, mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, mai ymateb Swyddfa Archwilio Cymru oedd nodi bod ymchwilio i faterion ynghylch cydnabyddiaeth ariannol y prif weithredwyr yn fater a oedd y tu allan i'w chylch gwaith. A allwch egluro wrth bob sefydliad sy'n cael arian a bleidleiswyd gan y Cynulliad hwn mai dyletswydd Swyddfa Archwilio Cymru yn wir yw ymchwilio i'r ffordd y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio?	Senedd.tv Fideo Video
15:13	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I do see that as a role of the Wales Audit Office.	Rôl Swyddfa Archwilio Cymru yw hynny yn fy marn i.	Senedd.tv Fideo Video
15:13	Peter Black Bywgraffiad Biography I also welcome your statement on the provisions of the local government Act. In terms of the remuneration panel's remit in scrutinising chief executives' pay, does it cover the sort of things that Simon Thomas outlined, to which you did not respond, in terms of pension payments and other abnormal payments that they might gain as a result of these sorts of practices going on in Caerphilly, Carmarthenshire and Pembrokeshire?	Croesawaf hefyd eich datganiad ar ddarpariaethau Deddf llywodraeth leol. O ran cylch gwaith y panel cydnabyddiaeth ariannol wrth graffu ar dâl prif weithredwyr, a yw'n cwmpasu'r math o bethau a nododd Simon Thomas, na wnaethoch ymateb iddynt, o ran taliadau pensiwn a thaliadau anghyffredin eraill y gallent eu cael o ganlyniad i'r mathau hyn o arferion sy'n mynd rhagddynt yng Nghaerffili, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro?	Senedd.tv Fideo Video
15:13	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography No. The policy on, and the regulation of, local government pension schemes is not devolved to the National Assembly for Wales.	Na. Nid yw'r polisi ar gynlluniau pensiwn llywodraeth leol na'r broses o'u rheoleiddio, yn cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
15:14	Keith Davies Bywgraffiad Biography Residents in my community expect transparency at every level of government, and, more importantly, at local government. One of the issues that I have with the Wales Audit Office report is that local members have been told, I think, in both authorities, but certainly in one, that the payments did not cost the county council anything at all. Therefore, some of the members said, 'We can let it go.' However, my concern is that those payments actually did affect the Dyfed superannuation fund, which covers everybody who works in the Dyfed area, and I was disappointed that the audit office's report did not mention that whatsoever.	Mae trigolion yn fy nghymuned yn disgwyl tryloywder ar bob lefel o lywodraeth, ac, yn bwysicach fyth, ar lefel llywodraeth leol. Un o broblemau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn fy marn i yw bod aelodau lleol wedi cael gwybod, fe gredaf, yn y ddau awdurdod, ond yn sicr mewn un, na wnaeth y taliadau gostio dim i'r cyngor sir o gwbl. Felly, dywedodd rhai o'r aelodau, 'Gallwn anghofio amdano.' Fodd bynnag, fy mhryder i yw bod y taliadau hynny mewn gwirionedd wedi effeithio ar gronfa pensiwn Dyfed, sy'n cwmpasu pawb sy'n gweithio yn ardal Dyfed, ac roeddwn yn siomedig na wnaeth adroddiad y swyddfa archwilio sôn am hyn o gwbl.	Senedd.tv Fideo Video
15:14	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography As I say, it is now for both of the local authorities to which you refer to have a look at the reports that have come from the Wales Audit Office. They need to seriously consider the recommendations it makes. There are obviously improvements that they need to make to their decision-making processes. However, ultimately, these are employment matters for each authority; the Welsh Government has no powers to intervene in decisions about remuneration packages for individuals.	Fel y dywedaf, cyfrifoldeb y ddau awdurdod lleol y cyfeiriasoch atynt yw edrych yn awr ar adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru. Mae angen iddynt ystyried yr argymhellion a wna o ddifrif. Yn amlwg mae gwelliannau y mae angen iddynt eu gwneud i'w phrosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, yn y pen draw, materion cyflogaeth i bob awdurdod yw'r rhain; nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i ymyrryd mewn penderfyniadau am becynnau cydnabyddiaeth ariannol i unigolion.	Senedd.tv Fideo Video

15:15	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The findings of these latest WAO reports have indeed been very disturbing, particularly for local rate payers and the staff in the local authorities, many of whom, of course, have had their pay frozen for a number of years. It appears that a number of local authorities—albeit a small number—need to make significant improvements to their governance arrangements. You do have powers, Minister, to be able to issue guidance in respect of governance to Welsh local authorities. Why do you not use your influence in respect of guidance in relation to governance arrangements to solve this problem once and for all, so that we do not have situations where local rate payers are picking up a bill for barmy decisions by some local authorities?</p>	<p>Mae canfyddiadau adroddiadau diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru wedi peri pryder mawr, yn enwedig i drethdalwyr lleol a'r staff yn yr awdurdodau lleol, y mae cyflog llawer ohonynt, wrth gwrs, wedi cael ei rewi ers nifer o flynyddoedd. Mae'n ymddangos bod angen i nifer o awdurdodau lleol—nifer fach serch hynny—wneud gwelliannau sylweddol i'w trefniadau llywodraethu. Mae gennych bwerau, Weinidog, i gyflwyno canllawiau llywodraethu i awdurdodau lleol Cymru. Pam na ddefnyddiwch eich dylanwad o ran rhoi canllawiau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu i ddatrys y broblem hon unwaith ac am byth, fel na chawn sefyllfaoedd lle mae trethdalwyr lleol yn talu am benderfyniadau gwirion a wnaed gan rai awdurdodau lleol?</p>
15:16	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think that I said yesterday in my business statement that I will be publishing updated guidance to authorities on this matter later this month, which will come into force in April.</p>	<p>Credaf imi ddweud ddoe yn fy natganiad busnes y byddaf yn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau i awdurdodau ar y mater hwn yn ddiweddarach y mis hwn, a ddaw i rym ym mis Ebrill.</p>
15:16	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch, Weinidog.</p>
15:16	Cynnig i Atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn Caniatáu i NNDM5427 gael ei Ystyried	Motion to Suspend Standing Order 12.20(i) and Standing Order 11.16 to Allow NNDM5427 to be Considered
	Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r cynnig—Mark Drakeford.</p>
	<p>Cynnig NNDM5428 Mark Drakeford</p>	<p>Motion NNDM5428 Mark Drakeford</p>
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:</p>
	<p>Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5427 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 5 Chwefror 2014.</p>	<p>Suspends Standing Order 12.20(i) and that part of Standing Order 11.16 that requires the weekly announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow NNDM5427 to be considered in Plenary on Wednesday 5 February 2014.</p>
15:16	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p>	
	<p>I move the motion.</p>	<p>Cyflwynaf y cynnig.</p>
	<p>I ask Assembly Members to agree to suspend the relevant Standing Orders today so that we can debate an important legislative consent motion resulting from a further late amendment to the UK Children and Families Bill.</p>	<p>Gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gytuno i ohirio'r Rheolau Sefydlog perthnasol heddiw fel y gallwn drafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol pwysig sy'n deillio o welliant hwy'r pellach i Fil Plant a Theuluoedd y DU.</p>

15:17	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have no speakers for this item. The proposal is to agree the motion to suspend Standing Orders. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.</p>	<p>Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr ar gyfer yr eitem hon. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig i ohirio Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p><i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	
15:17	<p>Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag Ysmygu mewn Cerbydau Preifat sy'n Cludo Person neu Bersonau o dan 18 Oed</p>	<p>Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to Smoking in Private Vehicles Carrying a Person or Persons under the Age of 18</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p>	<p>Bywgraffiad Biography</p>	
	<p>I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r cynnig—Mark Drakeford.</p>	
	<p>Cynnig NNDM5427 Mark Drakeford</p>	<p>Motion NNDM5427 Mark Drakeford</p>	
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud ag ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cario person neu bersonau o dan 18 oed, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Children and Families Bill relating to smoking in private vehicles carrying a person or persons under the age of 18, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.</p>	
15:17	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p>	<p><i>The Minister for Health and Social Services</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Cynigiaf y cynnig.</p>	<p>I move the motion.</p>	
	<p>Unwaith eto, er gwaethaf y pryderon gwirioneddol am y broses y mae'n rhaid i ni ei dilyn, rwyf yn falch o allu dwyn ymlaen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn oherwydd ei fod yn gyfle mawr i fwrw ymlaen â chamau i warchod plant rhag effeithiau defnydd tybaco.</p>	<p>Once again, despite the very real concerns about the process that we must follow, I am pleased to bring forward this legislative consent motion because it provides us with a great opportunity to proceed in taking steps to protect children from the effects of tobacco use.</p>	
	<p>Bydd Aelodau yn ymwybodol o'r bleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Ionawr o ran gwelliant gan y gwrthbleidiau i'r Bil Plant a Theuluoedd ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant. Yn dilyn hyn, cafwyd ymrwymiad cyhoeddus i bleidlais rydd ar hyn yn Nhŷ'r Cyffredin. Yna, fe'n hysbyswyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar 30 Ionawr am welliant pellach posibl gan y Llywodraeth i'r Bil hwn ynghylch ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo plant.</p>	<p>Members will be aware of the vote in the House of Lords on 29 January and an opposition party amendment to the Children and Families Bill on smoking in vehicles carrying children. Following this, there was a public commitment to a free vote in the House of Commons on this particular issue. Then, we were informed by the UK Government on 30 January about the possibility of a further Government amendment to that Bill with regard to smoking in private vehicles carrying children.</p>	
	<p>Ar ddydd Llun yr wythnos hon, 3 Chwefror, cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai gwelliant yn cael ei gyflwyno ar 4 Chwefror, i'w drafod yn ystod y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Chwefror, sef y prynhawn yma. Byddai hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddi-fwg bresennol i roi'r pŵer i wneud rheoliadau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w alluogi i wahardd ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo pobl dan 18 oed.</p>	<p>On Monday of this week, 3 February, the UK Government confirmed that an amendment would be tabled on 4 February, to be debated at the Third Reading in the House of Lords on 5 February, which is this afternoon. This would amend current smoke-free legislation to give the Secretary of State a specific regulation-making power to enable him to prohibit smoking in private vehicles carrying people under the age of 18.</p>	

The LCM in front of the Assembly this afternoon would put Welsh Ministers in the same position as the Secretary of State, allowing them to bring forward regulations for Wales. Certain vehicles, such as taxis, are already required to be smoke-free under the Smoke-free Premises etc. (Wales) Regulations 2007. The regulation-making powers in this amendment would enable us to require private vehicles that are not covered by the existing smoke-free premises regulations to be smoke-free, but only at times or in circumstances where there is a person aged under 18 present in the vehicle.

Moreover, the amendment that will be put before the House of Lords later today will also put our existing regulation-making powers on a stronger footing, in strengthening the enforcement options that are available to both the Welsh Ministers and the Secretary of State to include enforcement by the police. Because those regulation-making powers, if this LCM is passed, will in future be exercised here—by Welsh Ministers in this Assembly—they would be subject to a full Plenary debate and vote.

These late amendments have presented us with another timing difficulty. The Children and Families Bill is expected to have its final consideration in the House of Commons next week. In order for the amendment tabled to include Wales, it was necessary to move to agree a legislative consent motion more quickly than this Assembly has ever done before.

I much regret that, once again, it has not been possible for the LCM to have full scrutiny of an Assembly committee.

Wrth gwrs, clywais beth ddywedodd Simon Thomas wrth y Cwnsler Cyffredinol yn gynharach y prynhawn yma.

Dirprwy Lywydd, I am grateful to you for agreeing to a motion to allow the relevant Standing Orders to be suspended so that we could debate this LCM today. I am grateful to Members for supporting that. I would also like to express my gratitude to members of the Business Committee for their recognition of the pressures that we have been working under.

Dirprwy Lywydd, if I may, I would like to take the opportunity to put on record my thanks to what is a very small band of officials, who have worked very hard and very quickly over recent weeks to secure the different opportunities that rapidly and unexpectedly have come our way in strengthening public health protections in Wales. Both policy and legal officials have liaised with their counterparts in the Department of Health on the amendment that has been tabled, and have produced an LCM to a very tight timetable in order to enable Members to consider it this afternoon.

I believe that it provides an important opportunity that should not be lost. I hope that Members will agree that these are powers that should be taken for Welsh Ministers, and exercised here in the National Assembly.

Byddai'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad y prynhawn yma yn rhoi Gweinidogion Cymru yn yr un sefyllfa â'r Ysgrifennydd Gwladol, gan eu galluogi i gyflwyno rheoliadau ar gyfer Cymru. Eisoes mae'n ofynnol i rai cerbydau, megis tacsis, fod yn ddi-fwg o dan Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007. Byddai'r pŵerau gwneud rheoliadau yn y gwelliant hwn yn ein galluogi i'w gwneud yn ofynnol i gerbydau preifat nas cwmpeisir gan y rheoliadau safleoedd di-fwg presennol fod yn ddi-fwg, ond dim ond ar adegau neu mewn amgylchiadau lle mae rhywun o dan 18 oed yn y cerbyd.

Ar ben hynny, mae'r gwelliant a gaiff ei roi gerbron Tŷ'r Arglwyddi yn ddiweddarach heddiw hefyd yn rhoi ein pŵerau presennol i lunio rheoliadau ar sylfaen gryfach, gan gryfhau'r dewisiadau gorfodi sydd ar gael i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnwys gorfodaeth gan yr heddlu. Gan y bydd y pŵerau hynny i wneud rheoliadau, os caiff y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ei basio, yn cael eu hymarfer yn y dyfodol yma—gan Weinidogion Cymru yn y Cynulliad hwn—byddent yn ddarostyngedig i ddadl a phleidlais mewn Cyfarfod Llawn.

Mae'r gwelliannau hwyr hyn wedi creu anhawster amseru arall i ni. Disgwylir i'r Bil Plant a Theuluoedd gael ei ystyried yn derfynol yn Nhŷ'r Cyffredin yr wythnos nesaf. Er mwyn i'r gwelliant a gyflwynwyd gynnwys Cymru, roedd angen cytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gyflymach nag y mae'r Cynulliad hwn erioed wedi'i wneud o'r blaen.

Gresynaf yn fawr, unwaith eto, na fu'n bosibl i un o bwyllgorau'r Cynulliad graffu'n llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Of course, I heard what Simon Thomas said to the Counsel General earlier this afternoon.

Dirprwy Lywydd, rwy'n ddiolchgar ichi am gytuno ar gynnig i alluogi'r Rheolau Sefydlog i gael eu gohirio fel y gallem drafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn heddiw. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau am gefnogi hynny. Hoffwn fynegi fy niolch hefyd i aelodau'r Pwyllgor Busnes am gydnabod y pwysau sydd wedi bod arnom.

Dirprwy Lywydd, os caf, hoffwn fanteisio ar y cyfle i gofnodi fy niolch i'r nifer fach iawn o swyddogion sydd wedi gweithio'n ddiwyd iawn ac yn gyflym iawn dros yr wythnosau diwethaf i sicrhau'r cyfleoedd gwahanol sydd wedi dod i'n rhan yn gyflym ac yn annisgwyl o ran atgyfnerthu camau diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae swyddogion polisi a chyfreithiol wedi cysylltu â'u cymheiriaid yn yr Adran Iechyd ar y gwelliant a gyflwynwyd, ac wedi cynhyrchu Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn terfyn amser tynn iawn er mwyn galluogi Aelodau i'w ystyried y prynhawn yma.

Credaf ei fod yn gyfle pwysig na ddylid ei golli. Gobeithio y bydd Aelodau'n cytuno bod y rhain yn bwerau y dylid eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru, a'u hymarfer yma yn y Cynulliad Cenedlaethol.

I thank the Minister for bringing this legislative consent motion before the Assembly today. As has been the theme of these recent LCMs, there is obviously a timing problem in terms of the availability of time for the National Assembly to scrutinise these motions in more detail. However, it is important that we grasp this opportunity at this time to provide an opportunity in the UK Parliament's work programme for Welsh Ministers to have the same regulation-making powers as will be available to the Secretary of State in England, which could be used to deliver a ban on smoking in cars with children.

This is a matter on which there are various opinions as to whether or not a ban ought to be introduced. I have made it quite clear that my personal opinion is very much in support of introducing a ban. It would be helpful, Minister, if you can tell us in your response to the debate whether you intend to use these powers, if they are given to you as a result of the legislative consent motion, so that you can introduce a ban and use the other enforcement opportunities present, particularly in terms of police enforcement in the future.

We know that the dangers of second-hand smoke are well established; nobody needs to provide more evidence on that. We know that smoke circulating in an enclosed, confined space within a car is five times more damaging than it is in a larger room. Young children whose lungs are developing are more susceptible to the damage that can be caused by the inhalation of second-hand smoke. So, I am very keen to see regulations made here in Wales as soon as possible, and it would be useful, Minister, to hear from you about the possible timescales you might be able to work to, should these powers be devolved.

I appreciate that a piece of work, an evaluation, is being done at present on the publicity campaign, which the Welsh Government has quite rightly undertaken. However, I am not convinced from the discussions I have had with my own constituents or the charities that have lobbied me on this issue, that that campaign has been as effective as it ought to have been in bringing down the rates of smoking in cars with children. We know that around half of Welsh smokers smoke in their vehicles and that around one in five Welsh smokers admits to smoking in a car with children. If one in five is admitting and confessing to that—and I will use this word; it may be unpleasant for some—sin of smoking in a car with children, given the damaging impact on children's health, I think that, probably, the rates are much higher than that. So, perhaps Minister, in response, you would be able to give an indication of whether you intend to use these powers and the timescale by which you would intend to use them.

Diolchaf i'r Gweinidog am gyflwyno'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron y Cynulliad heddiw. I ategu thema'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol diweddar hyn, mae'n amlwg bod problem amseru o ran faint o amser sydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y cynigion hyn yn fanylach. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn bachu ar y cyfle hwn ar yr adeg hon i roi cyfle yn rhaglen waith Senedd y DU i Weinidogion Cymru gael yr un pwerau gwneud rheoliadau â'r rhai a fydd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, y gellid eu defnyddio i gyflwyno gwaharddiad ar ysmegu mewn ceir â phlant ynddynt.

Mae penderfynu a ddylid cyflwyno gwaharddiad ai peidio yn fater y mae gan lawer farn wahanol arno. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn fy mod yn gyfan gwbl o blaid cyflwyno gwaharddiad. Byddai'n ddefnyddiol, Weinidog, pe gallech ddweud wrthym yn eich ymateb i'r ddatl a ydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn, os cânt eu rhoi i chi o ganlyniad i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, fel y gallwch gyflwyno gwaharddiad a defnyddio'r cyfleoedd gorfodi eraill sydd ar gael, yn enwedig o ran gorfodaeth yr heddlu yn y dyfodol.

Gwyddom fod peryglon mwg ail-law yn hysbys iawn; nid oes angen i neb roi mwy o dystiolaeth o hynny. Gwyddom fod mwg sy'n cylchdroi mewn man caeedig, cyfyng mewn car bum gwaith yn fwy niweidiol nag ydyw mewn ystafell fwy o faint. Mae plant ifanc y mae eu hysgyfaint yn datblygu yn fwy agored i'r niwed y gall anadlu mwg ail law ei achosi. Felly, rwy'n awyddus iawn i weld rheoliadau'n cael eu gwneud yma yng Nghymru cyn gynted â phosibl, a byddai'n ddefnyddiol, Weinidog, clywed gennych am yr amserlenni posibl ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn, pe bai'r pwerau hyn yn cael eu datganoli.

Gwerthfawrogaf fod darn o waith, gwerthusiad, yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar yr ymgyrch cyhoeddusrwydd, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â hi, a hynny'n briodol. Fodd bynnag, nid wyf yn argyhoeddedig o'r trafodaethau a gefais gyda'm hetholwyr i na'r elusennau sydd wedi fy lobio ar y mater hwn, fod yr ymgyrch honno wedi bod mor effeithiol ag y dylai fod wedi bod o ran gostwng cyfraddau ysmegu mewn ceir sydd â phlant ynddynt. Gwyddom fod tua hanner yr ysmegwyr yng Nghymru yn ysmegu yn eu cerbydau a bod tua un o bob pump o ysmegwyr Cymru yn cyfaddef eu bod yn ysmegu mewn car sydd â phlant ynddo. Os yw un o bob pump yn cyfaddef ac yn cyffesu—a defnyddiaf y gair hwn; gall fod yn amhleserus i rai—eu bod yn ysmegu mewn car sydd â phlant ynddo, o gofio'r effaith niweidiol ar iechyd plant, credaf, yn ôl pob tebyg, fod y cyfraddau yn uwch o lawer na hynny. Felly, efallai Weinidog, mewn ymateb, y gallech nodi p'un a ydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn a nodi'r amserlen ar gyfer eu defnyddio.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Once again, I am very pleased to speak in support of this legislative consent motion. It does seem as if Westminster has finally woken up to the public health danger of smoking, and that has meant that we have had all these very short-notice debates, but about very important issues such as e-cigarettes yesterday, plain packaging and now this today. I know that the Minister said that this was going to be debated this afternoon, I believe, in the House of Lords, where it is likely to pass because it is a Government motion, and that it will then be going to the House of Commons on Monday, where I understand all parties will have a free vote. If we pass this LCM today and then, by some chance, the motion is defeated in a free vote in Westminster—although, personally, I think that is extremely unlikely because there is a great public mood for this to be done, so I cannot imagine that it would be defeated—what would our position be in the Assembly? What if we had already passed this and then nothing happened in Westminster? That was one of the issues that I wanted to ask about.

If the legislation does go through, I would also like to ask about how that would link in with the research that is being done here and the campaigns that are being done here. Really, I would like to express my hope that, if it was passed, the powers would be passed down to us so that we could do it as soon as we possibly could, because the evidence is so overwhelming and I think that it is just an absolutely natural step to take. Thinking of the health of the children in cars, really, we ought to be doing it as soon as we possibly can.

Unwaith eto, rwy'n falch iawn o siarad o blaid y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Mae'n ymddangos fel petai San Steffan wedi deffro o'r diwedd a wynebu'r perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ysmegu, ac mae hynny wedi golygu ein bod wedi cael yr holl ddadleuon rhybudd byr iawn hyn, ond ar faterion hollbwysig megis e-sigarêts ddoe, pecynnu plaen ac yn awr hwn heddiw. Gwn fod y Gweinidog wedi dweud bod hyn yn mynd i gael ei drafod y prynhawn yma, fe gredaf, yn Nhŷ'r Arglwyddi, lle mae'n debygol o gael ei basio am mai cynnig y Llywodraeth ydyw, ac yna bydd yn cael ei drafod yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun, lle y deallaf y bydd gan bob plaid bleidlais rydd. Os byddwn ni'n pasio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw ac yna, drwy hap a damwain, y caiff y cynnig ei drechu mewn pleidlais rydd yn San Steffan—er, yn bersonol, credaf fod hynny'n annhebygol iawn gan fod awydd ymhlith y cyhoedd i hyn gael ei wneud, felly ni allaf ddychmygu y caiff ei drechu—beth fyddai ein sefyllfa yn y Cynulliad? Beth pe baem eisoes wedi pasio hyn ac wedyn bod dim byd yn digwydd yn San Steffan? Dyna oedd un o'r materion yr oeddwn am holi yn ei gylch.

Os caiff y ddeddfwriaeth ei phasio, hoffwn hefyd holi sut y byddai hynny'n cysylltu â'r ymchwil sy'n cael ei wneud yma a'r ymgyrchoedd sy'n mynd rhagddynt yma. A dweud y gwir, hoffwn fynegi fy ngobaith, pe câi ei basio, y byddai'r pwerau yn cael eu trosglwyddo i ni fel y gallem wneud hyn cyn gynted â phosibl, oherwydd mae cymaint o dystiolaeth o blaid hyn a chredaf ei fod yn gam hollol naturiol i'w gymryd. Gan feddwl am iechyd plant mewn ceir, a dweud y gwir, dylem fod yn ei wneud cyn gynted â phosibl.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr wyf yn siarad ar ran grŵp Plaid Cymru ac yr ydym yn mynd i gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, er gwaethaf y ffaith ein bod yn anhapus iawn yn gyffredinol ynglŷn â'r dulliau hyn o ddeddfu. Mae hynny'n ymwneud â chwestiynau ehangach ynglŷn ag allforio ein deddfau i lawr i San Steffan yn hytrach na delio â nhw mewn ffordd llawer mwy cytbwys yn y fan hon, lle y gallwn graffu yn briodol ar yr hyn yr ydym yn ei wneud. Yn y cyd-destun hwnnw, nid wyf yn meddwl bod anghytuno sylfaenol ynglŷn â'r polisi, felly mae pobl yn fodlon cydweithio gyda'r graen, ond mewn cyd-destun gwahanol, gallai fod yn wahanol ac, yn gyffredinol, nid ydym yn hapus â'r ffordd yma o osod o'r neilltu y Rheolau Sefydlog a dod i benderfyniad yn glou iawn ac yn fuan iawn heb ystyriaeth lawn. Wedi dweud hynny, mae'r mater hwn wedi bod yn destun trafodaeth gyhoeddus mor hir, ac wedi cael tipyn o ystyriaeth, felly rydym yn fodlon i gytuno ag ef heddiw. Mae'r pwynt eisoes wedi cael ei wneud ynglŷn ag iechyd plant, ac rwy'n meddwl mai amddiffyn iechyd plant yr ydym yn ei wneud yn benodol yn y fan hon, ac yr ydym am gefnogi hynny.

I will be speaking on behalf of the Plaid Cymru group and we are going to support this LCM today, despite the fact that we are very unhappy generally about these methods of legislating. That is to do with broader questions about exporting our legislation to Westminster rather than dealing with legislation in a much more balanced way here, where appropriate scrutiny can be given to what we are doing. In that context, I do not think that there is fundamental disagreement on this policy, so people are willing to collaborate. However, in a different context, it could be very different and, generally, we are not happy with this approach of setting aside Standing Orders, coming to a very quick decision and not giving full consideration to such matters. Having said that, this issue has been a subject of public debate for so long and has had plenty of consideration, so we are willing to agree with this today. The point has already been made about the health of children, and I think that protecting children's health is what we are doing here today, and we want to support that.

Rwyf eisiau dweud un peth ychwanegol ynglŷn â'r cysyniad hwn bod y car rhywsut yn ofod preifat na ddylai'r Llywodraeth ymyrryd ynddo. Rwy'n meddwl ein bod yn ymyrryd yn y car drwy'r amser drwy ddweud na ddylai pobl siarad ar eu ffonau yn eu ceir ac y dylent wisgo gwregys yn y car. Mae pob cam yr ydym wedi ei gymryd wedi torri'r cysyniad anghywir hwn fod y car rhywsut yn rhywbeth preifat nad yw'n ymwneud â gofod cyhoeddus. Mae'r car yn rhywbeth gwbl beryglus, a bod yn onest, ac mae dyletswydd arnom i gyd i reoli'r peiriant hwnnw yn y ffordd fwyaf priodol. Mae ysmegu yn y car yn peri peryglon i'r plant sydd yn y car, ac y mae hefyd yn peri peryglon i'r bobl y tu allan, o ran y ffordd yr ydych yn gyrru'r car. Fodd bynnag, nid yw hynny'n fater i'r ddeddfwriaeth hon.

Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ei hunan ar lwybr penodol o ran y mater hwn a oedd yn golygu aros tua diwedd y Cynulliad hwn cyn edrych ar ddeddfu, yn ôl yr hyn yr oeddwn i'n ei deall. Mae posibilid ym awr, os y daw hwn drwy San Steffan, y bydd Llywodraeth San Steffan—sef Llywodraeth Loegr yn y cyd-destun hwn—yn symud i ddeddfu a chael rheoliadau. Felly, a ydym yn mynd i fabwysiadu rheoliadau Lloegr, neu a yw'r Gweinidog am lynnu at y llwybr unigol i Gymru? Byddwn i, yn amlwg, yn gofyn iddo lynnu at lwybr i Gymru, a hefyd i ail-edrych ar yr amserlen er mwyn sicrhau nad ydym mewn sefyllfa lle bo Lloegr yn symud ymlaen a ninnau'n cael ein gadael ar ein hôl. Credaf fod y dystiolaeth, fel y dywedodd Julie Morgan, yn ddigon cryf i benderfynu ar y mater hwn erbyn hyn.

Y pwynt olaf rwyf eisiau ei wneud, gan ein bod yn deddfu mor glou yn y fan hon, yw gofyn i'r Gweinidog ymrwymo i edrych ar y rheoliadau hynny er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yr ydym yn ei rhoi yn ei lle—er enghraifft, y broses uwch-gadarnhaol, neu rywbeth tebyg—yn sicrhau bod craffu manwl iawn ar y rheoliadau hyn, gan nad oes amser gennym i edrych ar yr egwyddorion wrth basio'r cynnig cydsyniad heddiw.

I just want to say one additional thing about this idea that the car is somehow a private space that the Government should not interfere in. I think that we interfere in the car all the time by saying that people cannot speak on their mobile phones in their cars and that people have to wear seat belts. Every step we have taken has broken this inaccurate perception that the car is a private thing that is not to do with public space. The car is a very dangerous thing, in truth, and there is a duty on all of us to manage these vehicles in the most responsible way possible. Smoking in cars poses a danger to children in cars and it also poses a danger to people outside the car, perhaps, depending upon how you drive. However, that is not an issue for this legislation.

I want to ask some questions on the way ahead. The Welsh Government has been set itself on a path on this issue that meant waiting until the end of this Assembly before looking at legislating, as I understood it. There is a possibility now, if this comes through Westminster, that the Westminster Government—the Government of England in this context—will move to legislate and have regulations. So, are we going to adopt the English regulations, or is the Minister going to stick to the route that he has taken thus far for Wales? I would urge him to do that, and also to review the timetable to ensure that we are not in a position where England moves ahead and we are left behind. I do think that the evidence, as Julie Morgan said, is sufficiently robust now for us to make a decision on this issue.

The final point that I want to make, as we are legislating so swiftly here, is to ask the Minister to commit to looking at the regulations to ensure that the regime that we put in place—for example, the superaffirmative procedure or something similar—ensures that there is proper and detailed scrutiny of these regulations, given that we do not have time to look at the principles in passing the LCM today.

15:31

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Once again, the process that we have had to undergo today is far from what any of us would have wanted. However, given the amendment to the legislation in London, it is perfectly appropriate for the Welsh Government to have brought forward the LCM today.

The Welsh Liberal Democrats will support the LCM on the basis that we believe that it is proper and correct for Welsh Ministers to have powers to act in this particular area. If the Minister does come forward with regulations at a later date, then the group will have a free vote. However, it is right that the Welsh Ministers should have powers to bring forward those regulations for decision here at the National Assembly.

Unwaith eto, mae'r broses yr ydym wedi gorfod mynd drwyddi heddiw yn bell o'r hyn y byddai unrhyw ohonom wedi ei ddymuno. Fodd bynnag, o ystyried y gwelliant i'r ddeddfwriaeth yn Llundain, mae'n gwbl briodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol heddiw.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y sail ein bod yn credu ei bod yn briodol ac yn gywir i Weinidogion Cymru gael pwerau i weithredu yn y maes penodol hwn. Os yw'r Gweinidog yn cyflwyno rheoliadau yn ddiweddarach, yna bydd gan y grŵp bleidlais rydd. Fodd bynnag, mae'n iawn bod gan Weinidogion Cymru bwerau i gyflwyno'r rheoliadau hynny er mwyn penderfynu arnynt yma yn y Cynulliad Cenedlaethol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:32

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolchaf i bob un sydd wedi cyfrannu at y ddadl.

I thank everyone who has contributed to the debate.

I think that Darren Millar began by making the key point that we need to grasp the opportunity that this late amendment provides for Wales. He powerfully made the case for legislative action. Julie Morgan asked a particular question about what the position would be were the amendment to be defeated in the House of Commons. The answer is that we would simply return to the position that we are in now, still able to take forward legislation within the competence of the Assembly, but without the additional benefit of being able to have any legislation—were it to be introduced here—enforced through the police. We would have to rely on local authority enforcement powers in that case.

Credaf i Darren Millar ddechrau drwy wneud y pwynt bod angen inni fachu ar y cyfle y mae'r gwelliant hwyr hwn yn ei roi i Gymru. Dadleuodd o blaid gweithredu deddfwriaethol mewn ffordd bwelus. Gofynnodd Julie Morgan gwestiwn penodol ynghylch beth fyddai'r sefyllfa be bai'r gwelliant yn cael ei drechu yn Nhŷ'r Cyffredin. Yr ateb yn syml yw y byddem yn dychwelyd i'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd, lle y gallwn gyflwyno deddfwriaeth o hyd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, ond heb y fantais ychwanegol o allu gorfodi unrhyw ddeddfwriaeth—pe bai'n cael ei chyflwyno yma—drwy'r heddlu. Byddai'n rhaid inni ddibynnu ar bwerau gorfodi awdurdodau lleol pe bai hynny'n digwydd.

I thought that Simon Thomas made some important points about the private nature of car space, and the way in which, progressively, Governments have sought to regulate the conduct of people when in cars, for wider public purposes. I give him an assurance that, if the Welsh Government brings forward regulations, they will be designed to meet the Welsh circumstances, and, quite certainly, we would bring them forward under the affirmative procedure, with a proper opportunity for this Assembly to scrutinise those regulations.

Credais i Simon Thomas wneud rhai pwyntiau pwysig am natur breifat gofod car, a'r ffordd y mae Llywodraethau, yn gynyddol, wedi ceisio rheoleiddio ymddygiad pobl pan fyddant mewn ceir, at ddibenion cyhoeddus ehangach. Rhoddaf sicrwydd, os yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau, y cânt eu cynllunio i fodloni amgylchiadau Cymru, ac yn sicr, byddem yn eu cyflwyno o dan y weithdrefn gadarnhaol, gyda chyfle priodol i'r Cynulliad hwn graffu ar y rheolidau hynny.

The general question that has been raised across the Chamber is one of timing. I think that the best that I can say on that is that my understanding is that, if the amendment goes through both the House of Lords and the House of Commons, there will need to be a period of consultation by the UK Government on the enforcement side of the new powers that it will have taken. That will broadly run into the period in which our own research findings on the campaign that we have run will become available. What I want to say to the Assembly is that I would not want us to be in a position where children in England were afforded a higher level of protection from second-hand smoke than children in Wales. Therefore, there seems to me to be inevitably a sense in which the timing of any regulations here—although not their content—would have to be run with a clear eye on any timetable that was being introduced at the Department of Health.

Mae'r cwestiwn cyffredinol a godwyd ar draws y Siambr yn ymwneud ag amseru. Credaf mai'r peth gorau y gallaf ei ddweud am hynny yw fy mod yn deall, os bydd y gwelliant yn cael ei basio yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin, y bydd angen cyfnod o ymgynghori gan Lywodraeth y DU o ran gorfodi'r pwerau newydd y bydd wedi eu derbyn. Bydd hynny'n fras yn cyd-fynd â'r cyfnod pan fydd ein canfyddiadau ymchwil ni ein hunain ar yr ymgyrch ar gael. Yr hyn yr wyf am ei ddweud wrth y Cynulliad yw na fyddwn am i ni fod mewn sefyllfa lle mae plant yn Lloegr wedi'u diogelu'n fwy rhag mwg ail-law na phlant yng Nghymru. Felly, mae'n ymddangos i mi yn anochel y byddai'n rhaid i amseriad unrhyw reoliadau yma—ond nid eu cynnwys—gael eu cyflwyno gan gadw llygad barcud ar unrhyw amserlen a oedd yn cael ei chyflwyno yn yr Adran Iechyd.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer voting under this item until voting time.

Diolch, Weinidog. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.**Voting deferred until voting time.***Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru****The Petitions Committee's Report Y on Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute****Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Petitions Committee, William Powell, to move the motion.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, William Powell, i gynnig y cynnig.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2013.

Notes the report of the Petitions Committee on the establishment of an Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, which was laid in the Table Office on 24 October 2013.

15:35

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig. Rwy'n falch iawn heddiw o agor y ddadl hon ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar sefydlu Academi Heddwch Cymru/the Welsh Peace Institute.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion. I am very pleased today to open this debate on the Petitions Committee's report on establishing Academi Heddwch Cymru/the Welsh Peace Institute.

The Petitions Committee's role is to respond to issues raised by members of the public across Wales—to act as a facilitator and advocate for petitioners and to ensure that their concerns are both listened to and heard here at the heart of Government. Petitioners tell us that, even if the issues they raise are not always fully resolved by the petitions process, they value our ability to get decision-makers to at least consider their views, to get them listened to, and, indeed, receive a fair hearing. For the most part, petitions are on matters of everyday Government decision-making. However, on occasion, the petitions we receive are on broader themes, where it is clear that we are unlikely to be able to resolve the matter fully as a committee.

Rôl y Pwyllgor Deisebau yw ymateb i faterion a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru—er mwyn hwyluso ac eiriol dros ddeisebwyr a sicrhau y gwrandewir ar eu pryderon a'u bod yn cael eu clywed yma yng nghanol y Llywodraeth. Dywed deisebwyr wrthym, hyd yn oed os nad yw'r materion a godir ganddynt bob amser yn cael eu datrys yn llwyr gan y broses ddeisebau, eu bod yn gwerthfawrogi ein gallu i gael y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried eu safbwyntiau, gwrando arnynt, ac, yn wir, rhoi gwrandawriad teg iddynt o leiaf. Fel arfer, mae deisebau yn ymdrin â materion yn ymwneud â phroses gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, weithiau, mae'r deisebau a gyflwynir yn ymdrin â themâu ehangach, lle mae'n amlwg ein bod yn annhebygol o allu datrys y mater yn llawn fel pwyllgor.

The petition we are debating today is one that raises these sorts of broader issues. One of the Petitions Committee's roles is to provide opportunities for such issues, which might not otherwise receive wide consideration, to be debated in the Assembly itself. The petition called for the establishment of an Academi Heddwch Cymru or a Wales Peace Institute and was signed by 1,525 people. It was organised jointly by the Welsh Centre for International Affairs, Cynefin y Werin, Cymdeithas y Cymod and CND Cymru. It was submitted to our predecessor committee back in September 2009 and that committee took a range of oral evidence on the petition. The current committee built on this evidence with a consultation and further consideration of the petition. The previous committee took oral evidence from the petitioners, the Flemish Peace Institute, and the International Catalan Institute for Peace. Additionally, the committee also considered written evidence submitted from the Peace Research Institute in Frankfurt, Allemagne. Building on this, we conducted a public written consultation, with 56 individuals and organisations taking the time and trouble to respond. That is the largest response to a Petitions Committee consultation to date.

Mae'r ddeiseb yr ydym yn ei thrafod heddiw yn un sy'n codi materion ehangach o'r fath. Un o swyddogaethau'r Pwyllgor Deisebau yw rhoi cyfleoedd i drafod materion o'r fath, na fyddent o bosibl yn cael ystyriaeth eang fel arall, yn y Cynulliad ei hun. Galwodd y ddeiseb am sefydlu Academi Heddwch i Gymru neu Sefydliad Heddwch i Gymru ac fe'i llofnodwyd gan 1,525 o bobl. Fe'i trefnwyd ar y cyd gan Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, Cynefin y Werin, Cymdeithas y Cymod a CND Cymru. Cafodd ei chyflwyno i'r pwyllgor a'n rhagflaenodd yn ôl ym mis Medi 2009, a chymerodd y pwyllgor hwnnw amrywiaeth o dystiolaeth lafar ar y ddeiseb. Ategwyd y dystiolaeth hon gan y pwyllgor presennol drwy gynnal ymgynghoriad ac ystyried y ddeiseb ymhellach. Cymerodd y pwyllgor blaenorol dystiolaeth lafar gan y deisebwyr, Sefydliad Heddwch Fflandrys, a Sefydliad Rhyngwladol Catalonia er Heddwch. Hefyd, ystyriodd y pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Sefydliad Ymchwil Heddwch yn Frankfurt, yr Almaen. Gan adeiladu ar hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus gennym, gyda 56 o unigolion a sefydliadau yn gwneud ymdrech i ymateb. Dyna'r ymateb mwyaf i ymgynghoriad gan y Pwyllgor Deisebau hyd yn hyn.

So, what were the petitioners trying to achieve through the establishment of a peace institute? As much as anything, they wanted a broader debate about what the potential role and function of a peace institute might be and they emphasised that an institute would need to promote peace in all aspects of our society and in the broadest sense. This view was supported by the peace institutes from which we took oral evidence and also by the written evidence submitted to us and to our predecessor committee. Among the key principles identified by the petitioners that should underpin any institute were the following: first, a relationship with the National Assembly, with non-governmental organisations, and, indeed, with other organisations that contribute to knowledge and activity about the promotion of peace; secondly, the ability to examine the impact on Wales of UK defence and foreign policy decisions; thirdly, a resource for people and organisations providing information about peace issues; fourthly, academic freedom and consultation status in respect of the national curriculum in Wales; and, finally, freedom to seek independent financing through commissioned research and to utilise funds and resources in the area of peace building.

However, the petitioners were reluctant to provide more detail on what they saw as the role, function and detailed activities of such an institute. Their priority was to seek support in principle for the establishment of a peace institute. Throughout the process, the petitioners have been clear that they are not seeking funding at this stage, or even a commitment to proceed with the establishment of a peace institute, but they do want further investigation into the practicalities of how such an institute could be established.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 15:40.

William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

This has made it somewhat difficult for us, and, indeed, for our predecessor committee, to come to a clear view on the petition itself. Some consultation responses also highlighted that the proposal raises as many questions as it does answers and that more detail of how the institute would work in practice is required. We agree with this assertion and, while understanding that the motivation behind the petition was to generate support for the concept, we think that this petition may have progressed more quickly had more detail been forthcoming at an earlier stage from the petitioners. They did, however, clarify that they have in mind something that is broader than a purely academic approach, and that it would have a co-ordinating function across Welsh society and internationally. It is clear that, if the basic principle is accepted, further work is required to consider better what sort of role and function such an institute could have.

Felly, beth oedd y deisebwyr yn ceisio ei gyflawni drwy sefydlu sefydliad heddwch? Cyn bwysiced â dim, roeddent am gael trafodaeth ehangach ynglŷn â rôl a swyddogaeth bosibl sefydliad heddwch a phwysleiswyd y byddai angen i sefydliad hyrwyddo heddwch ym mhob agwedd ar ein cymdeithas ac yn yr ystyr ehangaf. Cefnogwyd y farn hon gan y sefydliadau heddwch a roddodd dystiolaeth lafar inni a hefyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd inni ac i'r pwyllgor a'n rhagflaenodd. Ymhlith yr egwyddorion allweddol a nodwyd gan y deisebwyr a ddylai fod yn sail i unrhyw sefydliad roedd y canlynol: yn gyntaf, perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol, â sefydliadau anllwyodraethol, ac, yn wir, â sefydliadau eraill sy'n cyfrannu at wybodaeth a gweithgareddau sy'n ymwneud â hyrwyddo heddwch; yn ail, y gallu i ystyried effaith penderfyniadau amddiffyn a pholisi tramor y DU ar Gymru; yn drydydd, adnodd i bobl a sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth am faterion heddwch; yn bedwerydd, rhyddid academaidd a statws ymgynghori mewn perthynas â'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, ac, yn olaf, rhyddid i geisio cyllid annibynnol drwy ymchwil a gomisiynwyd a defnyddio cyllid ac adnoddau ym maes creu heddwch.

Fodd bynnag, roedd y deisebwyr yn amharod i fanylu rhagor ar yr hyn a fyddai rôl, swyddogaeth a gweithgareddau manwl sefydliad o'r fath, yn eu tyb hwy. Eu blaenoriaeth oedd ceisio cefnogaeth mewn egwyddor i sefydlu sefydliad heddwch. Drwy gydol y broses, mae'r deisebwyr wedi bod yn glir nad ydynt yn gofyn am arian ar hyn o bryd, na hyd yn oed am ymrwymiad i fwrw ymlaen â sefydliad heddwch, ond maent yn dymuno ymchwilio ymhellach i ymarferoldeb sefydlu sefydliad o'r fath.

The Presiding Officer took the Chair at 15:40.

Mae hyn wedi ei gwneud hi braidd yn anodd i ni, ac, yn wir, i'r pwyllgor a'n rhagflaenodd, lunio barn glir ar y ddeiseb ei hun. Nododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd fod y cynnig yn codi cymaint o gwestiynau ag atebion a bod angen mwy o fanylion ynghylch sut y byddai'r sefydliad yn gweithio'n ymarferol. Cytunwn â'r safbwynt hwn ac, er inni ddeall mai ennyn cefnogaeth i'r cysyniad oedd y cymhelliant sy'n sail i'r ddeiseb, credwn y gall y ddeiseb hon fod wedi datblygu ynghynt pe bai mwy o fanylion wedi bod ar gael yn gynharach gan y deisebwyr. Fodd bynnag, eglurwyd bod ganddynt rywbeth mewn golwg sy'n ehangach na sefydliad academaidd yn unig, ac y byddai'n ymgymryd â swyddogaeth gydlynu drwy gymdeithas Cymru ac yn rhyngwladol. Mae'n amlwg, os derbynnir yr egwyddor sylfaenol, fod angen gwneud gwaith pellach i ystyried yn well pa fath o rôl a swyddogaeth y gallai sefydliad o'r fath ymgymryd â hwy.

As I mentioned earlier, the previous committee took evidence from three European peace institutes. These institutions are all different, but they all illustrated some key themes that they had in common. These included, first, political independence. It is clear that, if a peace institute is established, that must be done on the basis of real independence from those who would establish it and that funding sources should not impact on that independence. Secondly, on funding, each of the institutes stressed the importance of structural funding. However, it is difficult to assess, without a greater understanding of the role and function of a peace institute, how much it would cost and where funding for it might come from. It is clear from the Welsh Government's response to our report that it would not be in a position to provide such funding in the current climate.

With regard to the merit of regional parliaments establishing peace institutes, all three of the institutes that we took evidence from were established by regional legislatures, which are not responsible for the armed forces or military spending of their countries. Whether this provides a template for Wales, where powers over the military and defence remain the responsibility of Westminster, is a matter for us to consider.

The public written consultation that we carried out sought views on whether a peace institute should be established, how it might be constituted, and what its functions could be. Most responses came from individuals and peace and religious groups, who were, in the main, broadly supportive of the proposal, although few gave us detail on what they would like to see such an institute doing in practice. The Welsh Refugee Council, in particular, felt that a peace institute would help to provide an

'independent and authoritative source of information about refugees and asylum seekers in Wales.'

It pointed out that, while international treaties are beyond the remit of the National Assembly for Wales, some of the international obligations touch on issues of social justice and equality, which are of concern to everyone in Wales. Higher Education Wales was one of the only respondents that told us that it did not feel that such an institute should be established at this time. It said that it understood that the petitioners were keen on the research elements and academic freedom of such an institution and that

'both of these themes are already embedded and held in high regard within universities in Wales.'

While the committee has taken a range of evidence on this issue—

Fel y soniais yn gynharach, cymerodd y pwyllgor blaenorol dystiolaeth gan dri sefydliad heddwch Ewropeaidd. Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn wahanol, ond nododd pob un ohonynt rai themâu allweddol a oedd yn gyffredin iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys, yn gyntaf, annibyniaeth wleidyddol. Mae'n amlwg, os sefydlir sefydliad heddwch, fod yn rhaid gwneud hynny ar sail annibyniaeth wirioneddol gan y rhai a fyddai'n ei sefydlu ac ni ddylai ffynonellau cyllid effeithio ar yr annibyniaeth honno. Yn ail, o ran cyllid, pwysleisiodd pob un o'r sefydliadau bwysigrwydd ariannu strwythurol. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu, heb fwy o ddealltwriaeth o rôl a swyddogaeth sefydliad heddwch, faint y byddai'n ei gostio ac o ble y gallai arian ar ei gyfer ddod. Mae'n amlwg o ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad na fyddai mewn sefyllfa i ddarparu cyllid o'r fath yn yr hinsawdd bresennol.

O ran gwerth seneddau rhanbarthol yn sefydlu sefydliadau heddwch, sefydlwyd pob un o'r tri sefydliad a roddodd dystiolaeth inni gan ddeddfwrfeydd rhanbarthol, nad ydynt yn gyfrifol am luoedd arfog na gwariant milwrol eu gwledydd. Mae pa un a yw hyn yn dempled i Gymru, lle mae San Steffan yn parhau i fod yn gyfrifol am y lluoedd arfog ac amddiffyn, yn fater inni ei ystyried.

Gofynnodd yr ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus a gynhaliwyd gennym am farn pobl ynghylch a ddylid sefydlu sefydliad heddwch, beth fyddai ei gyfansoddiad, a pha swyddogaethau y gelid eu rhoi iddo. Daeth y rhan fwyaf o ymatebion gan unigolion a grwpiau heddwch a chrefyddol, a oedd, ar y cyfan, yn cefnogi'r cynnig, er mai ychydig a fanylodd ar yr hyn yr hoffent weld sefydliad o'r fath yn ei wneud yn ymarferol. Yn benodol, teimlai Cyngor Ffoaduriaid Cymru y byddai sefydliad heddwch yn helpu i gynnig

ffynhonnell annibynnol ac awdurdodol o wybodaeth am ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

Nododd, er bod cytundebau rhyngwladol y tu hwnt i gylch gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fod rhai o'r rhwymedigaethau rhyngwladol yn cyffwrdd â materion cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb, sy'n bwysig i bawb yng Nghymru. Addysg Uwch Cymru oedd yr unig ymatebwr a ddywedodd wrthym nad oedd yn teimlo y dylid sefydlu sefydliad o'r fath ar hyn o bryd. Dywedodd ei bod ar ddeall bod y deisebwyr yn frwdfrydig am elfennau ymchwil a rhyddid academiaidd sefydliad o'r fath, a bod

y ddwy thema hyn eisoes yn rhan o brifysgolion yng Nghymru ac yn cael eu parchu ganddynt.

Er bod y pwyllgor wedi cymryd amrywiaeth o dystiolaeth ar y mater hwn—

15:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Are you taking an intervention?

A ydych am dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:43 **William Powell** [Bywgraffiad Biography](#)

Certainly.

Yn sicr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for taking an intervention. I am sympathetic to this idea. However, I wondered whether you could tell us, with regard to the evidence given by the Welsh Refugee Council, whether it thought that such an institute would help fight against some of the prejudice and misinformation that exists about asylum seekers, refugees and immigrants generally.

Diolch i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Cydymdeimlaf â'r syniad hwn. Fodd bynnag, roeddwn yn meddwl tybed a allech ddweud wrthym, o ran y dystiolaeth a roddwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru, pa un a yw'n credu y byddai sefydliad o'r fath yn helpu i frwydro yn erbyn y rhagfarn a'r wybodaeth anghywir sy'n bodoli ynglŷn â cheiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr yn gyffredinol.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for that intervention. I think, from my reading of what the Welsh Refugee Council said, it is clear that it felt such a peace institute would contribute in broad, educational terms to promoting greater understanding and tolerance. It is also the case that, in all three settings where peace institutes already exist they have, within living memory, experienced the oppression of fascist dictatorship and therefore they speak with some authority on these matters. So, I am very grateful for your intervention.

Rwy'n ddiolchgar am yr ymyriad. Credaf, o ddarllen yr hyn a ddywedodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru, ei bod yn amlwg ei fod yn teimlo y byddai sefydliad heddwch o'r fath yn cyfrannu mewn termau addysgol cyffredinol tuag at annog mwy o ddealltwriaeth a goddefgarwch. Mae hefyd yn wir nodi, ym mhob un o'r tri lleoliad lle mae sefydliadau heddwch yn bodoli eisoes, eu bod, o fewn cof, wedi profi gormes unbennaeth ffsgaidd, ac felly maent yn siarad â rhywfaint o awdurdod am y materion hyn. Felly, rwy'n ddiolchgar iawn am eich ymyriad.

However, having considered the evidence, we are supportive of the principle of a peace institute being established in Wales. We feel that such a body could add value to both the Assembly's work, and to wider civic society.

Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn cefnogi egwyddor sefydlu sefydliad heddwch yng Nghymru. Teimlwn y gallai corff o'r fath ychwanegu gwerth at waith y Cynulliad, ac at gymdeithas ddinesig ehangach.

We agree with the petitioners that peace should be considered in the broadest terms, and that while the Assembly does not have direct powers in relation to this, peace should be considered in the widest sense. Having seen how it can work in those places where there is no devolved responsibility for the military and defence, we feel that there is a strong argument for Wales to be at the forefront of these matters by having some form of peace institute that could consider issues relating to peace in that wider context. While there is a lot of work currently being undertaken in Wales on peace, there is a need for this work to be brought together, for it to be disseminated out to the widest audience, and for a broader engagement with civil society groups.

Cytunwn â'r deisebwyr y dylai heddwch gael ei ystyried yn y termau ehangaf, ac er nad oes gan y Cynulliad bwerau uniongyrchol mewn perthynas â hyn, dylai heddwch gael ei ystyried yn yr ystyr ehangaf. Ar ôl gweld sut y gall weithio yn y manau hynny lle nad oes cyfrifoldeb datganoledig am y fyddin ac amddiffyn, teimlwn fod dadl gref dros sicrhau bod Cymru ar y blaen o ran y materion hyn drwy gael rhyw fath o sefydliad heddwch a allai ystyried materion sy'n ymwneud â heddwch yn y cyd-destun ehangach hwnnw. Er bod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghymru ar heddwch, mae angen dod â'r gwaith hwn ynghyd, er mwyn iddo gael ei ledaenu i'r gynulleidfa ehangaf, ac er mwyn ymgysylltu'n ehangach â grwpiau cymdeithas sifil.

For these reasons, we believe that there is a case for further exploratory work to be undertaken on this issue. However, we acknowledge that in the current economic climate, there are unlikely to be funds available for detailed scoping work to be undertaken by the Welsh Government. We have, therefore, recommended to the Welsh Government that it simply facilitates further discussions with the interested parties, particularly between the academic community and civic society, to help drive forward development of proposals for a Welsh peace institute.

Am y rhesymau hyn, credwn fod achos dros wneud gwaith archwilio pellach ar y mater hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ei bod yn annhebygol y bydd arian ar gael i Lywodraeth Cymru wneud gwaith cwmpasu manwl. Felly, rydym wedi argymhell i Lywodraeth Cymru ei bod ond yn hwyluso trafodaethau pellach â'r rhai sydd â diddordeb, yn unwedig rhwng y gymuned academiaidd a chymdeithas ddinesig, er mwyn helpu i ddatblygu cynigion ar gyfer sefydliad heddwch yng Nghymru.

Llywydd, before I conclude, I would like to mention one of the lead petitioners in this whole drive for a peace institute, Dr John Cox, who has been a doughty campaigner on this and a range of other matters. Dr Cox, unfortunately, suffered the loss of his wife before Christmas. He is somebody to whom I feel that I must pay tribute.

Llywydd, cyn imi gloi, hoffwn sôn am un o'r prif ddeisebwyr yn yr holl ymgyrch hon dros sefydliad heddwch, sef Dr John Cox, sydd wedi bod yn ymgyrchydd pybyr ar hyn ac amrywiaeth o faterion eraill. Yn anffodus, colodd Dr Cox ei wraig cyn y Nadolig. Mae'n rhywun yr wyf teimlo bod yn rhaid imi dalu teyrnged iddo.

May I thank Bill Powell and the Petitions Committee for its report? For the record, I was one of the Assembly Members who originally tabled a cross-party statement some years ago on the potential for a peace institute. I was also the previous Chair of the Petitions Committee and, as Bill said, we took much evidence on this. I am also co-chair with Bethan Jenkins of the cross-party group on human rights and peace.

I do not think that anybody would disagree with the sentiment of a vehicle that provides the notion of peace, or non-conflict, across the world or in our communities. However, I appreciate that there is a view that peace issues are not a devolved matter, given the Assembly's non-role in defence matters. That said, I believe that there is scope for the Assembly and the Welsh Government to get involved. As the report suggests, there could be scope, for example, for an educational provision in respect of peace studies, conflict resolution through non-violence, the awareness of human rights, building into national relations through cultural contact and co-operative deals, for example. So, there is a lot of scope there.

All of these things matter. There is a precedent on the part of the Welsh Government. Some years ago, John Griffiths AM initiated the international development programme, which we now know it as the Wales for Africa programme. That has been a huge success. It was not the obvious thing that the Welsh Government, or the Assembly should do, but it has been a success and has cut across a number of portfolios. It has influenced civil society and associated groups. This was helped along initially, I believe, by a secondee from Oxfam. So, I think that there is a precedent for such an initiative.

As previous Chair of the Petitions Committee, I had discussions with some of the peace institutes. While it is useful to see how they operate, and, obviously, we can learn from them, I do not think that we necessarily have to replicate exactly what they do. As the Chair has said, funding is extremely tight, but to borrow a well-worn phrase, if you think that promoting peace is expensive, then just take a moment to consider the cost of conflict. That said, like the example of the international development programme, also the thematic approaches that the Welsh Government has made to, for example, the co-operatives and developing sustainability, there is scope for some exploratory work to be undertaken on non-conflict strategies.

In the main, I agree with the Petitions Committee's report, because it raises many questions, and I do think that further work could be undertaken. Also, as a starting point, I do welcome the First Minister's offer for Welsh Government officials to take part in discussions.

Hoffwn ddiolch i Bill Powell a'r Pwyllgor Deisebau am ei adroddiad. Hoffwn nodi fy mod yn un o'r Aelodau Cynulliad a gyflwynodd ddatganiad trawsbleidiol yn wreiddiol rai blynyddoedd yn ôl am botensial sefydliad heddwch. Fi hefyd oedd Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Deisebau ac, fel y dywedodd Bill, cawsom lawer o dystiolaeth ar hyn. Rwyf hefyd yn gyd-gadeirydd â Bethan Jenkins ar y grŵp trawsbleidiol ar hawliau dynol a heddwch.

Ni chredaf y byddai neb yn anghytuno â'r syniad o gyfrwng sy'n cynnig y cysyniad o heddwch, neu ddiffyg gwrthdaro, ar draws y byd neu yn ein cymunedau. Fodd bynnag, sylweddolaf fod rhai yn credu nad yw materion heddwch yn fater datganoledig, o ystyried nad oes gan y Cynulliad rôl mewn materion amddiffyn. Wedi dweud hynny, credaf fod lle i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru gymryd rhan. Fel yr awgryma'r adroddiad, gallai fod lle, er enghraifft, i ddarpariaeth addysgol mewn perthynas ag astudiaethau heddwch, datrys gwrthdaro drwy beidio â defnyddio trais, ymwybyddiaeth o hawliau dynol, gan ymestyn i gysylltiadau cenedlaethol drwy gyswllt diwylliannol a chytundebau cydweithredol, er enghraifft. Felly, mae tipyn o le i weithredu o ran hynny.

Mae pob un o'r pethau hyn yn bwysig. Mae cynsail ar ran Llywodraeth Cymru. Rai blynyddoedd yn ôl, dechreuodd John Griffiths AC y rhaglen datblygu rhyngwladol, yr ydym bellach yn ei galw yn rhaglen Cymru o blaid Affrica. Mae honno wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Nid oedd yn beth amlwg i Lywodraeth Cymru, na'r Cynulliad ei wneud, ond mae wedi bod yn llwyddiant ac mae wedi torri ar draws nifer o bortffolios. Mae wedi dylanwadu ar gymdeithas sifil a grwpiau cysylltiedig. Cafodd hyn ei helpu yn y lle cyntaf, fe gredaf, gan aelod o staff wedi'i secondio o Oxfam. Felly, credaf fod cynsail ar dros fenter o'r fath.

Fel Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Deisebau, cefais drafodaethau â rhai o'r sefydliadau heddwch. Er ei bod yn ddefnyddiol gweld sut maent yn gweithredu, ac, yn amlwg, gallwn ddysgu oddi wrthynt, ni chredaf fod yn rhaid inni efelychu'n union yr hyn y maent yn ei wneud o anghenraid. Fel y dywedodd y Cadeirydd, mae arian yn eithriadol o dynn, ond os caf ddyfynnu hen ymadrodd, os credwch fod hybu heddwch yn gostus, yna cymerwch eiliad i ystyried cost gwrthdaro. Wedi dweud hynny, fel enghraifft y rhaglen datblygu rhyngwladol, a dulliau gweithredu thematig Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wrth ymdrin â chwmnïau cydweithredol a datblygu cynaliadwyedd, mae lle i wneud rhywfaint o waith archwilio mewn perthynas â strategaethau ar ddiffyg gwrthdaro.

Ar y cyfan, cytunaf ag adroddiad y Pwyllgor Deisebau, am ei fod yn codi llawer o gwestiynau, a chredaf y gellid gwneud rhagor o waith. Hefyd, fel man cychwyn, croesawaf gynnig y Prif Weinidog i swyddogion Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn trafodaethau.

In my contribution today, I wish to also put on record my support for the establishment of a Wales peace institute and, in doing so, I would just like to pay tribute to the two very valuable contributions that we have had, and to William Powell in particular for opening up the debate. A Wales peace institute would seek to raise awareness and allow the ability to provide extremely valuable research, the transferring of knowledge and dissemination of peace awareness, as well as intervention in the field, in support of the 1,525 people who signed the petition urging for the principle and establishment of a Wales peace institute.

I believe that it would be most fitting to support this initiative as we commemorate the centenary of the beginning of the first world war, supposedly the war to end all wars, and yet, it was one of the bloodiest and costliest wars of all time. Historically, Wales is known as a peaceful nation, but during times of need and heroism, Wales has been there with support. Between the years of 1914 and 1918, 272,924 Welsh men and boys were recruited with, sadly, many paying the ultimate sacrifice, defending their country and our freedom. A legacy, catastrophic loss of life and devastation such as this should never be forgotten. A Wales peace institute, through education, would seek to inform people of the sacrifice and of the destruction of war and would, hopefully, promote and encourage a culture of peace. A peace institute in Wales would explore, in detail, the root causes of war and crimes against humanity, allowing high-quality research and collaboration across many associated groups in order to, one day, promote world peace.

Conway county peace group has very eloquently put the case forward as regards the importance of a peace institution in Wales. It says this:

'As a constituent country/state of the United Kingdom, which has its own law making powers, we feel that Wales as an entity is analogous to Flanders in Belgium and to Catalonia in Spain, both of whom have their own Peace Institutes supported by their state governments.'

The Flanders and Catalonia peace institutions have stressed that it is crucial that a Welsh peace institution is to remain independent, although a strong bond with the National Assembly for Wales and the Welsh Government should exist. This institution should be independent from but supported by the Assembly and the Welsh Government. In this respect, the constitution will be similar to that of the Flemish Peace Institute vis-à-vis the state Government of Flanders.

Yn fy nghyfraniad heddiw, hoffwn hefyd nodi fy nghefnogaeth i sefydlu sefydliad heddwch i Gymru ac, wrth wneud hynny, hoffwn dalu teyrnged i'r ddau gyfraniad gwerthfawr iawn a glywsom, ac i William Powell yn benodol am agor y ddaol. Byddai sefydliad heddwch i Gymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth ac yn rhoi'r gallu i wneud gwaith ymchwil hynod werthfawr, trosglwyddo gwybodaeth a lledaenu ymwybyddiaeth o heddwch, yn ogystal ag ymyrryd yn y maes, er mwyn cefnogi'r 1,525 o bobl a lofnododd y ddeiseb yn annog yr egwyddor a sefydlu sefydliad heddwch i Gymru.

Credaf y byddai'n hynod addas cefnogi'r fenter hon wrth inni ddathlu canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf, y rhyfel y dywedwyd y byddai'n rhoi terfyn ar bob rhyfel arall, ac eto, bu'n un o'r rhyfeloedd mwyaf gwaedlyd a chostus erioed. Yn hanesyddol, ystyrir Cymru yn wlad heddychlon, ond yn ystod adegau o angen ac arwriaeth, mae Cymru wedi rhoi ei chefnogaeth. Rhwng y blynyddoedd 1914 a 1918, recriwtiwyd 272,924 o ddynion a bechgyn yng Nghymru gyda llawer, yn anffodus, yn gwneud yr aberth mwyaf, wrth amddiffyn eu gwlad a'n rhyddid. Ni ddylai etifeddiaeth o'r fath, sef colli bywydau a dinistr ar raddfa drychinebus byth fynd yn angof. Byddai sefydliad heddwch i Gymru, drwy addysg, yn ceisio addysgu pobl am aberth a dinistr rhyfel a byddai, gobeithio, yn hyrwyddo ac yn annog diwylliant o heddwch. Byddai sefydliad heddwch yng Nghymru yn ystyried, yn fanwl, achosion sylfaenol rhyfel a throseddau yn erbyn dynoliaeth, gan roi cyfle i wneud gwaith ymchwil o safon uchel a chydweithio ymhlith llawer o grwpiau cysylltiedig er mwyn, un diwrnod, hyrwyddo heddwch dros y byd.

Mae grŵp heddwch sir Conwy wedi cyflwyno'r achos dros bwysigrwydd sefydliad heddwch yng Nghymru yn huawdl iawn. Dywed hyn:

Fel un o wledydd/taleithiau cyfansoddol y Deyrnas Unedig, sydd â'i phwerau deddfu ei hun, teimlwn fod Cymru fel endid yn debyg i Fflandrys yng Ngwlad Belg ac i Gatalonia yn Sbaen, y mae gan y naill a'r llall eu Sefydliadau Heddwch eu hunain a gefnogir gan eu llywodraethau taleithiol.

Mae sefydliadau heddwch Fflandrys a Chatalonia wedi pwysleisio ei bod yn hanfodol bod sefydliad heddwch i Gymru yn aros yn annibynnol, er y dylai fod cysylltiad cryf â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Dylai'r sefydliad hwn fod yn annibynnol ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ond dylai gael ei gefnogi ganddynt. Yn hyn o beth, bydd y cyfansoddiad yn debyg i un Sefydliad Heddwch Fflandrys o ran Llywodraeth daleithiol Fflandrys.

There should be the facilitation of more discussions between interested parties, such as the academic community and civic society, to enable further scoping work to be undertaken for the Wales peace institute. We boast some of the best facilities in Europe with regard to academic research. Aberystwyth, Bangor, Cardiff and Swansea universities would be able to assist in research and would help the institute. However, this will be much broader than pure academic study. There is a Welsh goldmine of opportunity to take advantage of the knowledge and experience established within our universities.

As William Powell has said, the petition is not directly asking for funding from the National Assembly or the Welsh Government. This is about the principle of forming a Welsh peace institute. This institute would be cost-effective, because it would be performing a unique and valuable function in relation to the National Assembly's decisions on policy. As well as many other advantages, it would seek to examine the impact on Wales of UK defence and foreign policy decisions; it would have consultation status in respect of the national curriculum of Wales; it would make use of well-established academic facilities to provide extensive research into conflict and peace; and it would provide enhanced representation of Wales on the international stage as a respectful and peace-loving nation. The peace institute would look at much more than war and peace; as a body it would promote peace in all aspects of our society through a transformative education on peace, and through the examination of theory and practice. I support the calls for the establishment of the Wales peace institute.

Dylid hwyluso mwy o drafodaethau rhwng y partion â diddordeb, fel y gymuned academiaidd a chymdeithas ddinesig, er mwyn i waith cwmpasu pellach gael ei wneud ar gyfer sefydliad heddwch Cymru. Mae gennym rai o'r cyfleusterau gorau yn Ewrop o ran ymchwil academiaidd. Byddai prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe yn gallu cynorthwyo mewn gwaith ymchwil a byddent yn helpu'r sefydliad. Fodd bynnag, bydd hyn yn llawer ehangach nag astudiaeth academiaidd bur. Mae cyfle euraid i Gymru fanteisio ar y wybodaeth a'r profiad o fewn ein prifysgolion.

Fel y dywedodd William Powell, nid yw'r ddeiseb yn gofyn yn uniongyrchol am gyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn ymwneud ag egwyddor ffurfio sefydliad heddwch yng Nghymru. Byddai'r sefydliad hwn yn gosteffeithiol, oherwydd byddai'n cyflawni swyddogaeth unigryw a gwerthfawr mewn perthynas â phenderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar bolisi. Yn ogystal â llawer o fanteision eraill, byddai'n ceisio ystyried effaith penderfyniadau amddiffyn a pholisi tramor y DU ar Gymru; byddai'n cael statws ymgynghori mewn perthynas â chwricwlwm cenedlaethol Cymru; byddai'n gwneud defnydd o gyfleusterau academiaidd sefydledig er mwyn ymgymryd â gwaith ymchwil helaeth i wrthdaro a heddwch; a byddai'n hyrwyddo delwedd o Gymru ar y llwyfan rhyngwladol fel gwlad barchus a heddychlon. Byddai'r sefydliad heddwch yn ystyried llawer mwy na rhyfel a heddwch; fel corff byddai'n hyrwyddo heddwch ym mhob agwedd ar ein cymdeithas drwy addysg drawsnewidiol ar heddwch, a thrwy archwilio theori ac ymarfer. Cefnogaf y galwadau am sefydlu sefydliad heddwch Cymru.

15:55

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to be able to speak in this debate, as has been mentioned earlier, in my capacity as co-chair of the cross-party group on peace and human rights, and also as a member of the Petitions Committee, which I think has seen through all of the debate on the peace institute, taking evidence from various bodies and being part of the consultation process. I always find it odd when we talk about peace not being devolved because, for me, peace is fundamental to how we live as human beings. That might sound leftish and hippyish, but, to me, it is about how we enact as human beings and how we want to see how we want to communicate with different people. I think that that is how I would like to see the peace institute progress in terms of how we can permeate the messages of peace throughout all of our interactions, all of our institutions and all of our educational bodies.

Rwy'n falch o gael siarad yn y ddadl hon, fel y soniwyd yn gynharach, yn rhinwedd fy swydd fel cyd-gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar heddwch a hawliau dynol, a hefyd fel aelod o'r Pwyllgor Deisebau, sydd wedi gorchwyllo'r holl ddadl ar y sefydliad heddwch, fe gredaf, gan gymryd tystiolaeth gan amrywion gyrrff a chymryd rhan yn y broses ymgynghori. Mae bob amser yn rhyfedd imi pan soniwn nad yw heddwch wedi'i ddatganoli oherwydd, i mi, mae heddwch yn elfen sylfaenol o'r ffordd yr ydym yn byw fel bodau dynol. Efallai fod hynny'n swnio'n adain chwith a hipiaidd, ond, i mi, mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn ymddwyn fel bodau dynol a sut yr ydym am gyfathrebu â gwahanol bobl. Credaf mai dyna sut y byddwn yn hoffi gweld y sefydliad heddwch yn datblygu o ran sut y gallwn dreiddio negeseuon heddwch drwy ein holl ryngweithio, ein holl sefydliadau a'n holl gyrrff addysgol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that the reference to the United Nations Convention on the Rights of the Child is good here, so that we do make sure that it comes within every part of our legislation. When we are enacting policies and putting forward new pieces of legislation, should we not think more honestly about how that will affect people in their everyday lives? For example, when we are looking procurement policies, what does that mean? If we are signing up to work with a certain company as a Welsh Government, do we know the effect that that is having on Palestinians who are fighting for their lives at the moment? Do we know whether some of those companies are violating human rights on an international level? Therefore, we have to stand back and think, even though peace or militarisation is not devolved to Wales, how the policies and the powers that we do have in the here and now will affect people's lives across the whole of the world.

We can talk about peace as much as we want here today, but, unfortunately, we live in a militarised society. Hundreds and thousands of pounds are given from the UK Government to fund military opportunities in wars across the world. For me, many of those wars are futile. Look at what we are doing now in Afghanistan: we are sending young men and women to die, but for what reason? We are pulling back troops from those countries because we know that it is futile. We know that it is leading to no good. We have to think again about how we go into schools in Wales. We have had a petition about recruiting in schools. Plaid Cymru has been vociferous against the fact that many young people in our deprived areas have been recruited without even knowing what they are going into, and the dangers that they are being put into. I have many friends in the military, therefore I am not against the military, but they tell me that they might not have joined the military had they known what they were being sent to do. Many of them feel that they cannot have an opinion while in the military; they cannot join a trades union, for example, to have the same rights as other people, and they would like to be able to have that voice.

We hosted a meeting a few weeks ago about Trident and its threat. Given the debate on the changing nature of the United Kingdom in particular, what would happen if Scotland were independent and there needed to be a change in how that was administered? We have to have that conversation here in Wales. I believe that a peace institute would be a place where we could have those types of conversations. I do not think that we are having enough of them here today.

Many other people have said why the concept is a good one and why we should have it as an independent organisation. I think that that is something that would, of course, be expected of an institute of that nature, because it also needs to be critical of Government and the policies that a Government takes forward. If it is aligned in any way to Government, I do not think that it would be able to do its job properly.

Credaf fod y cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn beth da yma, fel ein bod yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ym mhob rhan o'n deddfwriaeth. Pan fyddwn yn gweithredu polisiau ac yn deddfu, oni ddylem feddwl yn fwy gonest am y ffordd y bydd hynny'n effeithio ar bobl yn eu bywydau bob dydd? Er enghraifft, pan edrychwn ar bolisiau caffael, beth mae hynny'n ei olygu? Os ydym yn ymrwmo i weithio gyda chwmni penodol fel Llywodraeth Cymru, a wyddom pa effaith y mae'n ei chael ar Balestiniaid sy'n ymladd am eu bywydau ar hyn o bryd? A wyddom a yw rhai o'r cwmnïau hynny yn sathru ar hawliau dynol ar lefel ryngwladol? Felly, rhaid inni sefyll yn ôl a meddwl, er nad yw heddwch na milwreiddio wedi'i ddatganoli i Gymru, sut y bydd y polisiau a'r pwerau sydd gennym ar hyn o bryd yn effeithio ar fywydau pobl ar draws y byd.

Gallwn drafod heddwch am byth bythoedd yma heddiw, ond, yn anffodus, rydym yn byw mewn cymdeithas filitaraidd. Rhoddir cannoedd a miloedd o bunnoedd gan Lywodraeth y DU i ariannu cyfleoedd milwrol mewn rhyfeloedd ledled y byd. I mi, mae llawer o'r rhyfeloedd hynny yn ofer. Edrychwch ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yn Afghanistan ar hyn o bryd: rydym yn anfon dynion a menywod ifanc i farw, ond i beth? Rydym yn tynnu milwyr yn ôl o'r gwledydd hynny am ein bod yn gwybod ei bod yn ofer. Gwyddom nad yw'n cyflawni dim. Rhaid inni feddwl eto am y ffordd yr ydym yn mynd i mewn i ysgolion yng Nghymru. Rydym wedi cael deiseb am recriwtio mewn ysgolion. Mae Plaid Cymru wedi bod yn chwyrn ei beirniadaeth o'r ffaith bod llawer o bobl ifanc yn ein hardaloedd difreintiedig wedi cael eu recriwtio heb iddynt hyd yn oed wybod beth maent yn ymrwmo iddo, na'r peryglon y maent yn eu hwynebu. Mae gennyf lawer o ffrindiau yn y lluoedd arfog, felly nid wyf yn wrthwynebus i'r fyddin, ond maent yn dweud wrthyf efallai na fyddent wedi ymuno â'r fyddin pe baent yn gwybod yr hyn yr oeddent yn cael eu hanfon i'w wneud. Mae llawer ohonynt yn teimlo na allant fynegi barn tra byddant yn y lluoedd arfog; ni allant ymuno ag undeb llafur, er enghraifft, i gael yr un hawliau â phobl eraill, a hoffent gael y llais hwnnw.

Cynhaliwyd cyfarfod gennym ychydig wythnosau yn ôl am Trident a'i fgythyad. O ystyried y ddatl ar natur newidiol y Deyrnas Unedig yn benodol, beth fyddai'n digwydd pe bai'r Alban yn annibynnol a bod angen newid y ffordd yr oedd yn cael ei weinyddu? Rhaid inni gael y sgwrs honno yma yng Nghymru. Credaf y byddai sefydliad heddwch yn fan lle y gallem gynnal sgwrsiau o'r fath. Ni chredaf ein bod yn cael digon ohonynt yma heddiw.

Mae llawer o bobl eraill wedi dweud pam mae'r cysyniad yn un da a pham y dylem ei greu fel sefydliad annibynnol. Credaf fod hynny'n rhywbeth a fyddai'n ddigwyliedig gan sefydliad o'r fath, wrth gwrs, gan fod angen iddo hefyd fod yn feirniadol o Lywodraeth a'r polisiau a roddir ar waith gan Lywodraeth. Os bydd yn ochri â Llywodraeth mewn unrhyw ffordd, ni chredaf y byddai'n gallu gwneud ei waith yn iawn.

When we are looking to develop this type of institution, we should not apologise for it being something that is not in the mainstream. We should say to the people of Wales, 'Yes, we have a chance now to discuss international issues that we do not usually have the chance to discuss at an Assembly level, and make sure that we can discuss them in the future'. I know that when Edwina Hart was the Minister for health, for example, we sent doctors to Palestine to help in that particular cause. We can think of creative ways as to how Wales can influence the international community, despite the fact that we do not have the political levers at the moment to make a difference.

Pan ystyriwn sut y dylid datblygu sefydliad o'r fath, ni ddylem ymddiheuro am y ffaith ei fod yn rhywbeth nad wyf yn y brif ffrwd. Dylem ddweud wrth bobl Cymru, 'Mae gennym gyfle yn awr i drafod materion rhyngwladol nad ydym fel arfer yn cael cyfle i'w trafod ar lefel y Cynulliad, a sicrhau y gallwn eu trafod yn y dyfodol'. Gwn, er enghraifft, inni anfon meddygon i Balesteina i helpu yn yr achos penodol hwnnw pan oedd Edwina Hart yn Weinidog iechyd. Gallwn feddwl am ffyrdd creadigol o ran sut y gall Cymru ddylanwadu ar y gymuned ryngwladol, er nad oes gennym y pwerau gwleidyddol ar hyn o bryd i wneud gwahaniaeth.

16:00

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will make clear at the start of my brief contribution today that I do not support the establishment of a Welsh peace institute. Do not worry—I can see Bethan looking at me worriedly—I am not going to say anything incredibly negative about it because I think that it is a discussion to be had. There is no doubt at all that the people who signed the petition and who have followed through the process that the Assembly allows care deeply about it. I also listened to Janet Finch-Saunders's eloquent statement about how important peace is and how an institute could potentially help to support that. I am also aware of the infectious enthusiasm of Dr John Cox—with whom I have had a friendship for a number of years. I was also very appreciative of the way that, in his initial attempts to get this discussion going, he wanted all parties to be involved. He believed that peace was not the domain of any single party, faction or fringe, but that it should be in the mainstream.

If we did have a peace institute now, it would probably be called a peace commission with a peace commissioner, because commissions have tended to replace the old idea of institutes and boards. It is a reasonable discussion to have and if, at some point in the future, there was some sort of institute or commission that dealt with these issues, I would hope that it would be done on a broad basis. Yes, it would be critical of government and of some of those groups that sometimes proclaim that they believe in peace but do not always do the best that they can to make sure that peace happens in practice. Let us have the discussion. I think that everyone here has spoken in a well-meaning way today. I do not support this at this point but I am more than happy to follow the discussions with interest, and any discussion about peace is a good one to have in the long term.

Hoffwn nodi'n glir ar ddechrau fy nghyfraniad byr heddiw nad wyf yn cefnogi sefydlu sefydliad heddwch yng Nghymru. Peidiwch â phoeni—gallaf weld Bethan yn edrych yn brydesur arnaf—ni fyddaf yn dweud unrhyw beth hynod negyddol am y peth gan fy mod yn credu ei bod yn rhywbeth i'w drafod. Nid oes amheuaeth o gwbl ei fod yn hynod bwysig i'r bobl a lofnododd y ddeiseb ac sydd wedi dilyn hynt proses y Cynulliad. Gwrandewais hefyd ar ddatganiad huawdl Janet Finch-Saunders ynghylch pa mor bwysig yw heddwch a sut y gallai sefydliad helpu o bosibl i gefnogi hynny. Rwyf hefyd yn ymwybodol o frwdfrydedd heintus Dr John Cox—sydd wedi bod yn gyfaill imi ers nifer o flynyddoedd. Roeddwn hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr y ffaith, yn ei ymdrechion cyntaf i gychwyn y drafodaeth hon, ei fod yn awyddus i bob plaid gymryd rhan. Roedd yn credu nad oedd heddwch yn eiddo i unrhyw blaid, garfan na grŵp ymylol unigol, ond y dylai fod yn y brif ffrwd.

Pe bai gennym sefydliad heddwch heddiw, mae'n debyg y byddai'n cael ei alw yn gomisiwn heddwch gyda chomisiynydd heddwch, gan fod comisiynau wedi tueddu i ddisodli'r hen syniad o sefydliadau a byrddau. Mae'n drafodaeth resymol i'w chael, a phe bai rhyw fath o sefydliad neu gomisiwn a oedd yn ymdrin â'r materion hyn yn bodoli, rywbryd yn y dyfodol, byddwn yn gobeithio y câi ei wneud ar sail eang. Wrth gwrs, byddai'n feirniadol o'r llywodraeth ac o rai o'r grwpiau hynny sydd weithiau'n dweud eu bod yn credu mewn heddwch, ond nad ydynt bob amser yn gwneud y gorau y gallant i sicrhau heddwch yn ymarferol. Gadewch inni gael y drafodaeth. Credaf fod pawb yma wedi siarad â bwriadau da heddiw. Nid wyf yn cefnogi hyn ar hyn o bryd, ond rwy'n fwy na pharod i ddilyn y trafodaethau gyda diddordeb, ac mae unrhyw drafodaeth am heddwch yn un dda i'w chael yn yr hirdymor.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:02

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dda gen i gyfrannu i'r ddadl heddiw, ac yn benodol i gefnogi'r deisebwyr a'r ddeiseb a'r cysyniad o academi heddwch i Gymru, ond i gydnabod hefyd fod diffyg gweledigaeth glir yn cael ei hadlewyrchu yn y fan hon a bod diffyg manylder. Mae angen llawer mwy o waith cyn y gallwn symud ymlaen. Rwy'n siarad fel rhywun nad yw'n heddychwr ei hun, er fy mod yn parchu'r traddodiad o heddychiaeth yng Nghymru, o Keir Hardie i Gwynfor Evans. Rwy'n cydnabod bod angen defnyddio grym o bryd i'w gilydd i gadw heddwch rhyngwladol ac i ddiogelu buddiannau'r genedl. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n meddwl bod unrhyw fath o academi heddwch yn gorfod edrych ar astudiaethau heddwch, ar y rhesymau sy'n arwain at ryfel, ac ar ddulliau amgen o ddelio â rhyfel.

I am pleased to contribute to today's debate, and specifically to support the petitioners and the petition and the concept of a Wales peace institute, but also to acknowledge that there is a lack of a clear vision being reflected here and a lack of detail. Far more work needs to be done before we can progress with this. I speak as one who is not a pacifist himself, although I do respect the pacifist tradition in Wales, from Keir Hardie through to Gwynfor Evans. I acknowledge that, at times, we do need to use force to keep the peace on an international level and to safeguard the interests of the nation. In that context, I feel that any sort of peace academy would have to look at peace studies, and at the reasons for war, and for alternative ways of dealing with war.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydym ni wedi bod yn trafod nad yw hyn wedi'i ddatganoli i Gymru ac, felly, nad yw'n ddim byd i wneud â'r Cynulliad na Chymru. Fodd bynnag, mae heddwch a rôl Cymru yn y prosesau rhyngwladol wedi bod yn destun i wleidyddion o Gymru am ganrifoedd. Nid yw'n rhywbeth newydd sydd wedi dod yn sgîl datganoli. Henry Richard, gŵr o Dregaron a aeth yn Aelod Seneddol dros Ferthyr Tudful, oedd y cyntaf i osod mewn cytundeb rhyngwladol, sef cytundeb Paris ym 1856, yr angen i gymodi—'arbitration', hynny yw. Dyna oedd y tro cyntaf erioed i gytundeb rhyngwladol sôn am gymodi rhwng gwledydd, yn sgîl pwysau uniongyrchol gan wleidydd o Gymru, sef Henry Richard. Ers Henry Richard, wrth gwrs, rydym ni wedi cael David Davies—yr ail David Davies, Arglwydd Llandinam—sef sefydlydd y Deml Heddwch, sydd y tu ôl i'r ddeiseb, mewn ffordd. Roedd yn un a roddodd yn hael iawn i Brifysgol Aberystwyth i sefydlu nifer o astudiaethau yno, ac, yn benodol, y sefydliad David Davies sy'n arbenigo mewn astudiaethau rhyngwladol. Nid oedd David Davies ei hun yn unrhyw fath o heddychwyr. Roedd yn credu mewn diogelwch ar y cyd ac yn credu bod angen defnyddio grym. Ysgrifennodd lyfr o'r enw 'Grym', neu 'Force'—dyna oedd enw un o'i lyfrau mwyaf adnabyddus. Roedd yn credu y dylid defnyddio grym i gadw heddwch rhyngwladol yn hytrach na hyrwyddo buddiannau gwladwriaethau unigol.

Mae'r ddelfryd honno'n cael ei adlewyrchu, er mor fratiog, yn y Cenhedloedd Unedig hyd heddiw. Felly, yn fy marn i, mae modd sefydlu rhyw fath o academi heddwch yng Nghymru. Mae modd inni symud ymlaen ond mae tipyn mwy o waith i'w wneud i gael cytundeb rhwng y gwahanol garfanau. Roeddwn yn siomedig nad yw Addysg Uwch Cymru wedi bod mor bositif, achos rwy'n meddwl bod cnewyllyn y fath hon o ddatblygiad yn y prifysgolion eisoes, a bod modd iddynt gydweithio â'i gilydd mewn ffordd ffederal drwy Gymru gyfan. Nid oes gennym Brifysgol Cymru i wneud y 'job' hwn bellach, ac felly mae'n rhaid inni weithio drwy gydweithrediad i wneud y math hwn o waith, yn seiliedig ar hyn sy'n digwydd eisoes ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n egin o'r math hwn o astudiaethau, rwy'n meddwl. Wedyn, mae pobl eraill, fel Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ac ati, yn gallu bod yn rhan o'r broses o ehangu hyn y tu hwnt i'r ffiniau. Mae hefyd yn wir fod yn rhaid i ddeisebwyr—ac rwy'n nabod llawer ohonynt yn dda iawn fy hunan—ildio rywfaint o weledigaeth a pherchnogaeth dros hwn er mwyn wneud yn siŵr bod pawb yn gallu prynu i mewn iddo. Nid jyst rhywbeth ar gyfer heddychiaeth yn unig ddylai hyn fod, ond rhywbeth sydd wir yn astudio sut mae modd cadw hedd rhwng gwahanol wledydd.

We have discussed that this is not devolved to Wales and, therefore, is not applicable to the Assembly or to Wales. However, peace and Wales's role in the international processes has been an issue for politicians from Wales for many centuries. It is not something new that has come in the wake of devolution. Henry Richard, a man from Tregaron who became a Member of Parliament for Merthyr Tydfil, was the first to place in an international treaty, the Paris treaty of 1856, the need for arbitration. That was the first time that an international treaty had mentioned arbitration between nations, as a result of direct pressure from a Welsh politician, Henry Richard. Since Henry Richard, of course, we have had David Davies—the second David Davies, Lord of Llandinam—who established the Temple of Peace, which is behind the petition, in a way. He donated to Aberystwyth university to establish a number of courses there, and, specifically, the David Davies institute that specialises in international studies. David Davies himself was no pacifist. He believed in joint security and he did feel that force needed to be used. He wrote a book entitled 'Force', which is one of his best-known works. He believed that force should be used to keep the peace on an international level rather than to promote the interests of individual states.

That ideal is reflected, although quite poorly, in the United Nations to this day. So, in my opinion, some sort of peace institute can be established in Wales. We can move forward but there is a lot more work to be done to gain agreement between the various parties. I was disappointed that Higher Education Wales had not been so positive, because I think that this kind of development is in place in the universities already, and that there is a way for them to work together on a federal level throughout Wales. We do not have the University of Wales to do this job now, and so we have to collaborate to do this work, based on what is already happening at Aberystwyth University, which is a shoot from which these studies can grow, I believe. Then, other people, such as the Welsh Centre for International Affairs and so on, can be part of the process of expanding this beyond those boundaries. It is also true that the petitioners—and I know many of them very well myself—will have to surrender some of their vision and ownership over this just to ensure that everyone can buy into it. This should not just be an issue for pacifism, but something that truly looks at how we can keep the peace between different nations.

The final point I wanted to make on this, Presiding Officer, is that there could be no better way of creating a fine memorial to what happened in the first world war, in the centenary that we are remembering and thinking about now—certainly not celebrating—in thinking about the lessons of that war, in particular the first truly mechanised killing on a huge scale, and so many of our young people, and young men in particular, were lost in that war, almost a whole generation. We have memorials to the dead in every village. This could be a truly fitting monument for peace and the living, and I would urge the Assembly to support this today so that we can move along with building on Wales's previous, fantastic work on building peace on the shoulders of giants: Keir Hardie, Henry Richard, David Davies, Gwynfor Evans. Let us build this kind of institute to remember them and those who lost their lives in war in the past.

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud ar hyn, Lywydd, yw na fyddai ffordd well o greu cofeb dda i'r hyn a ddigwyddodd yn y rhyfel byd cyntaf, yn ystod y canmlwyddiant yr ydym yn ei gofio ac yn ei ystyried ar hyn o bryd—ond yn sicr nid ei ddathlu—wrth feddwl am wersi'r rhyfel hwnnw, yn arbennig yr achos cyntaf o ladd gwirioneddol fecanyddol ar raddfa enfawr, a chollwyd cymaint o'n pobl ifanc, a'n dynion ifanc yn arbennig, yn y rhyfel hwnnw, bron cenhedlaeth gyfan. Ceir cofebion i'r meirw ym mhob pentref. Gallai hyn fod yn gofeb wirioneddol addas i heddwch a'r byw, a byddwn yn annog y Cynulliad i gefnogi hyn heddiw fel y gallwn fynd ati i adeiladu ar waith blaenorol, gwych Cymru i greu heddwch ar ysgwyddau'r cewri: Keir Hardie, Henry Richard, David Davies, Gwynfor Evans. Gadewch inni greu'r math hwn o sefydliad i gofio amdanynt a'r rhai a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd yn y gorffennol.

16:07

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Gan mlynedd yn ôl, roedd y rhyfel byd cyntaf ofnadwy ar fin dechrau.

A hundred years ago, the terrible first world war was about to start.

However, today, peace is something that we all strive for. We all want to live in a world free from political and social unrest in a society which promotes our liberty and provides protection. Of course, I fully support the promotion of peace within our society, and I appreciate the extensive work and gathering of evidence already undertaken by the committee. However, in relation to the institute, we do need more information. The Welsh Government would be unable to give any consideration to the creation of a peace institute in Wales until we are certain what the role, functions and activities of such an institute would be, and what benefits it would bring for the people of Wales. I therefore agree with the committee's recognition that further exploratory work should be undertaken.

Fodd bynnag, heddiw, mae heddwch yn rhywbeth y mae pob un ohonom yn ymdrechu i'w sicrhau. Mae pob un ohonom am fyw mewn byd lle nad oes aflonyddwch gwleidyddol na chymdeithasol ac mewn cymdeithas sy'n hyrwyddo ein rhyddid ac sy'n ein diogelu. Wrth gwrs, llwyr gefnogaf ymdrechion i hyrwyddo heddwch yn ein cymdeithas, a gwerthfawrogaf y gwaith helaeth a'r gwaith casglu tystiolaeth y mae'r pwyllgor eisoes wedi'i wneud. Fodd bynnag, o ran y sefydliad, mae angen mwy o wybodaeth arnom. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried greu sefydliad heddwch yng Nghymru hyd nes ein bod yn sicr beth fyddai rôl, swyddogaethau a gweithgareddau sefydliad o'r fath, a pha fanteision y byddai'n eu cynnig i bobl Cymru. Felly, cytunaf â chydabyddiaeth y pwyllgor y dylid gwneud gwaith archwilio pellach.

I do not, however, accept the recommendation that this work should be undertaken by the Welsh Government. I believe that this investigative work would be best undertaken by an independent body. The body should also have expertise that can focus on what such an institution would look like, what functions it would have, the cost of such an establishment, and an accurate assessment of the tangible benefits that it would deliver. Indeed, in reviewing the correspondence to the Petitions Committee, it is clear that a number of the supporters of the projects also believe that more work on the role and structure needs to be undertaken before it gets anywhere near Government. CND Cymru, for example, would like the work on fleshing out the proposals to be carried out by an informal working group entirely independent of Government.

Fodd bynnag, ni dderbyniaf yr argymhelliad y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru. Credaf y byddai'n well pe bai'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei wneud gan gorff annibynnol. Dylai'r corff hefyd feddu ar yr arbenigedd a all ganolbwyntio ar sut beth fyddai sefydliad o'r fath, pa swyddogaethau a fyddai ganddo, cost sefydliad o'r fath, ac asesiad cywir o'r buddiannau pendant y byddai'n eu cynnig. Yn wir, wrth adolygu'r ohebiaeth â'r Pwyllgor Deisebau, mae'n amlwg bod nifer o gefnogwyr y prosiect hefyd yn credu bod angen gwneud mwy o waith ar rôl a strwythur cyn mynd ar gyfyl y Llywodraeth. Mae CND Cymru, er enghraifft, am i'r gwaith ar fanylu ar y cynigion gael ei wneud gan weithgor anffurfiol sy'n gwbl annibynnol ar y Llywodraeth.

Without information about its role and structure, it is difficult to envisage in concrete terms what a peace institute would provide for citizens in Wales. Most matters, as has been mentioned by a number of speakers, relating to national security and defence, remain non-devolved and sit within the remit of the UK Government. Regulation in this area is determined at a European and international level.

Heb wybodaeth am ei rôl na'i strwythur, mae'n anodd rhagweld mewn termau diriaethol yr hyn y byddai sefydliad heddwch yn ei gynnig i ddinasyddion Cymru. Mae'r rhan fwyaf o faterion, fel y crybwyllodd nifer o siaradwyr, sy'n ymwneud â diogelwch y wlad ac amddiffyn, yn parhau i fod yn faterion nad ydynt wedi'u datganoli ac yn faterion sy'n rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU. Penderfynir ar Reoleiddio yn y maes hwn ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

While we do not have any devolved responsibility for defence, or the deployment of our armed forces, we do have responsibility in some areas of the armed services' wellbeing—for example, for veterans transitioning from the forces to civilian life, and for the families of those serving, we have made clear our commitment to supporting these groups. Whatever stance individual Assembly Members take about our servicemen and women being involved in conflicts across the world, I am sure that you will agree that they do an incredible job on our behalf, both at home and overseas, protecting our country now and for the future. Their dedication, commitment and bravery deserve to be honoured and recognised.

I also want to acknowledge the work of the Welsh Centre for International Affairs, based in the Temple of Peace and Health built by Lord Davies of Llandinam to commemorate the waste of life in the first world war. The WCIA, building on the legacy of the League of Nations Union, provides an independent non-partisan forum for human rights, peace and justice, sustainability and international development. I know that it has been successful in getting through the first round of a funding bid to the Heritage Lottery Fund for a Wales for Peace project. I look forward to hearing about the outcome.

Rejecting the committee's recommendation does not mean that the Welsh Government does not take action to promote peace and strive for a harmonious environment. In our quest for peace, we must focus on where we can most effectively target our resources to tackle the root cause of conflict in society. We cannot underestimate the need to continue working with our communities to build tolerance, understanding and resilience. It is important that communities are able to work together, regardless of their background, race, faith or beliefs. I was pleased recently to announce further funding for nine regional community cohesion co-ordinators across Wales for a two-year period. These roles will help to aid further engagement within our communities, and to explore how we can all work together to celebrate and recognise diversity and differences.

Extremist attitudes are damaging and corrosive to community cohesion. Such messages can spread division and hatred. The links between community cohesion and the UK Government's Prevent strategy are essential in Wales, where we want to work with all communities and individuals to tackle extremist messages. I am pleased to have met with Muslim communities in south and north Wales, and it is clear that there are positive stories where communities are coming together to ensure that Wales is a peaceful country that will not tolerate extremism of any form.

Er nad oes gennym unrhyw gyfrifoldeb datganoledig am amddiffyn, na'r ffordd y defnyddir ein lluoedd arfog, mae gennym gyfrifoldeb mewn rhai meysydd sy'n ymwneud â lles y lluoedd arfog—er enghraifft, i gyn-filwyr sy'n symud o'r lluoedd arfog i fywyd sifil, ac i deuluoedd y rhai sy'n gwasanaethu, rydym wedi nodi'n glir ein hymrwymiad i gefnogi'r grwpiau hyn. Beth bynnag fo safiad Aelodau Cynulliad unigol ynghylch y rhyfeloedd y mae aelodau o'n lluoedd arfog yn cymryd rhan ynddynt dros y byd, byddwch yn cytuno, mae'n siŵr gennyf, eu bod yn gwneud gwaith anhygoel ar ein rhan, gartref a thramor, gan amddiffyn ein gwlad yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Mae eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u dewrder yn haeddu cael eu hanrhydeddu a'u cydnabod.

Rwyf hefyd am gydnabod gwaith Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, a leolir yn y Deml Heddwch ac lechyd a adeiladwyd gan yr Arglwydd Davies o Landinam i goffáu gwastraff bywyd yn y rhyfel byd cyntaf. Mae'r Ganolfan, gan adeiladu ar etifeddiaeth Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, yn cynnig fforwm amhleidiol annibynnol ar gyfer hawliau dynol, heddwch a chyfiawnder, cynaliadwyedd a datblygu rhyngwladol. Gwn ei bod wedi llwyddo yng nghylch cyntaf cais am arian i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Cymru o blaid Heddwch. Edrychaf ymlaen at glywed am y canlyniad.

Nid yw'r ffaith ei bod yn gwrthod argymhelliad y pwyllgor yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i hyrwyddo heddwch ac yn ymdrechu dros amgylchedd o gytgord. Yn ein hymgais dros heddwch, rhaid inni ganolbwyntio ar ble y gallwn dargedu ein hadnoddau'n fwyaf effeithiol er mwyn mynd at wraidd gwrthdaro mewn cymdeithas. Ni allwn danbrisió'r angen i barhau i weithio gyda'n cymunedau i feithrin goddefgarwch, dealltwriaeth a gwydnwch. Mae'n bwysig bod cymunedau yn gallu gweithio gyda'i gilydd, ni waeth beth fo'u cefndir, hil, ffydd neu gredoau. Roeddwn yn falch o gyhoeddi cyllid pellach yn ddiweddar ar gyfer naw cyd-gysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol ledled Cymru am gyfnod o ddwy flynedd. Bydd y rolau hyn yn helpu i gynorthwyo ymgysylltu pellach o fewn ein cymunedau, ac archwilio sut y gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd i ddathlu a chydabod amrywiaeth a gwahaniaethau.

Mae agweddau eithafol yn niweidiol ac yn andwyol i gydlyniant cymunedol. Gall negeseuon o'r fath ledu anghydfod a chasineb. Mae'r cysylltiadau rhwng cydlyniant cymunedol a strategaeth Prevent Llywodraeth y DU yn hanfodol yng Nghymru, lle rydym am weithio gyda phob cymuned ac unigolyn i fynd i'r afael â negeseuon eithafol. Rwy'n falch o fod wedi cwrdd â chymunedau Mwslimaidd yn y de a'r gogledd, ac mae'n amlwg bod storïau cadarnhaol lle mae cymunedau yn dod at ei gilydd i sicrhau bod Cymru yn wlad heddychlon na fydd yn goddef eithafiaeth o unrhyw fath.

The Welsh Government works hard to promote and protect an individual's human rights; the rights that are inherent to each and every individual. Hence we must ensure protection and security for everyone in every instance, including in the home. On 26 November, my colleague the Minister for Local Government and Government Business made an oral statement on the publication of the third annual report on our 'The Right to be Safe' strategy. Our continued progress demonstrates our commitment to tackling violence against women and domestic abuse. This will be supported further in the forthcoming ending violence against women and domestic abuse Bill.

I will be launching 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' this spring. This framework has been extended to include far-right hate crime. It is important that we can continue to ensure that we tackle prejudice and hostility to ensure that Wales is a place that is intolerant of any forms of hate and conflict.

These actions are supported and informed through our continued engagement with people in Wales. Listening to them has given us a good understanding of their needs. We are committed to taking these views into account and reflecting them in our policies. The many fora and working groups established across the organisation, including the Wales race forum and the faith communities forum within my own portfolio area, provide the Welsh Government with expert support and advice. The Welsh Government is committed to working hard to develop long-term positive change to eliminate unlawful racial discrimination, and to promote race equality and good race relations.

In conclusion, I note this report and support the promotion of peace within our society. The centenary year of the first world war brings the need to strive for peace into sharp focus. The commemoration of the first world war marks an important opportunity for us to remember those who were involved and the impact of this terrible war in shaping modern Wales. Conflict resolution and reconciliation will, quite rightly, be key aspects of the centenary commemoration. It will be an opportunity for everyone who wishes to contribute to get involved in activities at a local, community and national level.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i hyrwyddo a diogelu hawliau dynol unigolyn; yr hawliau sy'n gynhenid i bob unigolyn. Felly rhaid inni sicrhau bod pawb yn cael ei ddiogelu ym mhob achos, gan gynnwys yn y cartref. Ar 26 Tachwedd, gwnaeth fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddatganiad llafar ar gyhoeddi'r trydydd adroddiad blynyddol ar ein strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Mae ein cynnydd parhaus yn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Bydd hyn yn cael ei ategu ymhellach yn y Bil arfaethedig ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

Byddaf yn lansio 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' y gwanwyn hwn. Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei ymestyn i gynnwys troseddau casineb asgell dde. Mae'n bwysig ein bod yn gallu parhau i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â rhagfarn a gelyniaeth er mwyn sicrhau bod Cymru yn lle nad yw'n goddef unrhyw fath o gasineb a gwrthdaro.

Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu cefnogi a'u llywio drwy ein hymgysylltu parhaus â phobl yng Nghymru. Drwy wrando arnynt rydym wedi meithrin dealltwriaeth dda o'u hanghenion. Rydym wedi ymrwmo i ystyried y safbwyntiau hyn a'u hadlewyrchu yn ein polisïau. Mae'r fforymau a gweithgorau lu a sefydlwyd yn y sefydliad hwn, gan gynnwys fforwm hil Cymru a fforwm y cymunedau ffydd yn fy maes portffolio fy hun, yn cynnig cymorth a chngor arbenigol i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio'n galed i ddatblygu newid cadarnhaol yn yr hirdymor i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.

I gloi, nodaf yr adroddiad hwn a chefnogaf yr ymgais i hyrwyddo heddwch yn ein cymdeithas. Mae canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf yn dod â'r angen i ymdrechu dros heddwch i'r amlwg. Mae coffáu'r rhyfel byd cyntaf yn gyfle pwysig inni gofio'r rhai a gymerodd ran ac effaith y rhyfel ofnadwy hwn ar ffurfio'r Gymru fodern. Bydd datrys anghydfod a chymodi yn agweddau allweddol ar y ffordd yr ydym yn coffáu'r canmlwyddiant, a hynny'n gwbl briodol. Bydd yn gyfle i bawb sy'n dymuno cyfrannu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar lefel leol, gymunedol a chenedlaethol.

16:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Powell, Chair of the Petitions Committee to reply to the debate.

Galwaf ar William Powell, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:15 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for the range of contributions that this debate has attracted today. I would first like to thank Chris Chapman, the previous Chair of the committee, who kick-started the consideration of this petition. She indicated broad support for its aims and stressed the importance of an institute in the wider promotion of humanitarian values. She paid tribute to John Griffiths for instituting what then became, in the fullness of time, the Wales for Africa programme. She also quoted the First Minister's readiness to support a degree of facilitation from the Welsh Government in taking forward these proposals.

Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl gyfraniadau i'r ddadl hon heddiw. Hoffwn yn gyntaf ddiolch i Chris Chapman, Cadeirydd blaenorol y pwyllgor, a ddechreuodd y broses o ystyried y ddeiseb hon. Nododd ei chefnogaeth gyffredinol i'w nodau gan bwysleisio pwysigrwydd sefydliad yn y gwaith ehangach o hyrwyddo gwerthoedd dyngarol. Talodd deyrnged i John Griffiths am ddechrau'r hyn a ddatblygodd wedyn, yng nhrefn amser, yn rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Nododd hefyd barodrwydd y Prif Weinidog i gefnogi rhywfaint o hwyluso gan Lywodraeth Cymru wrth fwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thanks also to Janet Finch-Saunders for her strong endorsement of the principles behind the creation of a peace institute. She referred, as did other Members later, to the appropriateness of setting the consideration of this in the context of the commemoration of the first world war and its start in 1914. She also paid tribute to the work of the Conwy peace group in her own area, which has done so much to take forward this agenda.

I am particularly grateful to Bethan Jenkins for her contribution, because she represents continuity within the consideration of this petition, having served in the Petitions Committee in the third Assembly and in the current line-up. She spoke of the importance of promoting peace in the context of fundamental human values. She referred to the importance of ethical procurement and of a cross-cutting approach to these matters in Welsh Government. She also spoke with passion about the futility of war and the relevance of the changing shape of the United Kingdom in terms of emerging defence policy. She paid tribute to the work of the former Minister for health, Edwina Hart, in making doctors available to address the particular situation in Palestine.

Nick Ramsay outed himself as something of a sceptic in terms of a peace institute, but I sense that he is still ready to be convinced of the merits of such an institution. He joined me in paying tribute to one of the lead petitioners in this matter, Dr John Cox.

Simon Thomas, in his contribution, was supportive of the broad themes of a peace institute, but from a non-pacifist perspective, and I think that that is also important. He also set in context the work of many great Welshmen in this matter, particularly Henry Richards, David Davies and others. Clearly, people of both genders across Wales have contributed to this over time; that is important for us to recall. He also referred—and we need to remember this—to the fact that it is the centenary of the start of the first world war. I think that he and I might be happier if there were a greater emphasis on commemorating and celebrating the end of that war, rather than its beginning.

I am very grateful to the Minister for a comprehensive response, supportive in principle of the aims of a peace institute and very much drawing across the policies of Welsh Government in those areas where they are promoting community cohesion. He gave a number of examples that cannot have been lost on us. In particular, he made reference—and I would associate myself with that—to the importance of dealing with and celebrating the work that is done across this country to alleviate the suffering of veterans who have served this country well.

Finally, I think that it would be appropriate for us to recall the words of that last fighting Tommy, Harry Patch, who made it clear that war is not a glorious thing, but organised murder. It is very much in that context that we should be taking forward these matters, in tribute to those who fell in the first world war and in subsequent conflicts. Diolch yn fawr.

Diolch hefyd i Janet Finch-Saunders am ei chymeradwyaeth gref o'r egwyddorion sy'n sail i greu sefydliad heddwch. Cyfeiriodd, fel y gwnaeth Aelodau eraill yn ddiweddarach, at briodoldeb ystyried hyn yng nghydestun coffáu'r rhyfel byd cyntaf a'i ddechreuad yn 1914. Talodd deyrnged hefyd i waith grŵp heddwch Conwy yn ei hardal ei hun, sydd wedi gwneud cymaint i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Bethan Jenkins am ei chyfraniad, am ei bod yn cynnig parhad o ran ystyried y ddeiseb hon, a hithau wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn y trydydd Cynulliad ac yn aelod o'r pwyllgor presennol. Soniodd am bwysigrwydd hyrwyddo heddwch yng nghyd-destun gwerthoedd dynol sylfaenol. Cyfeiriodd at bwysigrwydd caffael moesegol ac ymagwedd drawsbynciol tuag at y materion hyn yn Llywodraeth Cymru. Soniodd hefyd gydag angerdd am natur oher rhyfel a pherthnasedd cyflwr newidiol y Deyrnas Unedig o ran polisiau amddiffyn sy'n datblygu. Talodd deyrnged i waith y cyn-Weinidog iechyd, Edwina Hart, i sicrhau bod meddygon ar gael i ymdrin â'r sefyllfa benodol ym Mhalesteina.

Gwnaeth Nick Ramsay ymgynnig fel un sy'n amau gwerth sefydliad heddwch i ryw raddau, ond synhwyraf ei fod yn dal i fod yn barod i gael ei argyhoeddi o rinweddau sefydliad o'r fath. Ymunodd â mi i dalu teyrnged i un o'r prif ddeisebwyr yn y mater hwn, Dr John Cox.

Bu Simon Thomas, yn ei gyfraniad yntau, yn gefnogol i themâu cyffredinol sefydliad heddwch, ond o safbwynt un nad yw'n heddychwyr, a chredaf fod hynny hefyd yn bwysig. Gwnaeth hefyd roi yn ei gyd-destun waith llawer o'r Cymry mawr yn y mater hwn, yn enwedig Henry Richards, David Davies ac eraill. Yn amlwg, mae pobl o'r ddau ryw ledled Cymru wedi cyfrannu at hyn dros gyfnod o amser; mae'n bwysig ein bod yn cofio hynny. Cyfeiriodd hefyd—ac mae angen inni gofio hyn—at y ffaith ei bod yn ganmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf. Credaf y byddai'n well ganddo yntau, fel minnau, pe bai mwy o bwyslais ar goffáu a dathlu diwedd y rhyfel, yn hytrach na'i ddechrau.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ymateb cynhwysfawr, a oedd yn cefnogi mewn egwyddor amcanion sefydliad heddwch ac yn dwyn ynghyd bolisiau Llywodraeth Cymru yn y meysydd hynny lle maent yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhoddodd nifer o enghreifftiau na allwn eu hanwybyddu. Yn benodol, cyfeiriodd—a byddwn yn ategu hynny fy hun—at bwysigrwydd ymdrin â'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled y wlad i leddfu dioddefaint cyn-filwyr sydd wedi rhoi gwasanaeth da i'r wlad hon a'i ddathlu.

Yn olaf, credaf y byddai'n briodol inni gofio geiriau troedfilwr olaf y rhyfel byd cyntaf, sef Harry Patch, a'i gwnaeth yn glir nad rhywbeth gogoneddus yw rhyfel, ond llofruddiaeth gyfundrefnol. Yn y cyd-destun hwnnw y dylem fod yn bwrw ymlaen â'r materion hyn, mewn teyrnged i'r rhai a laddwyd yn y rhyfel byd cyntaf ac mewn rhyfeloedd dilynol. Diolch yn fawr.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Petitions Committee report. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36

Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Daeth Peter Black i'r Gadair am 16:20.

Peter Black took the Chair at 16:20.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cysylltedd Cymru Wledig

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 4 a 5 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones.

Cynnig NDM5421 William Graham

Welsh Conservatives Debate: Connectivity in Rural Wales

The following amendments have been selected: amendments 1, 4 and 5 in the name of Aled Roberts, and amendments 2 and 3 in the name of Elin Jones.

Motion NDM5421 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwella cysylltedd ledled Cymru wledig i sicrhau mynediad effeithiol i wasanaethau.

Calls on the Welsh Government to prioritise improving connectivity throughout rural Wales to ensure effective access to services.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

We are accepting all the amendments to the motion.

Rydym yn derbyn pob gwelliant i'r cynnig.

I would like to open with a comment on rural-proofing and the action, or lack of it, by the Welsh Government. The Welsh Government had stated that an independent review of the current rural-proofing activity was planned for completion in December 2013, and the Welsh Government programme for government website states that the review is due for publication in September 2013. Once again, when it comes to considering the impact on rural areas of Welsh Government policy, we see confusion, delay and a lack of action.

Hoffwn ddechrau gyda sylw ar brawfesur gwledig a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud, neu nad yw wedi'i wneud. Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan y câi adolygiad annibynnol o'r gweithgaredd prawfesur gwledig presennol ei gynnal a'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013, ac mae gwefan rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2013. Unwaith eto, o ran ystyried effaith polisi Llywodraeth Cymru ar ardaloedd gwledig, gwelwn ddrysych, oedi a diffyg gweithredu.

There have been no published reports or conclusions and no proper evidence of rural-proofing in Welsh Government policy making. It shows that rural Wales is not given the priority that it should be given by the Welsh Government. Similarly, there are reports from the Wales Rural Observatory that we have not had a rural household, rural services or rural business survey since 2010. There has, therefore, been no chance to see what impact for the good, or for the bad, the current Welsh Government policy has had on these sectors. Prior to 2010, these reports were issued in 2004 and 2007, and they should have been issued in 2013. Again, they have not been released or approved by the Welsh Government, despite the fact that the rural observatory has passed a number of reports to it; they have, presumably, been sat on. I can only, therefore, presume that they contain information that Welsh Government does not want to come into the public domain, or, perhaps, as the delay of rural-proofing assessments might indicate, that rural issues are given little, or no, priority.

Ni fu unrhyw adroddiadau na chasgliadau cyhoeddiedig na thystiolaeth briodol ychwaith o brawfesur gwledig ym mhroses llunio polisiâu Llywodraeth Cymru. Dengys nad yw Cymru wledig yn cael y flaenoriaeth y dylai Llywodraeth Cymru ei rhoi iddi. Yn yr un modd, daw adroddiadau gan Arsyllfa Wledig Cymru nad ydym wedi cael arolwg o aelwydydd gwledig, gwasanaethau gwledig na busnesau gwledig ers 2010. Felly, ni chafwyd unrhyw gyfle i weld pa effaith y mae polisiâu presennol Llywodraeth Cymru wedi ei chael, er gwell, neu er gwaeth, ar y sectorau hyn. Cyn 2010, cafodd yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi yn 2004 a 2007, a dylid bod wedi eu cyhoeddi yn 2013. Unwaith eto, nid ydynt wedi cael eu cyhoeddi na'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, er bod yr arsyllfa wledig wedi anfon nifer o adroddiadau ati; maent, yn ôl pob tebyg, wedi cael eu claddu. Felly, ni allaf ond rhagdybio eu bod yn cynnwys gwybodaeth nad yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w chyhoeddi, neu, efallai, fel y dengys yr oedi cyn cynnal asesiadau prawfesur o bosibl, nad yw materion gwledig yn cael fawr ddim blaenoriaeth, os o gwbl.

Today's debate will touch on many issues across rural health, education, the economy and housing. Three of the shadow Ministers will be speaking, and they will show that there is a continuing theme that is the main barrier for rural communities and economies, and that is of access to services. Services are those provisions that offer direct benefit to the general public in Wales; they are those things that people require in order to go about their daily lives. That is what we all pay our taxes for, to ensure that we get access to health services, education, housing and a properly functioning economy. It is unreasonable, unfair and unjust that priority should be afforded to urban communities with much less regard given to those in rural regions.

The Welsh Government is now creating the impression that the only priority it has for rural areas is that of a playground or park for their urban constituents. The strength of feeling from the public on these issues is clear. We see regular news stories highlighting the troubles that rural communities are facing, with local schools and community hospitals closing and services increasingly being moved further away.

Access to services in rural areas is an issue that I care deeply about, as do many in this Chamber, so I have been involved with a number of campaigns, as have many others: on transport issues, such as bus services, and on the decision to, potentially, cut those services, including the Arriva-X94 service, and in rural housing, trying to get the help-to-buy scheme extended to rural housing areas. The Minister slammed the door shut on that today, meaning that those who would like to live in their local communities, and get that support to buy the house that they need in order to do that, have been denied that today.

The 'Daily Post' is currently highlighting north Wales issues around rural broadband and mobile notspots. Many of you may remember the case of Angela Delaney, whose business was on the brink of being destroyed, due to the lack of broadband access. I am grateful to Ken Skates for releasing his open-market review statement today, shortly before we rose to speak in this debate, but the reality is that those living in rural areas do not know whether they are going to be covered by the superfast broadband roll-out and they do not know whether the mobile infrastructure project to tackle mobile notspots, to which the UK Government has allocated £100 million, will apply in their areas.

The Superfast Cymru update letter, which was coincidentally dropped in to my office yesterday, shows that no interviews have been held anywhere in the north Wales region for jobs available as a result of the Superfast Cymru roll-out. Much of Snowdonia national park, one of north Wales's most important tourist attractions, falls within Conwy, yet Conwy is not due to be included in the roll-out of superfast broadband until 2015, undermining a key local employment sector.

Bydd y ddadl heddiw yn cyfeirio at lawer o faterion ym meysydd iechyd, addysg, yr economi a thai yng nghefn gwlad. Bydd tri o Weinidogion yr wrthblaid yn siarad, a byddant yn dangos bod thema sy'n codi dro ar ôl tro fel y prif rwystr i gymunedau ac economïau gwledig, sef mynediad i wasanaethau. Gwasanaethau yw'r darpariaethau hynny sy'n cynnig budd uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru; y pethau hynny sydd eu hangen ar bobl yn eu bywydau bob dydd. Dyna pam rydym i gyd yn talu ein trethi, er mwyn sicrhau ein bod yn cael mynediad i wasanaethau iechyd, addysg, tai ac economi sy'n gweithio'n iawn. Mae'n afresymol, yn annheg ac anghyfiawn bod cymunedau trefol yn cael blaenoriaeth a bod y rhai mewn rhanbarthau gwledig yn cael llawer llai o sylw.

Mae Llywodraeth Cymru yn creu'r argraff bellach mai'r unig flaenoriaeth sydd ganddi dros ardaloedd gwledig yw eu bod yn ardaloedd hamdden neu barc i'w hetholwyr trefol. Mae cryfder teimladau'r cyhoedd ynglŷn â'r materion hyn yn amlwg. Rydym yn gweld straeon newyddion yn rheolaidd sy'n tynnu sylw at y trafferthion y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, gydag ysgolion lleol ac ysbytai cymunedol yn cau a gwasanaethau yn cael eu symud fwyfwy ymhellach i ffwrdd.

Mae mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn fater sydd o'r pwys mwyaf i mi, ac i lawer yn y Siambr hon, felly rwyf wedi bod yn rhan o nifer o ymgyrchoedd, fel y mae llawer o bobl eraill: ynghylch materion trafniadaeth, megis gwasanaethau bysiau, a'r penderfyniad i dorri'r gwasanaethau hynny o bosibl, gan gynnwys gwasanaeth Arriva-X94, a thai gwledig, gan geisio sicrhau bod y cynllun cymorth i brynu yn cael ei estyn i ardaloedd tai gwledig. Gwrthodwyd hynny'n llwyr gan y Gweinidog heddiw, sy'n golygu bod y rhai a hoffai fyw yn eu cymunedau lleol, a chael y gefnogaeth honno i brynu'r tŷ sydd ei angen arnynt er mwyn gwneud hynny, wedi cael eu gwrthod heddiw.

Mae'r 'Daily Post' yn tynnu sylw ar hyn o bryd at broblemau yn y gogledd ynghylch band eang gwledig a manau gwan ffonau symudol. Efallai y bydd llawer ohonoch yn cofio achos Angela Delaney, yr oedd ei busnes ar fin cael ei ddinistrio, oherwydd diffyg mynediad i fand eang. Rwy'n ddiolchgar i Ken Skates am gyhoeddi ei ddatganiad am adolygiad o'r farchnad agored heddiw, ychydig cyn inni godi i siarad yn y ddadl hon, ond y gwir amdani yw nad yw'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gwybod a fyddant yn cael eu cwmpasu gan y band eang cyflym iawn a gyflwynir ac ni wyddant a yw'r prosiect seilwaith symudol i fynd i'r afael â manau gwan ffonau symudol, y mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu £100 miliwn ar ei gyfer, yn gymwys yn eu hardaloedd.

Dengys llythyr diweddar Superfast Cymru, a ddosbarthwyd i'm swyddfa ddoe drwy gyd-ddigwyddiad, nad oes unrhyw gyfweiliadau wedi cael eu cynnal yn unrhyw le yn rhanbarth gogledd Cymru ar gyfer swyddi sydd ar gael yn sgil cyflwyno Superfast Cymru. Mae rhan helaeth o barc cenedlaethol Eryri, un o atyniadau twristiaeth pwysicaf y gogledd, o fewn ffiniau Conwy, ac eto ni fydd Conwy yn cael ei chynnwys yn y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn tan 2015 yn ôl yr amserlen, gan danseilio sector cyflogaeth lleol allweddol.

I do not want to go into too much detail on the specific strands on issues relating to rural service provision, which will be highlighted by my colleagues who will speak in this debate, but I feel that I cannot close my contribution without reference to the threat to rural communities in terms of access to health services. We all know that the state of our NHS targets, such as ambulance response times, have been shameful on the part of Welsh Government, but I accept that rural regions are harder to access in these emergency situations, with narrow roads, longer distances to travel and fewer direct routes. Generally, people living in rural communities are further from their nearest hospital and ambulance stations, but they get a raw deal—or the toughest deal of a difficult situation. Ambulance services have been described as being stretched to the brink in rural Gwynedd, with examples such as an incident last year that required a Pwllheli-based ambulance to attend an incident in Tywyn, taking an hour and 40 minutes.

We need to have an integrated approach to the rural parts of Wales. It is clear that there is a lack of rural-proofing, both in the legislation that the Welsh Government is bringing forward and the way in which that impacts access to services in local communities, and in terms of the delivery of services to people in those areas. It is quite clear that, when it comes to access to services, counties like Ceredigion, Powys and Gwynedd are in the most deprived areas, as measured in the Welsh index of multiple deprivation. In contrast, that index of multiple deprivation highlights that the Valleys regions do not suffer that same deprivation.

16:28 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

16:28 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I am sorry. [Interruption.] No, not on access to services.

In short, I urge the Welsh Government to take far greater account of its people in rural regions, to take action to produce its rural-proofing review, to release the Wales Rural Observatory reports and to make sure that the voices of those living and working in the 85% of Wales that is rural are listened to.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd symudol a band eang i ddatblygu economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar y system gynllunio er mwyn sicrhau bod rheolau cynllunio yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith digidol.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nid wyf am ymhelaethu gormod ar yr elfennau penodol o'r problemau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gwledig, a fydd yn cael eu hamlygu gan fy nghyd-Aelodau a fydd yn siarad yn y ddaidl hon, ond teimlaf na allaf offren fy nghyfraniad heb gyfeirio at y bygythiad i gymunedau gwledig o ran mynediad i wasanaethau iechyd. Gwyddom oll fod cyflwr targedau'r GIG, megis amseroedd ymateb ambiwlansys, wedi bod yn gywilyddus ar ran Llywodraeth Cymru, ond derbyniaf fod rhanbarthau gwledig yn anos eu cyrraedd yn yr achosion brys hyn, gyda ffyrdd cul, pellteroedd hwy i deithio a llai o lwybrau uniongyrchol. Yn gyffredinol, mae pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig ymhellach i ffwrdd oddi wrth eu hysbytai a'u gorsafoddd ambiwlans agosaf, ond maent yn cael tro gwael—neu'r tro gwaethaf mewn sefyllfa annod. Dywedwyd bod gwasanaethau ambiwlans ar fin chwalu yng nghefn gwlad Gwynedd, gydag enghreifftiau megis achos y llynedd lle bu'n rhaid i ambiwlans o Bwllheli fynd at glaf yn Nhywyn, gan gymryd awr a 40 munud.

Mae angen inni weithredu mewn ffordd integredig o ran cefn gwlad Cymru. Mae'n amlwg bod diffyg prawfesur gwledig, yn y ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyflwyno a'r ffordd y mae hynny'n effeithio ar fynediad i wasanaethau mewn cymunedau lleol, ac o ran darparu gwasanaethau i bobl yn yr ardaloedd hynny. Mae'n eithaf amlwg, o ran mynediad i wasanaethau, bod siroedd fel Ceredigion, Powys a Gwynedd ymhlith yr ardaloedd mwyaf diffreintiedig, fel y'i mesurir ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r mynegai amddifadedd lluosog hwnnw yn dangos na welir yr un amddifadedd yn y cymoedd.

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Na, mae'n ddrwg gennyf. [Torri ar draws.] Na, nid o ran mynediad i wasanaethau.

I grynhoi, hoffwn annog Llywodraeth Cymru i roi llawer mwy o ystyriaeth i'w phobl mewn ardaloedd gwledig, cymryd camau i baratoi ei hadolygiad prawfesur gwledig, cyhoeddi adroddiadau Arsyllfa Wledig Cymru a sicrhau y gwrandewir ar leisiau'r rhai sy'n byw ac sy'n gweithio yn y 85% o Gymru sy'n wledig.

Amendment 1—Aled Roberts

Insert as new point at beginning of motion:

Recognises the importance of mobile and broadband connectivity to economic and social development in rural areas and calls on the Welsh Government to examine the planning system to ensure that planning rules support the development of digital infrastructure.

Amendment 4—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn cydnabod y rhwystrau penodol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig o ran cael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu ffyrdd o wella cysylltedd trafnidiaeth yng nghefn gwlad er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i gael prentisiaethau.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod cysylltedd band eang gwael yn cyfyngu mynediad at wasanaethau bancio ar-lein mewn ardaloedd gwledig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys archwiliad o strwythur banc cymunedol yn y cylch gorchwyl ar gyfer cynnal adolygiad pellach o fanc datblygu ar gyfer Cymru, er mwyn cynnal presenoldeb banciau lleol mewn cymunedau gwledig.

Recognises the particular barriers young people in rural areas face in accessing education, employment and training and calls on the Welsh Government to assess ways to improve rural transport connectivity to widen opportunities for apprenticeships.

Amendment 5—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Recognises that poor broadband connectivity limits access to online banking in rural areas, and calls on the Welsh Government to include the examination of a community bank structure within the terms of reference for the further review into a development bank for Wales, to sustain the presence of local banks in rural communities.

16:28

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 4 and 5.

In response to the Member's last point in opening this debate, I would say that what we need to be talking about is not competition between one part of Wales and another; it is about making sure that access to services is equitable across Wales so that all communities feel that they have that kind of access. In terms of, for example, ambulance services, you may have heard me raise in the Chamber yesterday the fact that Rhondda Cynon Taf has some of the worst access, yet it is one of these Valleys communities that you believe to be connected up. We need to look at the whole of Wales and make sure that we are making services as equally delivered as possible.

In terms of rural communities, rural connectivity is a broad issue, but there is the double-edged challenge of digital exclusion and, on top of that, poor-quality, unreliable and high-cost transport infrastructure, which does present particular challenges to individuals and businesses in terms of accessing the services and facilities that are made available to them. A study undertaken some time ago by the Commission for Rural Communities highlighted that the untapped economic potential of rural areas in England could be about £347 billion a year. The principal reason found for this was that businesses in rural areas are often unable to turn aspiration into practice, and that entrepreneurial spirit cannot fully reach its potential in wealth creation. This assessment was in relation to England, but many of those problems are the same, and potentially more acute, in Wales. Poor broadband and mobile connectivity, and a lack of integrated and reliable transport networks, are key barriers to unlocking the potential that we have in our rural communities. We need to think about how we can best modernise those rural communities if we are to give them the sustainable future that we all want to see.

Cynigiad welliannau 1, 4 a 5.

Mewn ymateb i bwynt olaf yr Aelod a agorodd y ddad hon, hoffwn nodi nad sôn am gystadleuaeth rhwng un rhan o Gymru a'r llall y mae angen inni ei wneud; mae'n ymwneud â sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad i wasanaethau ledled Cymru fel bod pob cymuned yn teimlo ei bod yn cael y math hwnnw o fynediad. O ran gwasanaethau ambiwlans, er enghraifft, efallai ichi fy nghlywed yn codi yn y Siambr ddoe y ffaith y gall mynediad fod ar ei waethaf yn Rhondda Cynon Taf, ac eto mae'n un o'r cymunedau hyn yn y cymoedd sydd â chysylltiadau da, yn eich barn chi. Mae angen inni edrych ar Gymru gyfan a gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mor deg â phosibl.

O ran cymunedau gwledig, mae cysylltedd gwledig yn fater eang, ond cyfyd yr her ddeuol sef allgau digidol ac, ar ben hynny, seilwaith trafnidiaeth annibynadwy a chostus o safon wael, sy'n cynnig heriau penodol i unigolion a busnesau o ran cael mynediad i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir ar eu cyfer. Mewn astudiaeth a wnaed beth amser yn ôl gan y Comisiwn dros Gymunedau Gwledig tynnwyd sylw at y ffaith y gallai'r potensial economaidd heb ei wireddu mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr fod yn werth tua £347 biliwn y flwyddyn. Y prif reswm o hyd dros hyn oedd bod busnesau mewn ardaloedd gwledig yn aml yn methu â rhoi eu cynlluniau ar waith, ac na all yr ysbryd entrepreneuriaidd gyrraedd ei botensial llawn o ran creu cyfoeth. Roedd yr asesiad hwn yn ymwneud â Lloegr, ond mae llawer o'r problemau hynny yr un fath, ac o bosibl yn waeth, yng Nghymru. Mae band eang a chysylltedd symudol gwael, a diffyg rhwydweithiau trafnidiaeth integredig a dibynadwy, yn rhwystrau allweddol i wireddu'r potensial sydd yn ein cymunedau gwledig. Mae angen inni ystyried y ffordd orau o foderneiddio'r cymunedau gwledig hynny os ydym am roi'r dyfodol cynaliadwy yr ydym i gyd am ei weld iddynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Turning to our amendment 1 on the importance of broadband and mobile connectivity to economic and social development in rural areas, I too would like to thank the Deputy Minister for his, shall we call it, extremely timely statement today concerning superfast broadband roll-out? Many communities across Wales are still waiting to be released into the programme, so I welcome this update and look forward to the results of that review when they become available. These days, quick and reliable broadband and mobile signals are not a luxury—they are an essential utility. Despite this, we still see a stark urban-rural divide in Wales. According to the infrastructure report published by Ofcom in 2012, superfast broadband availability across Wales ranges from 88% in urban areas to just 6% in rural areas. Geographic coverage of mobile networks in Wales is also weak: 14.3% have no 2G signal from any operator, myself included; and, 22.1% have no 3G signal from any operator. It is not just an inconvenience; it is stifling the ability of our businesses to reach out to the widest possible markets and to harness the technologies that many other people take for granted.

In our Welsh Liberal Democrat debate on broadband and mobile connectivity last year, we called on the Welsh Government not only to address the issue that today's statement raised, but also to investigate ways in which the planning system could potentially be used to enable the development of digital infrastructure in Wales. We suggested classifying broadband as a utility for planning purposes, so that all new developments in Wales are designed to accommodate future broadband provision. Road construction or improvements, for example, would include provision for fibres, so that they would not need to be dug up for a second time and incur those extra costs, extra difficulties and extra delays that are so damaging. The removal of prior approval requirements for certain broadband infrastructure would also help to streamline the planning process. Last year, the Welsh Government consulted on proposed additional permitted development rights to help facilitate broadband roll-out across Wales, and we would welcome an update on the action taken following this.

Amendment 4 focuses on the particular barriers that young people in rural areas face in accessing education, employment and training, in particular our concerns about access in rural areas to high-quality apprenticeships. There has been a decline in the number of apprenticeships available to young people interested in things like agriculture and manufacturing in those rural areas specifically. We also see a decline in the number of young people choosing to study agriculture at university. We have to make sure that we provide our traditional economies in Wales with the opportunity to develop skills and also to develop their own economies.

Gan droi at welliant 1 ynglŷn â phwysigrwydd band eang a chysylltedd symudol i ddatblygu economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, hoffwn innau hefyd ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad hynod amserol heddiw, os cawn ei ddisgrifio felly, ynglŷn â chyflwyno band eang cyflym iawn. Mae llawer o gymunedau ledled Cymru yn dal i aros i gael eu cynnwys yn y rhaglen, felly croesawaf y wybodaeth ddiweddaraf hon ac edrychaf ymlaen at ganlyniadau'r adolygiad hwnnw pan fyddant ar gael. Y dyddiau hyn, nid moethusbeth yw band eang cyflym a dibynadwy a signalau ffonau symudol—maent yn gyfleustodau hanfodol. Er gwaethaf hyn, rydym yn dal i weld gwahaniaeth trawiadol rhwng ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad seilwaith a gyhoeddwyd gan Ofcom yn 2012, mae argaeledd band eang cyflym iawn ledled Cymru yn amrywio o 88% mewn ardaloedd trefol i 6% yn unig mewn ardaloedd gwledig. Mae darpariaeth ddaearyddol rhwydweithiau ffonau symudol yng Nghymru hefyd yn wan: mae 14.3% yn methu â chael unrhyw signal 2G gan unrhyw weithredwr, a minnau'n un ohonynt, ac mae 22.1% yn methu â chael unrhyw signal 3G gan unrhyw weithredwr. Mae hyn nid yn unig yn anghyfleus, ond mae'n llesteirio gallu ein busnesau i ymestyn i'r marchnadoedd ehangaf posibl ac i harneisio technolegau y mae llawer o bobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

Yn ystod dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar fand eang a chysylltedd symudol y llynedd, galwyd ar Lywodraeth Cymru nid yn unig i fynd i'r afael â'r mater a godwyd yn y datganiad heddiw, ond hefyd i ymchwilio i ffyrdd y gallai'r system gynllunio gael ei defnyddio o bosibl i'w gwneud yn bosibl i'r seilwaith digidol yng Nghymru gael ei ddatblygu. Awgrymwyd gennym y dylid dosbarthu band eang yn gyfleustod at ddibenion cynllunio, fel bod pob datblygiad newydd yng Nghymru yn cael ei gynllunio i ddarparu ar gyfer darpariaeth band eang yn y dyfodol. Byddai gwaith adeiladu neu wella ffyrdd, er enghraifft, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ffeibrau, fel na fyddai angen eu cloddio am yr ail dro a mynd i'r costau ychwanegol hynny, anawsterau ychwanegol ac oedi ychwanegol sydd mor niweidiol. Byddai cael gwared ar ofnyon cymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer seilwaith band eang penodol hefyd yn helpu i symleiddio'r broses gynllunio. Y llynedd, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r hawliau datblygu a ganiateir ychwanegol arfaethedig er mwyn helpu i hwyluso'r broses o gyflwyno band eang ledled Cymru, a byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau a gymerwyd ar ôl hyn.

Mae gwelliant 4 yn canolbwyntio ar y rhwystrau penodol y mae pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn eu hwynebu i gael mynediad i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, yn benodol ein pryderon ynghylch mynediad mewn ardaloedd gwledig i brentisiaethau o safon uchel. Bu gostyngiad yn nifer y prentisiaethau sydd ar gael i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn pethau fel amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu yn yr ardaloedd gwledig hynny yn benodol. Rydym hefyd yn gweld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio amaethyddiaeth yn y brifysgol. Rhaid inni sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i'n heconomiau traddodiadol yng Nghymru i ddatblygu sgiliau a hefyd i ddatblygu eu heconomiau eu hunain.

Finally, my colleague Bill Powell has often raised the issue of a community bank structure. As amendment 5 highlights, with limited access to online services, access to a local bank in rural areas is vital to ensure that businesses and individuals can manage their finances. We would encourage the Minister to look at ways of incorporating this in the review of a development bank that has been agreed. However, I understand that the terms of reference are still open, and we would like to see that being included.

Yn olaf, mae fy nghyd-Aelod Bill Powell yn aml wedi codi mater strwythur banc cymunedol. Fel y noda gwelliant 5, gyda mynediad cyfyngedig i wasanaethau ar-lein, mae mynediad i fanc lleol mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall busnesau ac unigolion reoli eu materion ariannol. Hoffem annog y Gweinidog i edrych ar ffyrdd o ymgorffori hyn yn yr adolygiad o fanc datblygu y cytunwyd arno. Fodd bynnag, caf ar ddeall bod y cylch gorchwyl eto i'w benderfynu, a hoffem weld hynny'n cael ei gynnwys.

16:34

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi manteision cysylltiad band eang cyflym iawn i'r economi wledig, a hefyd yn nodi'r effeithiau economaidd negyddol y mae manau gwan ar gyfer derbyn band eang ac oedi cyn cyflwyno band eang cyflym yn eu cael ar ardaloedd gwledig.

Gwelliant 3—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllun cenedlaethol yn cael ei sefydlu i gyflwyno signal symudol 4G ym mhob rhan o Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Amendment 2—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Notes the benefits of superfast broadband connectivity to the rural economy and further notes the negative economic impacts of broadband 'not-spots' and delays in the rollout of high-speed broadband to rural areas.

Amendment 3—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to ensure a national plan is put in place for the rollout of 4G mobile signal to all parts of Wales.

16:34

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigaf welliannau 2 a 3.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn cytuno'n llwyr o ran pwysigrwydd cysylltedd digidol yng nghefn gwlad Cymru, ac yn hynny o beth rydym yn hapus iawn i gefnogi'r cynnig gan y Ceidwadwyr. Fodd bynnag, gwnaf ymhelaethu ynglŷn â pham mae'r cysylltedd hwn mor bwysig, pa mor hanfodol ydyw nad oes oedi wrth gyflwyno y math hwn o isadeiledd sydd ei angen ar gefn gwlad, ac hefyd bod yr isadeiledd hwnnw o'r safon uchaf a chyflymaf posibl. Mae hynny nid yn unig er mwyn hwyluso bywydau unigolion a sicrhau bod pawb, lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru, yn cael yr un cyfleoedd i fanteisio ar y chwyldro digidol yn eu bywydau bob dydd, ond hefyd er mwyn bod byd busnes, fel y clywsom, yn gallu bodoli a ffynnu yng nghefn gwlad drwy ddefnyddio cysylltiadau digidol i gymryd lle, i raddau helaeth, beth fyddai wedi bod yn bwysig yn yr hen ddyddiau, sef cysylltiad corfforol. Yr ydym yn byw mewn byd gwahanol iawn y dyddiau hyn lle y dylem fod yn gallu annog twf mewn lleoedd nad oedd hynny'n bosibl o'r blaen, ac mae'n amlwg bod llawer o waith ar ôl i'w wneud yn hynny o beth. Ar hyn o bryd, mae bron i hanner arwynebedd Cymru yn syrthio i gategori 5 Ofcom, sef y categori gwaethaf o ran perfformiad band eang. Mae 10 allan o'r 22 awdurdod lleol yn y categori hwnnw a'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hynny, wrth gwrs, yn ardaloedd gwledig.

I move amendments 2 and 3.

We in Plaid Cymru certainly agree on the importance of digital connectivity in rural Wales, and in that regard we are very happy to support the Conservative motion. However, I will expand on why that connectivity is so important, how crucial it is that there are no delays in introducing this sort of infrastructure that is so necessary in rural areas, and that that infrastructure is of the highest possible quality and is as swift as possible. That is not only to facilitate the lives of individuals and ensure that everyone, wherever they live in Wales, has the same opportunities to benefit from the digital revolution in their daily lives, but also so that businesses, as we have already heard, can exist and prosper in rural Wales, using digital connectivity to replace to a great extent what would have been important in the olden days, namely the physical connections that existed. We do live in a very different world these days where we should be able to encourage growth in areas where that would not have been possible in the past, and it is clear that there is a great deal of work left to be done in that regard. At the moment, almost half of the surface area of Wales falls into Ofcom's category 5, which is the weakest in terms of broadband performance. Ten of the 22 local authorities fall into that category, and most of those areas, of course, are rural areas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Os ydym o ddirif am ledaenu cyfoeth o gwmpas Cymru— yn ogystal â chodi cyfoeth Cymru drwyddi draw—mae'n rhaid i ni fod o ddirif ynglŷn â manteisio ar y chwyldro digidol. Mewn byd digidol mae rhedeg busnes heb gyswllt band eang da—heb sôn am drïo gwneud hynny heb gysylltiad band eang o gwbl—yn dod yn rhywbeth sydd bron a bod yn amhosibl. Rwy'n gwybod o'm profiad yn y maes darlledu o drïo gyrru ffeil sain neu fideo a methu, neu gymryd drwy'r dydd i wneud hynny, bod hynny'n anfantais fawr iawn i ddatblygiad posibl busnesau o'r fath yng nghefn gwlad. Heb gysylltiadau digidol, marchnadoedd lleol yn aml iawn yw'r unig rai hyfyw ac mae busnesau yn amlwg yn mynd i gael eu dal yn ôl pan fydd cystadleuwyr iddynt sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol yn gallu cyfrif y byd fel eu marchnadoedd. I rai busnesau, wrth gwrs, mae eu holl fodel busnes yn seiliedig ar gyswllt da—gallaf sôn am fusnes yn Ynys Môn sydd wedi bod yn gwneud gwaith IT i General Motors yn America, o Ynys Môn. Mae hynny'n digwydd bod yn ardal lle mae cysylltiad da. Yr ydym wedi bod yn siarad yn ddiweddar efo perchennog busnes ym Merthyr Tudful ym maes ocsiynau ar lein. Mae 40 o bobl yn gweithio iddo ond mae ganddo gysylltiad gwael, felly mae'n ystyried symud i ardal arall. Merthyr Tudful yw hynny—i gryfhau pwynt Eluned Parrott—nid cefn gwlad; Mae'n her sy'n wynebu llawer iawn o rannau o'r wlad sydd hefyd yn drefol.

Nid yn unig helpu cwmnïau sydd yma ar hyn o bryd yr ydym eisïau ei wneud ychwaith. Yr ydym wedi sôn wythnos yn ôl am ddenu buddsoddiad o dramor. Sut y gallwn ddisgwyl i gwmnïau rhyngwladol ddod yma—y mathau o gwmnïau yr ydym eu hangen i gynyddu GVA Cymru—heb allu cynnig technoleg yr unfed ganrif ar hugain iddynt? Gwnaf sôn yn fyr hefyd am gysylltiadau'r genhedlaeth nesaf o signal symudol—4G. Mewn rhai ardaloedd, mae signal symudol yn fwy dibynadwy na chyswllt band eang. Mae'n rhaid i ni edrych ar 4G fel blaenoriaeth hefyd. Pa well neges i'w anfon allan i'r byd na gallu dweud, 'Os dewch chi i Gymru, mi gewch chi'r genhedlaeth nesaf o gyswllt band eang ffibr optig a rhwydwaith data symudol y genhedlaeth nesaf yn mhob cornel o'r wlad'?

Rwyf wedi cynnig ein dau welliant yn enw Elin Jones. Rwy'n gofyn i chi eu cefnogi am y rhesymau yr wyf wedi eu rhoi yn barod. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 4 gan y Democratiaid Rhyddfrydol achos mae rôl i'r gyfundrefn gynllunio ac, wrth gwrs, er gwaethaf y pwyslais ar y digidol y prynhawn yma, mae cyswllt trafniadaeth yn bwysig o hyd. O ran gwelliant 5, ni wnawn bleidleisio yn ei erbyn achos yr ydym wedi bod ar flaen y gad o ran galw am fanc buddsoddi i Gymru o'r math sy'n cael ei grybwyll yn y gwelliant, ond rwyf yn ofni y gallai pwrpas y banc hwnnw gael ei gymylu yn ormodol gan yr hyn y mae Aled Roberts yn ei gynnig yn y gwelliant. Wrth gwrs, yr ydym ni hefyd yn frwd iawn dros gynnal rhwydweithiau'r banciau yng nghefn gwlad.

Felly, i gloi, mae'n rhaid i Gymru drïo bod ar flaen y gâd o ran y chwyldro digidol. Mae'n rhaid i gefn gwlad chwarae rhan llawn yn y chwyldro digidol hwnnw. Mae gwaith da yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd, yr ydym yn cydnabod hynny, ond mae'n rhaid cyrraedd targedau a'u pasio, er enghraifft, sicrhau bod y cysylltiad yr un cyflymaf ym mhob rhan o'r wlad, a hynny er mwyn ein cymunedau ni, er mwyn sicrhau ein bod yn taclo'r diboblogi, ac er lles ein economi ni.

If we are serious about disseminating wealth around Wales—as well as increasing wealth levels throughout Wales—we have to take seriously the benefits of the digital revolution. In a digital world, running a business without a strong broadband connection, never mind trying to do that without any broadband connection whatsoever, becomes something that is virtually impossible. I know from my own experience in broadcasting that trying to send sound or video files and failing, or taking all day to do so, is a huge disadvantage to the possible development of such businesses in rural areas. Without digital connectivity, local markets are very often the only ones that are viable, and businesses will clearly be held back when their competitors that are located in urban areas can look at the world as their markets. For some businesses, of course, their whole business model is based on strong connectivity—I can mention a business on Anglesey that has been doing IT work for General Motors in the USA, working from Anglesey. As it happens, it is working from an area where there is strong connectivity. We have been speaking recently to a business owner in Merthyr Tydfil, working in online auctions. He has 40 members of staff, but poor connectivity and he is now considering moving to another area, and that is Merthyr. Just to highlight Eluned Parrott's point, it is not just rural areas; it is a challenge facing many parts of the country that are urban in nature.

It is not just companies that are here now that we are seeking to help. We mentioned this just a week ago on attracting inward investment. How can we expect international companies to come here—the kinds of companies that we need to increase Wales's GVA—without offering them twenty-first-century technology? I will briefly also mention the next-generation mobile signal—4G. In some areas, mobile signal is more reliable than the broadband connection. We must look at 4G as a priority as well. What better message to send to the world than to say, 'Well, if you come to Wales, you will have next-generation broadband available to you over fibre-optic cable as well as a next-generation mobile data network in all parts of the country'?

I have moved our two amendments in the name of Elin Jones, and I would ask you to support them for the reasons I have already outlined. We will support amendments 1 and 4, tabled by the Liberal Democrats, because there is a role for the planning regime and, of course, despite the emphasis on the digital this afternoon, transport connectivity remains very important. On amendment 5, we will not vote against it because we have been in the vanguard in calling for an investment bank for Wales of the kind mentioned in the motion, but I fear that the purpose of that bank could be made ambiguous under the proposals put forward by Aled Roberts in his amendment. However, of course, we are very keen on maintaining banking networks in rural Wales.

To conclude, Wales must try to be in the vanguard of the digital revolution. Rural Wales must play its full part in that digital revolution. There is good work currently being done in certain areas, we acknowledge that, but we must achieve targets and surpass them, for example, we must ensure that the connection is the fastest possible in all parts of the country, and that is for the sake of our communities, to ensure that we tackle depopulation, and for the benefit of our economy.

Rural housing is key to an effective, connected and sustainable Wales. In 2008, the Joseph Rowntree Foundation report on rural housing in Wales, to which I gave evidence, found that the current and projected supply of new and affordable housing was not sufficient and that a 'seismic upward shift in provision' was required to meet the need, and that the limited supply of housing and the difficulty of getting onto the property ladder was threatening the social and cultural sustainability of communities in rural Wales.

Housing forum Cymru had stated that housing was creating a more divided Wales and that the consequences for social cohesion were enormous. Both the Confederation of British Industry and Business in the Community stated that new housing was a key factor in attracting investment into Wales and in retaining the workforce. However, the supply of new housing for affordable rent or low-cost ownership had been slashed, as waiting lists and overcrowding had ballooned.

Jump forward to the 2013 Country Land and Business Association report, 'Tackling the Housing Crisis in Wales'. This states that we need more homes for rural economy workers to keep communities in the countryside viable; more retirement homes so that older people can pass on farm holdings to a younger generation; and new homes for first-time buyers and owner-occupiers wanting to downsize. However, CLA Wales's briefing on the Welsh Government's Housing (Wales) Bill, expresses concern that co-operative housing is the only tool identified to extend housing supply, and believes that the proposals within the Bill will not assist in the delivery of new housing supply. It hopes that the draft planning Bill will promote both the allocation of new-build sites and culture change within planning departments, so that housing supply can be extended through new-build activity.

The Communities, Equality and Local Government Committee report on the provision of affordable housing in Wales quoted evidence from a rural housing enabler that there was a need for the Welsh Government to take forward the release of Government-owned land for affordable housing developments. Rural housing enablers are employed by a local authority or housing association to assist rural communities in meeting their housing needs. However, the Welsh Government's 2014 'Evaluation of Rural Housing Enablers (RHE) in Wales' report found that rural housing enablers had helped deliver just 186 affordable homes over 10 years since 2004, with just 240 more in the pipeline. Only six areas had provided data, and 89% of completions were in just three areas—Gwynedd, Monmouthshire and Powys south. The report referred to 'strategic barriers' that had been highlighted as challenges through numerous reports dating back to the Joseph Rowntree Foundation inquiry into rural affordable housing in 2008, adding that,

'Their continuation is a concern and the reluctance of the RHE Steering Groups to venture into taking a strategic role is perhaps a reflection of this situation.'

Mae tai gwledig yn allweddol i Gymru sy'n effeithiol, yn gysylltiedig ac yn gynaliadwy. Yn 2008, canfu adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree o dai gwledig yng Nghymru, y rhoddais dystiolaeth iddo, nad oedd y cyflenwad presennol o dai newydd a fforddiadwy na'r cyflenwad a ragwelwyd yn ddigonol a bod angen cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth er mwyn ateb y galw, a bod y cyflenwad cyfyngedig o dai a'r anhawster i gael troed ar yr ysgol eiddo yn peryglu cynaliadwyedd cymdeithasol a diwylliannol cymunedau yng nghefn gwlad Cymru.

Nododd fforwm tai Cymru fod tai yn creu Cymru fwy rhanedig a bod y goblygiadau i gydlyniant cymdeithasol yn enfawr. Nododd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Busnes yn y Gymuned fod tai newydd yn ffactor allweddol i ddenu buddsoddiad i Gymru ac i gadw'r gweithlu. Fodd bynnag, mae'r cyflenwad o dai newydd sydd ar gael ar gyfer rhenti fforddiadwy neu berchnogaeth cost isel wedi gostwng yn sylweddol, wrth i restrau aros a gorlenwi gynyddu.

Symudaf ymlaen at adroddiad Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yn 2013, 'Tackling the Housing Crisis in Wales'. Noda hwn fod angen mwy o gartrefi i weithwyr yr economi wledig er mwyn cadw cymunedau yng nghefn gwlad yn hyfyw; mwy o gartrefi ymdeol fel y gall pobl hŷn drosglwyddo daliadau fferm i genhedlaeth iau; a chartrefi newydd ar gyfer prynwyr tro cyntaf a pherchen-ddeiliaid sydd am symud i eiddo llai. Fodd bynnag, mae papur briffio Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru ar Fil Tai (Cymru) Llywodraeth Cymru yn mynegi pryder mai tai cydweithredol yw'r unig ddull o ehangu'r cyflenwad o dai a nodwyd, ac mae o'r farn na fydd y cynigion yn y Bil yn helpu i ddarparu cyflenwad o dai newydd. Mae'n gobeithio y bydd y Bil cynllunio drafft yn hyrwyddo dyrannu safleoedd adeiladu newydd a newid diwylliant o fewn adrannau cynllunio, fel y gall y cyflenwad tai gael ei ehangu drwy adeiladu tai newydd.

Dyfynnodd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru dystiolaeth gan swyddog galluogi tai gwledig fod angen i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r broses o ryddhau tir sy'n eiddo i'r Llywodraeth ar gyfer datblygiadau tai fforddiadwy. Cyflogir swyddogion galluogi tai gwledig gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai i helpu cymunedau gwledig i ddiwallu eu hangenion tai. Fodd bynnag, canfu adroddiad 'Gwerthusiad o Swyddogion Galluogi Tai Gwledig (RHE) yng Nghymru' 2014 Llywodraeth Cymru mai dim ond 186 o gartrefi fforddiadwy yr oedd swyddogion galluogi tai gwledig wedi helpu i'w darparu dros 10 mlynedd ers 2004, gyda dim ond 240 arall ar y gweill. Dim ond chwe ardal a ddarparodd ddata, ac roedd 89% o dai a gwblhawyd mewn tair ardal yn unig—Gwynedd, Sir Fynwy a de Powys. Cyfeiriodd yr adroddiad at 'rhwystrau strategol' a oedd wedi eu nodi fel heriau drwy nifer o adroddiadau sy'n dyddio'n ôl i ymchwiliad Joseph Rowntree i dai gwledig fforddiadwy yn 2008, gan ychwanegu

Bod eu parhad yn destun pryder a bod amharodrydd Grwpiau Llywio Swyddogion Galluogi Tai Gwledig i fentro i ymgymryd â rôl strategol o bosibl yn adlewyrchiad o'r sefyllfa hon.

Although the report found that the role of rural housing enablers is still seen as essential to delivering rural affordable housing and that engaging communities in meeting their housing needs remained the 'golden thread', there had been a change in activity away from raising community awareness of rural housing need and measuring it. At a local level, the report recommended the adoption of a delivery team approach and strong strategic leadership. At Welsh Government level, it recommended targeted funding for rural delivery and amended planning policy to allow cross-subsidy on rural exception sites.

Flintshire's former rural housing enabler moved to an English local authority, frustrated that local housing need assessments and delivery faced repeated opposition. There had also been a failure to link prices to local first-time buyer incomes and to deliver so-called 'occupancy cascades' that prioritised housing for local people.

A few weeks ago, I received correspondence from Flintshire council confirming that it no longer had a rural housing enabler in post. We must deliver a network of rural housing enablers across Wales and empower them to identify housing need at local affordable prices, and to identify problems and deliver solutions. As in England, open market housing on rural exception sites should be allowed to cross-subsidise affordable housing, and a build for rent scheme should be introduced to stimulate new private rented housing supply. Further, rent Act tenancies in the countryside need to be included in Welsh Government tenancy reform proposals to tackle unfairness and to prioritise local affordable housing need over succession rights. We need nothing less than an emergency housing supply programme for the whole of Wales—urban and rural—with all sectors working together. Diolch.

Er i'r adroddiad ganfod bod rôl swyddogion galluogi tai gwledig yn dal i gael ei hystyried yn hanfodol er mwyn darparu tai fforddiadwy gwledig a bod ymgysylltu â chymunedau er mwyn diwallu eu hanghenion tai yn dal i fod yn 'edefyn aur', bu newid mewn gweithgarwch oddi wrth godi ymwybyddiaeth y gymuned o'r angen am dai gwledig a'i fesur. Ar lefel leol, argymhellodd yr adroddiad y dylid mabwysiadu ymagwedd tîm cyflawni ac arweinyddiaeth strategol gref. Ar lefel Llywodraeth Cymru, argymhellodd arian wedi ei dargedu ar gyfer cyflawni mewn ardaloedd gwledig a pholisi cynllunio diwygiedig i ganiatáu trawsymhorthdalau ar safleoedd eithriedig gwledig.

Symudodd swyddog galluogi tai gwledig Sir y Fflint i awdurdod lleol yn Lloegr, yn rhwystredig bod asesiadau o anghenion tai a'u diwallu wedi'u gwrthwynebu dro ar ôl. Bu methiant hefyd i gysylltu prisiau ag incwm prynwyr tro cyntaf lleol ac i ddarparu'r hyn a elwir yn 'rhaeadrau meddiannaeth' a oedd yn blaenoriaethu tai ar gyfer pobl leol.

Ychydig wythnosau yn ôl, cefais ohebiaeth gan Gyngor Sir y Fflint yn cadarnhau nad oedd swyddog galluogi tai gwledig mewn swydd yn y cyngor mwyach. Rhaid inni ddarparu rhwydwaith o swyddogion galluogi tai gwledig ledled Cymru a'u grymuso i nodi'r angen am dai am brisiau fforddiadwy yn lleol, ac i nodi problemau a chynnig atebion. Fel yn Lloegr, dylid caniatáu i dai ar y farchnad agored ar safleoedd eithriedig gwledig drawsgymorthdalau tai fforddiadwy, a dylid cyflwyno cynllun adeiladu i rentu er mwyn ysgogi'r cyflenwad o dai rhent preifat newydd. Ymhellach, mae angen cynnwys tenantiaethau'r Ddeddf rhenti yng nghefn gwlad yng nghynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio tenantiaethau er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch a blaenoriaethu anghenion tai fforddiadwy lleol dros hawliau olyniaeth. Mae angen rhaglen cyflenwi tai frys i Gymru gyfan—trefol a gwledig—gyda phob sector yn gweithio gyda'i gilydd. Diolch.

16:44 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call Joyce Watson.

Diolch. Galwaf ar Joyce Watson.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:44 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch—I do not know your title, actually. However, thank you for calling me. Like everyone else in this Chamber, I support better broadband connections in rural Wales. Judging from the motion and most of the amendments, I think that that is what 'connectivity' is taken to mean by most politicians in this room. However, there is a gap between the high-flying rhetoric of some Conservative politicians and the day-to-day reality. When bus passes were first introduced, tackling rural isolation and lack of mobility among the elderly were generally seen as significant problems. I have since heard Conservatives complain that buses contain too high a proportion of older people. Instead of seeing it as a successfully targeted piece of legislation, some Conservatives see bus passes as a waste of public expenditure. [Interruption.] Check the records and you will find that.

Diolch—ni wn beth yw eich teitl, mewn gwirionedd. Fodd bynnag, diolch ichi am alw arnaf. Fel pawb arall yn y Siambur hon, cefnogaf gysylltiadau band eang gwell yng nghefn gwlad Cymru. A barnu o'r cynnig a'r rhan fwyaf o'r gwelliannau, credaf mai dyna beth mae 'cysylltedd' yn ei olygu i'r rhan fwyaf o wleidyddion yn yr ystafell hon. Fodd bynnag, mae bwlch rhwng rhyngwladol groyw rhai gwleidyddion Ceidwadol a'r realiti o ddydd i ddydd. Pan gyflwynwyd tocynnau bws am ddim yn gyntaf, ystyried bod mynd i'r afael ag arwahanrwydd gwledig a diffyg symudedd ymhlith yr henoed yn gyffredinol yn broblemau sylweddol. Ers hynny rwyf wedi clywed y Ceidwadwyr yn cwyno bod bysiau yn cynnwys cyfran rhy uchel o bobl hŷn. Yn hytrach na'i ystyried yn ddarn o ddeddfwriaeth wedi'i dargedu'n llwyddiannus, mae rhai Ceidwadwyr o'r farn bod tocynnau bws am ddim yn wastraff gwariant cyhoeddus. [Torri ar draws.] Edrychwch ar y cofnodion a chewch weld.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let us get one thing straight. Connectivity means people communicating with one another. In today's world, broadband is an increasingly important means of communication. We do not want to see people in rural areas of Wales at a disadvantage when it comes to broadband communication. However, neither do we want to see people in rural areas in Wales at a disadvantage when it comes to communication that depends on the private car, the cost of fuel, or travel by bus and train. Nowhere in this motion or in the attached amendments is there a mention of the Heart of Wales line or the Cambrian coast railway. The Heart of Wales line is one of the major ways in which people from otherwise isolated areas can get about in reasonable comfort to comparatively distant destinations.

I had a recent conversation with a colleague in possession of a senior railcard, who wanted to go to mid Wales from Llanelli and then back to Cardiff. He decided that a return ticket was inappropriate, because the points of departure and arrival were not the same. Being IT literate, my colleague attempted to organise his journey through the online booking facility, but that experience led him to believe that what he wanted to do was impossible. He was told by friends to go to a railway station and to talk face to face with a railway employee about whether he could indeed go from Llanelli to Shrewsbury one day and return to Cardiff the next. He did that. He had a single booking and the total trip cost him £17. The point here is the availability of the rail link and the ease of taking advantage of that link, even though I have to say that it is not very easy to do that.

I am acutely aware of the need for better e-mail and broadband connections in Mid and West Wales, and I am also acutely aware of the need for regular, comfortable and reasonably priced road and rail links. The recent discussions about the reorganisation of health services in Wales focused on the important aspect of connectivity. The time that it takes to get from home to hospital is often a crucial consideration. Connectivity must not be treated as a new example of contemporary jargon. It is a fundamental issue of the greatest importance in the areas of rural Wales that I represent. At the moment, in north-west Wales, there is huge disruption along the Cambrian coast, both by rail and by road. We have to be fair: that has indeed been caused by record-breaking levels of flooding and extremely high winds, but the people, all the same, need to remain connected. I ask the Minister today to keep us updated regularly on the progress that is being made to connect those people in north-west Wales to the rest of Wales.

16:49

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

How do you follow a contribution like that from Joyce Watson? With some ease.

Joyce, what a thing to say. Conservatives do not believe that there is too high a proportion of older people on buses in Wales. Have any of you ever said that? I have never heard anyone say that. I do not know about the content of buses, but I think that this Chamber is way too full of the usual unjustified, anti-Tory propaganda that gets rural areas and the people in this country absolutely nowhere, Joyce.

Gadewch inni fod yn glir ynglŷn ag un peth. Mae cysylltedd yn golygu pobl yn cyfathrebu â'i gilydd. Yn y byd sydd ohoni, mae band eang yn ffordd gynyddol bwysig o gyfathrebu. Nid ydym am weld pobl yng nghefn gwlad Cymru o dan anfantais o ran cyfathrebu band eang. Fodd bynnag, nid ydym am weld pobl yng nghefn gwlad Cymru o dan anfantais o ran cyfathrebu sy'n dibynnu ar y car preifat, cost tanwydd, neu deithio ar fws a thrên ychwaith. Nid oes yr un cyfeiriad yn unman yn y cynnig hwn na'r gwelliannau cysylltiedig at reilffordd Calon Cymru na rheilffordd arfordir y Cambrian. Rheilffordd Calon Cymru yw un o'r prif ffyrdd y gall pobl o ardaloedd sydd fel arall yn anghysbell deithio'n weddol gyfforddus i gyrchfannau cymharol bell.

Cefais sgwrs yn ddiweddar â chyd-Aelod sydd â cherdyn rheilffordd i ddinasyddion hŷn, a oedd am fynd i ganolbarth Cymru o Lanelli ac yna yn ôl i Gaerdydd. Penderfynodd fod tocyn dwyffordd yn amhriodol, gan nad oedd y manau ymadael a chyrraedd yr un fath. Ac yntau'n gwybod ei bethau o ran TG, ceisiodd fy nghyd-Aelod drefnu ei daith drwy'r cyfleuster archebu ar-lein, ond o ganlyniad i'r profiad hwnnw credai fod yr hyn yr oedd am ei wneud yn amhosibl. Dywedwyd wrtho gan ffrindiau am fynd i orsaf reilffordd a siarad wyneb yn wyneb â gweithiwr rheilffordd i gadarnhau a allai fynd o Lanelli i'r Amwythig un diwrnod a dychwelyd i Gaerdydd drannoeth. Gwnaeth hynny. Archebodd un tocyn a chostiodd y daith gyfan £17 iddo. Y pwynt yma yw argaeledd y cyswllt rheilffordd a hwylustod manteisio ar y cyswllt hwnnw, er bod rhaid imi ddweud nad yw'n hawdd iawn gwneud hynny.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r angen am gysylltiadau e-bost a band eang gwell yn y canolbarth a'r gorllewin, ac rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen am gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd rheolaidd a chyfforddus am bris rhesymol. Roedd y trafodaethau diweddar am ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn canolbwyntio ar agwedd bwysig cysylltedd. Mae'r amser a gymerir i fynd o'r cartref i'r ysbyty yn aml yn ystyriaeth hanfodol. Rhaid peidio â thrin cysylltedd fel enghraifft newydd o jargon cyfoes. Mae'n fater sylfaenol o'r pwys mwyaf yn ardaloedd cefn gwlad Cymru yr wyf yn eu cynrychioli. Ar hyn o bryd, yn y gogledd-orllewin, mae tarfu mawr ar hyd arfordir y Cambrian, ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd. Rhaid inni fod yn deg: mae hynny wedi cael ei achosi mewn gwirionedd gan lefelau llifogydd a gwyntoedd cryfion na welwyd eu tebyg o'r blaen, ond serch hynny mae angen i bobl, gadw mewn cysylltiad o hyd. Gofynnaf i'r Gweinidog heddiw barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i gysylltu'r bobl hynny yng ngogledd-orllewin Cymru â gweddill Cymru.

Sut rydych yn dilyn cyfraniad fel hwnnw gan Joyce Watson? Yn eithaf rhwydd.

Joyce, am beth gwirion i'w ddweud. Ni chred Ceidwadwyr fod cyfran rhy uchel o bobl hŷn ar fysiau yng Nghymru. A oes unrhyw un ohonoch erioed wedi dweud hynny? Nid wyf erioed wedi clywed neb yn dweud hynny. Beth bynnag am gynnwys bysiau, credaf fod llawer gormod o'r hen bropaganda gwrth-Dori anghyfiawn yn y Siambr hon, nad yw'n gwneud dim dros ardaloedd gwledig na'r bobl yn y wlad hon, Joyce.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I want to focus my contribution on the rural economy and how poor transport infrastructure and broadband connection can hinder the growth of businesses outside our main centres of population. A Wales Rural Observatory report in 2009 stated that rural businesses are automatically at a competitive disadvantage due to transportation and connectivity issues. This report was published nearly five years ago, but we do not seem to have made much progress in addressing the issues that it raised. The rural economy has a greater dependence, as we know, on small businesses than other areas. Considering that such businesses are often the first to suffer when the economy is struggling, it is vital that they have all of the tools available to them to be able to compete with their competitors. This is a good time to raise a good Welsh Conservative policy to abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 per annum, and taper rates for those with values up to £15,000. If you have not got our message yet on that, you must be living on Mars. With non-domestic rates being such a burden for rural businesses, adopting this policy would really benefit the smaller rural business community.

The Federation of Small Businesses has produced a worrying statistic that shows that less than 30% of family-owned businesses make it to the third generation of owners. There will be a number of reasons for this, with younger people leaving their local communities to attend university or to find a job, but it does mean that for communities in rural Wales that, in previous generations, saw businesses pass from parent to child, building a strong reputation and local identity, that is no longer the norm.

You cannot talk about the rural economy without talking about agriculture. The two are symbiotic. Without looking at the statistics released last month, this debate would be lacking a key aspect of the rural economy. The statistics released last month showed that average farm business income in Wales fell by a whopping 30% to £28,400. This fall was described by the National Farmers' Union as alarming and came on the back of common agricultural policy pillar transfer, which has left Welsh farmers at a competitive disadvantage compared to farmers in other European countries.

One of the barriers holding rural businesses back is, of course, the appalling broadband coverage that many parts of Wales continue to experience. We do criticise a lot, where it is necessary, but I will say that I was also pleased to see the written statement that came from the Deputy Minister, who will be responding later on rural broadband. I think that I saw it three minutes before I was due to contribute to the debate. However, it is better late than never, Deputy Minister. We will support you every step of the way to ensure that what you say in that statement does actually transpire and does actually happen. That would be a really welcome development.

Yn fy nghyfraniad hoffwn ganolbwyntio ar yr economi wledig a sut y gall seilwaith trafniadaeth a chysylltiad band eang gwael rwystro twf busnesau y tu allan i'n prif ganolfannau poblogaeth. Nododd adroddiad gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2009 fod busnesau gwledig o dan anfantais gystadleuol yn awtomatig oherwydd problemau cludiant a chysylltedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn bron bum mlynedd yn ôl, ond ymddengys nad ydym wedi gwneud llawer o gynnydd i fynd i'r afael â'r problemau a godwyd ynddo. Mae'r economi wledig yn fwy dibynnol ar fusnesau bach nag ardaloedd eraill, fel y gwyddom. O ystyried mai busnesau o'r fath yn aml yw'r rhai cyntaf i ddioddef pan fydd yr economi mewn trafferthion, mae'n hanfodol eu bod yn cael yr holl adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn gallu cystadlu â'u cystadleuwyr. Mae hwn yn amser da i godi polisi da gan y Ceidwadwyr Cymreig i ddileu ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000 y flwyddyn, ac ardrethi tapr i'r rhai gwerth hyd at £15,000. Os nad ydych wedi clywed ein neges ar hynny eto, rhaid eich bod yn byw ar y blaned Mawrth. Gyda'r ardrethi annomestig yn gymaint o faich ar fusnesau gwledig, byddai mabwysiadu'r polisi hwn o fudd gwirioneddol i fusnesau gwledig llai.

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi cynhyrchu ystadegyn sy'n peri pryder sy'n dangos bod llai na 30% o fusnesau teuluol yn goroesi i'r drydedd genhedlaeth o berchenogion. Bydd nifer o resymau dros hyn, gyda phobl ifanc yn gadael eu cymunedau lleol i fynd i'r brifysgol neu ddod o hyd i swydd, ond mae'n golygu, i gymunedau yn y Gymru wledig lley câi busnesau eu trosglwyddo o riant i blentyn yn y gorffennol, gan feithrin enw da a hunaniaeth leol, nad yw'n beth cyffredin mwyach.

Ni allwch sôn am yr economi wledig heb sôn am amaethyddiaeth. Mae'r naill a'r llall yn cyd-blethu â'i gilydd. Heb edrych ar yr ystadegau a gyhoeddwyd fis diwethaf, byddai'r ddadl hon yn colli agwedd allweddol ar yr economi wledig. Dengys yr ystadegau a gyhoeddwyd fis diwethaf fod incwm busnes cyfartalog ffermydd yng Nghymru wedi gostwng 30%, sy'n ganran anferth, i £28,400. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr fod y gostyngiad hwn yn frawychus a hynny yn sgil trosglwyddo symiau pileri o dan y polisi amaethyddol cyffredin, sydd wedi golygu bod ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â ffermwyr mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Un o'r pethau sy'n rhwystro busnesau gwledig, wrth gwrs, yw'r ddarpariaeth ofnadwy o fand eang a geir o hyd mewn sawl rhan o Gymru. Rydym yn beirniadu cryn dipyn, lle y bo angen, ond hoffwn ddweud fy mod yn falch o weld y datganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog, a fydd yn ymateb yn ddiweddarach ar fand eang gwledig. Credaf imi ei weld dair munud cyn imi ddechrau fy nghyfraniad yn y ddadl. Fodd bynnag, gwell hwyr na hwyrach, Ddirprwy Weinidog. Byddwn yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd i sicrhau bod yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn y datganiad hwnnw yn digwydd mewn gwirionedd. Byddai hynny'n ddatblygiad i'w groesawu'n wir.

I regularly receive e-mail from constituents about this. My constituency, Monmouthshire, is a rural area, and I know that Assembly Members from across rural areas all receive the same complaints. Of course, the goalposts are moving here. There are bigger expectations of broadband now than in the past. In a way, the more areas that have broadband, and the better the broadband service, the more complaints and requirements you are going to get. So, we do understand those issues. However, that is not to say that those constituents' concerns could not be addressed a little better than they are being addressed at the moment. An Ofcom report in 2012 showed that the number of rural premises with access to next generation broadband in Wales was just 6%, compared to 91% in Northern Ireland and 17% in England. We do not have to be lagging behind in Wales. We know that, in terms of the economic indicators, too often we are lagging behind. This is one area where, given the right policies, given the right incentives, and given the right push by the Welsh Government, we could get ahead of the game. Other parts of the United Kingdom have made strides. Let us try to do it here as well.

I said that it is easy to demonstrate the importance of a good-quality rural broadband network, whatever you look at, be it business, homes or tourism. Many hotels and many businesses in rural areas rely on the internet and broadband to market Wales abroad. We have been talking a lot about the Welsh brand in recent months, and saying how it is not really up to scratch. If you get broadband right, Deputy Minister, many other things will follow. You have to start somewhere. We support you in starting here and we think that you should support our debate because it has given you a little chivvy along.

Rwy'n cael negeseuon e-bost yn rheolaidd gan etholwyr am hyn. Mae fy etholaeth, Sir Fynwy, yn ardal wledig, a gwn fod Aelodau'r Cynulliad o'r holl ardaloedd gwledig yn cael yr un cwynion. Wrth gwrs, mae'r sefyllfa yn newid. Mae mwy o ddisgwyliadau ynglŷn â band eang erbyn hyn na chynt. Mewn ffordd, po fwyaf o ardaloedd sydd â band eang, a pho wychaf y gwasanaeth band eang, y mwyaf o gwynion a gofynion a gewch. Felly, rydym yn deall y materion hynny. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ellid ymdrin â phryderon yr etholwyr hynny ychydig yn well nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dangosodd adroddiad gan Ofcom yn 2012 mai dim ond 6% o safleoedd gwledig oedd â mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru, o gymharu â 91% yng Ngogledd Iwerddon a 17% yn Lloegr. Nid oes rhaid inni fod ar ei hôl hi yng Nghymru. Gwyddom, o ran y dangosyddion economaidd, ein bod yn rhy aml ar ei hôl hi. Mae hwn yn un maes lle y gallem, o gael y polisiau cywir, y cymhellion cywir, a'r ymdrech gywir gan Lywodraeth Cymru, fod ar y blaen. Mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi cymryd camau breision. Gadewch inni geisio gwneud hynny yma hefyd.

Dywedais ei bod yn hawdd dangos pwysigrwydd rhwydwaith band eang gwledig o safon dda, o ba safbwynt bynnag y mynnoch, boed hynny o safbwynt busnesau, cartrefi neu dwristiaeth. Mae llawer o westai a llawer o fusnesau mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu ar y rhyngwyd a band eang i farchnata Cymru dramor. Rydym wedi bod yn sôn cryn dipyn am frand Cymru yn ystod y misoedd diwethaf, gan ddweud nad yw'n cyrraedd y nod mewn gwirionedd. Os ydych yn cael band eang yn iawn, Ddirprwy Weinidog, bydd llawer o bethau eraill yn dilyn. Rhaid ichi ddechrau yn rhywle. Rydym yn eich cefnogi wrth ichi ddechrau yma a chredwn y dylech gefnogi ein dadl oherwydd mae wedi rhoi hwb ichi.

16:55

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to be able to speak in this debate today. Before I started, I was just trying to review some of my thoughts and language on rural communities. Given that we have just had a debate about whether or not we ought to put into place a peace initiative, I do not particularly want to go down the road of using such words as 'wasteland', 'empty' and 'desolate', because it speaks too much of huge things that have happened elsewhere. However, I think we have to be very clear that, when we go into an awful lot of our rural communities today, they are just that. You get villages with houses that are shut up and locked up. You get villages with houses to which people might eventually return at 7 p.m. or 8 p.m. You get a complete absence of children in those villages, because their schools are so far away. You do not get a huge number of business opportunities in some of these villages. You find that there are elderly people who are shut up behind doors—they would love to have the opportunity to get on a bus going anywhere and to meet other people, but they cannot because there is no connectivity; they have the phone and that is about it. Some villages have such poor levels of broadband access that people cannot do much with it. Some villages have absolutely no access to transport, unless you have your own car. That is incredibly socially and life-limiting in so many ways. A great many villages are unable to sustain any form of life within them.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon heddiw. Cyn imi ddechrau, roeddwn yn ceisio mynd dros rai o'm meddyliau a'm hiaith wrth feddwl am gymunedau gwledig. O gofio ein bod newydd gael dadl ynghylch a ddylem roi menter heddwch ar waith ai peidio, nid wyf yn awyddus iawn i ddechrau defnyddio geiriau fel 'tir diffaith', 'gwag' a 'truenus', oherwydd mae hynny'n rhy debyg i bethau enfawr sydd wedi digwydd mewn man arall. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni fod yn glir iawn, pan fyddwn yn mynd i lawer iawn o'n cymunedau gwledig heddiw, mai fel yna y maent. Fe welwch bentrefi gyda thai ar gau a than glo. Fe welwch bentrefi gyda thai lle y bydd pobl yn dychwelyd adref o'r diwedd am 7:00 p.m. neu 8:00 p.m. Ni welwch blant yn y pentrefi hynny, am fod eu hysgolion mor bell i ffwrdd. Ni chewch gyfleoedd busnes lu mewn rhai o'r pentrefi hyn. Fe gewch fod pobl oedranus sy'n gaeth y tu ôl i ddrysau—byddent wrth eu bodd yn cael cyfle i fynd ar fws i fynd i unrhyw le a chw'rdd â phobl eraill, ond ni allant am nad oes cysylltedd; mae ffôn ganddynt a dyna'r cwbl fwy neu lai. Mae mynediad mor wael i fand eang mewn rhai pentrefi fel na all pobl wneud ryw lawer ag ef. Mae rhai pentrefi lle nad oes unrhyw gludiant, oni bai bod gennych eich car eich hun. Mae hynny'n cyfyngu cymaint ar fywyd yn gymdeithasol ac mewn cynifer o ffyrdd. Ceir nifer fawr o bentrefi na allant gynnal unrhyw fath o fywyd ynddynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To be frank, I am so old that I can remember a proper village. I was lucky: I grew up in towns, cities and villages. My parents were itinerant and we moved a lot. I can remember that the villages that I lived in had shops, pubs, houses, garages, the doctor and the church. There was a sense of community, of belonging and of place. That is what we are slowly losing from our rural communities throughout some parts of Wales—not every part of Wales; there are some villages that have really fought back, and some villages that have taken things into their own hands. I would like to mention Lawrenny in Pembrokeshire, in particular: it cannot get broadband and does not have a bus service, but what the village did was to bully the Post Office to the point that it agreed to go there for a couple of hours every week. It went to a neighbouring landowner on the other side of the Cleddau river and asked whether it could stick a microwave antenna on the side of the landowner's building to beam microwaves into the village so that villagers could get onto the internet. The village has developed a thriving community there, with 33 small, private, independent, home-run businesses, ranging from someone who makes dyes for such things as the Bayeux tapestry, ensuring that it is renovated to the right quality, all the way through to people who are accountants and marketing agents and even a high-tech media company. That is why it is so important: in order to bring together village life. We do not want our countryside to be emptied of people. We do not want people just to live in towns and cities; we need that broad spectrum.

One of my biggest concerns is what is happening to education in rural communities. I appreciate that the Deputy Minister for Skills will be responding to this debate, and this may not be entirely within his portfolio, but our schoolchildren are very isolated in a great many of our villages. We have deprivation—and he sits next to the Minister for Communities and Tackling Poverty—and this is really interesting, because poverty is about deprivation and a great many of our children in these communities cannot access good things after they finish school. They go home and they cannot get back out to Brownies or Guides, to join the local football club, to go out with their mates, or just to get that social cohesion that young people need. They find that the cost of transport is just too much, their parents find that the cost of transport is too much, and they have no safe places in which to play close to their homes, which is really important. Also, because they do not have local small schools that they can get to, they have no locus in the way that they grow up. They go to schools that are a 20, 30, 40, 50 or 60-minute bus ride away. The friends that they make at that school are dumped in various other villages, and a sense of community and cohesion is disappearing from our countryside, and I merely want to remind you all about it, because it is not just about superfast fibre broadband or all of these technical things we talk about; it is about people.

A dweud y gwir, rwyf mor hen gallaf gofio pentref go iawn. Bùm yn ffodus: cefais fy magu mewn trefi, dinasoedd a phentrefi. Roedd fy rhieni yn crwydro gan symud eithaf tipyn. Gallaf gofio bod y pentrefi lle y bùm yn byw yn cynnwys siopau, tafarndai, tai, modurdai, y meddyg a'r eglwys. Roedd ymdeimlad o gymuned, o berthyn ac o le. Dyna'r hyn yr ydym yn araf yn ei golli yn ein cymunedau gwledig mewn rhai rhannau o Gymru—nid pob rhan o Gymru; mae rhai pentrefi yn wir wedi brwydo yn ôl, ac mae rhai pentrefi wedi cymryd pethau i'w dwylo eu hunain. Hoffwn sôn am Lawrenni yn Sir Benfro, yn benodol: ni all gael band eang ac nid oes gwasanaeth bws, ond yr hyn a wnaeth y pentref oedd bwlio Swyddfa'r Post nes iddo gytuno i fynd yno am ychydig o oriau bob wythnos. Aeth i berchennog tir cyfagos ar yr ochr arall i afon Cleddau a gofyn a allai osod ffon antenna microdon ar ochr adeilad y tîrfeiddianwr er mwyn allyrru microdonnau i mewn i'r pentref fel y gallai pentrefwyr fynd ar y rhyngwrwyd. Mae'r pentref wedi datblygu cymuned ffyniannus yno, gyda 33 o fusnesau bach, preifat, annibynnol, sy'n cael eu rhedeg gartref, yn amrywio o rywun sy'n gwneud lliwiau ar gyfer pethau fel tapestri Bayeux, gan sicrhau ei fod yn cael ei adnewyddu i'r safon gywir, i bobl sy'n gyfrifwyr ac yn asiantau marchnata a hyd yn oed cwmni cyfryngau uwch dechnoleg. Dyna pam mae mor bwysig: er mwyn creu bywyd pentref. Nid ydym am weld ein cefn gwlad yn wag. Nid ydym am i bobl fyw mewn trefi a dinasoedd yn unig; mae angen inni gael y rhychwant eang hwnnw.

Un o'm pryderon mwyaf yw'r hyn sy'n digwydd i addysg mewn cymunedau gwledig. Sylweddolaf y bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau yn ymateb i'r ddatl hon, ac efallai na fydd hyn o fewn ei bortffolio o bosibl, ond mae ein plant ysgol yn ynysig iawn mewn nifer fawr o'n pentrefi. Ceir amddifadedd—ac mae'n eistedd wrth ymyl y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi—ac mae hyn yn ddi-ddorol iawn, gan fod tlodi yn ymwneud ag amddifadedd ac ni all llawer iawn o'n plant yn y cymunedau hyn gael mynediad i bethau da ar ôl iddynt orffen yr ysgol. Maent yn mynd adref ac ni allant fynd yn ôl i'r Brownis na'r Geidiau, i ymuno â'r clwb pêl-droed lleol, i fynd allan gyda'u ffrindiau, na chael y cydlyniant cymdeithasol sydd ei angen ar bobl ifanc. Mae cost cludiant yn llawer gormod iddynt, mae cost cludiant yn llawer gormod i'w rhieni, ac nid oes unrhyw fannau diogel i chwarae yn agos i'w cartrefi, sy'n bwysig iawn. Hefyd, am nad oes ganddynt ysgolion bach lleol y gallant eu mynychu, nid oes ganddynt locws yn y ffordd y maent yn tyfu i fyny. Maent yn mynd i ysgolion sy'n daith 20, 30, 40, 50 neu 60 munud i ffwrdd ar y bws. Mae'r ffrindiau y maent yn eu gwneud yn yr ysgol honno mewn gwahanol bentrefi eraill, ac mae ymdeimlad o gymuned a chydlyniant yn diflannu o'n cefn gwlad, a'r cyfan yr wyf yn ei wneud yw eich atgoffa am y peth, oherwydd nid oes a wnelo hyn â band eang ffeibr cyflym iawn na'r holl bethau technol hyn y soniwn amdanynt yn unig, mae'n ymwneud â phobl.

17:00

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I welcome this debate today and the opportunity to highlight the excellent progress that we are making in improving connectivity across Wales—not just in urban areas, but in rural areas, too. In my capacity as Deputy Minister for Skills and Technology, and given time constraints, I will focus on digital connectivity, and I am pleased to agree to the Conservative motion. However, I have to say that, listening to Antoinette Sandbach makes me wonder whether she has spoken recently to her former boss and friend the Secretary of State about broadband; I will come to that shortly.

To recap on the Welsh Government's ambitions for the roll-out of superfast broadband, our Superfast Cymru programme is the largest partnership of its kind in the UK. Starting from a low base, we aim to reach 96% of properties by 2016, with speeds of 30 mbps. England and Scotland will reach just 90% and 85% respectively, later than Wales, and they have defined the minimum superfast speed as just 24 mbps. Further afield, Japan will trail behind Wales with a reach of 94%, as will the United States of America at 85%, as will Germany and France.

I am delighted to report that the programme is proceeding well, not just on schedule, but ahead of schedule. In January we reached a major milestone: thanks to Superfast Cymru, 100,000 premises have been given access to fast fibre broadband. This will rise to over 250,000 during the summer, and to almost 500,000 by March 2015. Members will be interested to know that, across the whole of the UK, more than a third of all properties that have benefitted from all intervention programmes are based here in Wales. That is because the Welsh Government got moving faster and earlier, whereas programmes in England and Scotland are still in their infancy. These are indisputable facts that even the Welsh Government's political opponents recognise. Indeed, just last week the UK Government issued a wonderful press release generously congratulating us for leading the way on broadband roll-out. Welsh Secretary David Jones spoke gushingly about how the Welsh Government is leading the way in delivering broadband. It is reassuring that, despite our political differences, Tories in Parliament are able to recognise this enormous success by the Welsh Labour Government. I am still wondering, as many are—[Interruption.]. I will give way, but is this your opinion or the Welsh Secretary's?

Croesawaf y ddadl hon heddiw a'r cyfle i dynnw sylw at y cynnydd rhagorol yr ydym yn ei wneud o ran gwella cysylltedd ledled Cymru—nid yn unig mewn ardaloedd trefol, ond mewn ardaloedd gwledig hefyd. Yn rhinwedd fy swydd fel Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ac o ystyried cyfyngiadau amser, canolbwytiaf ar gysylltedd digidol, ac rwy'n falch o gytuno â chynnig y Ceidwadwyr. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud, wrth wrando ar Antoinette Sandbach rwy'n meddwl tybed a yw wedi siarad yn ddiweddar â'i hen fos a chyfaill, yr Ysgrifennydd Gwladol, am fand eang; soniaf am hynny yn y man.

Os caf nodi eto uchelgais Llywodraeth Cymru o ran y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn, ein rhaglen Superfast Cymru yw'r bartneriaeth fwyaf o'i bath yn y DU. Gan ddechrau o sylfaen isel, rydym yn anelu at gyrraedd 96% o eiddo erbyn 2016, gyda chyflymder o 30 mbps. Bydd Lloegr a'r Alban ond yn cyrraedd 90% a 85%, a hynny'n ddiweddarach na Chymru, ac maent wedi diffinio'r isafswm band eang cyflym iawn fel dim ond 24 mbps. Ymhellach i ffwrdd, bydd Japan ar ei hôl hi o'i chymharu â Chymru gyda darpariaeth o 94%, a hefyd Unol Daleithiau America, sef 85%, a'r Almaen a Ffrainc.

Rwy'n falch iawn o nodi bod y rhaglen yn mynd rhagddi'n dda, nid yn unig ar amser, ond yn gynt na'r disgwyl. Ym mis Ionawr cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig: diolch i Superfast Cymru, mae 100,000 o safleoedd wedi cael mynediad i fand eang ffeibr cyflym. Bydd hyn yn cynyddu i fwy na 250,000 yn ystod yr haf, ac i bron 500,000 erbyn mis Mawrth 2015. Bydd o ddiddordeb i'r Aelodau glywed, ledled y DU gyfan, fod mwy na thraean o'r holl eiddo sydd wedi elwa o'r holl raglenni ymyrraeth i'w cael yma yng Nghymru, a hynny am fod Llywodraeth Cymru wedi symud yn gynt, tra bod rhaglenni yn Lloegr a'r Alban yn dal i fod ar gam cynnar iawn yn eu datblygiad. Mae'r rhain yn ffeithiau diamheuol y mae hyd yn oed gwrthwynebwyr gwleidyddol Llywodraeth Cymru yn eu cydnabod. Yn wir, dim ond yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddatganiad gwych i'r wasg yn ein llongyfarch yn hael am arwain y ffordd o ran cyflwyno band eang. Soniodd Ysgrifennydd Cymru David Jones yn wresog am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd o ran darparu band eang. Mae'n galonogol bod Toriaid yn y Senedd, er gwaethaf ein gwahaniaethau gwleidyddol, yn gallu cydnabod llwyddiant aruthrol Llywodraeth Lafur Cymru. Rwy'n dal i feddwl, fel llawer o bobl—[Torri ar draws.]. Ildiaf, ond ai eich barn chi yw hon ynteu un Ysgrifennydd Cymru?

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Deputy Minister for taking an intervention. I note that he has not got his silk hanky today, so he is not quite dressed for the occasion. I am sure that he would like to congratulate the Prime Minister on coming here and specifying that the UK Government was going to give £57 million to the Welsh Government to catch up with the rest of the United Kingdom. I am sure that he would like to welcome the Prime Minister's intervention.

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn ymyriad. Nodaf nad yw'n gwisgo ei hances sidan heddiw, felly nid yw wedi'i wisgo'n gwbl briodol ar gyfer yr achlysur. Rwy'n siŵr yr hoffai longyfarch Prif Weinidog y DU ar ddod yma a dweud y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi £57 miliwn i Lywodraeth Cymru er mwyn cyrraedd yr un safon â gweddill y Deyrnas Unedig. Rwy'n siŵr yr hoffai groesawu ymyriad Prif Weinidog y DU.

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are talking about the consequential, which is our money. As many are, I am still wondering who speaks for the Tories in Wales: you or the Welsh Secretary? [Interruption.] On broadband, it is the Welsh Secretary, not you.

Actually, the Welsh Secretary also acknowledges that we are not shying away from hard-to-reach premises. Crucially, there is provision in our agreement with BT to ensure that these premises are specifically addressed.

Just last month, I was pleased to join businesses in rural Gwynedd that have benefitted from Superfast Cymru. The event, hosted by Dafydd Iwan, recognised the astonishing progress of Superfast Cymru, the competitive edge it offers employers, and the enormous progress that has been made, particularly in rural areas. Of course, despite our ambitious plans, a small proportion of premises will not be covered by superfast broadband, but that proportion is smaller than in England, Scotland or Northern Ireland. Nonetheless, we are addressing this, and I have approved an open market review of Superfast broadband to establish a comprehensive picture of superfast in locations outside our intervention area, now that the commercial roll-out has largely been concluded. I was very pleased to be able to bring forward publication of the statement relating to this today. The findings will inform possible future interventions and ensure that we focus resources on providing fast fibre broadband in areas that would otherwise be left behind.

In terms of mobile connectivity in rural areas, a key focus is the UK Government's mobile infrastructure project, a £150 million investment to address notspots. We are working jointly to identify suitable locations in Wales.

Roll-out of fourth generation is, of course, a matter for the Office of Communications and mobile operators, with whom we are working following the 4G spectrum auction. The licence awarded to Telefonica O2 carries a coverage obligation of at least 95% of the population of Wales by 2017. In addition, we are investigating other options to improve mobile coverage, for example on the rail network.

Education in rural areas will also benefit from Welsh Government interventions through the learning in digital Wales project. By July this year, primary and special schools in Wales will enjoy internet connectivity speeds of 10 Mbps and all secondary schools will have 100 Mbps. Our aspiration is that, by 2020, all primary and special schools will receive 100 Mbps and all secondary schools 1 Gbps. Again, this puts Wales well ahead of the majority of Europe.

Rydych yn sôn am y swm canlyniadol, sef ein harian ni. Fel llawer o bobl, rwy'n ceisio dyfalu tybed pwy sy'n siarad ar ran y Toriaid yng Nghymru: chi neu Ysgrifennydd Cymru? [Torri ar draws.] O ran band eang, Ysgrifennydd Cymru ydyw, nid chi.

A dweud y gwir, mae Ysgrifennydd Cymru hefyd yn cydnabod nad ydym yn osgoi safleoedd anodd eu cyrraedd. Yn hollbwysig, mae darpariaeth yn ein cytundeb â BT i sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael sylw penodol.

Dim ond fis diwethaf, roeddwn yn falch o ymuno â busnesau yng nghefn gwlad Gwynedd sydd wedi elwa o Superfast Cymru. Cydnabu'r digwyddiad, a gyflwynwyd gan Dafydd Iwan, gynnydd rhyfeddol Superfast Cymru, y fantais gystadleuol y mae'n ei chynnig i gyflogwyr, a'r cynnydd enfawr sydd wedi cael ei wneud, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Wrth gwrs, er gwaethaf ein cynlluniau uchelgeisiol, ni fydd cyfran fechan o safleoedd yn cael ei chwmpasu gan fand eang cyflym iawn, ond mae'r gyfran honno yn llai nag yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Serch hynny, rydym yn mynd i'r afael â hyn, ac rwyf wedi cymeradwyo adolygiad o fand eang cyflym iawn ar y farchnad agored er mwyn cael darlun llawn o fand eang cyflym iawn mewn lleoliadau y tu allan i'n hardal ymyrryd, gan fod y broses gyflwyno fasnachol wedi dod i ben i raddau helaeth. Roeddwn yn falch iawn o gael cyhoeddi'r datganiad yn gynt ynglŷn â hyn heddiw. Bydd y canfyddiadau yn llywio ymyriadau posibl yn y dyfodol ac yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio adnoddau ar ddarparu band eang ffeibr cyflym mewn ardaloedd a fyddai fel arall yn cael eu hamddifadu.

O ran cysylltedd ffonau symudol mewn ardaloedd gwledig, un ffocws allweddol yw prosiect seilwaith symudol Llywodraeth y DU, sef buddsoddiad gwerth £150 miliwn i fynd i'r afael â mannau gwan. Rydym yn gweithio ar y cyd i nodi lleoliadau addas yng Nghymru.

Mae cyflwyno'r bedwaredd genhedlaeth yn fater i'r Swyddfa Gyfathrebu a gweithredwyr ffonau symudol, wrth gwrs, ac rydym yn gweithio gyda hwy yn dilyn arwerthiant sbectrum 4G. Mae'r drwydded a ddyfarnwyd i Telefonica O2 yn cynnwys rhwymedigaeth i gwmpasu o leiaf 95% o boblogaeth Cymru erbyn 2017. At hynny, rydym yn ymchwilio i opsiynau eraill i wella darpariaeth ffonau symudol, er enghraifft ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

Bydd addysg mewn ardaloedd gwledig hefyd yn elwa o ymyriadau Llywodraeth Cymru drwy brosiect dysgu yn y Gymru ddigidol. Erbyn mis Gorffennaf eleni, bydd ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru yn cael cysylltedd â'r rhyngwrdd ar gyflymder o 10 Mbps a bydd pob ysgol uwchradd yn cael cysylltedd ar gyflymder o 100 Mbps. Ein huchelgais yw y bydd gan bob ysgol gynradd ac arbennig, erbyn 2020, gysylltedd ar 100 Mbps ac y bydd gan bob ysgol uwchradd gysylltedd ar 1 Gbp. Unwaith eto, mae hyn yn rhoi Cymru ymhell ar y blaen o'i chymharu â'r rhan fwyaf o Ewrop.

We are working to reform the planning system in Wales, and proposals relate to both fixed-line broadband and mobile broadband infrastructure. Results of the consultation on the proposals are now being assessed, and the Minister for Housing and Regeneration will consider the recommendations in due course.

I was very pleased to listen to the Member for Ynys Môn talk about the benefits of superfast broadband, not least given that his constituency will be the first to be completed under the intervention programme. However, I cannot support amendment 2. The indisputable fact is that our intervention programme hit the target for March 2014 late last year. We are ahead of England, ahead of Scotland and ahead of schedule.

Turning to amendment 4, I applaud the value being placed on apprenticeships. Superfast Cymru itself will see apprenticeship opportunities created in BT for 100 young people, many in rural areas. I was delighted this week to note that overall apprenticeship start numbers in Wales have reached a record high. Provisional figures show an astonishing increase of 45%. Whereas opposition parties have criticised the Welsh Government in the past when the numbers fell after the 2008 financial crash, I will not be so vulgar as to ask them to offer their congratulations to us today on this unprecedented increase. Indeed, I will wait until the spring for their congratulations, when the figures are formalised.

In conclusion, I can confirm that Wales remains on course to be one of the most connected countries in the world by 2016, that the Welsh Government will continue to go further, faster and quicker in delivering this ambition, and that the Welsh Secretary will be able to go on applauding this Welsh Labour Government.

Rydym yn gweithio i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, ac mae cynigion yn ymwneud â band eang llinell sefydlog a'r seilwaith band eang symudol. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad ar y cynigion yn cael eu hasesu ar hyn o bryd, a bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn ystyried yr argymhellion maes o law.

Roedd yn bleser gennyf wrando ar yr Aelod dros Ynys Môn yn sôn am fanteision band eang cyflym iawn, yn enwedig o ystyried mai ei etholaeth ef fydd y gyntaf i gael ei chwblhau o dan y rhaglen ymyrryd. Fodd bynnag, ni allaf gefnogi gwelliant 2. Y ffaith ddiamheuol yw i'n rhaglen ymyrryd gyrraedd y targed ar gyfer Mawrth 2014 ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Rydym ar y blaen i Loegr, ar y blaen i'r Alban ac yn gynt na'r amselen.

Gan droi at welliant 4, cymeradwyaf y gwerth a roddir ar brentisiaethau. Bydd Superfast Cymru ei hun yn arwain at gyfleoedd prentisiaeth gan BT i 100 o bobl ifanc, y bydd llawer ohonynt mewn ardaloedd gwledig. Roeddwn yn falch o nodi yr wythnos hon bod nifer y bobl sy'n dechrau prentisiaeth yng Nghymru wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed. Dengys ffigurau dros dro gynnydd rhyfeddol o 45%. Er bod y gwrthbleidiau wedi beirniadu Llywodraeth Cymru yn y gorffennol pan leihaodd y niferoedd ar ôl y chwalfa ariannol yn 2008, ni fyddaf mor aflednais â gofyn iddynt ein llongyfarchi heddiw ar y cynnydd gorau erioed. Yn wir, arhosaf tan y gwanwyn am eu llongyfarchiadau, pan fydd y ffigurau yn cael eu ffurfioli.

I gloi, gallaf gadarnhau bod Cymru yn parhau i fod ar y trywydd iawn i fod yn un o'r gwledydd mwyaf cysylltiedig yn y byd erbyn 2016, y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ymhellach, yn gyflymach ac yn gynt wrth gyflawni'r uchelgais hwn, ac y bydd Ysgrifennydd Cymru yn gallu parhau i gymeradwyo'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru.

17:08 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:08 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank everyone who has contributed to the debate today. However, before I address the points that have been raised, there is one particular aspect that I would like to pick up on, if you do not mind, and that is where the quality of both physical and digital connectivity can be a matter of life and death.

I know that we have spoken at length about the decision to downgrade maternity services at Withybush, and I prefer to believe that no consultant would deliberately give advice that they believe would endanger a patient. However, when you are talking about hospital admission, the view of the patient should be at least as powerful as that of the obstetrician or the anaesthetist, and you will find that expectant mothers have a view on how they get to hospital.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl heddiw. Fodd bynnag, cyn imi ymdrin â'r pwyntiau a godwyd, mae un agwedd benodol yr hoffwn gyfeirio ati, os nad oes gwahaniaeth gennych, sef lle y gall ansawdd cysylltiedd ffisegol a digidol fod yn fater o fywyd a marwolaeth.

Gwn ein bod wedi sôn ynfaith am y penderfyniad i israddio gwasanaethau mamolaeth yn Llwynhelyg, ac mae'n well gennyf gredu na fyddai unrhyw feddyg ymgynghorol yn fwriadol yn rhoi cyngor y cred y byddai'n peryglu claf. Fodd bynnag, wrth sôn am dderbyniadau i'r ysbyty, dylai barn y claf fod o leiaf yr un mor bwerus â llais yr obstetregydd neu'r anesthetydd, ac fe welwch fod gan famau beichiog farn ynglŷn â sut y maent yn cyrraedd yr ysbyty.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

My friend had her babies in Glangwili. She said that the 30-mile journey from Pumsaint to Carmarthen was worse than the births because of the nature of the road. I know that road well and I firmly believe that it should be relocated to Oakwood and people should be charged for the privilege of enjoying the thrill of it. However, my own experience was a little less amusing—a 30-mile dash along an A road in rural Wales in an ambulance to my nearest district hospital, which ended in an emergency caesarean delivery of my son. I wonder how safe and afraid I would have felt had that hospital been downgraded and I would have had to travel another 75 miles on rural A roads to Carmarthen. How ill would I or my baby have been? Would a consultant sitting in a Government Minister's office be able to tell me, hand on heart?

However true it is that paramedics are more skilled and ambulances better equipped, there is no getting around the fact that poor roads and long distances matter when it comes to equitable access to health services, to use Eluned Parrott's words. If the plans for Withybush do go ahead, Deputy Minister, will you be supporting Paul Davies's campaign to dual the A40 so that anxious mothers can get to Carmarthen more swiftly and more safely than they can now?

Deputy Minister, the Government knows that equitable access to rural health services needs addressing and we, as Welsh Conservatives, recognise that it not easy. The 2009 rural health plan acknowledged that doing nothing is not an option. While we in the Chamber rightly take the Government to task on hospital downgrades and the demoralised ambulance service, five years on rural communities are still struggling with the basics because of Welsh Government inertia.

Areas without regular GPs, the closure of rural surgeries, a dearth of dentists, families who can see Cardigan bay from their homes getting their out-of-hours coverage from England. North Wales in particular is experiencing a real shortage of GPs. The Minister for health acknowledged only last month that action needed to be taken. Part of your constituency, Deputy Minister, is rural, so will you join us in keeping pressure upon the Minister for health for that action?

After finally listening to the Welsh Conservatives, the Government is bringing £500 million back into the NHS—hurrah—much of it for primary care. My constituents in South Wales West will be pleased, as that sounds like a green light for more services finally being delivered in the community and less time in hospital. I hope so, but Swansea and Port Talbot are not Ceredigion or Gwynedd or Powys, even though poverty is experienced in all of those places. How much of that money will find its way to the far more difficult task of improving primary and outpatient care in rural Wales?

Rhoddodd fy ffrind enedigaeth yn Ysbyty Glangwili. Dywedodd fod y daith o 30 milltir o Bumsaint i Gaerfyrddin yn waeth na rhoi genedigaeth oherwydd natur y ffordd. Rwy'n gyfarwydd iawn â'r ffordd honno a chredaf y dylid ei hail-leoli i Oakwood a chodi tâl ar bobl am y fraint o fwynhau gwefr y ffordd honno. Fodd bynnag, roedd fy mhrofiad innau ychydig yn llai difyr—taith o 30 milltir ar hyd ffordd A yn y Gymru wledig mewn ambiwlans i'm hysbyty dosbarth agosaf, a orffennodd drwy roi genedigaeth i'm mab drwy doriad cesaraidd brys. Tybed pa mor ddiogel ac ofnus y byddwn wedi teimlo pe bai'r ysbyty hwnnw wedi'i israddio a byddwn wedi gorfod teithio 75 milltir arall ar ffyrdd A gwledig i Gaerfyrddin. Pa mor wael y byddwn i neu fy mabi wedi bod? A fyddai meddyg ymgynghorol yn eistedd yn swyddfa un o Weinidogion y Llywodraeth yn gallu dweud wrthyf, yn gwbl ddiffuant?

Er cyn wired dweud bod parafeddygon yn fwy medrus a bod ambiwlansys yn cynnwys gwell cyfarpar, ni ellir osgoi'r ffaith bod ffyrdd gwael a phellteroedd hir yn ystyriaeth bwysig o ran mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd, a defnyddio geiriau Eluned Parrott. Os bydd y cynlluniau ar gyfer Llwynhelyg yn mynd rhagddynt, Ddirprwy Weinidog, a fyddech yn cefnogi ymgyrch Paul Davies i ddeoli'r A40 er mwyn il famau pryderus allu cyrraedd Gaerfyrddin yn gyflymach ac yn fwy diogel nag y gallant ar hyn o bryd?

Ddirprwy Weinidog, mae'r Llywodraeth yn gwybod bod angen mynd i'r afael â mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd gwledig ac rydym ni, fel y Ceidwadwyr Cymreig, yn cydnabod nad yw'n hawdd. Cydnabu cynllun iechyd gwledig 2009 nad yw gwneud dim yn opsiwn. Er ein bod ni yn y Siambr yn beirniadu'r Llywodraeth am israddio ysbytai a'r gwasanaeth ambiwlans isel ei forâl, a hynny'n gwbl gyfiawn, bum mlynedd yn ddiweddarach mae cymunedau gwledig yn dal i gael trafferth gyda'r pethau sylfaenol oherwydd diffyg gweithredu Llywodraeth Cymru.

Ardaloedd heb feddygon teulu rheolaidd, meddygfeydd gwledig yn cau, prinder deintyddion, teuluoedd sy'n gallu gweld bae Ceredigion o'u cartrefi yn cael gwasanaeth y tu allan i oriau o Loegr. Yn y gogledd yn benodol ceir prinder meddygon teulu gwirioneddol. Cydnabu'r Gweinidog iechyd ddim ond fis diwethaf fod angen gweithredu. Mae rhan o'ch etholaeth, Ddirprwy Weinidog, yn wledig, felly a ymunwch â ni i barhau i bwysio ar y Gweinidog iechyd i weithredu felly?

Ar ôl gwrandao ar y Ceidwadwyr Cymreig o'r diwedd, mae'r Llywodraeth yn dychwelyd £500 miliwn i'r GIG—hwrê—mae llawer ohono wedi'i neilltuo ar gyfer gofal sylfaenol. Bydd fy etholwyr yng Ngorllewin De Cymru yn falch, gan fod hynny'n awgrymu y bydd mwy o wasanaethau yn cael eu darparu yn y gymuned o'r diwedd ac y bydd angen treulio llai o amser yn yr ysbyty. Gobeithio'n wir, ond nid Ceredigion neu Gwynedd neu Bowys mo Abertawe a Phort Talbot, er bod tloedi i'w gael ym mhob un o'r lleoedd hynny. Faint o'r arian hwnnw a fydd yn cael ei wario ar y dasg llawer mwy anodd o wella gofal sylfaenol a gofal cleifion allanol yn y Gymru wledig?

When I ring my local GP in Swansea and ask for an appointment, I am told that I can have an appointment at some time in the distant future or I can come to that day's open surgery first thing in the morning. So, that is what I will do; I will walk there before I leave for work. How does somebody living miles from their nearest surgery do that? Some of us in this Cardiff bay bubble struggle to imagine the prospect of a 30 mile trip to hospital, so how will they get their heads around someone in Pwllheli travelling 55 miles to see a GP?

Telemedicine has a role to play and I have seen for myself that that can be useful technology, but I will come back to that in a minute. We have heard from Eluned Parrott, Rhun ap Iorwerth and Nick Ramsay today how poor digital connection has a negative effect on the economy. In the particular case of farmers, the icing on an already toxic cake is that so much of the work that they are asked to submit has to be submitted online now, which is very difficult if they do not have a broadband connection. We have also heard that it affects access to cash. It is great that we are all talking about community banking, apart from the Government perhaps, but perhaps we should recognise that community banking of whatever description will also need a firm broadband connection.

We have heard about the effect that it has on housing choices. Mark Isherwood told us that we do need more homes in rural Wales, but, in that case, we also need better roads, better broadband connection and the better services of which those new residents can take advantage.

We have heard that it has an effect on education; Angela Burns touched on that. To be honest, I think that it is absolutely crazy that my son has a 52-mile round trip from one school to another, on a road that closes routinely in the winter, just in order that he can follow a particular A-level course. I also think that it is nonsense that pupils are still expected to use dial-up internet connection in order to do their homework. I really do not see how they are able to do that these days.

I do thank the Deputy Minister for his statement today. Hopefully, the timetable is not too severely affected and that we will have some certainty from the roll-out so that both Governments get value for money for Welsh residents. In terms of health services, if you are relying on digital connectivity for your medical treatment because your road connectivity makes direct treatment unavailable, you need to know that digital connectivity is rock solid. If you are travelling on the roads of rural Wales—the land that phone boxes and toilets forgot—you need to know that if a mobile signal is what stands between you and connection with the rest of the world, that digital connectivity is rock solid. It is not that you will see many buses on those roads, Joyce Watson. For some older people in the areas that Angela Burns was describing, the bus pass is just a pretty piece of paper with no useful function whatsoever. I am only pleased that pregnant women do not rely on bus passes to get to hospitals. Like water and electricity, broadband, affordable housing and a vibrant economy are essential for sustainable rural communities.

Pan ffoniaf fy meddyg teulu lleol yn Abertawe a gofyn am apwyntiad, dywedir wrthyf y gallaf gael apwyntiad ryw adeg yn y dyfodol pell neu gallaf ddod i'r sesiwn agored ben bore ar y diwrnod hwnnw. Felly, dyna beth y byddaf yn ei wneud; byddaf yn cerdded yno cyn imi adael i fynd i'r gwaith. Sut mae rhywun sy'n byw filltiroedd o'u meddygfa agosaf yn gwneud hynny? Mae rhai ohonom yn swigen bae Caerdydd yn cael trafferth dychmygu teithio 30 milltir i'r ysbyty, felly sut y byddant yn dychmygu rhywun ym Mhwlheli yn teithio 55 milltir i weld meddyg teulu?

Mae gan deffeddygaeth rôl i'w chwarae ac rwyf wedi gweld drosod fy hun y gall fod yn dechnoleg ddefnyddiol, ond dywedaf ragor am hynny yn y man. Clywsom gan Eluned Parrott, Rhun ap Iorwerth a Nick Ramsay heddiw ynglŷn â sut mae cysylltiad digidol gwael yn cael effaith negyddol ar yr economi. Yn achos penodol ffermwyr, yr hyn sy'n rhwbio halen yn y briw yw bod cymaint o'r gwaith y gofynnir iddynt ei gyflwyno yn gorfod cael ei gyflwyno ar-lein erbyn hyn, sy'n anodd iawn os nad oes ganddynt gysylltiad band eang. Clywsom hefyd ei bod yn effeithio ar fynediad i arian parod. Mae'n wych bod pawb yn sôn am fancio cymunedol, ar wahân i'r Llywodraeth, efallai, ond efallai y dylem gydnabod y bydd angen cysylltiad band eang cadarn ar gyfer unrhyw fath o fancio cymunedol.

Clywsom am yr effaith y mae'n ei chael ar ddewisiadau tai. Dywedodd Mark Isherwood wrthym fod angen mwy o dai arnom yng nghefn gwlad Cymru, ond, os felly, bydd angen gwell ffyrdd, gwell cysylltiad band eang a'r gwasanaethau gwell y gall trigolion newydd hynny' fanteisio arnynt hefyd.

Clywsom ei bod yn cael effaith ar addysg; soniodd Angela Burns am hynny. A dweud y gwir, credaf ei bod yn hollol hurt bod fy mab yn gorfod gwneud taith gron o 52 milltir o un ysgol i un arall, ar ffordd sy'n cau'n rheolaidd dros y gaeaf, a hynny er mwyn cael dilyn cwrs safon uwch penodol. Credaf hefyd ei bod yn hurt bod nad disgwyl o hyd i ddisgyblion ddefnyddio cysylltiad deialu â'r rhyngwrdd er mwyn gwneud eu gwaith cartref. Ni allaf yn fy myw weld sut y gallant wneud hynny erbyn hyn.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Gobeithio na fydd gormod o darfu ar yr amserlen ac y byddwn yn cael rhywfaint o sicrwydd o'r broses gyflwyno fel bod y ddwy Lywodraeth yn cael gwerth am arian ar ran trigolion Cymru. O ran gwasanaethau iechyd, os ydych yn dibynnu ar gysylltedd digidol ar gyfer eich triniaeth feddygol am fod eich cysylltedd ar y ffyrdd yn golygu nad yw triniaeth uniongyrchol ar gael, mae angen ichi wybod bod cysylltedd digidol yn hollol gadarn. Os ydych yn teithio ar ffyrdd gwledig Cymru—lle nad oes yr un blwch ffôn na thoiled—bydd angen ichi wybod, os mai signal ffôn symudol yw eich unig gysylltiad â gweddill y byd, fod y cysylltedd digidol yn gadarn. Ac ni fyddwch yn gweld llawer o fysiau ar y ffyrdd hynny, Joyce Watson. I rai pobl hŷn yn yr ardaloedd y mae Angela Burns yn eu disgrifio, nid yw'r tocyn bws am ddim ond yn ddarn o bapur pert heb yr un swyddogaeth ddefnyddiol. Rwyf ond yn falch nad yw merched beichiog yn dibynnu ar docynnau bws am ddim i fynd i'r ysbyty. Fel dŵr a thrydan, mae band eang, tai fforddiadwy ac economi fywiog yn hanfodol i gymunedau gwledig cynaliadwy.

I am pleased to respond to this debate, because in my life I have lived in the Valleys, the city and in rural Wales, in town and country. It has given me perspective to see that loss of public services in rural Wales eventually leads to loss of services and migration into more populated parts of Wales. It alerts me to troubles ahead for my region, such as cuts to bus services, and the south-Wales programme introducing the kinds of accessibility problems that rural communities already face.

I will finish where Antoinette began, with the Welsh Government's indolence on rural-proofing. It occurs to me that Labour Cabinet Ministers are pretty much urban based, not exclusively, but mainly, and while that continues, rural Wales's greatest connectivity weakness will be the one it has with Government.

Rwy'n falch o ymateb i'r ddadl hon, oherwydd yn ystod fy mywyd rwyf wedi byw yn y Cymoedd, y ddinas ac yng nghefn gwlad Cymru, yn y dref ac yn y wlad. Mae wedi rhoi persbectif imi weld bod colli gwasanaethau cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru yn y pen draw yn arwain at gollu gwasanaethau a mudo i rannau mwy poblog o Gymru. Mae'n rhybudd imi fod trafferthion ar y gorwel i'm rhanbarth i, megis toriadau i wasanaethau bysiau, a rhaglen de Cymru yn cyflwyno'r mathau o broblemau o ran hygyrchedd y mae cymunedau gwledig eisoes yn eu hwynebu.

Hoffwn orffen yn y man lle y dechreuodd Antoinette, sef diogi Llywodraeth Cymru o ran prawfesur polisïau gwledig. Mae fy nharo i bod Gweinidogion y Cabinet Llafur yn cynrychioli etholaethau trefol ar y cyfan, ond nid yn gyfan gwbl, ond gan mwyaf, a thra pery hynny, gwendid cysylltedd mwyaf Cymru wledig fydd yr un rhyngddi hi a'r Llywodraeth.

17:15

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:16.

Dadl Plaid Cymru: Adnoddau Naturiol Cymru

Dehtholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn enw William Graham, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5422 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod potensial sylweddol adnoddau naturiol Cymru ac yn credu y dylai rheolaeth lawn dros y defnydd ohonynt gael ei datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes. Felly, gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

The Presiding Officer took the Chair at 17:16.

Plaid Cymru Debate: Wales's Natural Resources

The following amendments have been selected: amendments 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 in the name of William Graham, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5422 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

Recognises the significant potential of Wales' natural resources and believes that full control over their use should be devolved to the National Assembly.

17:16

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf y cynnig.

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r ddadl hon yn enw Plaid Cymru, sy'n cynnig bod y Cynulliad hwn yn cydnabod potensial sylweddol adnoddau naturiol Cymru, gan gredu y dylai rheolaeth lawn dros y defnydd ohonynt nhw gael ei datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cyhoeddodd Plaid Cymru bapur trafod sylweddol yn yr hydref ar bolisi ynni yng Nghymru, a'r wythnos hon rydym wedi cyhoeddi papur arall yn benodol ar sut byddai llywodraeth Plaid Cymru yn 2016 yn defnyddio'r pwerau ychwanegol, pe bai ynni yn cael ei ddatganoli'n llawn—fel y gwnaethom alw amdano yn ein tystiolaeth i gomisiwn Silk—er mwyn datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

I move the motion.

It is a pleasure to open this debate in the name of Plaid Cymru, which proposes that the Assembly should recognise the significant potential of Wales's natural resources, and which believes that full control over their use should be devolved to the National Assembly.

Plaid Cymru published a discussion paper of substance back in the autumn on energy policy in Wales and, this week, we published another paper specifically on how a Plaid Cymru government in 2016 would use the additional powers, should energy be devolved in full—as we called for in our evidence to the Silk commission—in order to develop renewable energy here in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae pum egwyddor graidd sy'n sail i ymateb Plaid Cymru i ail ran comisiwn Silk, ac maent yn berthnasol iawn wrth i ni drafod datganoli cyfrifoldebau am adnoddau naturiol i Gymru. Y cyntaf yw'r egwyddor o gyfrifoldeb: rydym eisiau gweld Cymru yn cymryd mwy o gyfrifoldeb ac yn Gymru gryfach a fyddai'n fwy hunangynhaliol yn ddemocrataidd ac yn economaidd. Yr ail egwyddor yw atebolrwydd: byddai mwy o ddatganoli yn dod â'r broses o wneud penderfyniadau yn nes at bobl Cymru, a hynny yn gwella atebolrwydd democrataidd. Y drydedd yw tryloywder: mae rhaniad presennol y cyfrifoldebau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan yn aml yn aneglur ac yn ddryslyd, ac mae angen creu mwy o eglurder er mwyn hwyluso craffu mwy manwl ac effeithiol. Y bedwaredd egwyddor yw cadernid: dylai'r setliad datganoli diwygiedig gael ei gynllunio i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, tra bod yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael y gallu i orfodi ei holl bwerau. Yr egwyddor olaf yw tegwch: mae rhaniad pwerau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan ar hyn o bryd yn llai ffafriol o safbwynt adnoddau naturiol na rhai o'r gwledydd datganoledig eraill o fewn y Deyrnas Gyfunol.

Mae nifer o bobl yn edrych ar Gymru ac maen nhw'n gweld gwlad dlawd, ond pan wyf yn edrych ar Gymru, rwy'n gweld gwlad gyfoethog—gwlad sy'n gyfoethog o ran ei hadnoddau naturiol. Mewn gwlad o ddim ond 3 miliwn o bobl, mae'r ffaith ein bod yn gyfoethog mewn adnoddau naturiol yn cynnig potensial a chyfleoedd i ni, ond, heb y pwerau angenrheidiol, fedrwn ni ddim manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hynny.

Mae anghysondeb yn y pwerau datganoledig o fewn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Dim ond ddoe, roedd y Prif Weinidog yn ein hatgoffa o sut mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn medru cynnig mwy o gymhelliad i ddenu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. Yr eironi yw mai'r Blaid Lafur greodd y rhaniad hwn mewn cyfrifoldebau datganoledig yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Er hynny, y realiti yw mai dros yr wyth mlynedd rhwng 2003 a 2011, mae capasiti ynni solar, gwynt a thonau yn Lloegr wedi cynyddu mwy na chwe gwaith yn fwy nag yng Nghymru. Mae'r cynnydd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban bedair gwaith yn fwy. Nid yw hynny'n dderbyniol. Byddai cydraddoldeb pwerau datganoledig o fewn y Deyrnas Unedig yn sicr yn help, ond os ydym o ddifrif am fanteisio'n llawn ar ein hadnoddau naturiol er budd pobl Cymru, mae angen cyfrifoldeb llawn dros y maes hwnnw.

There are five core principles that form the basis of Plaid Cymru's response to the second part of the Silk commission, and they are very pertinent as we discuss devolving responsibility for natural resources to Wales. The first is the principle of responsibility: we want to see Wales taking more responsibility and a stronger Wales that would be more self-sufficient in terms of democracy and the economy. The second principle is accountability: more devolution would bring the decision-making process closer to the people of Wales, and that would improve democratic accountability. The third principle is transparency: the current separation of powers between the National Assembly for Wales and Westminster is often ambiguous and confused, and we need to create greater clarity in order to facilitate greater, more effective scrutiny. The fourth principle is robustness: the revised devolution settlement should be designed in a way that ensures that it works effectively and efficiently, while the National Assembly for Wales must have the ability to enforce all of its powers. The final principle is fairness: the separation of powers between the National Assembly for Wales and Westminster is currently less favourable in terms of natural resources than is the case in some of the other devolved nations of the United Kingdom.

Many people look at Wales and see a poor country, but when I look at Wales I see a prosperous, rich country—a country that is rich in terms of its natural resources. In a nation of just 3 million people, the fact that we are rich in natural resources provides us with great potential and opportunity, but, without the necessary powers, we cannot realise fully that potential.

There are inconsistencies in the devolved powers within the United Kingdom at present. Only yesterday, the First Minister reminded us of how Scotland and Northern Ireland can offer greater incentives to attract investment in renewable energy. The irony, of course, is that it was the Labour Party that created this separation in terms of devolved powers in the Government of Wales Act 2006. Nonetheless, the reality is that, over the eight years between 2003 and 2011, there has been a more than sixfold increase in the capacity of solar, wind and tidal energy in England as compared with Wales. The increase in Scotland and Northern Ireland has been four times greater than that of Wales. That is not acceptable. Equality in terms of devolved powers within the UK would certainly be of assistance, but if we are serious about taking full advantage of our natural resources for the benefit of the people of Wales, then we need full responsibility in this area.

Rydym yn gwybod yn barod ein bod ni yng Nghymru yn cynhyrchu llawer iawn mwy o drydan nag yr ydym yn ei ddefnyddio. Rydym yn cynhyrchu bron i ddwywaith yr 16,000 GWh sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru bob blwyddyn. Sut, felly, y gall fod yn deg bod gwlad sy'n cynhyrchu mwy o drydan y pen nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig yn talu mwy am y trydan hwnnw nag unrhyw ran arall o Brydain? Mae biliau, ar gyfartaledd, yng Nghymru yn £461, o'i gymharu â £455 yn yr Alban a £439 yn Lloegr. Felly, er ein bod yn cynhyrchu mwy o drydan nag yr ydym ei angen, mae'n biliau ni yng Nghymru yn uwch na biliau pawb arall. Sut mae gwlad sydd mor gyfoethog yn hyn o beth yn dioddef rhai o'r lefelau uchaf o dlodi tanwydd, er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig, a hefyd rhai o'r lefelau uchaf o farwolaethau ychwanegol yn y gaeaf?

Mae llawer o drafod wedi bod yn ddiweddar am y cynnydd mewn pris ynni, ac mae'r chwe chwmmni mawr yn beio'r cynnydd hwnnw ar brisiau cyfanwerthu ac ar drethi gwyrdd, ond does dim ond angen edrych ar gyfrifon rhai o'r cwmnïau hyn i weld beth sy'n digwydd mewn gwirionedd. Y realiti yw bod elw'r chwech mawr wedi cynyddu 77% yn 2012 i £1.2 biliwn. Mae Ofgem wedi rhagweld y byddai hynny yn cynyddu eto i dros £2 biliwn yn ystod 2013. Mae'r elw y mae'r cwmnïau hyn yn ei wneud ar gefn pob cartref wedi codi mwy na thair gwaith mewn dim ond blwyddyn, o £30 y cartref yn 2011 i £105 yn 2012. Mae'n amlwg bod y cwmnïau mawr yn pocedu elw mawr tra bod llawer o'u cwsmeriaid, fel rydym i gyd yn ymwybodol, yn gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartrefi neu fwyta.

Dyna un o'r rhesymau, wrth gwrs, pam mae Plaid Cymru wedi galw am sefydlu cwmni ynni cyhoeddus cenedlaethol i Gymru. Nid yw'r model hwn o weithio yn fodel newydd, wrth gwrs. Mae enghreifftiau ar draws y byd o wledydd yn defnyddio cwmnïau ynni cyhoeddus i harneisio adnoddau naturiol ei gwlad er mwyn darparu ynni i'w poblogaeth—o Vattenfall yn Sweden i Statkraft yn Norwy. Mae hefyd enghreifftiau o gwmnïau cyhoeddus sy'n gweithredu'n rhyngwladol. Y mwyaf adnabyddus i ni yng Nghymru, mae'n siŵr, yw EDF, sy'n elwa o'i gwsmeriaid rhyngwladol, ond Llywodraeth Ffrainc sy'n berchen ar 85% o'r cwmni.

Byddai'n polisi ni, ynni Cymru, yn defnyddio unrhyw elw i naill ai gostwng biliau cwsmeriaid Cymreig neu fuddsoddi mewn gwella'r seilwaith yng Nghymru. Byddai ailfuddsoddi'r elw, er enghraifft, yn gallu cyfrannu at waith cyfalaf, megis cysylltu gogledd Cymru, lle mae gormodedd o drydan, gyda de Cymru, lle mae diffyg trydan, gan greu grid gwirioneddol Gymreig a fyddai'n helpu i ostwng prisiau yn yr hirdymor a chreu Cymru fwy hunangynhaliol o ran ynni yn y dyfodol. Cafodd ymchwil ei gomisiynu gan Ofgem yn ôl yn Ionawr 2011 i edrych ar ddichonolrwydd y cysylltiad tanfor posibl o'r gogledd i'r de ar hyd arfordir Cymru, ond rydym yn dal i aros am unrhyw fath o gasgliadau neu ganlyniadau. Mae pwysigrwydd cysylltu Cymru yn gwbl amlwg, felly byddwn yn annog y Llywodraeth—fel yr wyf wedi ei wneud o'r blaen—i sicrhau bod yr ymchwil hwn yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n bosibl.

We already know that we in Wales produce far more electricity than we use. We produce almost twice the 16,000 GWh used in Wales every year. How, then, can it be fair that a nation that produces more electricity per capita than any other part of the United Kingdom pays more for that electricity than is the case in any other part of Britain? On average, bills in Wales are £461, compared with £455 in Scotland and £439 in England. Therefore, although we create more electricity than we need, our bills in Wales are higher than anyone else's. How can a country that is so wealthy in this regard suffer some of the worst levels of fuel poverty, for example, in the United Kingdom and also some of the greatest levels of excess winter deaths?

There has been much discussion recently about the increase in energy prices, and the big six energy companies blame that increase on the wholesale prices and green taxes, but we have only to look at the accounts of some of these companies to see what is happening in reality. The reality is that the profits of the big six increased by 77% in 2012 to £1.2 billion. Ofgem anticipates that that will increase once again to over £2 billion during 2013. The profit that these companies make from every home has increased more than threefold in only a year, from £30 per home in 2011 to £105 in 2012. It is obvious that the large companies are pocketing considerable profit while many of their customers, as we are all aware, have to choose between heating their homes or eating.

That is one of the reasons, of course, why Plaid Cymru has called for the establishment of a national public energy company for Wales. This model of working is not new, of course. There are examples across the world of nations using energy companies to harness their natural resources in order to provide energy for their populations—from Vattenfall in Sweden to Statkraft in Norway. There are also examples of public companies that operate internationally. The most recognisable for us in Wales, I am sure, is EDF, which benefits from international customers, but the French Government owns 85% of the company.

Our policy, ynni Cymru, would use any profit either to reduce the bills of Welsh customers or to invest by improving the infrastructure in Wales. Reinvesting profits, for example, could contribute to capital work, such as connecting north Wales, where too much energy is produced, with south Wales, where there is a shortage of electricity, thereby creating a truly Welsh grid that will help to bring prices down in the long term and create a more self-sustainable Wales for the future in relation to energy. Research was commissioned by Ofgem back in January 2011 to look at the feasibility of an under-sea connection between the north and south along the coast of Wales, but we are still waiting for any conclusions or outcomes from that research. The importance of connecting Wales is apparent, so I encourage the Government—as I have done in the past—to ensure that this research is published as soon as possible.

Nid yw cyfoeth adnoddau naturiol Cymru wedi ei gyfyngu i ynni yn unig, wrth gwrs; rydym yn gyfoethog hefyd mewn dŵr. Fodd bynnag, fel gydag ynni, er bod gennym ddigonedd o ddŵr, rydym yn ffeindio'n hunain yn talu mwy amdano nag eraill sy'n defnyddio dŵr o Gymru hefyd. A beth am fwyd? Mae dros 80% o dirwedd Cymru wedi ei neilltuo i gynhyrchiant bwyd, ond eto mae degau o filoedd o drigolion Cymru yn dibynnu ar fanciau bwyd am eu cynhaliath. Mae arbenigwyr wedi rhybuddio yn ddiweddar yn y 'British Medical Journal' mai'r creisis iechyd cyhoeddus nesaf fydd diffyg maeth ymhlith plant.

The wealth of Wales's natural resources is not limited only to energy, of course; we are also rich in terms of water. However, as with energy, although we have plenty of water, we find ourselves paying more for it than others who also use water from Wales. And what about food? Over 80% of the surface area of Wales is dedicated to the production of food, but, once again, tens of thousands of people in Wales depend on food banks to sustain them. Experts recently warned in the 'British Medical Journal' that the next public health crisis will be nutrition deficiency among children.

Gwelsom sut yr aeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i mewn i'r trafodaethau ar y polisi amaeth cyffredin gyda'r nod o dorri'r gyllideb—rhywbeth sydd yn amlwg yn mynd yn erbyn buddiannau ffermwyr Cymru. Mae Cymru yn wlad gyfoethog o ran adnoddau naturiol, ond mae'r drefn ddatganoledig bresennol yn ein gadael ni i lawr. Dim ond drwy gymryd cyfrifoldeb lawn am ein hadnoddau naturiol y gallwn wneud yn siŵr bod hwn yn newid, a dim ond drwy gael pwerau dros y meysydd hyn y gallwn sicrhau eu bod yn gweithio er budd pobl Cymru.

We saw the way in which the United Kingdom Government entered the negotiations on the common agricultural policy with the aim of cutting the budget—something that clearly militates against the interests of Welsh farmers. Wales is a country that is rich in natural resources, but the current devolution settlement lets us down. It is only by taking full responsibility for our natural resources that we can ensure that this changes, and it is only by having powers over these areas that we can ensure that they work to benefit the people of Wales.

Byddaf yn crynhoi ymateb Plaid Cymru i'r gwelliannau sydd wedi cael eu gosod wrth gloi, ond rwy'n edrych ymlaen at glywed yr holl gyfraniadau i'r ddaol. Diolch.

I will summarise Plaid Cymru's responses to the amendments that have been tabled when I close the debate, but I look forward to hearing all contributions to the debate. Thank you.

17:25

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the 10 amendments to the motion, and I call on Russell George to move amendments 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y 10 gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Russell George i gynnis gwelliannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Gwelliant 1—William Graham

Amendment 1—William Graham

Dileu popeth ar ôl 'adnoddau naturiol Cymru'.

Delete all after 'natural resources'.

Gwelliant 4—William Graham

Amendment 4—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu nad yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r arbenigedd a'r gallu eto i weinyddu prosiectau ynni ar raddfa fawr.

Believe that the Welsh Government has yet to develop the expertise and capacity to administer large scale energy projects.

Gwelliant 5—William Graham

Amendment 5—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Calls on Welsh Government to:

a) cynnal ymchwiliad i sut y gellir datblygu buddion cymunedol prosiectau ynni;

a) hold an inquiry into how community energy benefits can be developed;

b) cynnal adolygiad o ganiatáu a thrwyddedu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach; ac

b) conduct a review of consenting and licensing of small scale renewables; and

c) gweithio gyda Llywodraeth y DU i edrych ar ffiniau dŵr.

c) work with the UK Government to look into the issue of water boundaries.

Gwelliant 6—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganiatáu rhagor o leoliaeth o ran defnyddio adnoddau naturiol mewn cymunedau, a rhoi'r un hawliau i bobl Cymru â'r hawliau sydd gan gymunedau yn Lloegr ar hyn o bryd o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Gwelliant 7—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod camreolaeth Llywodraeth Cymru ar adnoddau pren naturiol ystâd Coedwigaeth Cymru wedi:

a) caniatáu i ardaloedd mawr o goed llarwydd a rhywogaethau coed eraill fod wedi'u heintio o hyd â phytophthora ramorum; a

b) golygu bod clwstr enfawr o goed llarwydd heintiedig heb eu torri a dwy flynedd o waith wedi cronni yn y rhaglen torri coed.

Gwelliant 8—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rhwystrau o ran hyrwyddo ac amddiffyn adnoddau naturiol Cymru a ddaeth yn sgîl y system gynllunio bresennol.

Gwelliant 9—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod penderfyniadau ynghylch taliadau CAP wedi rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â gwledydd datganoledig eraill y Deyrnas Unedig wrth iddynt reoli eu hadnoddau naturiol.

Gwelliant 10—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod camreoli adnoddau naturiol Cymru yn cyfrannu at ledaenu TB buchol ac yn effeithio ar fywyd gwyllt a chynhyrchu amaethyddol yng Nghymru.

Amendment 6—William Graham

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to allow for greater localism in the use of natural resources within communities, giving Welsh people the same rights as those communities in England currently have under the Localism Act 2011.

Amendment 7—William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets that the Welsh Government's mismanagement of the natural timber resources of the Welsh Forestry estate has:

a) allowed large areas of larch and other tree species to remain infected with phytophthora ramorum; and

b) contributed to huge stands of infected larch remaining unfelled with a 2 year backlog in the felling programme.

Amendment 8—William Graham

Add as new point at end of motion:

Notes the barriers to promoting and protecting Wales's natural resources created by the current planning system.

Amendment 9—William Graham

Add as new point at end of motion:

Notes that decisions over CAP payments has placed Welsh farmers at a competitive disadvantage to the other devolved nations of the United Kingdom when managing their natural resources.

Amendment 10—William Graham

Add as new point at end of motion:

Notes that the mismanagement of Wales's natural resources contributes to the spread of Bovine TB and impacts on wildlife and agricultural production in Wales.

17:25

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 on behalf of the Welsh Conservative Group, in the name of William Graham.

Cynigiad welliannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 ar ran y Grŵp Ceidwadwyr Cymru, yn enw William Graham.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As you can appreciate, we have tabled a number of amendments so I will do my very best in the time that we have to get through them.

In terms of amendment 4, I have stated on a number of previous occasions in this Chamber that the Government's case for further devolution on energy powers is not robust enough. I heard what the Minister last week about the Government wanting these powers so that it can have a fully joined-up approach across Government. However, a statement on its own is not good enough; it is not good enough for us as Assembly Members to scrutinise your policy ambitions, it is not good enough for the Welsh public who wants to know what you intend to do with the powers, and it is not good enough for UK Ministers. Ministers of various political colours in government in Wales have been making requests well before 2010.

We want to support a coherent case to the UK Government for the further devolution of powers. The Minister will know that our parties had similar Assembly manifesto policies in respect of renewable energy planning consents of up to 100 MW. We want to be absolutely sure that the capacity and expertise is here so that we can deal with and administrate those powers correctly. The Environment and Sustainability Committee's report on energy and planning identified the shortcomings in terms of capacity and expertise at local planning authority level, particularly in planning authorities where the burden of large multiple applications falls most heavily, such as Powys, which hosts strategic search areas. The Government's response was that there is no capacity crisis hampering the delivery of its renewable energy policy, yet the First Minister acknowledged last week during the debate on the Williams commission report that there are resource and capacity issues at local government level that are hampering any further devolution of powers from Welsh Government to local government.

Our party truly believes in local democracy and local self-determination. That has been demonstrated in England where communities have been given more say about whether large-scale energy projects should be sited in their communities, and that those local views should carry more weight than Government policy. However, slowly but surely, I fear that we are seeing a centralisation of planning powers to the Welsh Government in a bid to fast-track and force through renewable energy planning applications. If you want further powers from Westminster to control them centrally in order to push more onshore wind applications through against the wishes of local communities, you should just come out and say that.

Fel y gallwch werthfawrogi, rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau felly byddaf yn gwneud fy ngorau glas yn yr amser sydd gennym i ymdrin â hwy.

O ran gwelliant 4, rwyf wedi dweud ar sawl achlysur blaenorol yn y Siambr hon nad yw achos y Llywodraeth dros ddatganoli rhagor o bwerau ynni yn ddigon cadarn. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yr wythnos ddiwethaf am awydd y Llywodraeth i gael y pwerau hyn er mwyn iddi gael dull gweithredu cwbl cydgyssylltiedig ar draws Llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw datganiad ar ei ben ei hun yn ddigon da; nid yw'n ddigon da inni fel Aelodau Cynulliad graffu ar eich dyheadau o ran polisi, nid yw'n ddigon da i'r cyhoedd yng Nghymru sydd am wybod beth rydych yn bwriadu ei wneud gyda'r pwerau, ac nid yw'n ddigon da i Weinidogion y DU. Mae Gweinidogion o liwiau gwleidyddol gwahanol mewn llywodraeth yng Nghymru wedi bod yn gwneud ceisiadau ymhell cyn 2010.

Rydym am gefnogi achos cydlynol i Lywodraeth y DU dros ddatganoli rhagor o bwerau. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod gan ein pleidiau bolisiau maniffesto tebyg mewn perthynas â chaniatadau cynllunio ynni adnewyddadwy o hyd at 100 MW. Rydym am fod yn gwbl sicr bod y gallu a'r arbenigedd yma fel y gallwn ymdrin â'r pwerau hynny a'u gweinyddu yn gywir. Nododd adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ynni a chynllunio y diffygion o ran gallu ac arbenigedd ar lefel awdurdod cynllunio lleol, yn enwedig mewn awdurdodau lle mae baich ceisiadau lluosog mawr drymaf, fel Powys, sy'n cynnal ardaloedd chwilio strategol. Ymateb y Llywodraeth oedd nad oes unrhyw argyfwng o ran gallu yn rhwystro'r gwaith o gyflawni ei pholisi ynni adnewyddadwy, ond cydnabu'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf yn ystod y ddaul ar adroddiad comisiwn Williams fod materion o ran adnoddau a gallu ar lefel llywodraeth leol sy'n rhwystro unrhyw bwerau pellach rhag cael eu datganoli o Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol.

Mae ein plaid yn wirioneddol credu mewn democratiaeth leol a hunanbenderfyniad lleol. Dangoswyd hynny yn Lloegr lle mae cymunedau wedi cael mwy o lais ynghylch pa un a ddylai prosiectau ynni ar raddfa fawr gael eu lleoli yn eu cymunedau, ac y dylid rhoi mwy o bwys i'r safbwyntiau lleol hynny nag i bolisi Llywodraeth. Fodd bynnag, yn araf ond yn sicr, ofnaf ein bod yn gweld pwerau cynllunio yn cael eu canoli i Lywodraeth Cymru mewn ymgais i gyflymu a gwthio ceisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy drwyddo. Os ydych am gael rhagor o bwerau o San Steffan i'w rheoli'n ganolog er mwyn gwthio rhagor o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir drwyddo yn groes i ddymuniadau cymunedau lleol, dylech yn syml ddweud hynny.

17:28 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand what you are saying there, but would you apply the same criteria to the proposals for shale gas exploitation in England coming from Cameron?

Deallaf yr hyn a ddywedwch yma, ond a fydddech yn cymhwyso'r un meini prawf at gynigion gan Cameron i fanteisio ar nwy siâl yn Lloegr?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:28 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I would fully agree with that.

Byddwn yn cytuno'n llwyr â hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Amendment 5 is, I think, non-controversial, and I hope that the Government can support it. Community energy schemes are the way forward, and the Government should be doing everything that it can to enable communities across Wales to become more energy self-sufficient. However, a mid-term review has highlighted barriers to success that need to be urgently dealt with.

Water boundaries is also an issue that has some consensus across the Chamber. It makes sense, particularly in relation to democratic accountability—my constituency is served by Severn Trent Water, which is also accountable to UK Government Ministers, yet parts of Hereford are served by Welsh Water, which is ultimately accountable to Welsh Minister. This anomaly needs to be rectified, and I and my group will do what we can to persuade the UK Government to address that particular issue.

I may have time to talk quickly to amendment 6. It is too early to judge the success of the Localism Act 2011. However, that legislation clearly demonstrates a positive signal of intent—more freedoms and flexibilities for local government, more rights and powers for communities and individuals, and reform to the planning system to ensure that it is more democratic and effective. It is all about putting communities more in control of their own destiny and more in control of the environment and resources that are around them. I certainly hope—certainly, my opinion is—that there has never been a better time, with Welsh public sector reform and legislative changes in the pipeline, for Welsh Government Ministers to truly embrace that local community empowerment and ensure that it is properly wired into this process of change.

Nid yw Gwelliant 5, yn fy marn i, yn ddadleuol, a gobeithiaf y gall y Llywodraeth ei gefnogi. Cynlluniau ynni cymunedol yw'r ffordd ymlaen, a dylai'r Llywodraeth fod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i alluogi cymunedau ledled Cymru i fod yn fwy hunangynhaliol o ran ynni. Fodd bynnag, mae adolygiad canol tymor wedi nodi rhwystrau i lwyddiant y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys.

Mae ffiniau dŵr hefyd yn fater sydd â rhywfaint o gonsensus ar draws y Siambr. Mae'n gwneud synnwyr, yn enwedig mewn perthynas ag atebolrwydd democrataidd—gwasanaethir fy etholaeth gan Severn Trent Water, sydd hefyd yn atebol i Weinidogion Llywodraeth y DU, ond gwasanaethir rhannau o Swydd Henffordd gan Dŵr Cymru, sy'n atebol yn y pen draw i Weinidogion Cymru. Mae angen unioni'r anomaledd hwn, a bydd fy ngrŵp a minnau yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarbwylllo Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw.

Efallai bod gennyf amser i siarad yn gyflym am welliant 6. Mae'n rhy gynnar i farnu llwyddiant Deddf Lleoliaeth 2011. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth honno yn dangos yn glir arwydd cadarnhaol o fwriad—mwy o ryddid a hyblygrwydd i lywodraeth leol, mwy o hawliau a phwerau i gymunedau ac unigolion, a diwygio'r system gynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn fwy democrataidd ac effeithiol. Mae a wnelo'r cyfan â galluogi cymunedau i gymryd mwy o reolaeth dros eu tynged eu hunain a mwy o reolaeth dros yr amgylchedd a'r adnoddau sydd o'u cwmpas. Yn sicr, rwy'n gobeithio—yn sicr, fy marn i yw—na fu erioed adeg well, gyda gwaith diwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru a newidiadau deddfwriaethol ar y gweill, i Weinidogion Llywodraeth Cymru wirioneddol groesawu grymuso o'r fath mewn cymunedau lleol a sicrhau y caiff ei gynnwys yn briodol yn y broses newid hon.

17:30

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on William Powell to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid defnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd a'r economi er budd tymor hir pobl Cymru.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd cynlluniau ynni cymunedol i fanteisio ar ein hadnoddau naturiol yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i wella rhaglen Ynni'r Fro yn dilyn cyfres o argymhellion yn adroddiad Gwerthusiad Canol Tymor Ynni'r Fro.

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynir yn enw William Graham.

Amendment 2—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Believes that Welsh natural resources should be utilised in an environmentally and economically sustainable fashion for the long term benefit of the people of Wales.

Amendment 3—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Notes the importance of community energy schemes to harnessing our natural resources in Wales, and calls on the Welsh Government to outline the action it will take to improve the Ynni'r Fro programme following the raft of recommendations within the Ynni'r Fro Mid-term Evaluation report.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:30

William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

I move amendments 2 and 3.

Cynigaf welliannau 2 a 3.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would like to thank Plaid Cymru for bringing forward this important debate today. We have spoken many times in this Chamber about the importance of our natural resources and, consistent with the motion, I have also advocated on many occasions the devolution of greater control over them to this Assembly. Until recently, I had the impression also that there was full cross-party support for this position, as indicated throughout Silk part 2. These days, however, I am disappointed to see that the party opposite appears to be drawing back from that position, which is made explicit in amendment 1.

That said, it is also important to recognise that our natural resources are far broader than our energy and minerals policy alone and, in fairness, I should also give credit to the Conservatives, with regard to some of their amendments, for stressing that point. While it is all too easy for us to focus on those resources that have a direct economic value—resources such as energy, food, timber and aggregates—we need also to remember those natural resources that, instead, have perhaps only an indirect or less obvious economic value, such as the quality of our waters and soil or the very beauty of our landscapes throughout Wales. That is why, in our first amendment, amendment 2, we have sought only to make a simple point and to bring our use of this resource potential into line with our ambitions to be a more sustainable nation. While the contents of the environment White Paper and the general direction of the emerging future generations Bill make this point several times, I think that, given the increasing push to exploit natural resources such as shale gas that is coming from another place, it remains important to make this point again and again. That is why we must always try to take the long view when discussing our resources and ensure that we are not sacrificing long-term improvements for short-term economic or, indeed, political gain. However, as with everything, this is always going to be something of a balancing act. After all, it does nobody any good to nurture something with one hand only then to thwart it with the other, a point that I think amendment 9 highlights adequately.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Rydym wedi siarad droeon yn y Siambr hon am bwysigrwydd ein hadnoddau naturiol ac, yn gyson â'r cynnig, rwyf hefyd wedi argymhell droeon y dylid datganoli mwy o reolaeth drostynt i'r Cynulliad hwn. Tan yn ddiweddar, cefais yr argraff hefyd fod cefnogaeth drawsbleidiol lawn ar gyfer y safbwynt hwn, fel y nodwyd drwy gydol rhan 2 Silk. Fodd bynnag, y dyddiau hyn, caf fy siomi wrth weld bod y blaid gyferbyn yn tynnu'n ôl yn ôl pob tebyg o'r safbwynt hwnnw, a welir yn amlwg yng ngwelliant 1.

Wedi dweud hynny, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod ein hadnoddau naturiol yn llawer ehangach na'n polisi ynni a mwynau yn unig, ac, a bod yn deg, dylwn hefyd roi clod i'r Ceidwadwyr, mewn perthynas â rhai o'u gwelliannau, am bwysleisio'r pwynt hwnnw. Er ei bod yn hawdd inni ganolbwyntio ar yr adnoddau hynny sydd â gwerth economaidd uniongyrchol—adnoddau fel ynni, bwyd, pren ac agregau—mae angen inni hefyd gofio am yr adnoddau naturiol hynny nad oes iddynt ond gwerth economaidd anuniongyrchol neu lai amlwg, fel ansawdd ein dyfroedd a'n pridd neu harddwch ein tirweddau ledled Cymru. Dyna pam, yn ein gwelliant cyntaf, sef gwelliant 2, nad ydym ond wedi ceisio gwneud pwynt syml a sicrhau bod ein defnydd o'r adnodd posibl hwn yn gyson â'n huchelgeisiau i fod yn genedl fwy cynaliadwy. Er bod cynnwys Papur Gwyn yr amgylchedd a chyfeiriad cyffredinol Bil cenedlaethau'r dyfodol sydd ar y gweill yn gwneud y pwynt hwn droeon, credaf, o ystyried y pwysau cynyddol i fanteisio ar adnoddau naturiol fel nwy siâl sy'n dod o le arall, ei bod yn bwysig gwneud y pwynt hwn dro ar ôl tro o hyd. Dyna pam y mae'n rhaid inni bob amser geisio ystyried y sefyllfa hirdymor wrth drafod ein hadnoddau a sicrhau nad ydym yn aberthu gwelliannau hirdymor er mwyn sicrhau budd economaidd neu, yn wir, wleidyddol byrdymor. Fodd bynnag, fel gyda phopeth, bydd hyn bob amser yn rhyw fath o weithred gydbwysu. Wedi'r cyfan, nid yw'n gwneud lles i neb feithrin rhywbeth gydag un llaw, dim ond i'w rwystro gyda'r llall, pwynt y mae gwelliant 9 yn tynnu sylw ato'n ddiagonol.

Returning now to the issue of energy, it is abundantly clear that we still have a lot of work in front of us before we can make maximum sustainable use of the abundant natural resources at our disposal, be it wave, tidal, river, stream, solar radiation, fossilised, or even wind power in the appropriate setting. This is true regardless of the state of the devolution settlement. As we take this agenda forward, it is particularly important that we are both flexible and better informed about which natural resource has the greatest potential to benefit us in a particular given location across Wales. We must also seek to open up the way in which these resources are owned and managed, so that they can become more community-oriented, where the desire exists, and more nationally targeted, where applicable. I think that it is fair to say that, despite its shortcomings, Ynni'r Fro has done a lot of good initial work. This, indeed, has to be commended, but we can and must continue to push this further forward with a greater emphasis on a wider range of schemes so that the right expertise can be drawn upon and so that we can see things through to their completion. Naturally, this will also fit in with the proposed reforms to the planning system that were discussed in questions earlier and in earlier contributions. These are reforms that I hope will make it easier to take such schemes forward, and perhaps even to provide for a presumption in favour of community-based proposals in certain settings, which would have the potential to deliver real benefits for communities across Wales. However, we are still some way from being in that position.

However, if a broad agreement emerges on these issues, I suspect that that position and that objective might not be as far away as some currently fear.

Gan ddychwelyd yn awr at ynni, mae'n gwbl glir fod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd cyn y gallwn wneud y defnydd mwyaf cynaliadwy o'r adnoddau naturiol helaeth sydd ar gael inni, boed yn bŵer tonnau, llanw, afon, nant, ymbelydredd solar, ffosiledig, neu hyd yn oed bŵer gwynt yn y lleoliad priodol. Mae hyn yn wir ni waeth beth fo'r setliad datganoli. Wrth inni fwrw ymlaen â'r agenda hon, mae'n arbennig o bwysig ein bod yn hyblyg ac yn fwy gwybod o ran pa adnoddau naturiol sydd â'r potensial mwyaf i roi budd inni mewn lleoliad penodol ledled Cymru. Rhaid inni hefyd geisio sicrhau y caiff yr adnoddau hyn eu perchenogi a'u rheoli mewn ffordd fwy agored, fel y gallant ganolbwyntio mwy ar y gymuned, lle mae'r awydd yn bodoli, a chael eu targedu'n fwy cenedlaethol, lle y bo'n gymwys. Credaf ei bod yn deg dweud bod Ynni'r Fro, er gwaethaf ei ddiffygion, wedi gwneud llawer o waith cychwynnol da. Yn wir, rhaid canmol hyn, ond gallwn a rhaid inni barhau i ddatblygu hyn ymhellach gan roi mwy o bwyslais ar ystod ehangach o gynlluniau fel y gellir manteisio ar yr arbenigedd cywir ac fel y gallwn fynd ar drywydd pethau a'u cwblhau. Yn naturiol, bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â'r diwygiadau arfaethedig i'r system gynllunio a drafodwyd mewn cwestiynau yn gynharach ac mewn cyfraniadau cynharach. Mae'r rhain yn ddiwygiadau a fydd, gobeithio, yn ei gwneud yn haws bwrw ymlaen â chynlluniau o'r fath, ac efallai hyd yn oed yn darparu ar gyfer rhagdybiaeth o blaid cynigion sy'n seiliedig ar y gymuned mewn lleoliadau penodol, a fyddai â'r potensial i sicrhau buddiannau gwirioneddol i gymunedau ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn dal ymhell o fod yn y sefyllfa honno.

Fodd bynnag, os ceir cytundeb cyffredinol ynghylch y materion hyn, rwy'n amau efallai nad yw'r sefyllfa honno a'r amcan hwnnw mor bell i ffwrdd ag y mae rhai yn ei ofni ar hyn o bryd.

17:34

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ar wahân i'n pobl, ased mwyaf ein cenedl, wrth gwrs, yw ein hadnoddau naturiol, fel y dywedodd Llyr Gruffydd. Eleni, 30 mlynedd wedi streic y glowyr, mae'n addas inni fyfyrto ar werth a chost bod yn genedl sy'n gyfoethog o ran adnoddau. Tri deg o flynyddoedd yn ôl, roedd ein cymunedau'n wynebu Llywodraeth a oedd yn dilyn rhaglen economaidd a ddinistriodd nid yn unig unrhyw obaith o swyddi, ond a rwygodd enaid pentrefi a threfi ar hyd a lled Cymru. Llywodraeth oedd honno—ni ddylem fyth anghofio—heb fandad yma yng Nghymru.

Roedd Cymru bryd hynny yn ddiobaith yn wyneb y gelyn, ond nid felly y mae heddiw, yn dilyn datganoli. Er gwaethaf y ffaith bod gennym ryw fesur o hunanlywodraeth heddiw, mae ein hunanlywodraeth, fel y gwyddom oll, wedi ei gyfyngu pan rydym yn trafod ein hadnoddau naturiol a'n polisi ynni. Nid yw'n fawr o syndod bod Llywodraeth bresennol Cymru yn amharod i osod targedau cadarn ac uchelgeisiol. Rwy'n meddwl mai cyfuniad yw hyn o ddiffyg uchelgais ar ei rhan a chanlyniad y pwerau cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru, y mae'r Prif Weinidog yn cyfeirio atynt yn gyson.

Apart from our people, our nation's greatest asset, of course, is its natural resources, as Llyr Gruffydd said. This year, 30 years after the miners' strike, it is appropriate that we should reflect upon the value and cost of being a resource-rich nation. Thirty years ago, our communities faced a Government that was following an economic programme that destroyed not only any hope of employment, but that ripped the soul from towns and villages throughout Wales. That Government—as we should never forget—had no mandate here in Wales.

At that time, Wales was without hope in the face of the enemy, but that is not how things stand today, with devolution. Despite the fact that we have some measure of devolution today, we all know that our ability to govern ourselves is restricted when it comes to our natural resources and our energy policy. It is little surprise that the current Welsh Government is unwilling to set firm and ambitious targets. I think that this is a combination of a lack of ambition on its behalf and the result of the limited powers that the Welsh Government has, to which the First Minister regularly alludes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:36

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that point?

A wnech chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:36

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mewn dau funud.

Mae'n siomedig hefyd nas cyrhaeddwyd yr ychydig dargedau a osododd Llywodraeth Cymru i'w hun, a hynny o gryn fesur. Rwy'n gobeithio'n wir y gwelwn ni godi'r cap mympwyol o 50 MW ar bwerau yn y dyfodol agos iawn.

In a moment.

It is also disappointing that the few targets that the Welsh Government did set for itself have been missed—by a country mile. I sincerely hope that we see the arbitrary cap of 50 MW being increased in the very near future.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:36

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful. I think that you just touched on the point that I wanted to make, which is that it is not the setting of the targets that has failed; it is the delivery of community energy schemes that has failed to achieve what the Welsh Government has hoped.

Rwy'n ddiolchgar. Credaf eich bod newydd gyffwrdd â'r pwynt yr oeddwn am ei wneud, sef nad y broses o bennu targedau sydd wedi methu; y broses o gyflwyno cynlluniau ynni cymunedol sydd wedi methu â chyflawni'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi gobeithio iddo ei gyflawni.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:36

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn sicr, am unwaith, buaswn yn cytuno. Roedd yno dargedau, ond nid yw'r Llywodraeth wedi cyrraedd y targedau hynny; mae wedi eu methu'n ddifrifol iawn yn y maes ynni adnewyddadwy. Mae hynny'n rhannol oherwydd diffyg mewn datblygu cynlluniau cymunedol, ond hefyd oherwydd arafwch a blerwch gweledigaeth ynglŷn â chynlluniau mwy.

For once, I would certainly agree. There were targets, but the Government has not attained those targets; it has seriously failed to reach them on renewable energy. That is partially due to the failure in developing community schemes, but also because of the slowness and confusion regarding the vision for larger schemes.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r cap yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau ar raddfa fawr, fel mater o drefn, yn dod â budd pendant i gymunedau. Bu Plaid Cymru'n galw ers amser am gynnwys cymalau budd cymunedol yn rhan o ganiatâd cynllunio. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn gosod cymalau o'r fath ar bob datblygiad ynni—mawr a bach.

The cap restricts Welsh Government ability to ensure that large-scale projects, as a matter of course, bring community benefit. Plaid Cymru has been calling for some time for the inclusion of community-benefit clauses in planning permissions. A Plaid Cymru Government would include such clauses in all schemes—large and small.

Mae'r Torïaid, yn eu gwelliant, yn galw ar y Llywodraeth i ymchwilio i'r maes hwn. Y gwir amdani, os ydych yn edrych ar Ddenmarc, er enghraifft, yw bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau ynni yn dod â budd uniongyrchol i'r gymuned neu i'r cyngor lleol. Mae'n digwydd ar draws Ewrop; nid yw'n anodd iawn i'w gyflawni.

The Tories, in their amendment, ask the Government to investigate this field. The truth of the matter, if you look at Denmark, for example, is that most energy schemes bring direct benefits to the community or local council. It happens right across Europe; it is not very difficult to achieve.

Byddai datganoli ynni yn llawn nid yn unig yn ein rhyddhau i gwrdd â'n targedau ein hunain fel gwlad, ond hefyd i osod targedau uchelgeisiol. Byddai Plaid Cymru'n anelu at gael Cymru hunangynhaliol mewn trydan adnewyddadwy erbyn 2035, ac yn gosod map clir a llwybr i'w ddilyn.

Full devolution of energy would release us to not only achieve our own targets as a nation, but to set ambitious targets. Plaid Cymru would aim at making Wales self-sufficient in renewable electricity by 2035, and set a clear route-map to that end.

Byddai mwy o hunanreolaeth mewn ynni yn rhoi cyfle i arloesi. Byddem yn cyfuno ein treftadaeth mewn ynni ac mewn mudiadau cydweithredol, gan roi grym i gymunedau. Byddem am weld cymunedau yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dyfodol eu hunain a thros gynhyrchu trydan trwy gynlluniau ynni adnewyddadwy—gweithio o'r gwaelod i fyny, felly.

More autonomy in energy would give us the opportunity to innovate. We would combine our heritage in energy and in the co-operative movement, thereby empowering communities. We would want to see communities taking responsibility for their own futures and for the production of electricity through renewable energy schemes—working from the bottom up.

Yn fy sylwadau cychwynnol, cyfeiriais at y gwaddol a adawyd inni o gael ein hecsbloetio fel cenedl am ein hadnoddau, heb fawr o sylw i'r gost gymdeithasol na dynol. Rwyf i o'r farn y gallai Cymru, hyd yn oed Cymru â mesur o hunanlywodraeth, wynebu'r sefyllfa hon eto. Mae llawer o sylw wedi'i roi i botensial ariannol ffracio, ond mae'n ymddangos i mi y dylem alw am foratoriwm ar bob datblygiad ffracio arfaethedig hyd nes y gellir asesu'n llawn y pryderon gwirioneddol am ddiogelwch ac effaith ar yr amgylchedd.

Datgloi ein potensial fel cenedl yw *raison d'être* Plaid Cymru; yn ein dwylo ni, gallwn sicrhau bod manteision economaidd a chymdeithasol ein hadnoddau naturiol yn cael eu gweld ym mhob rhan o'n gwlad. Wrth wneud hynny, gallwn osod y safonau uchaf oll o ran gwarchod yr amgylchedd.

In my opening remarks, I referred to the legacy that has been left as we have been exploited as a nation for our resources, with little regard to the human or social cost. I believe that Wales, even with a modicum of self-government, could again face such a situation. A lot of attention has been paid to the financial potential of fracking, but it appears to me that we should call for a moratorium on every proposed fracking scheme until a full assessment can be carried out of the real concerns for safety and environmental impact.

Unlocking our potential as a nation is Plaid Cymru's *raison d'être*; in our hands, we could ensure that the economic and social benefits of our natural resources were seen in every part of our country. In doing so, we could set the highest possible environmental protection standards.

17:40

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In starting, I am grateful for the early comments from Alun Ffred with regard to the miners' strike, because we should not forget that some 37% or 38% of our electricity is still produced by burning coal. Of course, that is coal—which we used to produce—that is now, essentially, imported. We still suffer from the consequences of the loss of jobs and skills that went with that to this very day.

There is certainly confusion and uncertainty over energy projects and, alongside planning delays, that has undoubtedly led to a loss of investment and a consequential loss of green jobs in Wales. The lack of adequate devolved responsibility for energy creates further problems. Renewable energy companies have made it clear on numerous occasions to us that what is more important than who has governmental responsibility for energy projects is that the process is transparent, consistent and speedy. Much evidence that was received by the Environment and Sustainability Committee during its recent energy inquiry confirmed this and also made the point that a major concern with regard to delay was at the local authority planning level. I do question whether major renewable energy projects are best dealt with at that level; this is one of the issues to be considered as part of the planning Bill.

I particularly wanted to look at the issue of the current dash for energy, which is the issue of shale gas exploitation, because I think that it raises many of the important issues of ownership and responsibility that are at the heart of this motion and this particular debate. The Crown owns everything below ground, the UK Government licenses mineral exploitation, and our interest, mainly at local level, is planning and environmental considerations. The impact of any shale gas exploitation in Wales would be borne by local communities, whereas the financial benefit would go to the UK Government and to private corporations.

I ddechrau, rwy'n ddiolchgar am y sylwadau cynnar gan Alun Ffred mewn perthynas â streic y glowyr, oherwydd ni ddylem anghofio bod tua 37% neu 38% o'n trydan yn dal i gael ei gynhyrchu drwy losgi glo. Wrth gwrs, mae'r glo hwnnw—yr arferid ei gynhyrchu gennym—bellach, mewn gwirionedd, yn cael ei fewnforio. Rydym yn dal i ddioddef o ganlyniadau colli swyddi a sgiliau a ddiflannodd gyda'r diwydiant hwnnw hyd heddiw.

Yn sicr mae dryswch ac ansicrwydd ynghylch prosiectau ynni ac, ochr yn ochr ag oedi wrth gynllunio, mae hynny yn ddi-os wedi arwain at golli buddsoddiad a cholli swyddi gwyrdd yng Nghymru yn sgil hynny. Mae diffyg cyfrifoldeb datganoledig digonol am ynni yn creu problemau pellach. Mae cwmnïau ynni adnewyddadwy wedi ei gwneud yn glir ar sawl achlysur fod sicrhau bod y broses yn dryloyw, yn gyson ac yn gyflym yn bwysicach na phwy sydd â chyfrifoldeb llywodraethol am brosiectau ynni. Cadarnhawyd hyn gan lawer o dystiolaeth a gafwyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ystod ei ymchwiliad ynni diweddar a nodwyd hefyd fod pryder mawr mewn perthynas ag oedi ar lefel gynllunio awdurdod lleol. Cwestiynaf p'un ai ar y lefel honno y gellid ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy mawr orau; a dyma un o'r materion i'w hystyried fel rhan o'r Bil cynllunio.

Roeddwn am ystyried yn benodol y rhuthr presennol am ynni, sef y mater yn ymwneud â chloddio am nwy siâl, oherwydd credaf ei fod yn codi llawer o'r materion pwysig o ran perchnogaeth a chyfrifoldeb sydd wrth wraidd y cynnig hwn a'r ddatl benodol hon. Y Goron sy'n berchen ar bopeth dan y ddaear, Llywodraeth y DU sy'n trwyddedu gwaith cloddio am fwynau, a'r hyn sy'n bwysig inni, yn bennaf ar lefel leol, yw ystyriaethau cynllunio ac amgylcheddol. Byddai unrhyw waith cloddio am nwy siâl yng Nghymru ar draul cymunedau lleol, tra byddai'r budd ariannol yn mynd i Lywodraeth y DU ac i gorfforaethau preifat.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Shale gas exploitation is undoubtedly controversial. There are those for it, who I think are a minority, and many against, who remain to be convinced of the safety of fracking. Despite inquiries by the Welsh Affairs Committee in Westminster and also by our environment committee, many questions remain unanswered. Issues around the cocktail of chemicals that would be used to extract the gas and the contamination of water, underground and overground, remain. Safety concerns have not been answered with clarity or transparency, increasing the fear and anxiety over this new fuel. I very much appreciate the comments made by Russell George, because I think that he probably shares my views in terms of how this is being pushed. This is probably where I will make some harder points, because it is very clear to me that the major energy moguls and interests, including many within the Conservative Party, who have virtually unlimited Government access, press on with plans—

Mae cloddio am nwy siâl yn ddi-os yn fater dadleuol. Mae rhai sydd o'i blaid, y credaf eu bod yn y lleiafrif, a llawer sy'n ei wrthwynebu, nad ydynt wedi'u hargyhoeddi o hyd am ddiogelwch ffracio. Er gwaethaf ymholiadau gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan a hefyd gan bwyllgor yr amgylchedd, erys llawer o gwestiynau heb eu hateb. Erys materion yn ymwneud â'r cymysgedd o gemegion a ddefnyddid i echdynnu'r nwy a'r posibilrwydd o halogi dŵr, dan y ddaear ac uwchben y ddaear. Nid atebwyd pryderon am ddiogelwch gydag eglurder na thryloywder, gan gynyddu ofn a phryder ynghylch y tanwydd newydd hwn. Gwerthfawrogaf yn fawr iawn y sylwadau a wnaed gan Russell George oherwydd credaf ei fod yn ôl pob tebyg yn rhannu fy marn ynghylch y ffordd y mae hyn yn cael ei wthio. Mae'n debyg mai dyma'r adeg y gwnaf rai pwyntiau caletach, gan ei bod yn amlwg iawn imi fod mawrion y diwydiant ynni a grwpiau â diddordeb, gan gynnwys llawer o fewn y Blaid Geidwadol, sydd â mynediad Llywodraethol diderfyn bron, yn bwrw ymlaen â chynlluniau—

17:43 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on this point? Is it not right that, particularly in relation to shale gas, there is a very specific commitment for local communities to directly benefit, rather than everything going back to the coffers of central Government, as you allege?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwn? Oni ddylai fod ymrwymiad penodol iawn, yn enwedig mewn perthynas â nwy siâl, i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael budd uniongyrchol, yn hytrach na phopeth yn mynd yn ôl i goffrau Llywodraeth ganolog, fel yr ydych yn ei honni?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:43 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that what has happened is that there is a UK Government bribe to local authorities to push it through with a lower tax rate in order to ensure that the Conservative Party's friends in the energy industry can maximise their profits out of the exploitation of this particular energy. There is a lot of money to be made, which may explain the interest in fracking of Lynton Crosby, Conservative Party strategist, who represents major corporate energy interests and also has access to the Tory Government at the highest level. Yet, in Wales, in this process, we have limited decision-making power, but substantial environmental responsibility, and we certainly do not stand to benefit in any way from the extraction of shale gas, even if we were to support it.

Credaf mai'r hyn sydd wedi digwydd yw bod Llywodraeth y DU yn llwgrwobrwyo awdurdodau lleol i wthio hyn drwyddo gyda chyfradd dreth is er mwyn sicrhau y gall cyfeillion y Blaid Geidwadol yn y diwydiant ynni sicrhau'r elw gorau posibl o ddefnyddio'r ynni penodol hwn. Mae llawer o arian i'w wneud, a all egluro diddordeb Lynton Crosby, strategydd y Blaid Geidwadol, sy'n cynrychioli buddiannau ynni corfforaethol mawr ac sydd hefyd â mynediad i'r Llywodraeth Doriaidd ar y lefel uchaf, mewn ffracio. Eto i gyd, yng Nghymru, ychydig iawn o bŵer sydd gennym i wneud penderfyniadau yn y broses hon, ond mae gennym gyfrifoldeb amgylcheddol sylweddol, ac yn sicr ni chawn fudd mewn unrhyw ffordd o waith i echdynnu nwy siâl, hyd yn oed pe byddem yn ei gefnogi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Desperate suggestions by the Prime Minister that fracking could lead to a cut in energy prices were swiftly countered by the Secretary of State for Energy and Climate Change, Ed Davey, who said that, in fact, this was not true. I think that what the fracking issue raises for us is that there is a clear democratic deficit as far as energy production is concerned. With the exception of nuclear, it is essential that further devolution of responsibility for energy takes place. We are committed, as an Assembly, to creating green jobs, to protecting the environment and to reducing carbon emissions. The current devolution arrangement, in the current energy climate, makes no sense whatsoever, and we need the proper tools in order to do the job that has been put upon us with regard to the environment and our communities.

Cafodd awgrymiadau enbyd gan y Prif Weinidog y gallai ffracio arwain at doriadau mewn prisiau ynni eu gwrthddweud yn gyflym gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Ed Davey, a ddywedodd nad oedd hyn yn wir, mewn gwirionedd. Credaf mai'r hyn y mae materion ffracio yn ei ddangos inni yw bod diffyg democrataidd clir mewn perthynas â chynhyrchu ynni. Ac eithrio ynni niwclear, mae'n hanfodol y caiff cyfrifoldeb am ynni ei ddatganoli ymhellach. Rydym yn ymrwymedig, fel Cynulliad, i greu swyddi gwyrdd, i warchod yr amgylchedd ac i leihau allyriadau carbon. Nid yw'r trefniant datganoli cyfredol, yn yr hinsawdd ynni bresennol, yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl, ac mae angen yr offer priodol arnom er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o ran yr amgylchedd a'n cymunedau.

17:45

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is quite clear that our natural resources are hugely valuable. It is often used against us that we are a small nation, but in many ways it can be an advantage. Our low population means that our wealth of resources can not only provide security for our own people, but could also be used to generate revenue for a Welsh treasury. We are already net exporters of electricity—as we have heard—generating almost twice as much as we need, and that is from a relatively low renewables base. As we work to increase that considerably, we owe it to the Welsh people to ensure that they benefit fully from that.

There are not many countries in the world that would be so kind as to give away their resources for free, effectively. This is happening, of course, at a time when individuals and communities across Wales are facing grave difficulties because of the pressure to save money for the public purse. Not only do we give our resources away, but we also act as a port for the rest of the UK's imports, with few benefits to the general population of Wales. Over 30% of the UK's gas imports come through Milford Haven and are then sent through a pipeline to Gloucestershire. For jobs, obviously at Milford Haven, there is great value to that, but if Wales received the same kind of fee as other countries would for this kind of energy transfer task, we would receive some £100 million in transit fees every year. We do not even get cheaper gas. £100 million is a significant figure and would mean significant investment in Welsh health or education.

Mae'n eithaf amlwg bod ein hadnoddau naturiol yn hynod werthfawr. Mae'r ffaith ein bod yn genedl fach yn mynd yn ein herbyn weithiau, ond mewn llawer o ffyrdd gall fod yn fantais. Mae ein poblogaeth isel yn golygu y gall ein cyfoeth o adnoddau, nid yn unig roi sicrwydd i'n pobl ein hunain, ond gellid hefyd eu defnyddio i gynhyrchu refeniw ar gyfer trysorlys yng Nghymru. Rydym eisoes yn allforio trydan net—fel y clywsom—gan gynhyrchu bron ddwywaith mwy nag sydd ei angen arnom, a hynny o sylfaen ynni adnewyddadwy gymharol isel. Wrth inni weithio i gynyddu hynny'n sylweddol, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod pobl Cymru yn cael budd llawn o hynny.

Nid oes llawer o wledydd yn y byd a fyddai mor garedig â rhoi eu hadnoddau i ffwrdd am ddim, mewn gwirionedd. Mae hyn yn digwydd, wrth gwrs, ar adeg pan fo unigolion a chymunedau ledled Cymru yn wynebu anawsterau difrifol oherwydd y pwysau i arbed arian ar gyfer pwrs y wlad. Nid yn unig yr ydym yn rhoi ein hadnoddau i ffwrdd, ond rydym hefyd yn gweithredu fel porthladd i fewnforion gweddill y DU, heb fawr ddim manteision i boblogaeth gyffredinol Cymru. Mae dros 30% o fewnforion nwy y DU yn dod drwy Aberdaugleddau ac yna'n cael eu hanfon drwy biblinell i Swydd Gaerloyw. O ran swyddi, yn amlwg yn Aberdaugleddau, mae gwerth mawr i hynny, ond pe bai Cymru yn cael yr un fath o ffi ag y byddai gwledydd eraill yn ei chael ar gyfer y math hwn o dasg trosglwyddo ynni, byddem yn cael tua £100 miliwn mewn ffioedd cludo bob blwyddyn. Nid ydym hyd yn oed yn cael nwy rhatach. Mae £100 miliwn yn ffigwr sylweddol a byddai'n golygu buddsoddiad sylweddol mewn iechyd neu addysg yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:46

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:46

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:47

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Have you actually looked at the evidence to the Silk commission that says that if there was devolution on this scale, they would not be present in Wales?

A ydych mewn gwirionedd wedi ystyried y dystiolaeth i gomisiwn Silk sy'n dweud pe bai datganoli ar y raddfa hon, ni fyddent yn bresennol yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:47

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not sure what point you are making there, but the point is that we need to look at every way possible to bring in the benefit to Wales of the use of our resources and transfer.

I will go on. We are facing a similar situation with electricity transfer, of course, at the moment. I know that Antoinette Sandbach will agree with me on this, but in the near future 10% of all of the UK's electricity will be generated in, or will pass through, north Wales. Not only should we be able to benefit from that transfer, but we should also be in a position to reject over-ground cabling on pylons. We need to look after Wales's finances as well as look after our interests socially.

Nid wyf yn siŵr pa bwynt rydych yn ceisio ei wneud yma, ond y pwynt yw bod angen inni ystyried pob ffordd bosibl o ddod â budd i Gymru wrth ddefnyddio ein hadnoddau a'u trosglwyddo.

Âf ymlaen. Rydym yn wynebu sefyllfa debyg o ran trosglwyddo trydan, wrth gwrs, ar hyn o bryd. Gwn y bydd Antoinette Sandbach yn cytuno â mi yn hyn o beth, ond yn y dyfodol agos, bydd 10% o holl drydan y DU yn cael ei gynhyrchu yng ngogledd Cymru neu'n pasio drwy ogledd Cymru. Nid yn unig y dylem allu cael budd o'r broses drosglwyddo honno, ond dylem hefyd fod mewn sefyllfa i wrthod ceblau uwchben y ddaear ar beilonau. Mae angen inni ofalu am gyllid Cymru yn ogystal â gofalu am ein buddiannau cymdeithasol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Reports for RenewableUK Cymru, produced by Cardiff Business School and Regeneris Consulting, estimated that existing and planned onshore wind projects could generate £2.3 billion towards GVA. Another report by Cardiff Business School, this time commissioned by the Welsh Government, estimated that if 1 GW of marine energy is developed over the next two decades, it could support a total of £840 million of GVA during construction and installation. We need to be at the vanguard of developing this technology—research and development and manufacturing, these are the things that will bring real long-term wealth to Wales.

I would also like to address the issue of shale gas and the potential value of our shale gas reserves. Plaid Cymru—as Alun Ffred Jones has said—has called for a moratorium on fracking until it is proven to be safe. I think that that is the responsible thing to do. However, with reserves estimated by some to be as much as £70 billion, it is vital that we do everything that we can to stand up for the people of Wales and make sure that Wales truly benefits if the safety case is proven, and if the people of Wales believe that it is in their interests to exploit those reserves.

My colleagues have already mentioned the importance of putting decisions in the hands of the people of Wales, which includes our proposal to set up a national energy company. While taking profits for shareholders out of the equation means lower bills for householders, it also means lower bills for industry. We have spoken recently here about the need to increase inward investment; energy costs is a major factor in investment decisions, especially for energy-intensive industries and manufacturing. Therefore, Plaid Cymru's long-term sustainable solution to lower energy bills will give Wales a competitive edge over other countries when it comes to attracting investment. It will also reduce the operating costs of indigenous businesses, allowing those businesses to free up cash flow. It is vital that we take control of what is undoubtedly one of our country's most valuable assets. I urge Members to back our motion today.

17:50

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to inject a note of reality into today's debate. [Laughter.] Plaid Cymru was in Government with Labour in the last Assembly. The energy network strategy group has been meeting throughout that time. During that time, you had plenty of opportunity to stand up for Wales and to argue that Wales should be treated as a country and that with our west-east lines into England, we should have been treated as a single unit. It is the failure to achieve that that means that people here in Wales pay higher electricity prices.

Amcangyfrifodd adroddiadau ar gyfer RenewableUK Cymru, a gynhyrchwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd a Regeneris Consulting, y gallai prosiectau gwynt ar y tir presennol ac arfaethedig gynhyrchu £2.3 biliwn tuag at GVA. Amcangyfrifodd adroddiad arall gan Ysgol Fusnes Caerdydd, a gomisiynwyd y tro hwn gan Lywodraeth Cymru, pe bai 1 GW o ynni morol yn cael ei ddatblygu dros y ddau ddegawd nesaf, gallai gefnogi cyfanswm o £840 miliwn o GVA yn ystod y gwaith adeiladu a gosod. Mae angen inni fod ar flaen y gad wrth ddatblygu'r dechnoleg hon—ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu, dyma'r pethau a fydd yn dod â chyfoeth hirdymor gwirioneddol i Gymru.

Hoffwn hefyd fynd i'r afael â'r mater yn ymwneud â nwy siâl a gwerth posibl ein cronfeydd nwy siâl. Mae Plaid Cymru—fel y dywedodd Alun Ffred Jones—wedi galw am foratoriwm ar ffracio nes y profir ei fod yn ddiogel. Credaf mai dyna'r peth cyfrifol i'w wneud. Fodd bynnag, gyda chronfeydd wrth gefn y mae rhai yn amcangyfrif eu bod cymaint â £70 biliwn, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth posibl i sefyll dros bobl Cymru a sicrhau bod Cymru yn cael budd gwirioneddol os caiff yr achos o ran diogelwch ei brofi, ac os yw pobl Cymru o'r farn ei bod o fudd iddynt fanteisio ar y cronfeydd hynny.

Mae fy nghyd-Aelodau eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd rhoi penderfyniadau yn nwylo pobl Cymru, sy'n cynnwys ein cynnig i sefydlu cwmni ynni cenedlaethol. Drwy beidio â throsglwyddo elw i gyfranddeiliaid, gellir sicrhau biliau is i ddeiliaid tai, yn ogystal â'r diwydiant. Rydym wedi siarad yma yn ddiweddar am yr angen i gynyddu mewnfuddsoddiad; mae costau ynni yn ffactor pwysig mewn penderfyniadau buddsoddi, yn enwedig i ddiwydiannau a gweithgynhyrchwyr ynni-ddwys. Felly, bydd ateb cynaliadwy hirdymor Plaid Cymru i filiau ynni is yn rhoi mantais gystadleuol i Gymru dros wledydd eraill o ran buddsoddi. Bydd hefyd yn lleihau costau gweithredu busnesau cynhenid, gan ganiatáu i'r busnesau hynny ryddhau llif arian. Mae'n hanfodol ein bod yn cymryd rheolaeth dros un o asedau mwyaf gwerthfawr ein gwlad yn ddi-os. Anogaf Aelodau i gefnogi ein cynnig heddiw.

Hoffwn ychwanegu ychydig o realiti at ddadl heddiw. [Chwerthin.] Roedd Plaid Cymru yn y Llywodraeth gyda'r Blaid Lafur yn y Cynulliad diwethaf. Mae'r grŵp strategaeth rhwydwaith ynni wedi bod yn cyfarfod drwy gydol y cyfnod hwnnw. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cawsom ddiogon o gyfle i sefyll dros Gymru ac i ddadlau y dylai Cymru gael ei thrin fel gwlad ac y dylem, gyda'n llinellau o'r gorllewin i'r dwyrain i mewn i Loegr, fod wedi cael ein trin fel un uned. Methu â chyflawni hynny sydd wedi golygu bod pobl yma yng Nghymru yn talu prisiau trydan uwch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I do not take any lectures from Labour either. In the energy network strategy group meetings, it was decided that a new substation was going to be built in Deeside and that facility is what is preventing the sub-sea cable running from Anglesey into Deeside, because that has been reserved for Scottish wind power. It will be transporting energy generated in Scotland into Deeside. The National Grid ran an undergrounding consultation in 2011 and I would be very interested in seeing Plaid Cymru's submission to that consultation. Mine is online and is available for anybody to see. It is clear that there are issues around security of supply, but what you could have achieved in Government and failed to do have to be looked at. It is very interesting rhetoric, but the reality is this: where were the serious attempts to get Wales treated as a nation when you had an opportunity to deliver that? That is one of the reasons why we have a problem with higher prices.

I agree with William Powell that natural resources are far wider than just energy. If we look at the Welsh Government's management of our other natural resources, such as our forestry estate, you will see a forestry estate that is being decimated by *Phytophthora ramorum*, where statutory plant notices that have been served, requiring the felling and restocking of that estate, are being withdrawn, and where people living in the southern part of Wales are going to see dead and dying forestry for years to come. If that is the kind of sustainable land management that is being delivered, I think that there are very real concerns.

You only have to look at the figures. If you go onto the Ofgem site and look at the figures that are present for renewable energy projects delivered—both when Plaid Cymru was part of the One Wales Government and, indeed, under this Government—you will see that Wales has not been able to deliver in the below 50 MW category, where there is complete devolution of consenting powers to the Government here. The reality is in looking at the report—I think that Mick Antoniw summed it up well—our committee did an inquiry into energy and the developers were not worried about who had the devolved powers, but about the speed of the process. That is what has held us up here, particularly with the smaller projects. You can see that with Natural Resources Wales and, in particular, with hydropower. If you contrast the development of hydro in Wales with the development in Scotland, you will see the impact that the flow-splitting policy has had in Wales in discouraging the development of hydro.

In relation to the common agricultural policy, there was an agreement of all the EU states—every single EU state—to cut the CAP budget. We are a small nation of 3 million people. We do contribute to the UK economy £4.85 billion in taxes, but we should not forget that we get £15 billion back—

Ni chymeraf unrhyw ddarlithoedd gan y Blaid Lafur ychwaith. Yng nghyfarfodydd y grŵp strategaeth rhwydwaith ynni, penderfynwyd y cai is-orsaf newydd ei hadeiladu yng Nglannau Dyfrdwy a'r cyfleuster hwnnw sy'n atal y cebl is-môr rhag rhedeg o Ynys Môn i Lannau Dyfrdwy, gan fod hwnnw wedi'i neilltuo ar gyfer ynni gwynt yr Alban. Bydd yn dudo ynni a gynhyrchir yn yr Alban i Lannau Dyfrdwy. Cynhaliodd y Grid Cenedlaethol ymgynghoriad ar osod ceblau tanddaearol yn 2011 a byddai'n ddiddorol gweld cyflwyniad Plaid Cymru i'r ymgynghoriad hwnnw. Mae fy nghyflwyniad innau ar-lein ac ar gael i unrhyw un ei weld. Mae'n amlwg bod materion yn ymwneud â diogelwch y cyflenwad, ond mae angen ystyried yr hyn y gallech fod wedi ei gyflawni mewn Llywodraeth ac y gwnaethoch fetu â'i gyflawni. Mae'n rhethreg ddiddorol iawn, ond y gwir amdani yw hyn: ble roedd yr ymdrechion difrifol i sicrhau bod Cymru yn cael ei thrin fel cenedl pan gawsoch y cyfle i wneud hynny? Dyna un o'r rhesymau pam bod gennym broblem gyda phrisiau uwch.

Cytunaf â William Powell fod adnoddau naturiol yn llawer ehangach na dim ond ynni. Os ystyriwn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ein hadnoddau naturiol eraill, fel ein hystâd goedwigaeth, fe welwch ystâd goedwigaeth sy'n cael ei hanrheithio gan *Phytophthora ramorum*, lle mae hysbysiadau planhigion statudol a roddwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i gwmpo coed a'u hail-blannu, yn cael eu tynnu'n ôl, a lle y bydd pobl sy'n byw yn rhan ddeheuol Cymru yn gweld coedwigaeth sy'n marw neu sydd wedi marw am flynyddoedd i ddod. Os mai dyna'r math o waith rheoli tir sy'n cael ei wneud, credaf fod pryderon gwirioneddol iawn.

Dim ond edrych ar y ffigurau sy'n rhaid ichi ei wneud. Os ewch ar wefan Ofgem ac edrych ar y ffigurau ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a gyflawnwyd—pan oedd Plaid Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru'n Un ac, yn wir, o dan y Llywodraeth hon—fe welwch nad yw Cymru wedi llwyddo i gyflawni'r nod yn y categori o dan 50 MW, lle mae pwerau caniatáu wedi'u datganoli'n llwyr i'r Llywodraeth yma. Gwelir realiti'r sefyllfa wth edrych ar yr adroddiad—credaf fod Mick Antoniw wedi ei chrynhoi'n dda—cynhaliodd ein pwyllgor ymchwiliad i ynni ac nid oedd y datblygwyr yn poeni dim ynghylch pwy oedd â'r pwerau datganoledig, ond yn hytrach ynghylch cyflymder y broses. Dyna beth sydd wedi ein rhwystro yma, yn enwedig o ran y prosiectau llai. Gallwch weld hynny yn achos Cyfoeth Naturiol Cymru ac, yn benodol, yn achos ynni dŵr. Wrth gymharu datblygiadau ynni dŵr yng Nghymru gyda'r datblygiadau yn yr Alban, fe welwch yr effaith y mae'r polisi hollti llif wedi ei chael yng Nghymru o ran atal pobl rhag datblygu ynni dŵr.

O ran y polisi amaethyddol cyffredin, cafwyd cytundeb ymhlith holl wladwriaethau'r UE—pob un wladwriaeth yn yr UE—i dorri cyllideb y PAC. Rydym yn genedl fach o 3 miliwn o bobl. Rydym yn cyfrannu £4.85 biliwn mewn trethi at economi'r DU, ond ni ddylem anghofio ein bod yn cael £15 biliwn yn ôl—

17:55

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your time is up.

Mae eich amser ar ben.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:55	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	[Continues.]—plus £9 billion in welfare payments. It is like the position—	[Parhau.] —yn ogystal â £9 biliwn mewn taliadau lles. Mae'n debyg i sefyllfa'r—	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Your time is up.	Mae eich amser ar ben.	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	[Continues.]—with BP in Scotland: there are times and there are some strategic energy—	[Parhau.] —BP yn yr Alban: mae adegau ac mae rhai materion yn ymwneud ag ynni strategol	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Your time is up.	Mae eich amser ar ben.	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	[Continues.]—issues that need to be looked at in the round and that is the—	[Parhau.] —y mae angen eu hystyried yn y cylch nesaf, a dyna—	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call Dafydd Elis-Thomas.	Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas.	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography	Fonesig Lywydd, mae'n rhyfedd ein bod yn cynnal dadl ar adnoddau naturiol ac nad yw hi eto wedi canolbwyntio ar natur. Felly, fe bwysleisïaf yn y sylwadau byr sydd gennyf bwysigrwydd drafod adnoddau naturiol o safbwynt economaidd ac yn arbennig o safbwynt natur ac ecosystemau. Fe sylweddol, tua chanol a diwedd y degawd diwethaf, ein bod yn trafylncu adnoddau'r byd ac ein bod yn difetha bioamrywiaeth ac yn dinistrio ecosystemau ar raddfa nad oedd yn gynaliadwy. Eto, rydym wedi methu a gweithio i ddarganfod yr offerynnau economaidd i ddelio â hynny. Dyna'r neges y dylem ganolbwyntio arni heddiw.	Dame Presiding Officer, it is strange that we are holding a debate on natural resources that has not yet focused on nature. So, I will emphasise in the few minutes that I have the importance of discussing natural resources from an economic point of view and especially from the point of view of nature and ecosystems. We realised, towards the middle and the end of the last decade, that we are consuming world resources and that we are destroying biodiversity and ecosystems at an unsustainable rate. Yet, we have failed to work to find the economic tools to deal with that. That is the message that we should be concentrating on today.	Senedd.tv Fideo Video
		Mae'n rhaid i genhedloedd yn gyffredinol a sefydliadau rannu'r arferion gorau sydd gennym yn rhyngwladol er mwyn delio â'r sefyllfa hon, gan sicrhau nad ydym yn colli'r cyfle i atal y dinistr mewn bioamrywiaeth y methon ni a gwneud yn 2010 cyn cyrraedd 2020.	Nations generally and institutions must share the best practice that we have internationally, in order to deal with this situation, ensuring that we do not miss the opportunity to stop the destruction of biodiversity that we failed to do in 2010 before getting to 2020.	
		Yn y Deyrnas Unedig, fe gawson ni waith manwl ar asesiadau ecosystemau cenedlaethol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyfrannu tuag at hynny. Mi fyddwn yn defnyddio peth o'r gwaith hwnnw yng ngwaith y pwyllgor wrth inni edrych ar ein hastudiaeth allweddol ynglŷn â rheoli tir yn gynaliadwy. Wrth inni edrych ar wir werth economaidd biosystemau a'n hamgylchedd naturiol, mi welwn yn yr adroddiad hwnnw ar werth adnoddau naturiol Cymru, yn ôl maint ein poblogaeth ac yn ôl swm ein hadnoddau, bod cyfraniad o £6 biliwn i economi Cymru allan o'r amgylchedd naturiol; bod un swydd ym mhob chwech yn uniongyrchol yn dibynnu ar yr amgylchedd hwnnw; bod gwariant o dros £800 miliwn ar dwristiaeth sy'n rhan o hynny; a bod 15% o'r nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yng Nghymru yn dibynnu yn llwyr ar fodolaeth yr ecosystemau.	In the United Kingdom, we have had detailed work on national ecosystem assessments, and the Welsh Government has been contributing to that. We will be using some of that work in the committee as we look at our key inquiry into sustainable land management. In looking at the true economic value of biosystems and our natural environment, we see in that report on the value of Wales's natural resources, according to our size of population and the quantum of our resources, that there is a contribution of £6 billion to the Welsh economy from the natural environment; that one in six Welsh jobs is directly dependent on that environment; that expenditure of more than £800 million on tourism is a part of that; and that 15% of the goods and services produced in Wales are totally dependent on the existence of the ecosystems.	

Mae gennym ni bellach gorff o'r enw adnoddau naturiol Cymru, ac mae'n bwysig bod y corff hwn yn gweithio yn galed ar y dull o werthuso ecosystemau Cymru fel ein bod yn gallu talu yn iawn i'r bobl sy'n byw ar y tir, ac yn gofalu am y tir, ac yn gofalu am yr ecosystemau hynny. Mae hyn yn cysylltu yn uniongyrchol â'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd gyda gorlifo o'r môr ac ar y tir. Dyma'r hyn yr wyf yn gofyn amdano yn benodol gan y Gweinidog y prynhawn yma: adnewid y byddwn yn mabwysiadu dull ecosystemau cadarn gyda golwg hirdymor i ddatrys problem effaith peryglon llifogydd o'r môr ac ar dir ar dirwedd Cymru, oherwydd mae pob astudiaeth yn dangos bod modd defnyddio dulliau naturiol sydd yn fwy cost-effeithiol yn y tymor hir—a gan 'tymor hir' rwy'n golygu 20 mlynedd, 30 mlynedd, 50 mlynedd—fel y gallwn sicrhau bod arfordir yng Ngheredigion at y dyfodol, ac y bydd cwrs golff yn Harlech, ac y bydd y deuddegfed 'green' wedi ei hadfer—wel, rwy'n gobeithio y bydd wedi ei hadfer cyn hynny.

Yn sicr, mae'n rhaid inni edrych ar yr effeithiau hyn yn y ffordd ymarferol hon. Mae'r heriadau sy'n dod ger ein bron yn allweddol. Y peth pwysicaf, efallai, yw bod yn rhaid inni ddechrau meddwl yn yr hirdymor a siarad yn yr hirdymor, oherwydd os ydym yn edrych yn unig ar y math o ddadleuon gwleidyddol braidd yn fyrdymor yr ydym wedi eu clywed y prynhawn yma, nid ydym yn mynd i ddatrys y sefyllfa. Mae'n rhaid inni hefyd ddysgu i edrych yn rhyngwladol.

Tra fy mod yn siarad, os gwelwch yn dda, ewch ar safle'r we www.teebweb.org ac mi welwch yr hyn yr wyf yn siarad amdano. Mae'n bwysig ein bod ni, fel Cymry, yn cymryd rhan, fel Aelodau Cynulliad ac fel Llywodraeth, yn y broses o economeg ecosystemau a bioamrywiaeth, sy'n cynnwys banc gwybodaeth rhyngwladol yn y meysydd hyn. Yn y fan honno y dylwn fod yn dadlau; yn y fan honno y dylwn fod yn meddwl. Rhan o'n dyletswydd ni, fel gwleidyddion, ydy peidio â defnyddio geiriau cymhleth fel 'ecosystemau', ond esbonio i bobl yn syml beth mae'n ei olygu. Fe wnaf roi enghraifft i chi yn sydyn iawn: 'ecosystemau' ydy cymydog i fi—bachgen ifanc—sy'n cau'r ffosydd a agorwyd gan ei daid er mwyn i'r fawnog weithredu i gasglu dŵr.

We now have a body called Natural Resources Wales, and it is important that this body works hard on its method of evaluating the ecosystems of Wales so that we can properly pay the people living on the land, caring for the land, and caring for those ecosystems. That links directly to the situation that we find ourselves in now with flooding in coastal areas and on the land. This is what I am asking for specifically from the Minister this afternoon: a pledge that we will adopt a firm ecosystemic method with a long-term view to resolve the problem of the impact of the dangers of flooding in coastal areas and on the land on Wales's landscape, because every study demonstrates that it is possible to use natural methods that are more cost-effective in the long term—when I say 'long term' I mean 20, 30, 50 years hence—so that we can ensure that there is a coastline in Ceredigion for the future, and that there will be a golf course in Harlech, and that the twelfth green will be renewed—well, I hope that it will be renewed before then.

Certainly, we must look at these impacts in this practical way. The challenges that are before us are key. The most important thing perhaps is that we must start thinking in the long term and talking long term, because if we are looking solely at the kinds of rather short-term political arguments that we have heard this afternoon, we are not going to resolve the situation. We must also learn to look internationally.

While I am speaking, please go to the website www.teebweb.org and you will see what I am talking about. It is important that we participate as Welsh people, as Assembly Members and as a Government, in the process of ecosystem and biodiversity economics, which includes an international knowledge bank in these fields. That is where we should be debating; that is where we should be thinking. It is part of our duty, as politicians, not to use complex words such as 'ecosystems' but to explain to people simply what it means. I will give you a very quick example: 'ecosystems' is a neighbour of mine—a young man—closing the ditches that were opened up by his grandfather so that the peat bog can collect water.

- | | | | |
|-------|---|--|--|
| 18:00 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
That was very interesting, that last piece; thank you. [Laughter.] | Roedd hynny'n ddiddorol iawn, y darn olaf hwnnw; diolch ichi. [Chwerthin.] | Senedd.tv
Fideo Video |
| 18:00 | Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography
I thought that you might like that. | Roeddwn yn meddwl y byddech yn hoffi hynny. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 18:00 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
I call on the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies, to speak on behalf of the Government. | Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, i siarad ar ran y Llywodraeth. | Senedd.tv
Fideo Video |

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Thank you very much, and amen to that; I agree completely with the contribution made by Dafydd Elis-Thomas to the debate. I think that it sat well with the introduction to the debate from Llyr Gruffydd, because, if we are to achieve the ambitions that we have for Wales, we need to think about our natural resources not as a commodity to be used today and disposed of tomorrow, but focus on the sustainability of our natural resources and ensure that we leave a heritage for future generations of which we can be proud. I will say to Dafydd Elis-Thomas, taking up the challenge that he made in his contribution, that the future generations Bill and the environment Bill will transfer these ambitions from the speeches of Ministers to the statute book that will guide the decisions of future Governments and public bodies across the whole of Wales. So, we will have the opportunity here not simply to make speeches and issue press releases, but to enact in statute our ambitions for the future.

We believe that the sustainable use of our natural resources is essential not only to our success in economic terms, but also to the wellbeing of our community and society. It is paramount that we manage our natural resources with care, with that focus on the long term. I will say right at the beginning of my contribution this afternoon that the Government will be supporting the original motion in this debate. We will also be supporting both of the Liberal Democrat amendments to the motion, if only because of the sheer pleasure that we experienced on all sides of the Chamber in hearing the Liberal Democrats say that they are not simply talking about short-term political gain. [Laughter.] If we have learned anything this afternoon, I think that we will all enjoy that.

We cannot support the amendments tabled by the Conservatives. The lack of ambition is striking; it is shocking, in fact. I will let Members into a secret of mine this afternoon: I actually quite like Russell George. [Laughter.] I have to say, Russell, that, while that might be the death knell of your political career and perhaps mine, you are far better when you are speaking up for the people of Montgomeryshire than when making excuses for the UK Government. Let me say this: the Conservative party has joined, in the past, a consensus on all sides of the Chamber about the future structures and powers of this place. I think that it is a tragedy for all of us that you are unable to escape the straitjacket of the Secretary of State. I hope that you will take time to reflect on the views that you have expressed this week and last week, and allow your thinking to develop a little further in a happier direction in future.

We reject the Conservative amendments on various matters that they have tried to debate here this afternoon, in terms of planning and in terms of some energy developments in amendment 5. Much of the ambitions or the demands that you make there have actually already been delivered. In terms of community benefits, that is a matter that we discussed last week, I think. Certainly, the declaration of community benefits from onshore wind and the forthcoming register of community and economic benefits will demonstrate the reality of that.

Diolch yn fawr iawn, ac amen i hynny; cytunaf yn llwyr â chyfraniad Dafydd Elis-Thomas at y ddadl. Credaf ei fod yn cyd-fynd yn dda â chyflwyniad Llyr Gruffydd i'r ddadl, oherwydd, er mwyn inni gyflawni ein huchelgeisiau i Gymru, mae angen inni ystyried ein hadnoddau naturiol, nid fel nwyddau i'w defnyddio heddiw a'u gwaredu yfory, ond yn hytrach ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ein hadnoddau naturiol a sicrhau ein bod yn gadael treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol y gallwn ymfalchïo ynddi. Dywedaf wrth Dafydd Elis-Thomas, gan ymateb i'r her a wnaeth yn ei gyfraniad, y bydd Bil cenedlaethau'r dyfodol a Bil yr amgylchedd yn trosglwyddo'r uchelgeisiau hyn o areithiau Gweinidogion i'r llyfr statud a fydd yn llywio penderfyniadau Llywodraethau a chyrrff cyhoeddus ledled Cymru gyfan yn y dyfodol. Felly, cawn y cyfle yma nid yn unig i wneud areithiau a chyhoeddi datganiadau i'r wasg, ond i ddatgan mewn statud ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Credwn fod gwneud defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol yn hanfodol, nid yn unig i'n llwyddiant economaidd, ond hefyd i les ein cymuned a'n cymdeithas. Mae'n hollbwysig ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn ofalus, gan ganolbwyntio ar yr hirdymor. Dywedaf ar ddechrau fy nghyfraniad y prynhawn yma y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig gwreiddiol yn y ddadl hon. Byddwn hefyd yn cefnogi dau welliant y Democratiaid Rhyddfrydol i'r cynnig, pe bai ond oherwydd y pleser llwyr a gawsom ar bob ochr i'r Siambr wrth glywed y Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud nad ydynt ond yn sôn am fantais wleidyddol byrdymor. [Chwerthin.] Os ydym wedi dysgu unrhyw beth y prynhawn yma, credaf y byddwn i gyd yn mwynhau hynny.

Ni allwn gefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr. Mae'r diffyg uchelgais yn drawiadol; mae'n frawychus, mewn gwirionedd. Byddaf yn datgelu cyfrinach i Aelodau y prynhawn yma: rwy'n eithaf hoffi Russell George mewn gwirionedd. [Chwerthin.] Rhaid imi ddweud, Russell, er y gallai hynny fod yn hoelen yn arch eich gyrfa wleidyddol chi ac o bosibl fy ngyrfa wleidyddol innau, rydych yn llawer gwell pan rydych yn siarad ar ran pobl Sir Drefaldwyn yn hytrach nac yn gwneud esgusodion dros Lywodraeth y DU. Gadewch imi ddweud hyn: mae'r blaidd Geidwadol wedi ymuno, yn y gorffennol, â chonsensus ar bob ochr i'r Siambr ynghylch strwythurau a phwerau'r lle hwn yn y dyfodol. Credaf ei bod yn drasiedi inni i gyd na allwch ddianc rhag caethiwed yr Ysgrifennydd Gwladol. Gobeithiaf y byddwch yn cymryd amser i fyfyrïo ar y safbwyntiau a fynegwyd yr wythnos hon a'r wythnos diwethaf, ac yn caniatáu i'ch ffordd o feddwl ddatblygu ychydig ymhellach i gyfeiriad hapusach yn y dyfodol.

Gwrthodwn welliannau'r Ceidwadwyr ar faterion amrywiol y maent wedi ceisio eu dadlau yma y prynhawn yma, o ran cynllunio ac o ran rhai datblygiadau ynni yng ngwelliant 5. Mae llawer o'r uchelgeisiau neu'r gofynion a wnewch yma eisoes wedi'u cyflawni neu eu bodloni mewn gwirionedd. O ran buddiannau cymunedol, mae hynny'n fater a drafodwyd gennym yr wythnos diwethaf, credaf. Yn sicr, bydd y datganiad o fuddiannau cymunedol ynni gwynt ar y tir a'r gofrestr o fuddiannau cymunedol ac economaidd sydd ar y gweill yn dangos realiti hynny.

I also have to say that, on water boundaries, we have, via the Silk commission, requested the removal of the Secretary of State's unilateral intervention power, which is wholly inappropriate, and we wish to see it removed immediately. We have also sought the full devolution of all matters regarding water and sewerage, including the licensing, appointment and regulation of water-and-sewerage undertakers.

On the final amendments from the Conservative party, I will say this to them: you have the opportunity most Wednesdays, or every Wednesday, to table a debate on agriculture, and you have not sought to do that and have not taken up that opportunity. So, it seems somewhat bizarre to attempt to amend this motion this afternoon on matters that you simply do not regard as important enough to warrant a debate in your own time.

In terms of energy consents, Members will be aware that we, as a Government, will continue to present and argue the case for the devolution of executive functions regarding the consenting of large-scale energy generation and related infrastructure. I enjoyed the contribution from Alun Ffred Jones. I will say, Alun, that the reason we do not establish targets for some of these matters is not because of a lack of ambition; it is a fact that we do not have the powers to deliver on those targets. It would be an entirely sterile act to establish targets that we do not have the powers to deliver. If we had the powers, we would have the targets, and I certainly give you that assurance this afternoon.

We have had a good debate and a long discussion on the need to focus on renewable energy generation. I believe that excellent work has been achieved, and is being achieved, on small-scale community-based schemes that will create a new network of distributed energy generation. I agree with people who have said that this is an important part of our future energy mix. The Ynni'r Fro scheme has been successful in supporting 99 projects. It is true that we have had lessons to learn from Ynni'r Fro, but that is what happens when you pioneer new ways of working. You cannot on the one hand say, 'We want a new way of working and we want to pioneer an entirely new way of developing distributed generation' and then say, 'There are no lessons to learn' two years after you have started that. Of course there will be lessons to be learned. The key thing is that we learn those lessons and that we move forward with a renewed commitment to distributed community-scale generation in the future.

Simon Thomas has left the Chamber, but I recognise the points that have been made about the permitting and consenting processes available to us. Members will be aware that I have made that a key part of my relationship with NRW and a test for NRW, if you like, that it is able to respond more quickly and more generously to community-based schemes to see that we can deliver on our ambitions for energy generation in the future. I hope to see a significant programme, based on the successes of Ynni'r Fro, taking us forward into the future.

Rhaid imi hefyd ddweud, o ran ffiniau dŵr, ein bod, drwy gomisiwn Silk, wedi gwneud cais i ddiddymu pŵer ymyrryd uochrog yr Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gwbl amhriodol, a dymunwn ei weld yn cael ei ddiddymu ar unwaith. Rydym hefyd wedi ceisio datganoli'r holl faterion sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth yn llwyr, gan gynnwys trwyddedu, penodi a rheoleiddio ymgymerywr dŵr a charthffosiaeth.

O ran y gwelliannau terfynol gan y blaid Geidwadol, dywedaf hyn wrthynt: cewch y cyfle bron bob dydd Mercher, neu bob dydd Mercher, i gyflwyno dadl ar amaethyddiaeth, ac nid ydych wedi ceisio gwneud hynny ac nid ydych wedi manteisio ar y cyfle hwnnw. Felly, ymddengys braidd yn rhyfedd eich bod yn ceisio newid y cynnig hwn y prynhawn yma ar faterion nad ydych yn eu hystyried yn ddigon pwysig i warantu dadl yn eich amser eich hun.

O ran cydsyniadau ynni, bydd Aelodau yn ymwybodol y byddwn ni, fel Llywodraeth, yn parhau i gyflwyno a dadlau'r achos dros ddatganoli swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â chaniatáu gwaith cynhyrchu ynni ar raddfa fawr a seilwaith cysylltiedig. Mwynheais gyfraniad Alun Ffred Jones. Byddaf yn dweud, Alun, nad diffyg uchelgais yw'r rheswm pam nad ydym yn pennu targedau ar gyfer rhai o'r materion hyn; mae'n ffaith nad oes gennym y pwerau i gyflawni'r targedau hynny. Byddai'n gwbl ofer pennu targedau nad oes gennym y pwerau i'w cyflawni. Pe bai gennym y pwerau, byddai gennym y targedau, ac rwy'n sicr yn rhoi'r sicrwydd hynny ichi y prynhawn yma.

Rydym wedi cael dadl dda a thrafodaeth hir ar yr angen i ganolbwyntio ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Credaf fod gwaith ardderchog wedi ei wneud, ac yn cael ei wneud, mewn perthynas â chynlluniau cymunedol ar raddfa fach a fydd yn creu rhwydwaith newydd o brosiectau cynhyrchu ynni gwasgaredig. Cytunaf â'r bobl sydd wedi dweud bod hyn yn rhan bwysig o'n cymysgedd ynni ar gyfer y dyfodol. Mae cynllun Ynni'r Fro wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi 99 o brosiectau. Mae'n wir bod gwersi i'w dysgu o Ynni'r Fro, ond dyna sy'n digwydd pan fyddwch yn arloesi ffyrdd newydd o weithio. Ni allwch ar y naill law ddweud, 'Rydym am gael ffordd newydd o weithio ac rydym am arloesi ffordd gwbl newydd o ddatblygu prosiectau cynhyrchu gwasgaredig' ac yna dweud, 'Nid oes unrhyw wersi i'w dysgu' ddwy flynedd ar ôl ichi ddechrau hynny. Wrth gwrs bydd gwersi i'w dysgu. Y peth allweddol yw ein bod yn dysgu'r gwersi hynny ac yn symud ymlaen gydag ymrwymiad o'r newydd i gynlluniau cynhyrchu gwasgaredig cymunedol yn y dyfodol.

Mae Simon Thomas wedi gadael y Siambr, ond cydnabyddaf y pwyntiau a wnaed am y prosesau caniatáu a chydysnio sydd ar gael inni. Bydd Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi gwneud hynny'n rhan allweddol o'm cydberthynas â Cyfoeth Naturiol Cymru a phrawf, os dymunwch, o allu Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb yn gyflymach ac yn fwy hael i gynlluniau cymunedol er mwyn gweld ei bod yn bosibl inni gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer cynhyrchu ynni yn y dyfodol. Gobeithiaf weld rhaglen sylweddol, yn seiliedig ar lwyddiannau Ynni'r Fro, yn cael ei datblygu ar gyfer y dyfodol.

Through the sustainable use of our natural resources, we have a potential to drive growth and exploit new markets, to increase efficiency and improve the resilience, safety and the prosperity of our communities, our economy and our environment. Further control over our natural resources will help us to realise more easily the potential that we all have to create a prosperous and resilient future for Wales. We will use the legislative powers available to us, and the powers available to us in terms of our ambitions and the European programmes, to deliver on an energy policy and a policy of managing our natural resources sustainably for the future that will deliver for future generations the prosperity and also the sustainability that they deserve and demand and that we have a responsibility to deliver.

Drwy wneud defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol, mae gennym botensial i lywio twf a manteisio ar farchnadoedd newydd, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a gwella gwydnwch, diogelwch a ffyniant ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd. Bydd rheolaeth bellach dros ein hadnoddau naturiol yn ein helpu i wireddu'n haws y potensial sydd gan bob un ohonom i greu dyfodol ffyniannus a gwydn i Gymru. Byddwn yn defnyddio'r pwerau deddfwriaethol sydd ar gael inni, a'r pwerau sydd ar gael inni o ran ein huchelgeisiau a'r rhaglenni Ewropeaidd, i gyflawni polisi ynni a pholisi o reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol a fydd yn sicrhau'r ffyniant a'r cynaliadwyedd y mae cenedlaethau'r dyfodol yn eu haeddu ac yn eu disgwyl ac y mae gennym gyfrifoldeb i'w cyflawni.

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Llyr Gruffydd to reply to the debate.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl. Byddaf yn mynd drwy lle rydym ni'n sefyll ar rai o'r gwelliannau hyn. Ni fydd hi'n syndod i'r Ceidwadwyr na fydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant 1. Nid yw cydnabod potensial yn werth unrhyw beth heb fedru gwneud rhywbeth i wireddu'r potensial hwnnw, a dyna'r broblem yn ei hanfod, o safbwynt diffyg datganioli yn y maes hwn.

I thank everyone for their contributions to the debate. I will just run through where we stand on some of these amendments. It will not surprise the Conservatives that Plaid Cymru will not support amendment 1. Recognising potential is of no value at all unless you are able to do something to realise that potential, and that is the problem in a nutshell, in terms of a lack of devolution in this area.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddwn ni'n cefnogi gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts, ac mae fy nghyd-Aelodau eisoes wedi egluro ein safbwynt ni ar ynni cymunedol. Rydym yn erbyn gwelliant 4, oherwydd nid mater o allu unigolion yw hynny, ond mater cyfansoddiadol. Mater o ddemocratiaeth yw ethol pobl. Os nad yw poblogaeth Blaenau Gwent yn teimlo nad yw eu Haelod yn ddigon galluog i fod yn Weinidog, gallant wneud rhywbeth am hynny yn 2016. Nid mater i chi gywiro'r peth mewn gwelliant ydyw, os ydych yn gofyn i fi.

We will support amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and my fellow Members have already explained our views on community energy. We will oppose amendment 4, because it is not an issue of individuals' ability, but a constitutional issue. Electing people is an issue for democracy. If people in Blaenau Gwent feel that their Member is not sufficiently able to be a Minister, then they can do something about that in 2016. It is not something for you to correct in an amendment, if you ask me.

O ran gwelliant 5, rydym yn cyd-fynd â llawer o'r hyn sydd wedi cael ei ddweud a byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau 7, 8, 9 a 10 yn enw William Graham. Mae'r system gynllunio yn amlwg angen ei diwygio, fel yr ydym wedi clywed ers rhai blynyddoedd erbyn hyn yn y pwyllgor amgylchedd ac, wrth gwrs, mae'r Bil cynllunio yn yr arfaeth, ac edrychwn ymlaen at chwarae rhan lawn yn y drafodaeth ynglŷn â hynny.

With regard to amendment 5, we agree with much of what has been said and we will support that amendment. We also support amendments 7, 8, 9 and 10 in the name of William Graham. The planning system obviously needs to be reformed, as we have heard over a number of years now in the environment committee and, of course, the planning Bill is in the pipeline, and we look forward to playing a full part in the discussion on that.

I will not pick up on all of the contributions that have been made and I certainly will not repeat some of the points that have been made, but I would agree with the Minister that the Welsh Conservatives really do need to release themselves from the straitjacket—as he described it—of the Secretary of State for Wales. However, I would also remind the Minister that he needs to release himself from the straitjacket of Labour MPs at Westminster. Wales is a nation, as we have heard many times over the last hour or so, that is rich in electricity, but we pay more for our own electricity. The Minister and the Labour Government here tell us that they want it to be devolved, but Labour MPs in Westminster voted against devolving energy. What a statement of intent and what a vote of confidence that they would rather that the Tories and the Lib Dems in Westminster retained control of our energy than pass it to their own party here in Cardiff.

Ni chyfeiriaf at yr holl gyfraniadau a wnaed ac yn sicr ni fyddaf yn ailadrodd rhai o'r pwyntiau a wnaed, ond byddwn yn cytuno â'r Gweinidog bod gwir angen i'r Ceidwadwyr Cymreig ryddhau eu hunain o gaethiwed—fel y'i disgrifiwyd—Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn atgoffa'r Gweinidog bod angen iddo ryddhau ei hun o gaethiwed ASau Llafur yn San Steffan. Mae Cymru yn genedl, fel y clywsom sawl gwaith dros yr awr neu ddwy ddiwethaf, sydd â llawer iawn o drydan, ond rydym yn talu mwy am ein trydan ein hunain. Dywed y Gweinidog a'r Llywodraeth Lafur yma wrthym eu bod am iddo gael ei ddatganioli, ond pleidleisiodd ASau Llafur yn San Steffan yn erbyn datganioli ynni. Dyna ddatganiad o friad a phleidlais o hyder y byddai'n well ganddynt i'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan gadw rheolaeth dros ein hynni na'i throsglwyddo i'w plaid eu hunain yma yng Nghaerdydd.

We are rich in water, yet we pay more for our water than others do. The Labour Minister tells us that the Welsh Government wants water to be devolved, but Labour MPs in Westminster voted against that opportunity very recently. We are rich, as we know, in food, but, then again, many of our people suffer from food poverty and depend on food banks. The Labour Government tells us here, of course, that it is disgraceful that the Westminster Government went to Brussels with the intention of reducing the CAP budget, but we know that Labour MPs' record on that is very much the same. So, who do we believe? How much influence, really, does the First Minister have within his own party on a UK level? Well, maybe we will find out when the UK Labour Party publishes its manifesto for the 2015 Westminster election.

Mae gennym lawer iawn o ddŵr, ond rydym yn talu mwy am ein dŵr ein hunain nag y mae eraill yn ei wneud. Dywed y Gweinidog Llafur wrthym fod Llywodraeth Cymru am i ddŵr gael ei ddatganoli, ond pleidleisiodd ASau Llafur yn San Steffan yn erbyn y cyfle hwnnw yn ddiweddar iawn. Mae gennym lawer iawn o fwyd, fel y gwyddoch, ond, unwaith eto, mae llawer o'n pobl yn dioddef o dlodi bwyd ac yn dibynnu ar fanciau bwyd. Dywed y Llywodraeth Llafur wrthym yma, wrth gwrs, ei bod yn warthus bod Llywodraeth San Steffan wedi mynd i Frwsel gyda'r bwriad o leihau cyllideb y PAC, ond gwyddom fod gan ASau Llafur hanes tebyg iawn o ran hynny. Felly, pwy rydym yn ei gredu? Faint o ddylanwad, mewn gwirionedd, sydd gan y Prif Weinidog o fewn ei blaid ei hun ar lefel y DU? Wel, efallai y cawn wybod pan fydd Plaid Lafur y DU yn cyhoeddi ei manifestio ar gyfer etholiad 2015 San Steffan.

Mae'n hen bryd inni gael y pwerau yng Nghymru i reoli ein hadnoddau naturiol er budd pobl Cymru—dyna pam rydym eisiau cael y pwerau hynny. Byddwn yn falch iawn pe byddem yn cael y pwerau hynny, oherwydd, o'r hyn rydym yn ei glywed fan hyn, byddai modd inni wneud defnydd iawn ohonynt. Fodd bynnag, tan inni weld symud ar lefel y Deyrnas Unedig, aros byddwn. Gallaf bwyntio bys at y Ceidwadwyr—ac rwy'n gwneud hynny yn awr—ond mae angen inni bwyntio bys at y Blaid Lafur hefyd, oherwydd heb ymrwymiad gan y Blaid Lafur, bydd y dasg llawer mwy anodd.

It is about time that we had the powers in Wales to manage our own natural resources for the benefit of the people of Wales—that is why we want those powers to be devolved. I would be very pleased if we had those powers, because, from what we hear here, we could make full use of them. However, until we see movement at a UK level, we will be waiting. I could point the finger at the Conservatives—and I am doing that now—but we also need to point the finger at the Labour Party, because without a commitment from the Labour Party, the task will be far more difficult.

18:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb welliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It has been agreed that voting time will take place before the short debate, and we are now at that point.

Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn y ddadl fer, ac rydym bellach wedi cyrraedd y pwynt hwnnw.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnisio NNDM5427](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 4, Ymatal 3.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnisio NDM5421](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnisio NDM5422](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 32, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Voting Time

[Result of the vote on motion NNDM5427](#)

Motion agreed: For 41, Against 4, Abstain 3.

[Result of the vote on motion NDM5421](#)

Motion agreed: For 37, Against 11, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5422](#)

Motion agreed: For 32, Against 16, Abstain 0.

18:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the short debate. If you are leaving the Chamber, could you please leave quickly and quietly?

Symudwn yn awr at y ddadl fer. Os ydych yn gadael y Siambur, a fydddech cystal â gadael yn gyflym ac yn dawel?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dadl Fer: Pobl Hŷn, Twyll a Throseddau ar Garreg y Drws

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have received requests from my co-conspirator Ann Jones, the inimitable Mike Hedges, fellow north Walian Aled Roberts, the fashionable Lindsay Whittle and the benevolent Mark Isherwood to participate in this debate, and I have agreed to give them each a minute of my time.

Every year in Wales, thousands of consumers fall victim to scams. Many of these are sent by post, e-mail, text message, the telephone or the internet. It is estimated that bogus lotteries, deceptive prize draws and sweepstakes, fake psychics and miracle health cures cost the British public more than £3.5 billion per year.

Around 50% of the population receives some form of scam through the post, e-mail or telephone on an annual basis. The truth is that anyone can fall victim to a scam, but it is the elderly who are often hit the hardest. It has been reported that older victims are likely to lose nearly twice as much per scam as other people. Victims are often socially isolated, over-trusting or afflicted by illnesses such as dementia.

Once they have fallen victim, some will be added to so-called 'suckers lists' and their details passed on to more criminals, so that they can be repeatedly targeted by scammers. Age Cymru has known of cases of individuals on such lists receiving up to 70 letters per day in Cardiff. Evidence suggests that older victims of reported scams lose an average of £1,200 each, but some, of course, have lost much more, with many losing their life savings, suffering depression and ill health as a result.

There is some hope in respect of postal scams. The Royal Mail is working closely with Operation Sterling, which seeks to intercept scam mail from outside of the UK and prevent it from hitting doormats. However, more needs to be done to prevent UK-based scam mail from hitting doormats too, which is why I have been a big supporter of the calls from Age Cymru for Royal Mail to stop delivering mail with financial inducements on the outside of envelopes and help to identify victims.

In terms of telephone scams, I am very encouraged that my good friend Alun Cairns MP has been afforded an opportunity to make progress with a Bill in the UK Parliament to address nuisance telephone calls. Many scammers can use nuisance telephone calls to badger older people and cheat them out of their money with bogus investment opportunities, fake payment protection insurance recovery offers and the like. Simple changes such as caller display of incoming numbers being standard and the banning of computer-generated calls, which result in disconcerting silence to the listener, would also help.

Short Debate: Older People, Scams and Doorstep Crime

Rwyf wedi cael ceisiadau gan fy nghydgynllwynydd Ann Jones, yr unigryw Mike Hedges, fy nghyd-ogledwr Aled Roberts, y ffasiynol Lindsay Whittle a'r rhadlon Mark Isherwood i gymryd rhan yn y ddadl hon, ac rwyf wedi cytuno i roi munud o'm hamser i bob un ohonynt.

Bob blwyddyn yng Nghymru, caiff miloedd o ddefnyddwyr eu twyllo gan sgamiau. Caiff llawer o'r rhain eu hanfon drwy'r post, e-bost, neges destun, dros y ffôn neu ar y rhyngwrwd. Amcangyfrifir bod loteriau ffug, cystadlaethau a swîps twyllodrus, seicigion ffug a thriniaethau iechyd gwyrthiol yn costio mwy na £3.5 biliwn y flwyddyn i'r cyhoedd ym Mhrydain.

Mae tua 50% o'r boblogaeth yn derbyn rhyw fath o sgam drwy'r post, drwy e-bost neu dros y ffôn yn flynyddol. Y gwir amdani yw y gall unrhyw un gael ei dwyllo gan sgam, ond yr henoed sy'n dioddef fwyaf yn aml. Adroddwyd bod dioddefwyr hŷn yn debygol o golli bron ddwywaith yn fwy fesul sgam na phobl eraill. Mae dioddefwyr yn aml wedi eu hynysu yn gymdeithasol, yn rhy ymddiriedus neu mae ganddynt salwch fel dementia.

Unwaith y cânt eu twyllo gan sgam, caiff rhai eu hychwanegu at 'suckers lists' fel y'u gelwir a chaiff eu manylion eu trosglwyddo i ragor o droseddwyr, fel y gallant gael eu targedu dro ar ôl tro gan sgamwyr. Mae Age Cymru wedi dod ar draws achosion lle mae unigolion ar restrau o'r fath yn derbyn hyd at 70 o lythrau'r dydd yng Nghaerdydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dioddefwyr hŷn mewn sgamiau a gofnodir yn colli £1,200 yr un ar gyfartaledd, ond mae rhai, wrth gwrs, wedi colli llawer mwy, gyda llawer ohonynt yn colli eu cynilion oes, gan ddiodeff iselder ac afiechyd o ganlyniad i hynny.

Mae rhywfaint o obaith mewn perthynas â sgamiau post. Mae'r Post Brenhinol yn gweithio'n agos gydag Ymgrych Sterling, sy'n ceisio rhyng-gipio post sgam o'r tu allan i'r DU a'i atal rhag cyrraedd cartrefi. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i atal post sgam o'r DU rhag cyrraedd cartrefi hefyd, a dyna pam yr wyf wedi cefnogi galwadau gan Age Cymru i'r Post Brenhinol roi'r gorau i ddosbarthu post sydd â chymhellion ariannol ar yr amlenni a helpu i ddod o hyd i ddiodeffwyr.

O ran sgamiau ffôn, mae'n galonogol iawn bod fy nghyfaill da Alun Cairns AS wedi cael cyfle i wneud cynnydd gyda Bil yn Senedd y DU i fynd i'r afael â galwadau ffôn niwsans. Gall llawer o sgamwyr ddefnyddio galwadau ffôn niwsans i boenydio pobl hŷn a'u twyllo o'u harian gyda chyffleoedd buddsoddi ffug, cynigion ffug i adennill yswiriant diogelu taliadau ac yn y blaen. Byddai newidiadau syml fel sicrhau bod cyfarpar sy'n dangos rhifau'r sawl sy'n galw yn dod yn rhywbeth safonol a gwahardd galwadau a gynhyrchir gan gyfrifiadur, sy'n arwain at dawelwch annifyr i'r gwrandawr, hefyd yn helpu.

Perhaps the most distressing type of scam is the one that arrives in person, usually smiling, at the home of its victims. Doorstep crime is still prolific, with rogue traders conning homeowners into having unnecessary work done and demanding staggering amounts upfront for often shoddy work or no work at all. The cross-party group on older people and ageing, ably chaired by Mike Hedges, discussed these issues at a meeting last year, where we received a very interesting presentation from the Scambusters Wales team, which was established in 2009 by the heads of trading standards across Wales.

Andrew Bertie from the team shared some case study examples with the group. They included the story of Anne Cornock, mother of BBC correspondent David Cornock, who was conned out of her life savings. She lost more than £270,000 in a scam that started with a cold caller suggesting that the drive of her modest two-bedroomed bungalow outside Cardiff needed repaving. The work was done and she paid for it, but then the workman came back to demand more and more. Every penny she had saved and earned went. She did not speak to anyone about it because she felt too ashamed to have fallen for such a scam. We also heard of the story of an elderly blind gentleman who, living alone with some social services support, was called by rogue traders 12 months after a previous cold call. The scammers told the man that he needed some work on the tiles on his roof and that they could repair it. They took him to his local bank and stood over him intimidatingly while he made a cash withdrawal to fund the repairs. He was then taken by the arm back home and, when they arrived back, fortunately for the man, his social worker had arrived and confronted the men as clearly no work at all was required on the roof of his property. The scammers were then reported to the local trading standards team and the matter was investigated by Scambusters. Fortunately, the good news is that the offenders were traced and arrested. When he appeared in court, one of the offenders was sentenced to 14 months in prison.

However, regrettably, such prosecutions are scarce. Most scammers get away with their spoils and escape justice. Of the thousands of victims of scams each year in Wales, barely a score see the perpetrator prosecuted. Age Cymru revealed that more than 2,500 scams were reported to trading standards departments in Wales between February 2012 and February 2013, and yet this figure could just be the tip of the iceberg because studies have shown that such incidents are hugely underreported, mainly due to the sort of embarrassment that Anne Cornock felt as a victim. The Office of Fair Trading has suggested that only 5% of scams are ever reported. That means that about 50,000 people could be the victims or targets of scams each year in Wales.

Efallai mai'r math mwyaf trallodus o sgam yw'r un pan fo unigolyn yn galw yng nghartref ei ddiodeffwyr, gyda gwên lydan fel arfer. Mae troseddau ar garreg y drws yn dal i fod yn gynhyrchiol, gyda masnachwyr twyllodrus yn twyllo perchnogion tai i wneud gwaith diangen a mynnu symiau syfrdanol ymlaen llaw am waith sy'n aml yn wael neu waith na chaiff ei wneud o gwbl. Trafododd y grŵp trawsbleidiol ar bobl hŷn a heneiddio, dan gadeiryddiaeth fedrus Mike Hedges, y materion hyn mewn cyfarfod y llynedd, lle cawsom gyflwyniad diddorol iawn gan dîm Scambusters Cymru, a sefydlwyd yn 2009 gan benaethiaid safonau masnach ledled Cymru.

Rhannodd Andrew Bertie o'r tîm rai enghreifftiau o astudiaethau achos gyda'r grŵp. Roeddent yn cynnwys stori Anne Cornock, mam gohebydd y BBC David Cornock, a gafodd ei thwyllo o'i chynilion oes. Collodd fwy na £270,000 mewn sgam a ddechreuodd pan awgrymodd galwr digroeso fod angen gosod pafin newydd ar y lôn i'w byngalo bach, dwy ystafell wely y tu allan i Gaerdydd. Cafodd y gwaith ei wneud a thalodd amdano, ond yna daeth y gweithiwr yn ôl i fynnu mwy a mwy. Diflannodd pob ceiniog yr oedd wedi'i chynilo a'i hennill. Ni siaradodd ag unrhyw un am y peth am ei bod yn teimlo cywilydd iddi gael ei thwyllo gan sgam o'r fath. Clywsom hefyd am stori gŵr dall oedranus, a oedd yn byw ar ei ben ei hun gyda rhywfaint o gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, a gafodd alwad gan fasnachwyr twyllodrus 12 mis ar ôl galwad digroeso flaenorol. Dywedodd y sgamwyr wrth y dyn fod angen gwneud rhywfaint o waith ar y teils ar ei do ac y gallent eu hatgyweirio. Aethant ag ef i'w fanc lleol gan sefyll wrth ei ymyl yn fygythiol wrth iddo dynnu arian i dalu am y gwaith atgyweirio. Yna aethant â'r gŵr adref gerfydd ei fraich ac, yn ffodus i'r gŵr hwn, pan wnaethant gyrraedd, roedd gweithiwr cymdeithasol y dyn wedi cyrraedd a heriodd y dynion am ei bod yn amlwg nad oedd angen gwneud unrhyw waith o gwbl ar do ei eiddo. Yna hysbyswyd y tîm safonau masnach lleol am y sgamwyr ac ymchwiliodd Scambusters i'r mater. Yn ffodus, y newyddion da yw i'r troseddwyr gael eu canfod a'u harestio. Pan ymddangosodd yn y llys, dedfrydwyd un o'r troseddwyr i 14 mis yn y carchar.

Fodd bynnag, yn anffodus, prin yw erlyniadau o'r fath. Mae'r rhan fwyaf o sgamwyr yn dianc â'u henillion ac yn osgoi cyfiawnder. O'r miloedd o ddiodeffwyr a gaiff eu twyllo gan sgamiau bob blwyddyn yng Nghymru, ni chaiff y troseddwr ei erlyn mewn mwy nag ugain o achosion. Datgelodd Age Cymru i adrannau safonau masnach yng Nghymru gael gwybod am fwy na 2,500 o sgamiau rhwng Chwefror 2012 a Chwefror 2013, ac eto efallai mai dim ond crafu'r wyneb y mae'r ffigur hwnnw oherwydd mae astudiaethau wedi dangos bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu tangofnodi'n ddifrifol, yn bennaf oherwydd y math o gywilydd a deimlodd Anne Cornock fel diodeffwr. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi awgrymu mai dim ond 5% o sgamiau a gaiff eu cofnodi. Mae hynny'n golygu y gallai tua 50,000 o bobl ddiodeff sgamiau neu gael eu targedu gan sgamiau bob blwyddyn yng Nghymru.

We know that, here in Wales, we have a higher proportion of older people than any other country in the UK. My own constituency, of course, is the oldest in Wales in terms of its demographics. That is why I have been very keen to endorse the work—and I am pleased that other Assembly Members have, too—of Age Cymru and the efforts it is making with its Scams and Swindles campaign. The key part of the campaign revolves around the need for more no-cold-calling zones across Wales. These zones are areas designated as places where unsolicited cold callers, such as traders and salespeople, are prevented from knocking on residents' doors. The zones can be set up following consultation between local authority trading standards officers and residents, but only after problems have been reported with cold callers, complaints have been made and these things have been recorded by the authorities. Trading standards officers say that the zones substantially reduce the number of complaints about unwanted cold callers, but they also have the additional benefit of substantially increasing resident confidence in dealing with those people who are a nuisance turning up on their doorsteps.

Some Welsh local authorities, including those in my own constituency, have established a number of zones, but others are yet to use the opportunity to establish a single zone in their area. As a result, we have a postcode lottery across the country. I am keen to see more zones established, and I know that the Welsh Government is, too. That is why the Welsh Government is to set money aside to support the establishment of new zones. However, that money could go much further if the Welsh Government streamlined the process for the establishment of new zones and supported the development of consistent literature for circulation when new no-cold-calling zones are proposed and literature and packs for distribution across those zone areas once a zone has been established. Trading standards officers tell us that the biggest barrier to them establishing new zones is the labour-intensive resource required in order to undertake the work to establish them. So, making the taxpayers' money that the Welsh Government provides go further is one way in which we could tackle this problem.

Another problem with the current zones is that nobody is committing a criminal offence when they call within them. There is ambiguity about who is responsible for upholding the zones. The police in some areas are reluctant to become involved because people knocking on doors in no-cold-calling zones are not actually breaking the law, unless of course they are persistent offenders, an offence is being committed, there is harassment or somebody is breaking into a property while someone else is distracting the person on the doorstep. So, this lack of clarity on who is enforcing the zones is not helpful. However, this, of course, could also be addressed by the National Assembly for Wales through legislation to make cold calling in no-cold-calling zones a criminal offence. Therefore, I wonder whether the Welsh Government has considered taking such a step, and, if it has not, whether it will in the future.

Gwyddom, yma yng Nghymru, fod gennym gyfran uwch o bobl hŷn nag unrhyw wlad arall yn y DU. Fy etholaeth i, wrth gwrs, yw'r hynaf yng Nghymru o ran ei demograffeg. Dyna pam yr wyf wedi bod yn awyddus iawn i gefnogi gwaith—ac rwy'n falch bod Aelodau eraill o'r Cynulliad wedi gwneud hynny hefyd—Age Cymru a'r ymdrechion y mae'n eu gwneud gyda'i ymgyrch Sgamiau a Thwylo. Mae rhan bwysig o'r ymgyrch yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o barthau 'dim galwadau digroeso' ledled Cymru. Mae'r parthau hyn yn cyfeirio at ardaloedd dynodedig lle caiff galwyr digroeso a diwahoddiad, fel masnachwyr a gwerthwyr, eu hatal rhag cnocio ar ddrysau trigolion. Gall y parthau gael eu sefydlu yn dilyn ymgynghoriad rhwng swyddogion safonau masnach awdurdodau lleol a thrigolion, ond dim ond ar ôl i broblemau gyda galwyr digroeso gael eu cofnodi a chwynion gael eu gwneud ac ar ôl i'r pethau hyn gael eu cofnodi gan yr awdurdodau. Mae swyddogion safonau masnach yn dweud bod y parthau yn lleihau nifer y cwynion am alwyr digroeso yn sylweddol, ond y fantais arall yw eu bod yn gwella hyder trigolion yn sylweddol i ddelio â'r bobl hynny sy'n achosi niwsans wrth ymddangos ar garreg eu drws.

Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys rhai yn fy etholaeth i, wedi sefydlu nifer o barthau, ond mae eraill heb fanteisio ar y cyfle i sefydlu unrhyw barth yn eu hardal eto. O ganlyniad, mae gennym loteri cod post ledled y wlad. Rwy'n awyddus i weld mwy o barthau'n cael eu sefydlu, a gwn fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld hynny hefyd. Dyna pam y bydd Llywodraeth Cymru yn neilltuo arian i helpu i sefydlu parthau newydd. Fodd bynnag, gallai'r arian hwnnw fynd llawer pellach pe bai Llywodraeth Cymru yn symleiddio'r broses o sefydlu parthau newydd ac yn helpu i ddatblygu llenyddiaeth gyson i'w dosbarthu pan gaiff parthau 'dim galwadau digroeso' newydd eu cynnig a llenyddiaeth a pheccynnau i'w dosbarthu ledled y parthau hynny unwaith y cânt eu sefydlu. Mae swyddogion safonau masnach yn dweud wrthym mai'r rhwystr mwyaf sy'n eu hwynebu wrth sefydlu parthau newydd yw'r adnoddau llafur-ddwys sydd eu hangen er mwyn gwneud y gwaith i'w sefydlu. Felly, mae sicrhau bod arian y trethdalwyr a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn mynd ymhellach yn un ffordd y gallen ei defnyddio i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Problem arall gyda'r parthau presennol yw nad oes neb yn cyflawni tramgwydd troseddol pan fyddant yn galw ynddynt. Mae amwysedd ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am gynnal y parthau. Mae'r heddlu mewn rhai ardaloedd yn amharod i gymryd rhan gan nad yw'r bobl sy'n cnocio ar ddrysau mewn parthau 'dim galwadau digroeso' yn torri'r gyfraith mewn gwirionedd, oni bai wrth gwrs eu bod yn droseddwyr cyson, bod trosedd yn cael ei chyflawni, bod aflonyddu yn digwydd neu fod rhywun yn torri i mewn i eiddo tra bod rhywun arall yn tynnu sylw'r person ar garreg y drws. Felly, nid yw'r diffyg eglurder hwn ynglŷn â phwy sy'n gorfodi'r parthau yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fynd i'r afael â hyn, wrth gwrs, drwy ddeddfwriaeth i wneud galwadau digroeso mewn parthau 'dim galwadau digroeso' yn dramgwydd troseddol. Felly, tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried cymryd cam o'r fath, ac, os nad ydyw, a fydd yn ystyried hynny yn y dyfodol.

Yesterday, we had a debate in the Assembly, in which a requirement to have due regard to the UN principles for older persons was endorsed by the National Assembly. I was very pleased to see that vote pass, albeit very narrowly. One of the UN principles is the ability of older people to live in dignity and security. No-cold-call zones give older people some dignity and give them the security that they need. Therefore, I call upon the Welsh Government to do more to promote their development across Wales.

Ddoe, cawsom ddadl yn y Cynulliad, lle cafodd gofyniad i roi sylw priodol i egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddwn yn falch iawn o weld y bleidlais yn cael ei phasio, er mai dim ond o drwch blewyn. Un o egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yw gallu pobl hŷn i fyw mewn urddas a diogelwch. Mae parthau 'dim galwadau digroeso' yn rhoi rhywfaint o urddas i bobl hŷn ac yn rhoi'r diogelwch sydd ei angen arnynt. Felly, galwaf ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo eu datblygiad ledled Cymru.

18:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on co-conspirator, Ann Jones.

Galwaf ar fy nghydgyllwynydd, Ann Jones.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:26 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. If I had known he was going to call me that, I might have said, 'Forget it'. [Laughter.] No, no.

Diolch ichi, Lywydd. Pe bawn yn gwybod y byddai'n cyfeirio ataf fel hynny, efallai y byddwn wedi dweud, 'Anghofia amdano'. [Chwerthin.] Na, na.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I think that Darren has outlined all of the issues that many of us face in opening our postbags, particularly his and my constituency postbags, given that we have the highest numbers of pensioners, or older people, living on their own. They are, therefore, more susceptible to doorstep crime and distraction crime. Darren went into those very heart-rending cases that he had heard about, most of which we know about.

Credaf fod Darren wedi amlinellu'r holl broblemau sy'n wynebu llawer ohonom wrth agor ein bagiau post, yn enwedig bagiau post fy etholaeth i a'i etholaeth yntau, o gofio mai ni sydd â'r nifer uchaf o bensynwyr, neu bobl hŷn, yn byw ar eu pen eu hunain. Mae'r rhain, felly, yn fwy agored i wynebu troseddau ar garreg y drws a throseddau tynnu sylw. Manylodd Darren ar yr achosion dirdynnol iawn hynny yr oedd wedi clywed amdanynt, yr ydym yn ymwybodol o'r rhan fwyaf ohonynt.

However, other Members here might have constituents who might just have lost £25, but that is as vital as their life savings of quite a lot. It is about the shame that those people fear and face when they have been taken in. It is easy to be taken in by scams. You wonder what else people will think to come up with next, but for every person we have out there—and Denbighshire has done a wonderful job in dealing with cold calling and working in partnership with agencies to alert people to the scams that are out there—trying to tell people that there is somebody out there scamming, there are people who are sitting somewhere thinking about the next scam. So, Darren is right that we have a duty to all of our constituents to tell them what is going on. I am grateful that he has brought forward the debate today, and I am pleased to see that the Welsh Government is looking to do things with that. It is together that we will make sure that, as we get older, we will not fall susceptible to scams.

Fodd bynnag, efallai fod gan Aelodau eraill yma etholwyr sydd ond efallai wedi colli £25, ond mae £25 yr un mor hanfodol â'u cynilion oes i gryn dipyn. Mae a wnelo â'r cywilydd y mae'r bobl hynny yn ei ofni a'i wynebu ar ôl iddynt gael eu twyllo. Mae'n hawdd cael eich twyllo gan sgamiau. Rydych yn dyfalu tybed beth arall y bydd pobl yn meddwl ei wneud nesaf, ond am bob person sydd gennym allan yno—ac mae Sir Ddinbych wedi gwneud gwaith gwych i ddelio â galwadau digroeso a gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i dynnu sylw pobl at y sgamiau sy'n digwydd—yn ceisio dweud wrth bobl bod rhywun yn sgamio, mae pobl yn eistedd yn rhywle yn meddwl am y sgam nesaf. Felly, mae Darren yn iawn i ddweud bod dyletswydd arnom i'n holl etholwyr i ddweud wrthynt beth sy'n digwydd. Rwy'n ddiolchgar ei fod wedi cyflwyno'r ddadl heddiw, ac rwy'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i wneud pethau gyda hynny. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y byddwn yn sicrhau, wrth inni heneiddio, na chawn ein twyllo gan sgamiau.

18:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Millar for giving me a minute in this debate. I want to raise two issues. First, in four council areas, there are no-cold-calling zones and in others, only a tiny fraction of homes are covered. Meanwhile, other authorities have zones that cover as many as 8,000 homes.

Diolch i Darren Millar am roi munud imi yn y ddadl hon. Hoffwn godi dau fater. Yn gyntaf, mewn ardaloedd pedwar cyngor, nid oes unrhyw barthau 'dim galwadau digroeso' ac mewn eraill, dim ond nifer fach iawn o gartrefi a gaiff eu cynnwys. Yn y cyfamser, mae gan awdurdodau eraill barthau sy'n cynnwys cynifer â 8,000 o gartrefi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The danger of small zones is that they are almost like having a sign that says, 'Old and vulnerable people live here'. That is something that causes concern. I would urge the Minister to consider supporting the banning of cold-calling zones throughout the whole of Wales. Otherwise, if we just pick some areas where there are lots of old people, the likelihood is that we will see it having the opposite effect to what we want to see.

I also want to mention the growth in e-mail scams that is likely to affect older people as the number of silver surfers increases. This week, I have been offered money-making opportunities; I have been contacted by a woman who—this you might like—liked my looks having seen— [Laughter.] That is the exact response that I had at home as well. I have also been offered pharmaceutical products and body enhancements. There are a whole range of these scams that are likely to become more and more serious, and I think that we need to deal with these on a UK level.

Y perygl gyda pharthau bach yw eu bod bron fel cael arwydd sy'n dweud, 'Mae hen bobl sy'n agored i niwed yn byw yma'. Mae hynny'n rhywbeth sy'n achosi pryder. Byddwn yn annog y Gweinidog i ystyried cefnogi'r gwaharddiad ar barthau 'dim galwadau digroeso' ledled Cymru gyfan. Fel arall, os byddwn ond yn dewis rhai ardaloedd lle ceir llawer o bobl hŷn, mae'n debygol y caiff hynny effaith groes i'r hyn yr hoffwn ei gweld.

Hoffwn hefyd grybwyll y twf mewn sgamiau e-bost sy'n debygol o effeithio ar bobl hŷn wrth i nifer y porwyr penwyn gynyddu. Yr wythnos hon, rwyf wedi cael cynnig cyfleoedd i wneud arian; gwnaeth dynes gysylltu â mi a oedd—efallai y byddwch yn hoffi hyn—yn meddwl fy mod yn olygus ar ôl iddi weld— [Chwerthin.] Dyna'r union ymateb a gefais gartref hefyd. Rwyf hefyd wedi cael cynnig cynhyrchion fferyllol a gwelliannau corfforol. Mae ystod eang o sgamiau fel hyn sy'n debygol o ddod yn fwyfwy difrifol, a chredaf fod angen inni ddelio â'r rhain ar lefel y DU.

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Lindsay Whittle.

Galwaf ar Lindsay Whittle.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:29 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Follow that. [Laughter.]

Dilynwch hynny. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:29 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

He said the 'fashionable Lindsay Whittle'; I am glad that I wore my Italian suit.

Dyweddod y 'ffasiynol Lindsay Whittle'; rwy'n falch imi wisgo fy siwt Eidaleg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Darren Millar for giving me a minute to speak in this debate. Loneliness and social isolation is a serious contributing factor to people becoming victims of scams. For vulnerable older people living in areas not covered by a no-cold-calling zone, the absence of regular day-to-day company and interaction can lead to many falling foul of these horrible cold callers—people who belong in the gutter.

Diolchaf i Darren Millar am roi munud imi siarad yn y ddadl hon. Mae unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn ffactor difrifol sy'n peri i bobl gael eu twyllo gan sgamiau. I bobl hŷn sy'n agored i niwed ac sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn barthau 'dim galwadau digroeso', gall diffyg cwmni a rhyngweithio rheolaidd o ddydd i ddydd olygu y caiff llawer ohonynt eu twyllo gan y galwyr digroeso dychrynlyd hyn—pobl sy'n perthyn i'r gwter.

People need social interaction. People who do not see anybody on a regular basis, or perhaps those without any close confidante, may lack the advice and support that others can find, meaning that they could more easily reject offers from cold callers. People should not hand money or bank details over and they should reject entirely a knock at the front door from somebody who is cold calling. I know that Bethan Jenkins my colleague has been looking at making it easier for local authorities to establish no-cold-calling zones as part of her private Member's Bill. Minister, more needs to be done to look at these social factors as well as expanding no-cold-calling zones to protect more vulnerable people. I am delighted that, today in Cardiff court, a man called Kamal Hussein was sent to prison for two and a half years for defrauding two pensioners aged 88 and 78 out of their hard-earned and saved money. He got what he deserved.

Mae angen i bobl ryngweithio'n gymdeithasol. Efallai na all pobl nad ydynt yn gweld neb yn rheolaidd, neu efallai'r rhai heb unrhyw gyfaill mynwesol agos, gael gafael ar y cyngor a'r cymorth y gall eraill eu cael, sy'n golygu y gallent wrthod cynigion gan alwyr digroeso yn haws. Ni ddylai pobl roi arian na manylion banc i eraill a dylent anwybyddu yn gyfan gwbl gnoc ar y drws ffrynt gan rywun sy'n galw yn ddigroeso. Gwn fod Bethan Jenkins fy nghyd-Aelod wedi bod yn ystyried ei gwneud hi'n haws i awdurdodau lleol sefydlu parthau 'dim galwadau digroeso' fel rhan o'i Bil Aelod preifat. Weinidog, mae angen gwneud mwy i ystyried y ffactorau cymdeithasol hyn yn ogystal ag ehangu parthau 'dim galwadau digroeso' i amddiffyn mwy o bobl sy'n agored i niwed. Rwy'n falch iawn, heddiw yn y llys yng Nghaerdydd, i ddydd o'r enw Kamal Hussein gael ei anfon i'r carchar am ddwy flynedd a hanner am dwyllo dau bensiynwr 88 oed a 78 oed o'r arian yr oeddent wedi gweithio'n galed i'w gynilo. Cafodd ei haeddiant.

18:30

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I also thank Darren Millar, although I was a bit upset that the only good thing that he could say about me was that I was from north Wales as well? [Laughter.] May I say that I think that Ann Jones made a valid point? Although Anne Cornock's case is very much at the extreme, the reality is that, probably, many of us have elderly relatives who have succumbed to instances where somebody has charged them £100 or £200 for cutting a tree or replacing a few slates. It is very much more widespread than some of us might imagine. It is not a party political issue—I am sure that we are all sickened by what happens—but I do think that the Government ought to take the opportunity, given the campaign that has been announced, to look at the bureaucratic needs as far as the setting-up of the zones are concerned, because the reality is that when local authorities are facing cutbacks, it is unlikely that they will go to the cost of proactively setting up these zones. I also think that, at the UK level, the Government ought to look at the criminal sanctions that are available once these people are caught, because, clearly, the numbers who are currently being prosecuted in no way reflect the scale of the problem.

Hoffwn innau hefyd ddiolch i Darren Millar, er fy mod ychydig yn siomedig mai'r unig beth da y gallai ei ddweud amdanaf oedd fy mod yn dod o'r gogledd hefyd. [Chwerthin.] A gaf fi ddweud y credaf fod Ann Jones wedi gwneud pwynt dilys? Er bod achos Anne Cornock yn un eithafol iawn, y gwir amdani, yn ôl pob tebyg, yw bod gan lawer ohonom berthnasau oedrannus sydd wedi cael eu twyllo pan fo rhywun wedi codi £100 neu £200 arnynt am dorri coeden neu newid rhai llechi. Mae'n llawer mwy cyffredin nag y mae rhai ohonom yn ei ddychmygu. Nid yw'n fater pleidiol—rwy'n siŵr ein bod i gyd yn ffeiddio at yr hyn sy'n digwydd—ond credaf y dylai'r Llywodraeth achub ar y cyfle, o ystyried yr ymgyrch sydd wedi cael ei chyhoeddi, i edrych ar yr anghenion biwrocraidaidd sy'n gysylltiedig â sefydlu'r parthau, oherwydd y gwir amdani yw pan fo awdurdodau lleol yn wynebu toriadau, mae'n annhebygol y byddant yn mynd i'r gost o sefydlu'r parthau hyn yn rhagweithiol. Credaf hefyd, ar lefel y DU, y dylai'r Llywodraeth edrych ar y cosbau troseddol sydd ar gael unwaith y caiff y bobl hyn eu dal, oherwydd, yn amlwg, nid yw'r niferoedd sy'n cael eu herlyn ar hyn o bryd yn adlewyrchu maint y broblem o bell ffordd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:32

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gwynedd's zero no-cold-calling zones, although it has one pilot scheme, contrasts with the situation in Monmouthshire, which has zones covering 8,000 houses—21% of the total. In Denbighshire, which Ann referred to, 12.3% of homes are covered. In Wrexham, it is 2.41%, and in Flintshire, it is 1.04%. So, there is a huge range of need. When I recently raised this with the First Minister in the Chamber, I referred to Age Cymru's call for no-cold-calling zones and for the Welsh Government to intervene to tackle the inconsistent provision and enforcement of these zones across Wales to protect older people. He replied that his programme for government sets out plans to extend no-cold-calling zones. However, programmes and plans are no substitutes for action. If done properly, no-cold-calling zones are cheaper than painting yellow lines on the road and far cheaper than dealing with the consequences of scams and swindles. Therefore, let us tackle the postcode lottery and, perhaps, consider an opt-out scheme across Wales.

Mae'r ffaith nad oes gan Wynedd unrhyw barthau 'dim galwadau digroeso', er bod ganddi un cynllun peilot, yn cyferbynnu â'r sefyllfa yn Sir Fynwy, sydd â pharthau sy'n cynnwys 8,000 o dai—21% o'r cyfanswm. Yn Sir Ddinbych, y cyfeiriodd Ann ati, caiff 12.3% o gartrefi eu cynnwys. Yn Wrecsam, 2.41% yw'r ffigur, ac yn Sir y Fflint, 1.04% yw'r ffigur. Felly, mae amrywiaeth enfawr o ran angen. Pan godais hyn yn ddiweddar gyda'r Prif Weinidog yn y Siambur, cyfeiriais at alwad Age Cymru am barthau 'dim galwadau digroeso' ac i Lywodraeth Cymru ymyrryd i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth anghyson a gorfodi'r parthau hyn ledled Cymru er mwyn amddiffyn pobl hŷn. Atebodd fod ei raglen lywodraethu yn cynnwys cynlluniau i ymestyn parthau 'dim galwadau digroeso'. Fodd bynnag, ni all rhaglenni na chynlluniau gymryd lle camau gweithredu. Os cânt eu gweithredu'n iawn, mae parthau 'dim galwadau digroeso' yn rhatach na pheintio llinellau melyn ar y ffordd ac yn llawer rhatach na delio â chanlyniadau sgamiau a thwyll. Felly, gadewch inni fynd i'r afael â'r loteri cod post ac, efallai, ystyried cynllun optio allan ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:33

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Local Government and Government Business to reply to the debate; Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ymateb i'r ddatd; Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:33

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

Thank you, Presiding Officer. I am very pleased to have the opportunity to respond on behalf of the Government to this very important subject, and I thank Darren Millar for bringing it forward. I should say at the outset that I think that it is really important to remember that financial scams and consumer protection are not devolved matters. However, no-cold-calling zones are very much within my portfolio, so I will be focusing on them, but it is important to look at the whole area of work that we are doing as a Government.

Diolch ichi, Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i ymateb ar ran y Llywodraeth i'r pwnc pwysig iawn hwn, a diolch i Darren Millar am ei gyflwyno. Dylwn ddweud ar y dechrau fy mod yn credu ei bod yn wirioneddol bwysig cofio nad yw sgamiau ariannol na diogelu defnyddwyr yn faterion datganoledig. Fodd bynnag, mae parthau 'dim galwadau digroeso' yn sicr yn rhan o'm portffolio, felly byddaf yn canolbwyntio arnynt, ond mae'n bwysig edrych ar yr holl waith yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We, of course, recognise that feeling safe and secure in your community is absolutely fundamental to people right across Wales. However, I think that I should point out that Welsh police forces have been dealt a 20% funding cut in real terms over the current spending review period, which has slashed the number of police in Wales, resulting in a reduction of over 1,000 police officers and staff over the last three years. We, as a Welsh Government, on the other hand, have maintained our solid commitment to building communities where people are safer and feel safer. In our programme for government, we made a commitment to support the extension of no-cold-caller zones to warn rogue traders and cold callers that their activity is not acceptable, and it is a commitment that I have taken forward since I came into this portfolio. Last summer, I visited residents in a no-cold-caller zone. They were very reassured that, should they receive a cold call, they could report it to their local trading standards department, which would immediately take follow-up action.

Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, bod teimlo'n ddiogel yn eich cymuned yn gwbl hanfodol i bobl ledled Cymru. Fodd bynnag, credaf y dylwn nodi bod heddluoedd Cymru yn wynebu toriad cyllid o 20% mewn termau real dros gyfnod yr adolygiad o wariant presennol, sydd wedi cwtogi nifer yr heddlu yng Nghymru, gan arwain at leihad o fwy na 1,000 o swyddogion yr heddlu a staff dros y tair blynedd diwethaf. Rydym ni, fel Llywodraeth Cymru, ar y llaw arall, wedi cynnal ein hymrwymiad cadarn i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel. Yn ein rhaglen lywodraethu, gwnaethom ymrwymo i gefnogi camau i ehangu parthau 'dim galwadau digroeso' er mwyn rhybuddio masnachwyr twyllodrus a galwyr digroeso nad yw eu gweithgarwch yn dderbyniol, ac mae'n ymrwymiad yr wyf wedi gweithredu arno ers imi gael y portffolio hwn. Yr haf diwethaf, ymwelais â thrigolion mewn parth 'dim galwadau digroeso'. Roeddent yn dawel iawn eu meddwl, pe byddent yn cael galwad ddigroeso, y gallent roi gwybod i'w hadran safonau masnach leol amdani, a fyddai'n cymryd camau dilynol ar unwaith.

It is an offence for any trader calling at someone's door to sell goods or services to refuse to leave when asked. Recent surveys have shown that 96% of people simply do not want cold callers and that nobody really welcomes them. My officials have been working with colleagues in local authorities' trading standards departments, and with the police, to gather information about existing zones and to explore ways of promoting new ones. An important part of this for me—

Mae'n drosedd i unrhyw fasnachwr sy'n galw yng nghartref rhywun er mwyn gwerthu nwyddau neu wasanaethau, wrthod gadael pan ofynnir iddo wneud hynny. Mae arolygon diweddar wedi dangos nad yw 96% o bobl eisiau galwyr digroeso ac nad oes neb wir yn eu croesawu. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr mewn adrannau safonau masnach awdurdodau lleol, a chyda'r heddlu, i gasglu gwybodaeth am barthau presennol ac ystyried ffyrdd o hyrwyddo rhai newydd. Rhan bwysig o hyn imi—

18:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you prepared to take an intervention, Minister? It is unusual.

A ydych yn barod i gymryd ymyriad, Weinidog? Mae'n anarferol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Ydw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:35 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for taking an intervention. In Ceredigion, the housing association actively promotes a safe-to-use service of handymen—or handy people—so that those vulnerable people that we are talking about know that there is a safe service without advertising that they are vulnerable. Would you commend that as a way forward?

Diolch ichi, Weinidog, am gymryd ymyriad. Yng Ngheredigion, mae'r gymdeithas dai yn hyrwyddo gwasanaeth tasgmon—neu dasgbobl—diogel i'w ddefnyddio fel bod y bobl agored i niwed hynny yr ydym yn sôn amdanynt yn gwybod bod gwasanaeth diogel ar gael iddynt heb iddynt hysbysebu'r ffaith eu bod yn agored i niwed. A fydddech yn cymeradwyo hynny fel ffordd ymlaen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I certainly think that it is, and I think that someone raised this issue. I think that it was Lindsay Whittle who said that, when someone comes to the house, sometimes that is the only person that they see and they just take that opportunity. Therefore, certainly I would.

Byddwn, rwy'n sicr yn meddwl hynny, a chredaf fod rhywun wedi codi'r mater hwn. Rwy'n credu mai Lindsay Whittle a ddywedodd, pan fydd rhywun yn galw yn y tŷ, mai dyna'r unig dro y maent yn gweld rhywun weithiau ac maent yn manteisio ar y cyfle hwnnw. Felly, byddwn yn sicr yn cymeradwyo hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

When I came to the post I thought that it was really important to look at the barriers that seem to be stopping some local authorities from setting up the schemes. To start to address the inconsistency and the variance, which does exist across Wales, I have written to the Welsh Local Government Association to seek its views on how we can further promote the schemes. One of the things that I was determined should not be a barrier was finance, which is why I allocated funding for work relating to no-cold-caller zones and doorstep scams. A portion of the funding was earmarked to support local authorities that wanted to set up new zones. They were invited to bid for this funding last November. I am pleased to say that 12 authorities submitted bids for funding, all of which were assessed and approved. Obviously, that means that 10 did not apply. When the authorities have delivered on those commitments, the new zones will cover over 10,000 homes, which is in addition to the 38,500 homes for which zones are already in place. Therefore, that is an increase of around 25%. However, I think that we still need to see wider coverage of the zones, and I want to learn more about why some local authorities did not choose to take up the funding. I know that Mike Hedges referred to the fact that there is patchy provision.

I will say that there is no such thing as coincidence in politics—as this was actually in my diary for quite a while—but I met with Age Cymru yesterday, and I had no idea, obviously, that this short debate was coming up. It shared figures with me, having done a freedom of information request on all local authorities in December to look at how many houses and zones there were. There was some inconsistency, but I hope that we have managed to put those figures right. I also collate figures directly from local authorities. Our latest data was published in March of last year. Therefore, that is why there could have been some discrepancies. I will have the data updated in April and I will certainly share that with Members.

If funding is not the problem, what is the problem? That was something that I discussed with Age Cymru yesterday because I really do want to get to the bottom of what is stopping some local authorities from setting up zones. Aled Roberts spoke about bureaucracy. In my conversation yesterday with Age Cymru, one of the things that we thought could be a problem is the UK Government giving out the guidance from the Trading Standards Institute in how a no-cold-calling zone is set up. It made clear that the first step should be to have a residents' survey. That refers to what Darren said about labour-intensive power. Obviously, that is not a devolved issue, and I am awaiting clarification on that, and I will take it up with the UK Government if I think that that could be a barrier to local authorities setting up these zones.

Pan ddeuthum i'r swydd, roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig iawn edrych ar y rhwystrau sydd fel pe baent yn atal rhai awdurdodau lleol rhag sefydlu'r cynlluniau. Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r anghysondeb a'r amrywiadau, sy'n bodoli ledled Cymru, rwyf wedi ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am ei barn ar sut y gallwn hyrwyddo'r cynlluniau ymhellach. Un o'r pethau yr oeddwn yn benderfynol na ddylai fod yn rhwystr oedd cyllid, a dyna pam y dyrennais arian i waith yn ymwneud â pharthau 'dim galwadau digroeso' a sgamiau ar garreg y drws. Clustnodwyd cyfran o'r arian i helpu awdurdodau lleol a oedd yn awyddus i sefydlu parthau newydd. Cawsant eu gwahodd i wneud cais am yr arian hwn fis Tachwedd diwethaf. Rwy'n falch o ddweud i 12 o awdurdodau gyflwyno ceisiadau am arian, a chafodd pob un ohonynt eu hasesu a'u cymeradwyo. Yn amlwg, mae hynny'n golygu na chafwyd ceisiadau gan 10 ohonynt. Pan fydd yr awdurdodau wedi cyflawni'r ymrwymadau hynny, bydd y parthau newydd yn cynnwys dros 10,000 o gartrefi, sy'n ychwanegol at y 38,500 o gartrefi yn y parthau sydd eisoes ar waith. Felly, mae hynny'n gynydd o tua 25%. Fodd bynnag, credaf fod dal angen i ni ehangu'r parthau, ac rwyf am ddysgu mwy am pam na ddewisodd rhai awdurdodau lleol fanteisio ar yr arian. Gwn i Mike Hedges gyfeirio at y ffaith bod darpariaeth yn anghyson.

Nid oes y fath beth â chyd-ddigwyddiad mewn gwleidyddiaeth—gan fod hyn wedi bod yn fy nyddiadur ers cryn amser mewn gwirionedd—ond cyfarfûm ag Age Cymru ddoe, ac nid oedd gennyf syniad, yn amlwg, y byddai'r ddadl fer hon yn digwydd. Rhannodd ffigurau â mi, ar ôl gwneud cais rhyddid gwybodaeth mewn perthynas â phob awdurdod lleol ym mis Rhagfyr er mwyn edrych ar nifer y cartrefi a'r parthau. Roedd rhywfaint o anghysondeb, ond rwy'n gobeithio ein bod wedi llwyddo i unioni'r ffigurau hynny. Rwyf hefyd yn coladu ffigurau yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Cyhoeddwyd ein data diweddaraf fis Mawrth y llynedd. Felly, dyna pam y gallai rhai anghysondebau fod wedi codi. Byddaf yn trefnu bod y data yn cael eu diweddarau ym mis Ebrill a byddaf yn sicr yn rhannu hynny â'r Aelodau.

Os nad arian yw'r broblem, beth yw'r broblem? Roedd hynny'n rhywbeth a drafodais ddoe gydag Age Cymru oherwydd rwy'n awyddus iawn i fynd at wraidd yr hyn sy'n atal rhai awdurdodau lleol rhag sefydlu parthau. Siarodd Aled Roberts am fiwrocratiaeth. Yn fy sgwrs ddoe gydag Age Cymru, un o'r pethau yr oeddem yn meddwl a allai fod yn broblem yw bod Llywodraeth y DU yn dosbarthu canllawiau gan y Sefydliad Safonau Masnach ar sut i sefydlu parthau 'dim galwadau digroeso'. Roedd y rheini'n datgan yn glir y dylid cynnal arolygon o drigolion yn gyntaf. Mae hynny'n cysylltu â'r hyn a ddywedodd Darren am egni llafur-ddwys. Yn amlwg, nid yw hwnnw'n fater datganoledig, ac rwy'n aros am eglurhad ohono, a byddaf yn mynd ar drywydd y peth gyda Llywodraeth y DU os credaf y gallai rwystro awdurdodau lleol rhag sefydlu'r parthau hyn.

As the Minister with portfolio responsibility for the extension of no-cold-caller zones, in line with our programme for government commitment, this is absolutely a priority for me, and I want to assure Members of that. However, I also want the scope of the work broadened a little, and I wanted to take into account rogue traders and scams, particularly those targeting older people. Again, I think that there should be a focus on awareness raising. Ann Jones talked about how easy it is sometimes for us to be taken in by scams. It is nothing to be ashamed of, but, again, perhaps we could raise awareness about it.

As I have said, I am supporting Age Cymru's wider work to raise awareness of financial scams. It has a pilot project, funded mainly through Comic Relief, which aims to raise awareness of scams with older people, particularly older people with dementia and carers of people with dementia. I am supporting South Wales Police to develop a scams awareness-raising DVD, which will be shared with all police forces and trading standards departments. We expect that to be available in April of this year.

That is just a small part of our work to make vulnerable older people feel safer. The national survey for Wales showed that people over 65 generally reported feeling less safe than younger adults do—whether that is in their home, their local area, their town, in city centres or on public transport at any time, but particularly after dark. One of the proposed outcomes of the strategy for older people is to create age-friendly communities so that older people find public places welcoming, safe and accessible and that they are able to participate and contribute in their communities much more fully, which would then promote their independence.

Another programme for government commitment was to fund an additional 500 community support officers across Wales to deal with local issues. We know from our feedback that people feel much safer having CSOs in their communities. We achieved that back in September, just halfway through this Assembly term.

To conclude, a lot of what we have discussed are not devolved issues, so there is only so much action that we can take, but I hope that I have reassured Members of the work that we are doing in these areas. I am determined to do everything that we can to raise awareness of the dangers of financial scams.

Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb portffolio am ehangu parthau 'dim galwadau digroeso', yn unol ag ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu, mae hon yn flaenoriaeth fawr imi, ac rwyf am roi sicrwydd i'r Aelodau ynglŷn â hynny. Fodd bynnag, rwyf hefyd am ehangu cwrmpas y gwaith ychydig, ac roeddwn am ystyried masnachwyr twyllodrus a sgamiau, yn enwedig y rhai sy'n targedu pobl hŷn. Unwaith eto, credaf y dylid canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth. Soniodd Ann Jones am ba mor hawdd yw hi inni gael ein twyllo gan sgamiau weithiau. Ni ddylai unrhyw deimlo cywilydd am hynny, ond, unwaith eto, efallai y gallem godi ymwybyddiaeth o'r peth.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, rwy'n cefnogi gwaith ehangach Age Cymru i godi ymwybyddiaeth o sgamiau ariannol. Mae ganddo brosiect peilot, a ariennir yn bennaf drwy Comic Relief, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o sgamiau ymhlith pobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn â dementia a gofalwyr pobl â dementia. Rwy'n helpu Heddlu De Cymru i ddatblygu DVD sy'n codi ymwybyddiaeth o sgamiau, a gaiff ei rannu â'r holl heddluoedd ac adrannau safonau masnach. Rydym yn disgwyl i'r DVD fod ar gael ym mis Ebrill eleni.

Dim ond rhan fach o'n gwaith i wneud i bobl hŷn sy'n agored i niwed deimlo'n fwy diogel yw hwn. Dangosodd arolwg cenedlaethol Cymru fod pobl dros 65 oed yn teimlo'n llai diogel nag oedolion iau yn gyffredinol—boed hynny yn eu cartref, eu hardal leol, eu tref, yng nghanol dinasoedd neu ar drafndiaeth gyhoeddus ar unrhyw adeg, ond yn enwedig ar ôl iddi dywyllu. Un o ganlyniadau arfaethedig y strategaeth ar gyfer pobl hŷn yw creu cymunedau oed-gyfeillgar fel bod mannau cyhoeddus yn groesawgar, yn ddiogel ac yn hygyrch i bobl hŷn a'u bod yn gallu cyfranogi a chyfrannu llawer mwy yn eu cymunedau, a fyddai wedyn yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Un o ymrwymadau eraill y rhaglen lywodraethu oedd ariannu 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ledled Cymru i ddelio â materion lleol. Gwyddom o'r adborth a gafwyd bod pobl yn teimlo'n llawer mwy diogel os oes ganddynt swyddogion cymorth cymunedol yn eu cymunedau. Gwnaethom gyflawni hynny yn ôl ym mis Medi, dim ond hanner ffordd drwy dymor y Cynulliad hwn.

I gloi, nid yw llawer o'r hyn yr ydym wedi'i drafod yn faterion datganoledig, felly mae terfyn ar y camau y gallwn eu cymryd, ond rwy'n gobeithio fy mod wedi rhoi sicrwydd i Aelodau ynglŷn â'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn y meysydd hyn. Rwy'n benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i godi ymwybyddiaeth o beryglon sgamiau ariannol.

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:41.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

The meeting ended at 18:41.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)